



Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence



Cyfarfod / Meeting

CYD-BWYLLGOR GwE
GwE JOINT-COMMITTEE

Dyddiad ac Amser / Date and Time

1.30 pm DYDD MERCHER, 15 GORFFENNAF 2015

1.30 pm WEDNESDAY, 15 JULY 2015

Lleoliad / Location

VENUE CYMRU
LLANDUDNO

Pwynt Cyswllt / Contact Point

BETHAN ADAMS

(01286) 679020

BethanAdams@gwynedd.gov.uk

AELODAETH Y CYDBWYLLGOR/MEMBERSHIP OF THE JOINT COMMITTEE

Aelodau â phleidlais/ Voting Members

Cynghorydd/Councillor Kenneth P. Hughes – Cyngor Sir Ynys Môn/Isle of Anglesey County Council

Cynghorydd/Councillor Gareth Thomas – Cyngor Gwynedd Council

Cynghorydd/Councillor Wyn Ellis Jones – Cyngor Bwrdeistref Sirol

Conwy/Conwy County Borough Council

Cynghorydd/Councillor Eryl Williams – Cyngor Sir Ddinbych/ Denbighshire County Council

Cynghorydd/Councillor Chris Bithell – Cyngor Sir y Fflint/Flintshire County Council

Cynghorydd/Councillor Michael Williams – Cyngor Bwrdeistref Sirol

Wrecsam/Wrexham County Borough Council

Aelodau Cyfetholedig heb Bleidlais/Co-opted Non-voting Members

Esgobaeth Wrecsam/Wrexham Diocese – Rita Price

Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd/Primary Schools Representative – Diane Chisholm

Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd/ Secondary Schools Representative – Annwen Morgan

Cynrychiolydd Ysgolion Arbennig/Special Schools Representative – Jonathan Morgan

Cynrychiolydd Llywodraethwr/Governor Representative – Alison Fisher

Swyddogion heb Bleidlais/Non-voting Officers

Delyth Molyneux – Cyngor Sir Ynys Môn/Isle of Anglesey County Council

Arwyn Thomas – Cyngor Gwynedd Council

Richard E. Owen – Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy/Conwy County Borough Council

Karen Evans – Cyngor Sir Ddinbych/Denbighshire County Council

Ian Budd – Cyngor Sir y Fflint/Flintshire County Council

John Davies – Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam/Wrexham County Borough Council

Swyddogion yn bresennol/Officers in attendance

Iwan Evans a Dafydd Edwards – Awdurdod Lletylol/Host Authority

Geraint Rees – Llywodraeth Cymru/Welsh Government

Huw Foster Evans – Rheolwr Gyfarwyddwr GwE/GwE Managing Director

Susan Owen Jones – Rheolwr Busnes a Chyllid GwE/GwE Business & Finance Manager

Mohammed Mehmet – Cyngor Sir Ddinbych/Denbighshire County Council

RHAGLEN

1. CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd am 2015/16

2. IS-GADEIRYDD

I ethol Is-gadeirydd am 2015/16

3. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

5. MATERION BRYD

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater bryd ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

6. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF 25/2/15

(copi'n amgaeedig)

7. CYNLLUN BUSNES RHANBARTHOL 2014-15 – ADRODDIAD MONITRO

(copi'n amgaeedig)

8. CYFRIFON TERFYNOL Y CYD-BWYLLGOR AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2015

(copi'n amgaeedig)

9. ALINIO'R TREFNIADAU GWEITHIO RHANBARTHOL GYDA MODEL CENEDLAETHOL AR GYFER GWEITHIO RHANBARTHOL LLYWODRAETH CYMRU

(copi'n amgaeedig)

10. PRIF FLAENORIAETHAU GwE

(copi'n amgaeedig)

11. CYLLIDEB SYLFAENOL GwE 2015/16

(copi'n amgaeedig)

**CYD-BWYLLGOR GwE
25.02.15**

Yn bresennol: **Y Cyng. Eryl Williams (Cadeirydd)**
 Y Cyng. Michael Williams (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr: Ieuan Williams, Gareth Thomas, Wyn Ellis Jones, Chris Bithell.

Aelodau Cyfetholedig heb bleidlais: Diane Chisholm (Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd), Jonathan Morgan (Cynrychiolydd Ysgolion Arbennig), Alison Fisher (Cynrychiolydd Llywodraethwyr).

Swyddogion Heb bleidlais: John Davies (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Arwyn Thomas (Cyngor Gwynedd), Dr Gwynne Jones (Cyngor Sir Ynys Môn), Richard E Owen (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy), Karen Evans (Cyngor Sir Dinbych), Ian Budd (Cyngor Sir y Fflint)

Hefyd yn Bresennol: Huw Foster Evans (Rheolwr Gyfarwyddwr GwE), Susan Owen Jones (Rheolwr Busnes a Chyllid GwE), Rhys Howard Hughes (Pennaeth Cefnogaeth a Broceru GwE), Dafydd L. Edwards (Pennaeth Cyllid yr Awdurdod Lletyol - Cyngor Gwynedd), Elliw Alwyn (Rheolwr Prosiect yr Awdurdod Lletyol - Cyngor Gwynedd), Siôn Huws (Uwch Gyfreithiwr Gwasanaethau Cyfreithiol yr Awdurdod Lletyol - Cyngor Gwynedd), Geraint Rees a Martyn Gray (Cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru) a Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau'r Awdurdod Lletyol - Cyngor Gwynedd)

Ymddiheuriadau: Mrs Annwen Morgan (Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd), Mohammed Mehmet (Cyngor Sir Dinbych) ac Iwan Evans (Rheolwr Gwasanaeth Cyfreithiol yr Awdurdod Lletyol – Cyngor Gwynedd).

1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datgan o fuddiant personol gan unrhyw Aelod oedd yn bresennol

2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y 17 Rhagfyr 2014 fel rhai cywir.

2.1 MATERION YN CODI O'R COFNODION

Mewn ymateb i ymholiad gan aelod, sicrhawyd y byddir yn trefnu cyfarfod cyntaf o'r Bwrdd Ymgynghorol cyn y Pasg.

Penderfynwyd: **Derbyn a nodi'r uchod.**

3. **ALINIO'R TREFNIADAU GWEITHIO RHANBARTHOL GYDA MODEL CENEDLAETHOL AR GYFER GWEITHIO RHANBARTHOL LLYWODRAETH CYMRU**

(a) Cyflwynwyd adroddiad yn crynhoi rhai o'r egwyddorion a gytunwyd arnynt yn unol â'r chwech ffrwd gwaith yr ymdrinnir â hwy er mwyn alinio'r trefniadau gweithio rhanbarthol gyda'r Model Cenedlaethol. Gofynnwyd am sêl bendith y Cydbwyllgor ynglŷn â'r ffordd ymlaen ond nodwyd y bydd elfennau ychwanegol yn cael eu cynnwys yn y cynllun busnes a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Cydbwyllgor maes o law. Nodwyd bod newidiadau syfrdanol ar y gweill gyda grantiau uniongyrchol i ysgolion ynghyd â goblygiadau i'r rhanbarth ac yn benodol i'r chwech ffrwd gwaith. Nodwyd ymhellach bod trafodaethau yn mynd rhagddynt o fewn is-grwpiau ynglŷn â'r chwech maes sy'n rhoi gweithdrefnau yn eu lle a'u cysoni yn unol â'r Model Cenedlaethol ond yn derbyn bod llawer iawn mwy o waith i'w gyflawni yn ystod y flwyddyn.

(b) Yn ystod y drafodaeth ddilynol amlygwyd y pwyntiau canlynol:

- bod nifer o feysydd gwaith i'w datblygu yn benodol TGCh ac yn enwedig yn sgil cyhoeddiad adroddiad Yr Athro Graham Donaldson ar ddatblygu cwricwlwm newydd, gofynnwyd a fyddai rhaid blaenoriaethu rhai o'r meysydd gwaith.
- Mae trafodaethau yn parhau gyda'r swyddogion perthnasol ynghyd â'r Undebau i benderfynu beth yw rôl GwE a rôl yr awdurdodau o ran darparu cefnogaeth adnoddau dynol. Rhagwelir y bydd mwy o wybodaeth yn hyn o beth fel rhan o'r cynllun busnes.
- Ychwanegodd Mr Geraint Rees, Llywodraeth Cymru:
 - bod rhannau o'r gwaith i'w gyflawni ar wahanol gyflymder.
 - Cydnabuwyd bod her ynglyn ag oblygiadau TUPE yn sgil newid model gwaith unigolion. Fodd bynnag, nodwyd bod opsiynau heb fod yn gorfod symud staff o gwmpas a chais i ddiogelu safon ranbarthol
 - Bod y Gymraeg yn greiddiol yn y Model Cenedlaethol a bod rôl gan y cyrff rhanbarthol i gadw ac i godi ansawdd dysgu ac addysgu
- O safbwynt mewnbwn gan lywodraethwyr, nodwyd bod rhywfaint o drafodaethau wedi ei gynnal yn y Grŵp Defnyddwyr ond ni chynhaliwyd ymgynghoriad penodol ac y byddir yn gwneud hyn yn dilyn sêl bendith y Cydbwyllgor hwn ar yr opsiynau strategol a ffafirir.
- Nodwyd bod recriwtio llywodraethwyr yn broblemus oherwydd gofynion a'r hyfforddiant sydd bellach yn ddisgwyliedig ohonynt ac a fydd trefniadau o'r fath yn gynaliadwy i'r dyfodol.
- Cytunwyd â'r sylw uchod a'i fod yn broblem genedlaethol a bod adolygiad ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru. Pwysleisiwyd yr angen i ystyried disgwyliadau llywodraethwyr a sicrhau bod ganddynt wybodaeth berthnasol i'w cefnogi a'u cynghori.
- Rhaid cofio bod gan Benaethiaid rôl allweddol i gefnogi llywodraethwyr a'i bod yn eu gweld fel cyfaill beirniadol.

Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad.

(b) Cymeradwyo:

- (i) cyfeiriad cyffredinol gwaith alinio'r trefniadau gweithio rhanbarthol gyda Model Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2015-2016 yn wyneb Grant Gwella Addysg ranbarthol newydd Llywodraeth Cymru**
- (ii) y gellir gweithio tuag at ddatrysiadau mwy rhanbarthol yn dilyn blwyddyn o weithredu'r Grant Gwella Addysg ranbarthol newydd a chynllunio busnes manylach ar gyfer 2016/2017**

4. CYNLLUN BUSNES RHANBARTHOL 2014-15 – ADRODDIAD MONITRO

Cyflwynwyd adroddiad gan Reolwr Gyfarwyddwr GwE yn diweddarau'r Cyd-bwyllgor ar y cynnydd yn erbyn Cynllun Busnes 2014-15 gan dynnu sylw penodol at y pwyntiau isod:

- (a) TGAU 2015 / Prosiect PISA – nododd y Rheolwr Gyfarwyddwr ei ddiolch i'r ysgolion mewn cynnal gweithdai ac fe fydd y deunyddiau yn cael eu llwytho i blatfform GwE. Cynhelir cynhadledd ar 26 Mawrth yn Venue Cymru, Llandudno, diolchwyd i bawb am drefnu ac anogwyd aelodau i fynychu.
- (b) Bod 28 o ysgolion wedi cymryd rhan yn y profion PISA. Derbyniwyd cryn feirniadaeth gan Lywodraeth Cymru nad oedd mwy o ysgolion wedi cymryd rhan ond roedd gan ysgolion resymau dilys i beidio cymryd rhan megis yr amseriad a bo gan ddisgyblion Blwyddyn 11 flaenoriaethau tra gwahanol. Mewn ymateb i ymholiad ynglyn ag adborth rhanbarthau eraill, nododd Mr Geraint Rees (Llywodraeth Cymru) bod y niferoedd yn amrywio.
- (c) Llythrennedd a rhifedd - bo cyhoeddiad y bydd y rhaglen genedlaethol yn dirwyn i ben oherwydd ei lwyddiant. Bydd y gwaith yn parhau mewn ffurf wahanol oherwydd newidiadau TUPE. Mewn ymateb, gofynnodd Aelod am arfarniad gan Lywodraeth Cymru gan nodi pa elfennau o'r rhaglen sydd wedi bod yn llwyddiannus er mwyn medru dysgu ohonynt.
- (d) Nodwyd bod cryn newidiadau yn y disgwyliadau o ran safoni a chymedroli nodwyd diolch i Mrs Eleri Jones sydd ar secondiad yng nghyswllt y gwaith hwn. Nodwyd ymhellach bod y Cyd-bwyllgor wedi trafod mewn manylder ynglyn a safoni a chymedroli yn y gorffennol.
- (e) Mewn ymateb i dendr gan Lywodraeth Cymru ar gyfer gwaith gwirio cenedlaethol a gwaith asesu a safoni, nododd y Rheolwr Gyfarwyddwr bod y 4 rhanbarth wedi dod at ei gilydd, ac o dan arweiniad Mr Steve Davies, wedi cyflwyno bid er mwyn gweithio ar draws Cymru i sicrhau ansawdd. Nodwyd bod hyn yn gam pwysig ac amserol iawn i awdurdodau lleol a'r rhanbarthau yn sgil cyhoeddiad adroddiad Yr Athro Donaldson. Teimlwyd ymhellach bod hyn yn gam positif i'r 4 rhanbarth weithio ar y cyd a hyderir y byddai'r bid yn llwyddiannus yn y broses tendro er mwyn sicrhau cysondeb o asesiadau sydd wirioneddol ei angen. Ategodd sawl aelod bwysigrwydd arwain ar faterion strategol fel hyn a datblygu grym mewn ansawdd asesiadau athrawon. Tra'n derbyn bo anghysondebau, teimlai Aelod nad oeddynt yn anghysondebau negyddol a bo anghenion y dysgwr yn brif ystyriaeth. Erfyniwyd i sicrhau ffocws ar

hyn a bo asesu cywir yn arwain at wybodaeth am lefelau'r dysgwyr. Ychwanegwyd y dylai asesiadau trosglwyddo o CA2 i CA3 fod yn ddi-dor.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad.

5. CYLLIDEB GwE 2014-15 – ADOLYGIAD TRYDYDD CHWARTER

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a Phennaeth Cyllid yr Awdurdod Lletyol ar adolygiad ariannol diweddaraf cyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2014-15.

Nododd y Pennaeth Cyllid bod tanwariant net o £18,000 yn erbyn y gyllideb o'i gymharu â thanwariant net o £67,000 yn yr adolygiad ail chwarter, gyda'r lleihad yn bennaf oherwydd defnydd o'r tanwariant ar gynllun penodol oddi fewn y Grant Effeithiolrwydd Ysgolion.

Cyfeiriwyd at yr amrywiadau ariannol a rhoddwyd cyfle i Aelodau'r Cydbwyllgor gwestiynu unrhyw elfennau o'r adroddiad.

Penderfynwyd: Derbyn a nodi'r adroddiad.

6. CYFARFOD NESAF Y CYD-BWYLLGOR

Cyflwynwyd cais i'r Cyd-bwyllgor newid dyddiad cyfarfod nesaf y Cyd-bwyllgor o'r 11 Mehefin 2015 i'r 15 Gorffennaf 2015 er mwyn caniatáu i'r cyfrifon gael eu cyflwyno i'r cyfarfod hwnnw.

Penderfynwyd: Cymeradwyo i newid dyddiad cyfarfod nesaf y Cyd-bwyllgor i ddydd Mercher, 15 Gorffennaf 2015 am 1.30 p.m.

Dechreuodd y cyfarfod am 9.30 a.m. a daeth i ben am 10.40 a.m.

CADEIRYDD



ADRODDIAD AR GYFER Y CYD-BWYLLGOR
15 GORFFENNAF 2015

Adroddiad gan: Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

Pwnc: Cynllun Busnes Rhanbarthol 2014-15 - Adroddiad Monitro

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Diweddarau aelodau'r Cyd-bwyllgor ar y cynnydd wrth gyflwyno Cynllun Busnes 2014-15.

2.0 Cefndir

2.1 Cafodd Cynllun Busnes Rhanbarthol 2014-15 ei gymeradwyo yn ystod cyfarfod y Cyd-bwyllgor ar 6 Tachwedd 2014.

2.2 Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar yr elfennau lle mae'r newidiadau pennaf wedi bod. Mae'r newidiadau wedi eu hamlygu mewn glas.

3.0 Ystyriaethau

3.1 Mae'r Adroddiad Monitro yn rhoi manylion ar y canlynol yn erbyn pob blaenoriaeth a gweithredu:

- Cynnydd hyd yma;
- Gweithredu pellach (yn cynnwys terfynau amser);
- Asesiad risg yn seiliedig ar y dangosyddion lliw a ganlyn

 wedi'i gwblhau/yn gynt na'r disgwyl	 ar y trywydd iawn	 angen sylw	 angen sylw brys
---	---	--	---

3.2 Mae'r asesiad risg yn dangos y cynnydd yn glir ac yn amlygu'r blaenoriaethau/gweithredu sydd arnynt angen sylw brys ac sy'n peri'r risg fwyaf o beidio â chael eu bodloni.

4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor nodi cynnwys yr adroddiad.

5.0 Goblygiadau ariannol

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

6.0 Effaith o ran cydraddoldeb

Nid oes unrhyw effaith newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

7.0 Goblygiadau Personél

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn.

8.0 Ymgynghori a wnaed

8.1 Ymgynghorwyd â Bwrdd Rheoli GwE yn ystod datblygu'r ddogfen.

9.0 Atodiadau

9.1 Cynllun Busnes Rhanbarthol 2014-15 – Adroddiad Monitro Cyd-bwyllgor (mis Mehefin 2015).

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Y Swyddog Monitro:

Bydd unrhyw sylwadau yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod.

Y Swyddog Cyllid Statudol:

Mae paragraff 5 o'r adroddiad yma'n cadarnhau nad oes unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol.



***Adroddiad Monitro'r Cyd-bwyllgor
Cynllun Busnes Rhanbarthol
2014-15***

Wedi'i gwblhau/ o flaen yr amserlen	Ar amser	Angen sylw	Angen sylw brys
-------------------------------------	----------	------------	-----------------

Blaenoriaeth		Cynyddu cyfran y dysgwyr sy'n cyflawni Trothwy Lefel 2+ ar ddiwedd CA4			
Aelod Arweiniol UDRH		EVJ			
Gweithredu		Asesiad risg			
		Adroddiad Cynnydd a thystiolaeth o effaith			
		Gweithredu pellach sydd i'w wneud [gydag amserlen]			
Cefnogi a herio, yn gadarn, ysgolion sy'n tanberfformio [yn enwedig y rheiny a adnabuwyd drwy'r broses gategoreiddio] a sicrhau bod ganddynt: i. cynllun gwella strategol effeithiol ar gyfer codi cyflawniad sy'n amlinellu'n glir sut y byddant yn defnyddio cymorth sydd wedi'i gomisiynu gan GwE a grantiau cenedlaethol [GEY/GAD] ii. mynediad sydyn ac amserol at gymorth arbenigol, pwrpasol o safon. Sicrhau ansawdd gwaith pob Ymgynghorydd Her i sicrhau bod pob ysgol yn cael y lefel uchaf o her a chymorth.		Cynnal her gadarn i'r holl ysgolion sy'n tanberfformio yn ystod Ymweliad 1. Mae gan UDRH GwE broses i sicrhau ansawdd mewn ac ar draws hybiau ac mae wedi cychwyn trafodaethau a chymorth pellach lle canfuwyd anghysondeb. Mae gan ysgolion a dargedwyd gynlluniau gwella strategol mwy cadarn ar waith sy'n amlinellu'n glir sut y byddant yn gwneud defnydd effeithiol o gymorth GwE a gomisiynwyd a grantiau cenedlaethol [GEY/ GAD]. Cyllideb a gomisiynwyd wedi'i dyrannu i gefnogi'r holl ysgolion ambr a choch.			
Sicrhau rhaglenni cefnogi a datblygu ar gyfer: arweinyddiaeth effeithiol ar lefel arweinwyr uwch a chanol sy'n cynnwys canolbwyntio'n benodol ar sicrhau defnydd effeithiol a chyson o hunan arfarnu i herio a gwella safonau		Gweler sylwadau ar y flaenoriaeth berthnasol isod.			
		Gweler sylwadau ar y flaenoriaeth berthnasol isod. Adolygu ac addasu rhaglenni hyfforddiant eleni cyn eu cyflwyno i'r to nesaf. Cynllunio a chyflwyno rhaglen hyfforddiant ym maes pedagogiaeth/methodoleg. Sicrhau bod cyfraniadau yr ysgolion cyd-arweiniol i'r			

gwella ansawdd y dysgu a'r addysgu. Defnyddir yr arferion gorau ar draws y rhanbarth ar ffurf ysgolion arweiniol/adrannau/ymarferwyr arweiniol i godi safonau.					agenda uchod wedi'u diffinio'n glir i'r ystod rhanddeiliaid.
Meithrin ymhellach gallu rhanbarthol y gwasanaeth i gefnogi ysgolion sy'n tanberfformio ac yn cowstio drwy roi cyfleoedd am secondiad a chomisiynu i ymateb i sefyllfaoedd sy'n peri pryder yn gyflym, mewn ffordd gyson a chydlynus.				Gwneud defnydd effeithiol o gyllideb comisiynu, Cymorth Y>Y a secondiad Pennaeth ar gyfer yr ysgolion a dargedwyd. Ymateb rhanddeiliaid mewn arolygon perthnasol ac astudiaethau achos yn cadarnhau effaith gref a gwerthfawrogiad o gymorth wedi'i dargedu gan GwE.	Sicrhau bod gan yr holl ysgolion perthnasol fynediad prydlon ac amserol at gymorth o ansawdd pwrpasol arbenigol [o Dymor yr Hydref 2015 ymlaen]. Sicrhau ymweliadau monitro cadarn dilynol yn ystod Tymor y Gwanwyn a'r Haf 2015. Gweithredu'r model diwygiedig o Fedi 2015 ymlaen a sicrhau rhaglen hyfforddiant briodol i YH a Phenaethiaid.
Sefydlu rhaglen gymorth ysgol i ysgol sy'n fwy hyblyg ac effeithiol [gweithredu egwyddor o 'ystol ddysgu' ble'n briodol] a fydd yn annog ysgolion da i fod yn well byth a'r ysgolion gorau i gefnogi eraill. Yn CA4, dechrau lleoli unigolion arweiniol ac adrannau arweiniol yn GwE yn gynnar ym mis Medi 2014, i fod yn llwyr weithredol erbyn mis Tachwedd 2014. Bydd y rhain yn darparu: - Pennaeth ar secondiad i gydlynu rhaglen gymorth gydlynol ar draws y rhanbarth - Ymgynghorwyr Her arbenigol arweiniol i'r 4 pwnc craidd o fewn GwE. - Dynodi 4 ysgol arweiniol a fydd yn gweithio'n agos gyda'r Ymgynghorwyr Her arweiniol.				Gweler sylwadau ar y flaenoriaeth berthnasol isod. Pennaeth a secondiwyd yn ei le o fis Medi 2014 ac yn mynychu cyfarfodydd yr holl fforymau strategol cenedlaethol perthnasol. Datblygiadau yn y rhanbarth wedi derbyn sylwadau ffafriol iawn gan gydweithwyr LIC o ganlyniad i'r ymgysylltiad lefel uchel hwn. <i>TGAU 2015/Prosiect PISA:</i> Wedi nodi a chadarnhau Ysgolion Arweiniol (ac Ymarferwyr Arweiniol) i bob un o'r pedwar pwnc [Cymraeg Ysgolion Botwnnog, Dyffryn Ogwen, Tryfan/Saesneg Ysgol Bryn Elian/Mathemateg Ysgol Eirias (+Ysgol Glan Clwyd er mwyn sicrhau cyfieithiad a dimensiwn Cymreig)/Gwyddoniaeth Ysgol Alun (+Ysgolion Môn er mwyn sicrhau cyfieithiad a dimensiwn Cymreig)] Ysgolion Arweiniol yn cyflwyno deunyddiau drafft cyntaf yn ystod Tachwedd. Proses Dwy Haen Sicrhau Ansawdd yn ei lle drwy arweinwyr pwnc GwE ac ymgynghorydd allanol Ysgolion Arweiniol (ac Ymarferwyr Arweiniol) ar gyfer y pedwar pwnc [Cymraeg Ysgolion Botwnnog/Dyffryn Ogwen/Tryfan; Saesneg Ysgol Bryn Elian; Mathemateg	Gweler sylwadau ar y flaenoriaeth berthnasol isod. Mae Ysgolion Arweiniol wedi cynhyrchu deunyddiau enghreifftiol ac maent wedi bod drwy broses Sicrhau Ansawdd Cynhaliwyd y gweithdai cyntaf ym mis Chwefror – roedd presenoldeb ysgolion yn dda iawn Bydd yr holl ddeunyddiau enghreifftiol yn cael eu llwytho i fyny i Blattform GwE a byddant ar gael i ysgolion Anfonir bwletin i ysgolion bob hanner tymor i roi gwybod iddynt am ddatblygiadau Cynhelir cynhadledd arddangos ar 26 Mawrth Ysgolion Arweiniol yn parhau i cynhyrchu deunyddiau

- Rhaglen gymorth ar gyfer gwella ar gael i bob ysgol ar gyfer TGAU 2015 a thu hwnt ac i wella sgiliau PISA - O fis Medi 2014, gofynnir i ysgolion ychwanegol ddarparu cymorth unigryw i ysgolion sy'n rhan o brosiect <i>Her Ysgolion Cymru</i>. Bydd GwE yn teilwrio pob rhaglen i sicrhau effaith a chynhwysedd ehangach. Cynhadledd genedlaethol dan arweiniad GwE i arddangos rhagoriaeth.			Ysgol Eirias (+Ysgol Glan Clwyd er mwyn sicrhau cyfieithiad a dimensiwn Cymreig)/Gwyddoniaeth Ysgol Alun (+Ysgolion Môn er mwyn sicrhau cyfieithiad a dimensiwn Cymreig) wedi cynhyrchu deunyddiau enghreifftiol ac maent wedi bod drwy broses Sicrhau Ansawdd. Cynhaliwyd gweithdai ym mis Chwefror (ar gyfer Cymraeg, Saesneg a Mathemateg) a mis Mehefin (Cymraeg a Saesneg) – roedd presenoldeb ysgolion a'r adborth a gafwyd yn dda iawn. Gosodwyd yr holl ddeunyddiau enghreifftiol ar wefan GwE aa maent ar gael i ysgolion Anfonir bwletin 'TGAU 2015 / PISA'i ysgolion bob hanner tymor i roi gwybod iddynt am ddatblygiadau. Ymarferwyr Arweiniol (ar gyfer Maths a Gwyddoniaeth) wedi mynychu cyfarfodydd Penaethiaid Maths/Gwyddoniaeth mewn nifer o ALI Cynhaliwyd Cynhadledd Cenedlaethol i arddangos arfer dda mewn perthynas a TGAU ar 26 Mawrth, 2015. Mynychodd bron i 300 o aelodau a bu'r adborth yn bositif iawn	enghreifftiol yn ystod 2015-16 Cynnal gweithdai yn y pedwar pwnc ym mis Hydref 2015, mis Chwefror 2016 a mis Mehefin 2016 – roedd presenoldeb ysgolion yn dda iawn Ymarferwyr Arweiniol i ymweld ag ysgolion unigol / grwpiau ysgolioni cynnig cymorth ychwanegol yn ystod 2015-16 Ymarferwyr Arweiniol (yn y pedwar pwnc) i mynychu cyfarfodydd Penaethiaid Pwnc ym mhob ALI Gweithredu'r model diwygiedig o Fedi 2015 ymlaen a sicrhau rhaglen aeddfed o gefnogaeth Y>Y. Amserlen weithredu ddisgwyliedig wedi'i hamlinellu mewn cynlluniau a gymeradwywyd i LIC. Ym mis Ionawr cafwyd cadarnhad o grant £75,000 LIC i gefnogi datblygiadau cymhwyster Bagloriaeth Cymru Mae grwpiau datblygu ar gyfer y tair Her a'r Prosiect Unigol wedi bod yn cyfarfod yn rheolaidd Mae GwE wedi hwyluso ffurfio grwpiau Cydlynwyr Bagloriaeth Cymru ym mhob ALI a grŵp Bagloriaeth Cymru rhanbarthol. Rhennir adnoddau mewn cynhadledd a gynhelir ar 15 Mai 2015 Fe wnaeth 28 o ysgolion ar draws y rhanbarth gymryd rhan ym mhroffion PISA NFER ym mis Ionawr; bydd ysgolion yn cael dadansoddiad manwl o'r canlyniadau ym mis Mai 2015 Cymeradwyaeth y CDU ynghyd a'r cyllid gan LIC (Mehefin
--	--	--	---	--

Her Ysgolion Cymru:
Cynlluniau Datblygu Unigol ar gyfer pob un o'r pum ysgol Her Ysgolion Cymru wedi'u cymeradwyo a chyllid wedi'i gadarnhau.

Cynlluniau Datblygu Unigol 2014-15 ar gyfer pob un o'r pum ysgol Her Ysgolion wedi gweithredu.

Cynlluniau Datblygu Unigol 2015-16 ar gyfer pob un o'r pum ysgol Her Ysgolion wedi ei cyflwyno i LIC.

Gwariant Cyfalaf wedi'i gadarnhau ac arian wedi ei dynnu i lawr drwy'r ALL.

Cynlluniau Meithrin Gallu wedi'u cyflwyno a'u cymeradwyo ac wedi hysbysu pob ysgol bartner.

Ysgol	Meithrin Gallu	Refeniw	Cyfalaf:
Caergybi	£13,260	£149,298	£199,876
Treffynnon	£16,025	£159,202	£12,500
Rhosnesni	£15,525	£138,700	£110,000
Bryn Alyn	£71,125	£180,300	£140,000
Clywedog	£71,875	£162,500	£180,000
CYFANSWM:	£187,810	£790,000	£642,000

Bagloriaeth Cymru:

Cais am grant GwE i Lywodraeth Cymru am £15,000 i gefnogi datblygiad Bagloriaeth Cymru yn y rhanbarth wedi ei dderbyn. Derbyn cadarnhad yn ddiweddar bod Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £50,000 pellach i gefnogi datblygiadau rhanbarthol.

Mae pedwar Ymarferydd Arweiniol wedi'u nodi - dau yng Ngogledd Orllewin Cymru a dau yng Ngogledd Ddwyrain Cymru. Bydd yr Ymarferwyr Arweiniol yn arwain pedwar Grŵp Datblygu (un ar gyfer pob un o'r tair her ac un ar gyfer Prosiect Unigol) a fydd yn cynhyrchu pecyn Dysgu ac Addysgu i gefnogi datblygiad y sgiliau o fewn yr heriau/ Prosiect unigol. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf o'r grwpiau datblygu ar 27 Tachwedd a hefyd cynhaliwyd cyfarfodydd codi ymwybyddiaeth i Gydlynwyr Bagloriaeth Cymru ysgolion ac aelodau UDRh.

2015)

Lledaenu negeseuon allweddol ac arfer gorau i bob ysgol ranbarthol [Gwanwyn/ Haf 2015].

Ysgolion Arweiniol yn parhau i cynhyrchu deunyddiau enghreifftiol yn ystod 2015-16

Cynnal gweithdai yn y pedwar pwnc ym mis Hydref 2015, mis Chwefror 2016 a mis Mehefin 2016 – roedd presenoldeb ysgolion yn dda iawn

Ymarferwyr Arweiniol i ymweld ag ysgolion unigol / grwpiau ysgolion cynnig cymorth ychwanegol yn ystod 2015-16

Ymarferwyr Arweiniol (yn y pedwar pwnc) i mynychu cyfarfodydd Penaethiaid Pwnc ym mhob ALL

Gweithredu'r model diwygiedig o Fedi 2015 ymlaen a sicrhau rhaglen aeddfed o gefnogaeth Y>Y.

Penodi athro/awes ar secondiad rhan amser (2 diwrnod/wythnos) hyd at Mawrth 2016

			Derbyniwyd grant am £75,000 i gefnogi datblygiad Bagloriaeth Cymru yn y rhanbarth yn ystod 2014-15. Pedwar Ymarferydd Arweiniol wedi'u nodi – ac wedi arwain pedwar Grŵp Datblygu (un ar gyfer pob un o'r tair her ac un ar gyfer Prosiect Unigol) gan cynhyrchu adnoddau Dysgu ac Addysgu i gefnogi datblygiad y sgiliau o fewn yr heriau/ Prosiect unigol Gosodwyd yr holl ddeunyddiau ar wefan GwE aa maent ar gael i ysgolion Cynhaliwyd Cynhadledd Rhanbarthol ar 15 Mai, 2015 i rhannu adnoddau. Mynychodd dros 100 o aelodau a bu'r adborth yn bositif iawn Hwyluswyd ffurfio grwpiau Cydlynwyr Bagloriaeth Cymru ym mhob ALI a ffurfiwyd grŵp Bagloriaeth Cymru rhanbarthol. Cais am grant £50,000 i gefnogi datblygiad Bagloriaeth Cymru yn y rhanbarth yn ystod 2015-16 wedi ei dderbyn. <i>Profion seiliedig ar PISA SCYA:</i> 30 o ysgolion ar draws y rhanbarth wedi mynegi diddordeb mewn sefyll y profion sy'n seiliedig ar PISA SCYA yn ystod tymor y gwanwyn. Penderfynodd nifer o ysgolion beidio â chymryd rhan yn y profion gan y byddai B11 yn cael eu cynnwys yn y sampl. Codwyd y pryderon hyn gyda Llywodraeth Cymru. Bydd SCYA yn cysylltu ag ysgolion eraill yn uniongyrchol yn ystod mis Ionawr 28 ysgol ar draws y rhanbarth wedi sefyll y profion sy'n seiliedig ar PISA SCYA ym mis Chwefror 2015. Penderfynodd nifer o ysgolion beidio â chymryd rhan yn y profion gan y byddai B11 yn cael eu cynnwys yn y sampl. Codwyd y pryderon hyn gyda Llywodraeth Cymru.	Cefnogi ysgolion wrth iddynt cyflwyno'r Bagloriaeth diwygiedig o Medi 2015 Parhau i gefnogi grwpiau Cydlynwyr Bagloriaeth Cymru ym mhob ALI a grŵp Bagloriaeth Cymru rhanbarthol yn ystod 2015-16 Lledaenu negeseuon allweddol ac arfer gorau mewn perthynas a PISA i bob ysgol y rhanbarth (tymor yr Hydref 2015)
Dwysau'r pwyslais ar dracio, hunan arfarnu a chynllunio gwelliant mewn ymweliadau monitro, gan roi mwy o bwys o lawer ar agweddau y mae angen i ysgolion fod yn rhoi sylw mwy effeithiol iddynt.			Ffocws i'r holl ymweliadau monitro tymhorol wedi'i mireinio ac yn cyd-fynd â disgwyliadau. Dogfennaeth GwE ar gyfer ymweliadau monitro tymhorol wedi'u haddasu i adlewyrchu ffocws diwygiedig. Rhannu disgwyliadau gyda rhanddeiliaid allweddol ac YH'wyr yn cael eu briffio a'u cefnogi i ddarparu lefel uchel o her yn ystod ymweliadau monitro.	Sicrhau ymweliadau monitro cadarn dilynol yn ystod Tymor y Gwanwyn a'r Haf 2015. Sicrhau bod prosesau SA yn weithredol ar draws bob hwb i'r holl ymweliadau monitro tymhorol. Rhannu arfer gorau yng: herio, cefnogi, comisiynu ac adrodd gyda'r holl YH'wyr GwE.

				UDRH GwE wedi sicrhau ansawdd mewn % o ymweliadau o fewn ac ar draws hybiau.	Gweithredu ar y cytundeb rhanbarthol ble bydd GwE yn casglu ac yn herio targedau pob ysgol ac yn monitro cynnydd tuag at y deilliannau ar 3 pwynt penodol mewn blwyddyn.
--	--	--	--	--	--

Blaenoriaeth		Codi safonau dysgwyr sydd â hawl i PYD				
Aelod Arweiniol UDRH		SM+AsJ				
Gweithredu	Asesiad risg				Adroddiad Cynnydd a thystiolaeth o effaith	Gweithredu pellach sydd i'w wneud [gydag amserlen]
Ceisio sicrhau bod gan bob ysgol arweinydd penodol ar gyfer disgyblion PYD a bod gan ysgolion gynlluniau priodol i ddefnyddio cyllid GAD [fel rhan o strategaeth ehangach i godi safonau'r garfan hon o ddysgwyr].					Fel rhan o Ymweliad 1 a gynhaliwyd gan Ymgynghorwyr Her gyda phob ysgol, roedd archwiliad o gynllun yr ysgol ar gyfer defnyddio cyllid GAD yn eitem o ffocws. Cynhaliwyd sesiwn i YH ar Ebrill 23ain ar ofynion cynllunio y GAD am 2015/16. Rhannwyd dogfennau perthnasol i ysgolion trwy wefan GwE, sydd yn cynnwys nifer o astudiaethau achos o arferion llwyddiannus. Secondiwyd arweinydd rhanbarthol i gydlyn strategaeth ranbarthol PMG. Cychwynodd ar y swydd ar 1/6/15	Adnabod yr holl ysgolion lle nad y pennaeth yw'r person arweiniol. Rhannu arfer gorau yng: cynllunio a defnyddio GAD. YH i drafod a herio cynlluniau gwella ysgolion fel rhan o ymweliadau/cyfarfodydd tymor yr hydref 2015. Cynhelir sesiynau rhannu gwybodaeth a chynllunio cefnogaeth ar gyfer dysgwyr bregus ar Orffennaf 9fed/10fed 2015. Bydd cyfle i cydlynwyr/arweinwyr dysgwyr bregus pob ysgol o fewn y rhanbarth i fynychu. Yn seliedig ar ymateb ysgolion yn y sesiynau hyn fe drefnir rhaglen o hyfforddiant perthnasol fydd yn cychwyn o fis Medi 2015 ymlaen. Bydd cyfarfodydd rhwydweithio ar gyfer arweinwyr dysgwyr bregus yn cael eu cynnal er mwyn rhoi cyfle i rannu arferion effeithiol a chynnig cefnogaeth ble bod angen. (O fis Medi 2015 ymlaen)
Parhau i ganolbwyntio'n gadarn ar dracio deilliannau dysgwyr PYD ym mhob ymweliad monitro a herio gan GwE. Defnyddio'r ffynonellau cyllid sydd ar gael, yn effeithiol ac yn amserol, i helpu i ddatblygu strategaethau dysgu ac addysgu effeithiol sydd wedi'u gwahaniaethu er mwyn diwallu					Pob sesiwn Ymweliad 1 gydag ysgolion angen i'r Ymgynghorydd Her ganolbwyntio'n benodol ar ganlyniadau ar gyfer dysgwyr PYD. Cadarnhaodd ymweliadau sicrhau ansawdd a wnaed gan Ymgynghorwyr Her ac archwiliad o adroddiadau Ymweliad 1 fod hyn yn cael ei wneud yn ôl y bwriad. Yn y rhan fwyaf o achosion mae'r Ymgynghorwyr hefyd yn trafod gydag ysgolion y gofynion newydd ar gyfer Cynlluniau Datblygu Ysgol a threfniadau ariannu GAD yn y dyfodol.	Gweddill yr ymweliadau yn ystod Gwanwyn a Haf 2015 yn mynd ar ôl y thema hon. Ffocws benodol ar ddeilliannau yn ystod ymweliadau monitro tymor yr hydref 2015.

anghenion disgyblion.					
Trefnu dull gweithredu effeithiol ar gyfer rhannu'r arferion mwyaf effeithiol gyda phob ysgol o fewn GwE mewn perthynas â hybu cyflawniad disgyblion PYD drwy:	M -G			GwE yn mynd ati'n weithredol i drefnu cynadleddau i arddangos arfer gorau a rhagwelir y bydd hyn yn cynnwys perfformiad disgyblion PYD a defnydd effeithiol o'r grant GAD. Yn ystod y gynhadledd ysgol-i-ysgol gynhaliwyd ar Fehefin 2il 2015, cyflwynwyd gweithdai gan ysgolion arweiniol oedd yn rhannu eu harferion effeithiol o ran codi cyflawniad dysgwyr PYD. Roedd 8 ysgol yn rhan o'r cynllun hwn. Bydd ysgolion Arweiniol yn cael eu nodi yn dilyn y prosesau dethol a gynhelir yn ystod diwedd yr Hydref 2014 ac yn gynnar yn y Gwanwyn 2015. Bydd cynllunio ar gyfer ysgolion cydarweiniol, gan gynnwys y rhai ag arfer da wrth hyrwyddo cyflawniad disgyblion PYD, yn hwyluso ymweliadau gan ysgolion ar draws y rhanbarth. Ffocws Ymweliad 1 fu i nodi arfer presennol mewn gweithio ysgol i ysgol, ac yn ystod gweddill y flwyddyn, bydd hyn yn ffurfio'r sail ar gyfer datblygiad pellach, gan gynnwys rhannu arfer da wrth weithio gyda disgyblion PYD.	Cynllunio cynhadledd i symud ymlaen i weithredu [Gwanwyn a Haf 2015]. Ysgolion arweiniol i gynnwys arfer da PYD o'r Gwanwyn 2015. Adnabod mwy o ysgolion cydarweiniol yn ystod mis Mehefin 2015, yn benodol rhai sydd wedi llwyddo i godi cyflawniad llythrennedd a rhifedd dysgwyr PYD. Ymweliadau i ysgolion cydarweiniol i gael eu hyrwyddo mewn meysydd gan gynnwys arfer da gyda disgyblion PYD o Wanwyn 2015. Canllawiau i'w rhoi i Ymgynghorwyr cyn ymweliadau yn nhymhorau'r Gwanwyn a'r Haf. Gweler uchod – cyflwyniad i YH Ebrill 2015 Trefnu cynhadledd ar gau'r bwlch i'w chynnal yn ystod tymor yr hydref 2015.

Blaenoriaeth	Codi safonau dysgwyr yn y profion darllen a rhifedd cenedlaethol ar draws y rhanbarth					
Aelod Arweiniol UDRH	SM					
Gweithredu	Asesiad risg				Adroddiad Cynnydd a thystiolaeth o effaith	Gweithredu pellach sydd i'w wneud [gydag amserlen]
	10	9	8	7		
Gofalu bod cydlynw a chymorth o safon uchel ar draws y rhanbarth drwy: - adnabod Uwch Ymgynghorydd Her i Lythrennedd a Rhifedd - datblygu strategaeth ranbarthol i Lythrennedd a Rhifedd	10	9	8	7	Uwch Ymgynghorydd Her mewn swydd ers mis Medi. Mae hyn wedi cynyddu capasiti ac mae cyflymder y gweithredu o ran y maes blaenoriaeth hwn yn sylweddol. Mae'r Strategaeth Ranbarthol wedi'i datblygu dan arweinyddiaeth yr UYH, yn gweithio gyda <i>Grŵp Tasg a Gorffen</i> gyda chynrychiolwyr o ysgolion, ALLau, a'r RhGG. Mae wedi'i rannu gyda <i>Grŵp Defnyddwyr</i> GwE ac ALLau hyd yma. Bydd y drafft terfynol yn cael ei rannu gyda'r Ymgynghorwyr Her cyn diwedd Tymor yr Hydref. Cynghorodd y Grŵp T&G yn erbyn rhannu gydag ysgolion ar y pwynt hwn yn y tymor ac awgrymwyd gohirio tan ddechrau Tymor y Gwanwyn.	Rhagfyr 19eg – rhannu gyda'r holl Ymgynghorwyr Her mewn cyfarfod tîm. Dogfen Ionawr 5ed i'w e-bostio i bob ysgol. Ionawr>Chwefror 2015 cyflwyniad ym mhob cyfarfod Ffederasiwn Penaethiaid ar draws y rhanbarth gan naill ai'r UYH i'r hwb, neu'r i'r L/N. Yn dymhorol, o Chwefror 2015 ymlaen, bydd y grŵp strategol yn cyfarfod i fonitro gweithredu'r strategaeth.

			Strategaeth bellach wedi ei rhannu gyda rhanddeiliaid. Dilyniant UYH i gyfarfodydd strategol penaethiaid drwy wahoddiad. Camau gweithredu tymor yr Hydref wedi cael eu 'CAG'io, gan yr UYH L/ N a bydd hyn/ mae hyn wedi cael ei graffu a'i herio gan y Grŵp Strategol Rhanbarthol ar 11/2/15 Gweithredu'r strategaeth ar gyfer 2014/15 wedi'i werthuso a meysydd i'w datblygu yn ystod y flwyddyn i ddod wedi'i hadnabod. Bu cyfarfod i adrodd yn ôl i swyddogion yr ALI ar Fehfin 23ain.	Parhau â'r gweithredu uchod Yn seliedig ar werthusiad cynlluniau gweithredu 2014/15, darparu cynllun newydd ar gyfer 2015/16 a rhannu'r blaenoriaethau gweithredu efo rhanddeiliaid trwy gr?p defnyddwyr GwE ar Orffennaf 9fed.
Cydlynw ac alinio gwaith Ymgynghorwyr Her GwE, Partneriaid Cynorthwyol, gyda'r Rhaglen Gymorth Genedlaethol er mwyn sicrhau negeseuon cyson a chymorth o safon i ysgolion gan bob partner ac osgoi dyblygu'r gefnogaeth neu unrhyw fwlch yn y ddarpariaeth.			Oherwydd y capasiti ychwanegol (gweler uchod) cafwyd cyfarfodydd mwy rheolaidd rhwng yr UYH L/N a'r Uwch Bartner RhGG. Mae hyn wedi arwain at ddull mwy cydlynol o ymdrin â'r cymorth a gynigir i ysgolion, a llai o ddyblygu, er nad yw hyn wedi cael ei ddileu yn llwyr. Hefyd sefydlwyd cytundeb rhwng y RhGG a GwE o ran gweithio mewn partneriaeth a'i rannu gyda'r holl rhanddeiliaid. Mae angen cydgrynhoi hyn ymhellach yn ystod y tymor sydd i ddod. Mae cyfarfodydd rheolaidd wedi parhau i gael eu cynnal rhwng yr Uwch Bartner RhGG a'r UYH L/N. Mae'r rhain wedi arwain at ymateb cyflymach i gefnogi ceisiadau gan ysgolion. Hefyd bu llai o ddyblygu ar lefel leol; fodd bynnag, mae hyn yn parhau i fod yn bryder ar lefel genedlaethol. Bu parhad i'r cydweithio rhwng GwE a'r RhGG. Bydd y RhGG yn dod i ben Gorffennaf 2015 ac mae'r ffocws yn ddiweddar wedi bod ar drosglwyddo gwybodaeth i GwE, fydd yn cymryd y cyfrifoldeb am gefnogi ysgolion gyda llythrennedd a rhifedd o fis Medi ymlaen. Mae'r UYH wedi parhau i fynychu cyfarfodydd cenedlaethol gyda CfBT er mwyn gofalu nad oes dyblygu yn y gefnogaeth a gynigir i ysgolion.	Wrth i drafodaethau gael eu cynnal rhwng ALLau a GwE o amgylch y Model Cenedlaethol, bydd angen ailedrych ar gydweithio ac o bosib ei addasu. Bydd gan gyhoeddiad LIC ar 2/2/15 oblygiadau i'r gweithredu hwn. Angen ei adolygu. Dim gweithredu pellach ei angen oherwydd diwedd y RhGG
Datblygu strategaeth ranbarthol i wella safon arweinwyr uwch a chanol ym maes llythrennedd a rhifedd, fel rhan o'r rhaglen ehangach i ddatblygu arweinwyr canol.			Gweler sylwadau RHH am y rhaglen datblygu arweinyddiaeth. Yn y cyfamser, mae Partneriaid Cynorthwyol GwE wedi darparu cefnogaeth i arweinwyr llythrennedd a rhifedd mewn ysgolion y tymor hwn trwy: - gyfarfodydd rhwydwaith ar gyfer arweinwyr llythrennedd a rhifedd mewn ysgolion uwchradd - hyfforddiant i gydlynwyr rhifedd mewn ysgolion cynradd ar ddatblygu rhesymu rhifiadol - hyfforddiant i arweinwyr llythrennedd yn ALI Sir y Fflint ar ddatblygu ysgrifennu estynedig yn eu hysgolion cynradd Dim mwy i'w ychwanegu ar y pwynt hwn	Gweler sylwadau RHH am y rhaglen datblygu arweinyddiaeth. Bydd y Partneriaid Cynorthwyol yn parhau i gefnogi, hyfforddi a mentora arweinwyr llythrennedd a rhifedd wedi'u targedu yn ystod tymhorau Gwanwyn a Haf 2015. Bydd YH'wyr yn monitro yn ystod y flwyddyn addysgol 2014>2015

			Mae sesiynau rhwydweithiau ysgolion uwchradd wedi bod yn hynod o lwyddiannus eleni, gyda adborth cadarnhaol iawn gan y ganran uchel o ysgolion oedd yn mynychu. Fodd bynnag, mae'n dal i fod yn achos pryder nad yw arweinwyr llythrennedd a rhifedd mewn ysgolion uwchradd yn cael digon o amser digyswllt er mwyn gweithredu ar yr argymhellion o'r cyfarfodydd yma, rhannu'r wybodaeth efo cydweithwyr o fewn eu hysgolion, nac i gefnogi staff eraill. Yn ystod tymor y gwanwyn a'r haf 2015 cynhaliwyd yr hyfforddiant canlynol ar gyfer arweinwyr llythrennedd a rhifedd: Ymresymu Rhifyddol (Cynradd) – 84 ysgol Rhifedd Gweithdrefnol (Cynradd) – 62 ysgol Uwch Sgiliau Darllen (Cynradd) – 166 ysgol Ymresymu Rhifyddol (Uwchradd) – 14 ysgol Datblygu Llythrennedd Ysgol Gyfan (Uwchradd) – 21 ysgol Meysydd Dysgu a Rhaglenni Astudio newydd (Cynradd ac Uwchradd) – 321 ysgol Cefnogi Marcio Ymresymu Rhifyddol (Cynradd ac Uwchradd) – 133 ysgol Roedd yr adborth i'r sesiyanu hyn i gyd yn gadarnhaol dros ben.	Bwriedir parhau i weithio i ddatblygu sgiliau arweinwyr llythrennedd a rhifedd y flwyddyn nesaf trwy gyflwyno rhaglen 'Arwain Dysgu ac Addysgu', gyda ffocws ar llythrennedd a rhifedd. Bydd hon yn rhan o lwybyr datblygu arweinyddiaeth GwE a bydd yn cychwyn ym mis Hydref.
Sicrhau bod gan bob ysgol fynediad at arweiniad a hyfforddiant ar: ddadansoddi data profion cenedlaethol, datblygu cynlluniau datblygu CAMPUS, monitro gweithrediad, cynnydd a deilliannau unrhyw raglenni ymyrraeth a ddefnyddir. Ymgynghorwyr Her i fonitro bod blaenoriaethau priodol yn cael eu cynnwys i godi safonau yn y profion cenedlaethol mewn CGY Ymgynghorwyr Her i gefnogi ysgolion wrth iddynt arfarnu eu cynnydd yn erbyn blaenoriaethau cytûn			Drwy'r RhGG, mae pob ysgol wedi cael y cyfle i fanteisio ar gymorth wrth ddadansoddi data profion drwy ei gynnwys fel un o'u pum blaenoriaeth cymorth. Ar ddiwedd y tymor yma bydd y RhGG yn trosglwyddo yr holl wybodaeth am eu cefnogaeth i ysgolion y rhanbarth i GwE; yn dilyn hyn bydd cyfle i ddadansoddi yn union pa hyfforddiant gafodd pob ysgol yn ystod y cyfnod bu'r RhGG mewn bodolaeth. Rhannodd UYH L/N negeseuon rhanbarthol allweddol am y data profion cenedlaethol mewn cyfarfod tîm YH llawn, gan wneud pob YH yn ymwybodol o'r blaenoriaethau gwella rhanbarthol ar gyfer 2015. Fel rhan o'r ymweliadau monitro Tymor yr Hydref, mae YH wedi herio blaenoriaethau gwella ysgolion, a chynnig adborth ar CDYau, gan gynnwys cynlluniau ysgolion ar fonitro effaith.	Bydd ymweliadau monitro Tymor y Gwanwyn YH'wyr yn cefnogi ysgolion wrth ddod i farn am eu cynnydd yn erbyn eu blaenoriaethau gwella. Cynigir hyfforddiant pellach i ysgolion yn Nhymor y Gwanwyn ar fonitro gweithrediad ac effaith strategaethau ymyrryd. Ni fydd hyn yn awr yn cael ei gynnal tan dymor yr haf, oherwydd yr angen i ymateb i gynlluniau LIC bod pob ysgol yn cael cynnig cymorth ar gynllunio ar gyfer Cyfnod 1 y Cwricwlwm Diwygiedig yn nhymor y gwanwyn. Cynhaliwyd sesiynau ar fonitro'r a rheoli rhaglenni ymyrraeth ar gyfer penaethiaid yn ALI Gwynedd yn ystod tymor yr haf 2015. Bydd mewnbyn tebyg yn cael ei gynnwys fel rhan o'r hyfforddiant i arweinwyr llythrennedd a rhifedd yn ystod tymor yr hydref. Ar y gweill ar gyfer Tymor y Gwanwyn 2015

Sicrhau bod y cymorth a roddir gan Bartneriaid y RhGG yn gadael i ysgolion wneud defnydd deallus o erfyn diagnostig LIC.			Partneriaid RhGG yn darparu canllawiau, fel rhan o'r cytundeb partneriaeth gyda GwE. Bydd angen adolygu hwn yn awr. Gweler y sylwadau uchod am dros;wyddo data o'r RhGG i GwE. Gwneud YH'wyr yn ymwybodol o'r offeryn diagnostig hwn, ac yn gallu herio ysgolion ar eu defnydd ohono. Hyn wedi digwydd fel rhan o'r hyfforddiant i YH Roedd cynhaliath i ysgolion o ran defnyddio'r erfyn disgnostig ar gael fel rhan o'r sesiynau cefnogi marcio gynhaliwyd yn ystod mis Mai 2015. (Gwler uchod).	Cynigir cymorth pellach i ysgolion gan Bartneriaid Cynorthwyol GwE yn dilyn profion flwyddyn nesaf Bydd y Cydlynnydd Llythrennedd a Rhifedd rhanbarthol wedi'i secondio sydd newydd ei phenodi yn dechrau cynllunio ar gyfer hyn cyn gynted ag y bydd yn ddechrau yn ei swydd. Bydd ymdrin a data, dadansoddi canlyniadau'r profion i adnabod blaenoriaethau gwella, yn rhan o'r hyfforddiant 'Arwain Dysgu ac Addysgu' Llythrennedd/Rhifedd yn nhymor yr hydref.
Ar y cyd â'r rhaglen genedlaethol, cefnogi ysgolion i sicrhau bod pob athro yn athro llythrennedd a rhifedd gyda'r sgiliau, yr wybodaeth a'r arbenigedd i ddarparu'r FfLIRh ar lefel ddosbarth - targedu cymorth y Partneriaid Cynorthwyol yn effeithiol i ddarparu hyfforddiant, mentora ac anogaeth i unigolion a grwpiau o athrawon - rhannu arferion gorau drwy fwletin pob hanner tymor, yn ogystal â chyfarfodydd rhwydwaith Ochr yn ochr â'r rhaglen genedlaethol, cefnogi'r gwaith o uwch sgilio athrawon i gynllunio datblygiad sgiliau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm ac ar draws yr ystod oedran a gallu, defnyddio strategaethau addysgu effeithiol, gan gynnwys gwahaniaethu priodol a chynllunio a pharatoi am y profion cenedlaethol - targedu cynhaliath Partner Cynorthwyol gyda'r % isaf o ddisgyblion yn sgorio			Sefydlu cytundeb partneriaeth rhwng GwE a'r RhGG er mwyn sicrhau nad oes unrhyw fylchau yn y gefnogaeth i ysgolion, ac nad oes unrhyw ddyblygu chwaith. Sefydlwyd y bartneriaeth hon ac fe lwyddwyd ar y cyfan i osgoi dyblygu, er bod yna ysgolion yn dewis mynychu hyfforddiant gan GwE a'r RhGG ar yr un testunau. GwE yn defnyddio dadansoddiad RhGG o geisiadau ysgolion i dargedu cymorth, yn ogystal â dadansoddiad o ddata profion cenedlaethol, ac atgyfeiriadau gan YH'wyr unigol. Bydd angen diwygio'r uchod yn dilyn cyhoeddiad Llywodraeth Cymru ar 2/2/15 Yn gyffredinol daeth y rhan fwyaf o'r ceisiadau am gefnogaeth i ysgolion unigol gan yr YN yn hytrach na gen y RhGG. Cyfarfodydd rhwydwaith llythrennedd a rhifedd uwchradd yn cael eu cynnal ym mhob ardal Awduddod Lleol yn ystod Tymor yr Hydref. Rhannu arfer effeithiol a datblygiadau allweddol. Bwletin Llythrennedd a Rhifedd hefyd wedi cael ei lansio, a bydd dau rifyn wedi eu dosbarthu i ysgolion erbyn diwedd Tymor yr Hydref. Gweler sylwadau uchod am y rhwydweithiau uwchradd. Cyhoeddwyd bwletin llythrennedd a rhifedd bob hanner tymor yn ystod y flwyddyn. Maent i gyd bellach ar gael ar wefan GwE. Mynychodd 243 o gydlynwyr rhifedd ysgolion cynradd hyfforddiant a ddarparwyd gan dîm Partneriaid Cynorthwyol GwE ar Resymu Rhifiadol ym mis Tachwedd. Roedd hwn yn sesiwn 'hyfforddi'r hyfforddwr'. Rhesymu rhifiadol oedd y prif gais gymorth a nodwyd gan yr RhGG mewn ysgolion GwE. Hefyd derbyniodd cydlynwyr rhifedd mewn ysgolion uwchradd yng Ngwynedd ac Ynys Môn hyfforddiant yn y maes hwn.	Adolygu yn nhymor y Gwanwyn. Bwletin ar-lein yn sicrhau y bydd mwy o athrawon yn cael mynediad ato. Ceir hyfforddiant ar Resymu Rhifiadol i gydlynwyr rhifedd uwchradd yn Chwefror 2015. Bydd hyfforddiant ar sgiliau darllen uwch ac ar rifedd gweithdrefnol ar gael yn Nhymor y Gwanwyn 2015. Bydd diweddariad am yr hyfforddiant hwn ar gael ar gyfer y cyfarfod nesaf.

>115 yn y profion cenedlaethol - Cymorth a hyfforddiant i ysgolion gynllunio tasgau cyfoethog i ymestyn dysgwyr mwy galluog		Roedd lefelau boddhad yn uchel i'r cwrs hwn, gyda 96% o'r cyfranogwyr yn dweud eu bod yn 'cytuno'n gryf' neu'n 'cytuno' y byddai'r hyfforddiant o ddefnydd iddyn hwy wrth ddatblygu rhesymu rhifiadol yn eu hysgol. Gweler sylwadau uchod am hyfforddiant pellach yn ystod tymor y gwanwyn a'r haf. Mynychodd cydlynwyr llythrennedd o 40 o ysgolion cynradd Sir y Fflint hyfforddiant a ddarparwyd gan dîm Partneriaid Cynorthwyol GwE ar ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm ym mis Tachwedd. Roedd % uwch o ysgolion cynradd wedi gofyn am gymorth â llythrennedd nag unrhyw Awdurdod Lleol arall yn GwE. Roedd lefelau boddhad yn uchel i'r cwrs hwn, gyda 98% o'r cyfranogwyr yn dweud eu bod yn 'cytuno'n gryf' neu'n 'cytuno' y byddai'r hyfforddiant o ddefnydd iddyn hwy wrth ddatblygu ysgrifennu estynedig yn eu hysgol. Hwylusodd GwE a chyflenwi hyfforddiant 'Premier League Reading Stars' (PLRS Cymru) yr Ymddiriedolaeth Llythrennedd Genedlaethol yn Nhachwedd/ Rhagfyr. Mae'r peilot hwn yn cael ei ariannu gan LIC ac mae wedi gwella cymhelliant a safon bechgyn mewn darllen yn Lloegr. Mae tua 120 o ysgolion wedi mynychu'r hyfforddiant hwn. Ym mhob ALI yn GwE mae genethod yn perfformio'n well na bechgyn yn SS115+ yn y prawf darllen, yn Gymraeg a Saesneg. Mae'r Partneriaid Cynorthwyol a gyflwynodd yr hyfforddiant hwn ar ran yr Ymddiriedolaeth Llythrennedd Genedlaethol yn cefnogi ysgolion sydd wedi gofyn am ddilyniant i'r hyfforddiant hwn. Mae Partneriaid Cynorthwyol unigol wedi cefnogi dros 100 o ysgolion i gyd yn ystod Tymor yr Hydref. Mae'r rhain wedi cael eu targedu yn ôl angen a nodwyd gan yr YH, neu drwy gais yr ysgolion eu hunain am gymorth drwy'r RhGG. Bydd y data hwn ar gael ar ddiwedd tymor y gwanwyn. Nodwyd yr ysgolion sy'n perfformio isaf yn y rhanbarth mewn profion cenedlaethol a bydd y rhai nad ydynt eisoes yn cael eu cefnogi gan Bartneriaid Cynorthwyol yn cael cynnig hyfforddiant a chymorth yn nhymor y Gwanwyn. Hyfforddiant Sgiliau Darllen Uwch yn cael ei gynnig i ysgolion mewn 5 ALI yn nhymor y gwanwyn (2 diwrnod yn Saesneg a 3 diwrnod yn Gymraeg) Hyfforddiant Rhifedd Gweithdrefnol yn cael ei gynnig i ysgolion mewn 3 ALI yn	
--	--	---	--

			nhymor y gwanwyn (2 diwrnod yn Saesneg a 1 diwrnod yn Gymraeg) Paratowyd taenlen o holl ysgolion y rhanbarth sy'n nodi pa gefnogaeth mewn llythrennedd a rhifedd mae pob un wedi ei dderbyn gan GwE yn ystod y flwyddyn academaidd hon. Rhanwyd hon gyda swyddogion yr ALI ac UDRh GwE. 7 o ysgolion y rhanbarth sydd heb dderbyn unrhyw gefnogaeth na hyfforddiant o gwbl.	
Darparu hyfforddiant staff i raglenni Dyfal Donc.			3 sesiwn hyfforddiant yn cael eu cyflenwi i wirfoddolwyr i gefnogi disgyblion gyda sgiliau darllen a rhifedd sylfaenol – defnyddir cyfanswm o 24 o wirfoddolwyr yn eu hysgolion lleol yn y flwyddyn newydd. Cafodd 75 o athrawon a chynorthwyrwyr addysgu eu hyfforddi mewn Llythrennedd Dyfal Donc neu Rifedd Dyfal Donc yn ystod tymor yr Hydref. Dim hyfforddiant Dyfal Donc wedi'i drefnu ar gyfer Tymor y Gwanwyn - gweler sylwadau uchod ynghylch: mentrau eraill a arweinir gan LIC Cynhaliwyd sesiynau dilyniant mewn llythrennedd a rhifedd Dyfal Donc yn nhymor yr haf 2015. Mynychodd 38 o staff y sesiynau rhifedd a 52 y sesiynau llythrennedd, oedd yn gyfle i atgyfnerthu a gwerthuso, ar gyfer y rhai hynny sydd eisoes wedi bod yn gweithredu'r rhaglen ymyrraeth. Roedd cyfle i ysgolion sydd a diddoredb mewn derbyn hyfforddiant yn ystod tymor yr hydref i fynegi hynny erbyn Mehefin 26ain, a bydd hyn yn cael ei drefnu mewn ymateb i'r galw.	Cyflenwi yn erbyn sesiynau hyfforddiant a gytunwyd [Gwanwyn/Haf 2015]

Blaenoriaeth	Cynyddu niferoedd mewn Cymraeg iaith Gyntaf, yn ogystal â chodi safonau, ar draws y rhanbarth.					
Aelod Arweiniol UDRH	EEJ					
Gweithredu	Asesiad risg				Adroddiad Cynnydd a thystiolaeth o effaith	Gweithredu pellach sydd i'w wneud [gydag amserlen]
Gweithio gyda chydweithwyr Llywodraeth Cymru i ddatblygu setiau data cenedlaethol a rhanbarthol a fydd yn fodd i ni dracio cynnydd yn y Gymraeg[gan gynnwys adnabod a herio'r garfan lai sy'n astudio Cymraeg fel iaith Gyntaf fel cyfran o gyfanswm y garfan ar gyfer pob pwnc craidd arall.] Yn ogystal,		A - M			Gwerthusiad cychwynnol o ddata asesu Cymraeg iaith Gyntaf 2014 wedi'i gwblhau	Datblygu system data rhanbarthol i dracio cynnydd mewn Cymraeg iaith Gyntaf (Mawrth 2015)
	2014: Canlyniadau Cymraeg iaith Gyntaf – Rhanbarth GwE					Ffurio Cynllun Addysg Gymraeg Rhanbarthol trosfwaol (Gorffennaf 2015) i gynnwys:
	YH	Carfan	% o'r garfan a aseswyd fel	% o'r garfan a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig	% o ymgeiswyr a gyflawnodd y lefel ddisgwyliedig	➤ targedau ar gyfer cynyddu nifer y disgyblion a aseswyd mewn Cymraeg iaith Gyntaf ➤ targedau ar gyfer cynyddu nifer y disgyblion a

rhaid adnabod a herio'r safonau a gyflawnir gan y garfan lai honno.			<table border="1"> <thead> <tr> <th></th><th></th><th>Cymraeg iaith 1^{af}</th><th></th><th></th></tr> </thead> <tbody> <tr> <td>CS</td><td>7537</td><td>34.5%</td><td>30.5% (LCW5+)</td><td>88.4% (LCW5+)</td></tr> <tr> <td>CA2</td><td>6880</td><td>33.4%</td><td>29.1% (L4+)</td><td>87.2% (L4+)</td></tr> <tr> <td>CA3</td><td>7137</td><td>29.4%</td><td>26.4% (L5+)</td><td>89.7% (L5+)</td></tr> <tr> <td>CA4</td><td>7408</td><td>29.6%</td><td>21.2% (TGAU A*-C)</td><td>71.6% (TGAU A*-C)</td></tr> </tbody> </table> Penodi aelod UDRh llawn amser ar secondiad i arwain ar y flaenoriaeth hon (Ionawr 2015) Cynnal trafodaethau rhagarweiniol gyda Llywodraeth Cymru (2.12.14) Cynlluniau Addysg Gymraeg Strategol ALI wedi cael eu coladu a'u dadansoddi (Chwefror 2015) Mae data yn cael ei goladu i lywio'r broses o osod targedau ar gyfer y Cynllun Addysg Gymraeg troswaol Paratowyd adroddiad ar safonau mewn Cymraeg iaith Gyntaf yn CA4 sy'n cynnwys argymhellion sy'n canolbwyntio ar godi safonau a gwella dilyniant a pharhad rhwng cyfnodau allweddol. Roedd cynrychiolaeth o GwE ar weithgor Llywodraeth Cymru yn trafod defnydd anffurfiol o'r Gymraeg gan blant a phobl ifanc.			Cymraeg iaith 1 ^{af}			CS	7537	34.5%	30.5% (LCW5+)	88.4% (LCW5+)	CA2	6880	33.4%	29.1% (L4+)	87.2% (L4+)	CA3	7137	29.4%	26.4% (L5+)	89.7% (L5+)	CA4	7408	29.6%	21.2% (TGAU A*-C)	71.6% (TGAU A*-C)	addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg ➤ codi safonau mewn Cymraeg iaith Gyntaf a Chymraeg Ail iaith ar draws y rhanbarth Codi ymwybyddiaeth Penaethiaid (Cynradd ac Uwchradd) yn ystod Tymor yr Haf 2015. Datblygu a ffurfioli cysylltiadau gyda Llywodraeth Cymru yn ystod Tymor y Gwanwyn 2015. Cynnal cyfarfod Is-grŵp Cyfrwng Gymraeg ac Adeiladu Cynhwysedd y rhanbarth.
		Cymraeg iaith 1 ^{af}																											
CS	7537	34.5%	30.5% (LCW5+)	88.4% (LCW5+)																									
CA2	6880	33.4%	29.1% (L4+)	87.2% (L4+)																									
CA3	7137	29.4%	26.4% (L5+)	89.7% (L5+)																									
CA4	7408	29.6%	21.2% (TGAU A*-C)	71.6% (TGAU A*-C)																									
- 2.1 **Cyflwynir y Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw am 2014/15 yma fel Atodiad A**, ynghyd â sylwadaeth ar y prif wahaniaethau rhwng y gyllideb a'r gwir wariant er gwybodaeth yn unol â'r drefn "arferol", ar ffurf adroddiad "alldro" sydd, hyderaf, yn fwy dealladwy i aelodau weithredu fel "bwrdd rheolaethol". Mae'r tabl yn **Atodiad A a.** a'r sylwadaeth yn **Atodiad A b.**
- 2.2 **Yn Atodiad B, cyflwynir y Datganiad o'r Cyfrifon am 2014/15 (cyn archwiliad), wedi'i gwblhau a'i ardystio gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol**, sef Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd (Dafydd L Edwards) fel y Swyddog Cyllid Statudol ar gyfer y Cyd-Bwyllgor. Mae'r datganiad yma ar ffurf safonol statudol ac yn hanfodol o safbwynt "llywodraethu".
- 2.3 Bydd rhain yn destun archwiliad buan gan Swyddfa Archwilio Cymru, a bydd yr Archwilydd Penodedig (Anthony Barrett) yn cynhyrchu adroddiad "ISA260" (yn manylu ar brif ddarganfyddiadau Swyddfa Archwilio Cymru) i'w gyflwyno i Gyd-Bwyllgor GwE ar 23 Medi 2015.

3. TANWARIANT

- 3.1 Mae'r tanwariant net terfynol am 2014/15 yn £50,932.
- 3.2 Mae Atodiad A yn manylu ar y rhesymau dros y tanwariant net a'r defnydd y bwriedir ei wneud o'r balans.

4. ARGYMHELLIAD

- 4.1 **Gofynnir i Gyd-Bwyllgor GwE dderbyn a nodi'r wybodaeth sy'n yr atodiadau a chadarnhau'r driniaeth o'r tanwariant**, sef –
- Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2014/15 – Atodiad A
 - Datganiad o'r Cyfrifon 2014/15 (cyn archwiliad) – Atodiad B

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Y Swyddog Monitro :

Dim sylwadau o rhan priodoldeb.

Y Swyddog Cyllid Statudol :

Awdur yr adroddiad.

Cyd-Bwyllgor GwE
(Cyngorau Conwy, Dinbych, Fflint,
Gwynedd, Môn a Wrecsam)

DATGANIAD O'R
CYFRIFON
2014/15
(Yn amodol ar
Archwiliad)

MYNEGAI

	Tudalen
Rhagymadrodd Eglurhaol	2 - 4
Datganiad Cyfrifoldebau	5
Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau	6
Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	7
Y Fantolen	8
Datganiad Llif Arian	9
Nodiadau i'r Cyfrifon	10 – 28

RHAGYMDRODD EGLURHAOL

RHAGARWEINIAD

Mae'r Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol (GwE) wedi ei sefydlu mewn partneriaeth rhwng chwe awdurdod Gogledd Cymru, sef Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam, i fod yn atebol i'r Cynghorau ac i gyflawni swyddogaethau statudol y Cynghorau yng nghyswllt effeithiolrwydd a gwella ysgolion. Mae hyn yn cynnwys y dyletswyddau i fonitro, herio, darparu gwasanaethau cefnogol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus drwy'r cwricwlwm a rheoli ysgolion, a hefyd darparu gwasanaethau y gellir eu comisiynu gan ysgolion ac awdurdodau lleol.

Penodwyd Cyngor Gwynedd fel yr Awdurdod Lletya ar gyfer gweithredu a chynnal y Gwasanaeth gyda Chyd-Bwyllgor o'r holl bartneriaid yn goruchwyllo rheolaeth o'r gwasanaeth.

Mae cyfrifon y Cyd-Bwyllgor GwE am 2014/15 wedi'u cyflwyno yma ar dudalennau 6 i 28. Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn cael ei baratoi yn unol â *Chôd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig CIPFA 2014/15*.

Mae'r Cyfrifon yn cynnwys:-

- **Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau** - Dengys y datganiad hwn y symudiad o fewn y flwyddyn mewn gwahanol reserfau a ddelir gan y Cyd-Bwyllgor, wedi eu dadansoddi yn 'reserfau defnyddiadwy' a 'reserfau na ellir eu defnyddio'.
- **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** - Dengys y datganiad hwn y gost gyfrifyddol yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol â pholisiau cyfrifeg cyffredinol derbyniol. Mae'r incwm a gwariant wedi ei rannu rhwng y chwech Cyngor isod fel a ganlyn am 2014/15:

Conwy	15.61%
Dinbych	15.14%
Fflint	22.38%
Gwynedd	17.99%
Ynys Môn	10.23%
Wrecsam	18.65%

- **Y Fantolen** - Sydd yn gosod allan sefyllfa ariannol y Cyd-Bwyllgor ar 31 Mawrth 2015.
- **Y Datganiad Llif Arian** - Mae'r datganiad yma'n crynhoi llif yr arian i mewn ac allan o'r Cyd-Bwyllgor yn ystod 2014/15 at ddibenion refeniw a chyalaf.

Cefnogir y cyfrifon hyn gan y Rhagymadrodd yma, y Polisiâu Cyfrifo ac amrywiol nodiadau i'r cyfrifon.

GWARIANT REFENIW YN 2014/15

- Dengys y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar dudalen 7 fod gwariant refeniw gros y Cyd-Bwyllgor ar y lefel Cost Gwasanaethau yn £8,706k yn ystod 2014/15, gyda'r sefyllfa net yn £346k. Wrth wyrdroi'r addasiadau technegol, fel sy'n ofynnol yn y Côd, trwy'r Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau gwelir bod gwir ostyngiad net o (£51k).
- Adroddwyd sefyllfa alldro ariannol 2014/15 i'r Cyd-Bwyllgor yn ei gyfarfod ar 15 Gorffennaf 2015. Gofynnwyd am gymeradwyaeth aelodau'r Cyd-Bwyllgor i drosglwyddo'r tanwariant o £51k i reserf penodol.

- Mae'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau a'r Cyfrif Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar dudalen 6 a 7 yn darparu dadansoddiad o'r symudiadau yn y flwyddyn.

TABL 1 - Crynodeb o'r Gymhariaeth rhwng y Gyllideb a'r Gwir Sefyllfa (Net)

Mae Tabl 1 yn cynnwys cymhariaeth perfformiad cyllidebol ar lefel crynhoad, ceir gwybodaeth bellach yn Nhabl 2.

	Cyllideb	Gwir	Gwahaniaeth
	£'000	£'000	£'000
Gwariant ar Weithgareddau	8,327	8,855	528
Incwm			
Cyfraniadau'r Cyngorau ar gyfer costau rhedeg y gwasanaeth craidd:			
Conwy	(649)	(649)	0
Dinbych	(629)	(629)	0
Fflint	(930)	(930)	0
Gwynedd	(748)	(748)	0
Ynys Môn	(425)	(425)	0
Wrecsam	(775)	(775)	0
Incwm Arall	(4,171)	(4,750)	(579)
(Tanwariant)/Gorwariant Net	0	(51)	(51)

TABL 2 – Symudiad Trawsddodiad rhwng ‘Crynodeb o'r Gymhariaeth rhwng y Gyllideb a'r Gwir Sefyllfa (Net)’ (Tabl 1) i'r fformat Incwm a Gwariant

	Adroddiad	*Addasiad	Datganiad
	Perfformiad	Trawsddodiad	Incwm a Gwariant
	£'000	£'000	£'000
Gwariant	8,855	(149)	8,706
Incwm	(8,906)	546	(8,360)
Cost Gwasanaethau Net	(51)	397	346

* Mae'r addasiadau yn y golofn trawsddodiad yn cyfeirio at addasiadau technegol pensiynau ac absenoldebau cronedig ac unrhyw gyfraniad i ac o reserfau.

Polisiâu Cyfrifo

Mae'r egwyddorion cyfrifo a fabwysiadwyd ar ran y Cyd-Bwyllgor yn cydymffurfio â holl ymarferion cyfrifeg cymeradwy perthnasol ac maent wedi'u hegluro yn llawn yn y Polisiâu Cyfrifo yn Nodyn 1 o'r Cyfrifon sy'n cychwyn ar dudalen 10.

GWYBODAETH BELLACH

Mae Datganiad o'r Cyfrifon ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd sef www.gwynedd.gov.uk.

Ceir gwybodaeth bellach am y cyfrifon gan:

William E Jones
Uwch Reolwr Cyllid
01286 679406

neu

Caren Rees Jones
Uned Cyfrifeg Canolog, Adran Cyllid
01286 679134

Adran Cyllid
Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Mae hyn yn rhan o bolisi'r Cyngor i ddarparu gwybodaeth lawn am weithgareddau'r Cyngor a'r Cyd-Bwyllgorau. Yn ychwanegol, mae gan aelodau'r cyhoedd sydd yn dymuno, hawl statudol i arolygu'r cyfrifon cyn cwblheir yr archwiliad. Hysbysir argaeledd y cyfrifon i'w harolygu yn y wasg leol ar yr adeg briodol.

CYD-BWYLLGOR GwE

DATGANIAD O'R CYFRIFON

DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD O'R CYFRIFON

CYFRIFOLDEB Y CYD-BWYLLGOR

Cyngor Gwynedd sydd â'r cyfrifoldeb am drefniadau a gweinyddiad ar faterion ariannol y Cyd-Bwyllgor a'r Swyddog Cyllid Cyfrifol yw'r Pennaeth Cyllid.

Cyfrifoldeb y Cyd-Bwyllgor yw rheoli ei weithgareddau er mwyn sicrhau defnydd effeithiol, effeithlon ac economaidd o'i adnoddau, gwarchod ei asedau, a chymeradwyo'r Datganiad o'r Cyfrifon.

CYFRIFOLDEB PENNAETH CYLLID CYNGOR GWYNEDD


Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon y Cyd-Bwyllgor GwE yn unol â'r ymarfer priodol fel a osodir yn y *Côd Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig* (y "Côd").

Wrth baratoi'r datganiad o'r cyfrifon, mae'r Pennaeth Cyllid wedi dewis polisiau cyfrifo priodol gan eu defnyddio'n gyson; wedi ffurfio barnau a gwneud amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a darbodus ac wedi cydymffurfio â'r Côd Ymarfer.

Hefyd, mae'r Pennaeth Cyllid wedi cadw cofnodion cyfrifo priodol ac amserol ac fe gymerwyd camau rhesymol i ddarganfod a gwarchod rhag twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

TYSTYSGRIF Y SWYDDOG CYLLIDOL CYFRIFOL

Tystiaf fod y Datganiad o'r Cyfrifon wedi ei baratoi yn unol â'r trefniadau uchod. Mae'r Datganiad yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Cyd-Bwyllgor GwE ar 31 Mawrth 2015 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.


Dafydd L. Edwards B.A., C.P.F.A., I.R.R.V.
Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd

29 Mehefin 2015

DATGANIAD O'R SYMUDIAD MEWN RESERFAU

Dengys y datganiad hwn y symudiad o fewn y flwyddyn mewn gwahanol reserfau a ddelir gan y Cyd-Bwyllgor, wedi eu dadansoddi'n 'reserfau defnyddiady' (h.y. y rhai hynny sy'n gymwysedig i ariannu gwariant) a 'reserfau na ellir eu defnyddio'. Mae'r Gwarged neu (Ddiffyg) ar Ddarparu Gwasanaethau yn dangos y gwir gost economaidd o ddarparu gwasanaethau'r Cyd-Bwyllgor, gyda manylion pellach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Mae'r Cynnydd/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Reserfau a Glustnodwyd yn dangos balans statudol y Gronfa Gyffredinol cyn unrhyw drosglwyddiadau dewisol i neu o reserfau a glustnodwyd a gyflawnir gan y Cyd-Bwyllgor.

	Nodyn	Balans Cronfa Gyffredinol £'000	Reserfau Cronfa Gyffredinol a Glustnodwyd £'000	Cyfanswm Reserfau Defnyddiady £'000	Reserfau na ellir eu defnyddio £'000	Cyfanswm Reserfau'r Cyd-Bwyllgor £'000
Balans Agoriadol 1 Ebrill 2013		0	0	0	4,097	4,097
<u>Symudiad mewn reserfau yn 2013/14</u>						
(Gwarged)/Diffyg ar ddarparu gwasanaethau		(495)	0	(495)	0	(495)
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall		0	0	0	(1,104)	(1,104)
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr		(495)	0	(495)	(1,104)	(1,599)
Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu dan y rheoliadau	8	(282)	0	(282)	282	0
(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Reserfau a Glustnodwyd		(777)	0	(777)	(822)	(1,599)
Trosglwyddiadau i/o Reserfau a Glustnodwyd	9	777	(777)	0	0	0
(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2013/14		0	(777)	(777)	(822)	(1,599)
Balans 31 Mawrth 2014 a ddygwyd ymlaen		0	(777)	(777)	3,275	2,498
<u>Symudiad mewn reserfau yn 2014/15</u>						
(Gwarged)/Diffyg ar ddarparu gwasanaethau		482	0	482	0	482
Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall		0	0	0	1,420	1,420
Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr		482	0	482	1,420	1,902
Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu dan y rheoliadau	8	(2)	0	(2)	2	0
(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Reserfau a Glustnodwyd		480	0	480	1,422	1,902
Trosglwyddiadau i/o Reserfau a Glustnodwyd	9	(480)	480	0	0	0
(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2014/15		0	480	480	1,422	1,902
Balans 31 Mawrth 2015 a ddygwyd ymlaen		0	(297)	(297)	4,697	4,400

DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR – 2014/15

Dengys y datganiad hwn y gost gyfrifyddol yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaeth y Cyd-Bwyllgor yn unol â pholisiau cyfrifeg cyffredinol dderbyniol.

2013/14			Nodyn	2014/15		
Gwariant Gros	Incwm Gros	Gwariant Net		Gwariant Gros	Incwm Gros	Gwariant Net
£'000	£'000	£'000		£'000	£'000	£'000
2,264	0	2,264	Gweithwyr	2,624	0	2,624
31	0	31	Eiddo	6	0	6
98	0	98	Cludiant	137	0	137
370	0	370	Gwasanaethau a Chyflenwadau	1,594	0	1,594
0	0	0	Trydydd Parti	4,345	0	4,345
853	(853)	0	Eitem Eithriadol *	0	0	0
287	0	287	Costau Heb eu Dosrannu	0	0	0
0	(3,730)	(3,730)	Incwm	0	(8,360)	(8,360)
3,903	(4,583)	(680)	Cost Gwasanaethau	8,706	(8,360)	346
0	0	0	Gwariant Gweithredol Arall	0	0	0
185	0	185	Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi	136	0	136
0	0	0	Treth ac Incwm Grant Amhenodol	0	0	0
4,088	(4,583)	(495)	(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau	8,842	(8,360)	482
		(1,104)	Ailfesuriad o'r ymrwymadau/(asedau) buddion diffiniedig net			1,420
		(1,104)	Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall			1,420
		(1,599)	Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr			1,902

* Costau ac incwm unwaith ac am byth sefydlu GwE.

Y FANTOLEN – 31 MAWRTH 2015

Dengys y Fantolen werth asedau ac ymrwymïadau'r Cyd-Bwyllgor ar ddyddiad y Fantolen. Mae asedau/(ymrwymïadau) net y Cyd-Bwyllgor (asedau llai ymrwymïadau) yn cyfateb i'r reserfau a ddelir gan y Cyd-Bwyllgor.

31 Mawrth 2014 £'000		Nodyn	31 Mawrth 2015 £'000
	Asedau Tymor Hir		
0	Dyledwyr Tymor Hir		11
0			11
1,041	Dyledwyr Tymor Byr	11	5,530
126	Arian a Chyfwertthoedd Arian		0
1,167	Asedau Cyfredol		5,530
0	Gorddrafft Banc		(762)
(440)	Credydwyr Tymor Byr	12	(4,411)
0	Derbyniadau Grantiau o Flaen Llaw	19	(120)
(440)	Ymrwymïadau Cyfredol		(5,293)
0	Darpariaethau Tymor Hir	13	(4)
(3,225)	Ymrwymïad Pensiwn	24	(4,644)
(3,225)	Ymrwymïadau Tymor Hir		(4,648)
(2,498)	Asedau Net		(4,400)
(777)	Reserfau Defnyddiadwy	14	(297)
3,275	Reserfau na ellir eu defnyddio	15	4,697
2,498	Cyfanswm Reserfau		4,400

DATGANIAD LLIF ARIAN – 2014/15

Dengys y Datganiad Llif Arian newidiadau mewn arian a chyfwerthoedd arian y Cyd-Bwyllgor yn ystod y cyfnod adrodd.

2013/14 £'000		Nodyn	2014/15 £'000
(495)	(Gwarged) neu Ddiffyg Net ar Ddarparu Gwasanaethau		482
369	Addasiadau i'r gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau am symudiadau anariannol (<i>credydwy, dyledwyr a pensiwn</i>)	16	395
0	Addasiadau am eitemau cynwysedig yn y gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau sydd yn weithgareddau buddsoddi neu ariannu		0
(126)	Llif Arian Net o Weithgareddau Gweithredu		877
0	Gweithgareddau Buddsoddi		11
0	Gweithgareddau Ariannu		0
(126)	(Cynnydd)/Lleihad net mewn arian a chyfwerthoedd arian		888
0	Arian a chyfwerthoedd arian ar ddechrau'r cyfnod adrodd		(126)
(126)	Arian a chyfwerthoedd arian ar ddiwedd y cyfnod adrodd		762

*Sefyllfa Llif Arian yn unol â Pholisi Cyfrifo 1.3

NODIADAU I'R CYFRIFON

NODYN I – POLISIÂU CYFRIFO

1.1 Egwyddorion Cyffredinol

Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn crynhoi trafodion y Cyd-Bwyllgor yn y flwyddyn ariannol 2014/15 a'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn honno, sef 31 Mawrth 2015. Mae'r Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyd-Bwyllgor baratoi Datganiad o'r Cyfrifon yn flynyddol, a hynny yn unol ag arferion cyfrifo cywir. Mae'r arferion hyn wedi eu cynnwys yn bennaf yn y *Côd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2014/15* a'r *Côd Ymarfer Adrodd ar Wasanaeth 2014/15*, ac yn cael eu cefnogi gan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh) a chyfarwyddiadau statudol a gyhoeddir yn unol â Deddf 2014.

Natur gyfyngedig sydd i drafodion y Cyd-Bwyllgor ac felly gweler isod y polisiâu perthnasol yn unig.

1.2 Croniadau Incwm a Gwariant

Cyfrifir am weithgareddau yn y flwyddyn maent yn cymryd lle, nid pan wneir neu derbynnir taliadau arian parod.

- Bydd y referniw o werthu nwyddau yn cael ei adnabod pan fydd y Cyd-Bwyllgor yn trosglwyddo'r risgiau arwyddocaol a buddion perchnogaeth i'r prynwr, a phan mae'n debygol y bydd buddiant economaidd neu'r gwasanaeth potensial cysylltiol gyda'r trafodyn hefyd yn trosglwyddo i'r Cyd-Bwyllgor.
- Bydd referniw o ddarparu gwasanaeth yn cael ei adnabod pan fydd y Cyd-Bwyllgor yn gallu mesur yn ddibynadwy'r canran sydd wedi ei gwblhau o'r trafodyn ynghyd â'r tebygolrwydd y bydd buddiant economaidd neu'r gwasanaeth potensial cysylltiol gyda'r trafodyn hefyd yn trosglwyddo i'r Cyd-Bwyllgor.
- Bydd cyflenwadau yn cael eu trin fel gwariant fel maent yn cael eu treulio – pan fydd bwlch rhwng y dyddiad mae'r cyflenwadau wedi eu derbyn a'u treulio, byddant yn cael eu dal fel stoc ar y Fantolen pan fod balansau o'r fath yn cael eu cysidro yn faterol berthnasol.
- Bydd treuliau, mewn cysylltiad â'r gwasanaeth a roddwyd (gan gynnwys gwasanaeth gan weithwyr cyflogedig) yn cael eu cofnodi fel gwariant pan fydd y gwasanaeth wedi ei dderbyn yn hytrach na phryd fydd taliadau'n cael eu gwneud.
- Ble mae referniw a gwariant wedi eu hadnabod ond nid yw'r arian wedi ei dderbyn neu dalu allan, bydd rhaid creu dyledwr neu gredydwr am y symiau perthnasol ar y Fantolen. Ble mae tebygolrwydd o beidio casglu'r ddyled, bydd rhaid ysgrifennu'r dyledion lawr a chodi tal allan o gyfrif referniw am yr incwm fydd yn debygol o beidio cael ei gasglu.

1.3 Arian a Chyfwertioedd Arian

Nid oes gan y Cyd-Bwyllgor gyfrif banc ei hun a gweinyddir yr holl arian parod gan Cyngor Gwynedd o fewn ei gyfrifon ei hun.

1.4 Buddiannau Gweithwyr

1.4.1 Buddion sy'n Daladwy yn ystod Cyflogaeth

Buddion tymor byr yw'r rhai hynny sydd yn ddyledus o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn. Maent yn cynnwys buddion megis cyflogau, tâl gwyliau a thâl salwch i weithwyr cyfredol ac maent yn cael eu hadnabod fel cost am wasanaethau yn y flwyddyn y mae'r gweithiwr yn gwasanaethu'r Cyd-Bwyllgor. Gwneir cronïad ar gyfer cost hawl gwyliau (neu unrhyw amser i ffwrdd o'r gwaith e.e. amser wedi ei gronni) sydd yn ddyledus i'r gweithwyr ond sydd heb ei gymryd cyn diwedd y flwyddyn ac yn cael ei gario drosodd i'r flwyddyn ariannol nesaf. Mae'r cronïad yn seiliedig ar raddfeydd cyflog sydd yn berthnasol i'r flwyddyn ariannol ddilynol, sef y flwyddyn mae'r gweithiwr yn derbyn y budd o'r gwyliau. Mae cost y cronïad yn mynd yn erbyn Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau ond mae wedyn yn cael ei wrth-droi drwy'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau fel bod cost y gwyliau yn mynd yn erbyn y flwyddyn y cymerir y gwyliau.

NODYN I – POLISIÂU CYFRIFO (parhad)

1.4.2 Buddion Terfynu Cyflogaeth

Mae'r rhain yn daladwy o ganlyniad i benderfyniad y Cyd-Bwyllgor i derfynu cyflogaeth swyddog cyn y dyddiad ymddeol arferol neu o ganlyniad i benderfyniad y swyddog i dderbyn tâl diswyddo gwirfoddol ac fe'u codir ar sail addasiad cronïad yn erbyn y gwasanaeth priodol neu, lle mae'n berthnasol, y llinell Costau Heb eu Dosrannu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr pan na all y Cyd-Bwyllgor dynnu'n ôl y cynnig o'r buddion hynny neu pan fo'r Cyd-Bwyllgor yn cydnabod cost o ail-strwythuro.

Pan fo buddion terfynu cyflogaeth yn cynnwys ychwanegiadau i bensiynau mae'r ddarpariaeth statudol yn golygu y dylai'r Cyd-Bwyllgor dderbyn y gost sydd yn daladwy gan y Cyd-Bwyllgor i'r Gronfa Bensiwn neu i'r pensiynwr yn hytrach na'r swm wedi ei gyfrifo yn unol â'r safonau cyfrifeg berthnasol. Yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau mae angen neilltuo symiau i ac o'r Gronfa Bensiwn er mwyn diddymu'r credydau a'r debydau damcaniaethol am fuddion terfynu pensiynau ychwanegol a rhoi yn eu lle, y debydau am yr arian a dalwyd i'r Gronfa Bensiwn a'r pensiynwyr ac unrhyw symiau taladwy ond sydd heb eu talu at ddiwedd y flwyddyn.

1.4.3 Buddion Ôl-gyflogaeth

Mae gweithwyr y Cyd-Bwyllgor yn aelodau o ddau gynllun pensiwn ar wahân:

- Y Cynllun Pensiwn Athrawon a weinyddir gan Capita Teachers' Pensions ar ran Adran Addysg Llywodraeth San Steffan.
- Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a weinyddir gan Gronfa Bensiwn Gwynedd yng Nghyngor Gwynedd.

Mae'r ddau gynllun yn darparu buddion diffiniedig i'w haelodau (pensiynau a lym-p-symiau) sydd wedi eu hennill yn ystod eu hamser gyda'r Cyd-Bwyllgor a'u cyn-gyflogwyr.

Fodd bynnag, mae'r trefniadau ar gyfer y cynllun athrawon yn golygu nad yw ymrwymïadau'r buddion yn cael eu hadnabod i'r Cyd-Bwyllgor. Mae'r Cynllun felly yn cael ei gyfrifo fel petai yn gynllun cyfraniadau diffiniedig ac nid yw ymrwymïadau ar gyfer taliadau yn y dyfodol yn cael eu hadnabod yn y Fantolen. Mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr yn cynnwys cost cyfraniadau'r cyflogwr sy'n daladwy i'r Cynllun Pensiwn Athrawon yn y flwyddyn.

1.4.4 Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mae gan bob aelod arall o'r staff, yn amodol ar rai meini prawf, yr hawl i fod yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r costau pensiwn a godir ar gyfrifon y Cyd-Bwyllgor ar gyfer y dosbarth yma o weithwyr yn cael eu pennu gan weinyddwyr y Gronfa ac yn cynrychioli cyfran sefydlog o gyfraniad y gweithwyr i'r cynllun.

Mae'r Cynllun Llywodraeth Leol yn cael ei drin fel cynllun budd diffiniedig:

Mae ymrwymïadau Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd i'w priodoli i'r Cyd-Bwyllgor yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraid drwy'r dull rhagamcanu unedau h.y. asesiad o daliadau fydd yn cael eu gwneud yn y dyfodol mewn perthynas â buddion ymddeol a enillwyd hyd yn hyn gan y gweithwyr, yn seiliedig ar gyfradd marwolaeth, cyfradd trosiant gweithwyr a.y.y.b. yn ogystal â thafluniad enillion ar gyfer gweithwyr cyfredol.

Gostyngir yr ymrwymïadau i'w gwerth ar sail prisiau cyfredol gan ddefnyddio graddfa ddisgownt o 3.2% wedi ei gyfrifo fel cyfartaledd cymhwysol 'spot yields' ar fondiau corfforaethol o werth AA.

Mae asedau Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd i'w priodoli i'r Cyd-Bwyllgor yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail gwerth teg a benderfynir gan actiwari'r Gronfa.

Dadansoddir y newid yn ymrwymiad net pensiynau i'r cydrannau canlynol:

NODYN I – POLISIÂU CYFRIFO (parhad)

Cost gwasanaeth yn cynnwys:

- Cost gwasanaeth cyfredol – y cynnydd mewn ymrwymadau o ganlyniad i flynyddoedd o wasanaeth a enillwyd eleni - dyrennir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gwasanaethau lle mae'r gweithwyr yn gweithio
- Cost gwasanaeth y gorffennol – mae'r cynnydd mewn ymrwymadau yn deillio o benderfyniadau yn y flwyddyn gyfredol ble mae eu heffaith yn gysylltiedig â'r blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd mewn blynyddoedd cynharach – mae'n cael ei ddebydu i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel rhan o Gostau heb eu Dosrannu
- Llog net ar y buddion diffiniedig/(asedau) net, h.y. y gost llog net i'r awdurdod - y newid yn ystod y cyfnod yn yr ymrwymiad/(asedau) buddion diffiniedig net sy'n codi o dreigliad amser sy'n mynd yn erbyn llinell Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr - mae hyn yn cael ei gyfrifo ar sail gweithredu'r gyfradd ddisgownt sy'n cael ei ddefnyddio i fesur yr ymrwymiad buddion diffiniedig ar gychwyn y cyfnod i'r ymrwymiad/(asedau) buddion diffiniedig net ar gychwyn y cyfnod - gan gymryd i ystyriaeth unrhyw newidiadau yn yr ymrwymiad/(asedau) buddion diffiniedig net yn ystod y cyfnod o ganlyniad i gyfraniadau a thaliadau budd.

Ailfesuriadau yn cynnwys:

- Enillion ar asedau'r Cynllun - gan eithrio symiau sy'n gynwysedig yn llog net ar yr ymrwymiad/(asedau) buddion diffiniedig net - yn cael eu debydu i Reserf Pensiynau fel Incwm a Gwariant Ariannu Cynhwysfawr Arall
- Enillion a cholledion actiwaraid - newidiadau i'r ymrwymiad pensiwn net oherwydd nad yw'r digwyddiadau yn cyd-fynd â'r rhagdybiaethau a wnaethpwyd yn y prisiad actiwaraid diwethaf neu am nad yw'r actiwari wedi diweddarau ei ragdybiaethau - yn cael eu debydu i'r Reserf Pensiwn fel Incwm a Gwariant Ariannu Cynhwysfawr Arall

Cyfraniadau a delir i'r Gronfa Bensiwn Gwynedd - arian a delir fel cyfraniadau'r cyflogwr i'r Gronfa Bensiwn ar gyfer setliad ymrwymadau; sydd ddim yn cael eu cyfrifo fel traul.

Gyda buddion ymddeol, mae'n ofynnol, yn unol â darpariaethau statudol, i'r Gronfa Gyffredinol dderbyn cost y swm sy'n daladwy gan y Cyd-Bwyllgor i'r Gronfa Bensiwn neu'n uniongyrchol i'r pensiynwyr yn ystod y flwyddyn yn hytrach na'r swm a gyfrifir yn ôl y safonau cyfrifeg berthnasol. Yn y Datganiad o'r Symudiadau mewn Reserfau, golygir hyn bod angen neilltuo arian i neu allan o'r Reserf Pensiwn er mwyn diddymu'r credydau a'r debydau damcaniaethol ar gyfer buddion ymddeol a rhoi yn eu lle'r debydau am arian a dalwyd i'r Gronfa Bensiwn a phensiynwyr ac unrhyw symiau sy'n daladwy ond sydd heb eu talu at ddiwedd y flwyddyn. Mae'r balans negyddol sydd yn deillio o hyn yn y Gronfa Bensiwn yn fesur o effaith buddiol i'r Cyd-Bwyllgor o orfod trin buddion ymddeol ar sail llif arian yn hytrach na thros y cyfnod y mae'r gweithwyr yn derbyn y budd.

Mae'r Safon Adrodd Ryngwladol (IAS) 19 yn rheoli sut y dylid trin a datgelu'r ymrwymadau tymor hir sy'n bodoli mewn perthynas â chostau pensiwn. Mae'n ofynnol i gynghorau lleol (yn cynnwys Cyd-Bwyllgorau) yng Nghymru a Lloegr baratoi eu datganiadau ariannol yn unol â gofynion IAS 19.

1.4.5 Buddion Dewisol

Mae gan y Cyd-Bwyllgor hefyd bwerau cyfyngedig i wneud dyfarniadau dewisol mewn achosion o ymddeoliadau cynnar. Bydd unrhyw ymrwymadau sydd yn deillio o ddyfarniad o'r fath i unrhyw aelod o'r staff (yn cynnwys athrawon) yn cael eu cronni yn y flwyddyn y cymerwyd y penderfyniad i wneud y dyfarniad gan ddefnyddio'r un polisiâu â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i gyfrifo amdanynt.

NODYN I – POLISIÂU CYFRIFO (parhad)

1.5 Digwyddiadau Wedi'r Cyfnod Adrodd

Digwyddiadau wedi dyddiad y fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol ag anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddiad y Datganiad o'r Cyfrifon. Gellir adnabod dau fath o ddigwyddiad:

- y rhai hynny sy'n darparu tystiolaeth o amgylchiadau a oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd – caiff y Datganiad o'r Cyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath.
- y rhai hynny sy'n dynodi amgylchiadau a gododd ar ôl y cyfnod adrodd – ni chaiff y Datganiad o'r Cyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath, ond os ystyrir y byddai'n cael effaith faterol, yna byddai natur y digwyddiadau ynghyd â amcangyfrif o'r effaith ariannol (lle gellid amcangyfrif y gost) yn cael ei ddatgelu yn y nodiadau.

Nid yw unrhyw ddigwyddiadau sy'n digwydd wedi'r dyddiad awdurdodi cyhoeddiad yn cael eu hadlewyrchu yn y Datganiad o'r Cyfrifon.

1.6 Addasiadau Cyfnod Blaenorol, newidiadau i Bolisiau, Amcangyfrifon a Gwallau

Gall yr angen i wneud addasiadau cyfnod blaenorol godi o ganlyniad i newid mewn polisiau cyfrifo neu i gywiro gwall sylweddol. Cyfrifir am newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifeg yn rhagolygonol, h.y. yn y flwyddyn gyfredol a'r blyneddoddi i ddod a effeithir gan y newid, ac felly ni wneir addasiad cyfnod blaenorol.

Yr unig dro y gwneir newidiadau i bolisiau cyfrifo yw pan yn ofynnol gan ymarferion cyfrifo priodol neu bod y newid yn darparu gwybodaeth mwy dibynadwy neu berthnasol am effaith trafodion, digwyddiadau eraill ac amodau ar sefyllfa ariannol neu berfformiad ariannol y Cyd-Bwyllgor. Pan wneir newid, cyfrifir amdano yn ôl-weithredol (oni bai y nodir yn wahanol) trwy addasu balans agoriadol a ffigyrau cymharol y cyfnod blaenorol fel pe bai'r polisi wedi bodoli erioed.

Caiff gwallau materol a ddarganfyddir mewn ffigyrau cyfnodau blaenorol eu cywiro'n ôl-weithredol trwy addasu balans agoriadol a ffigyrau cymharol y cyfnod blaenorol.

1.7 Grantiau'r Llywodraeth a Chyfraniadau Eraill

Mae grantiau a chyfraniadau sy'n ymwneud â gwariant cyfalaf a refeniw yn cael eu cyfrifo ar sail croniadol, ac yn cael eu cydnabod ar unwaith fel incwm i'r gwasanaeth perthnasol o fewn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, oni bai bod amod ynghlwm wrth y grant neu gyfraniad nad yw'r Cyd-Bwyllgor wedi ei fodloni.

1.8 Gorbenion a Chostau Gwasanaethau Cefnogol

Mae'r taliadau am wasanaethau a ddarperir gan Adrannau Canolog Cefnogol o fewn Cyngor Gwynedd yn selliedig ar gyfuniad o brisiau a bennir ymlaen llaw, amser y staff a gofnodir, cofnodi trafodion a fformiwlâu penodedig.

1.9 Costau heb eu Dosrannu

Mae'r mwyafrif o'r gwasanaethau cefnogol canolog yn cael eu dyrannu i'r rhaniad gwasanaeth yn unol â Côd Ymarfer Adrodd ar Wasanaeth (SeRCOP) 2014/15. Mae'r eitemau sydd yn cael eu heithrio o'r driniaeth yma yn cael eu diffinio fel Costau heb eu Dosrannau ac yn cynnwys cost buddiannau dewisol ddyfarnwyd i weithwyr sy'n ymddeol yn gynnar.

1.10 Darpariaethau

Mae'r Cyd-Bwyllgor yn gosod darpariaethau o'r neilltu ar gyfer ymrwymadau penodol sy'n debygol neu'n sicr o godi ond ni ellir ar hyn o bryd eu pennu'n gywir. Dosberthir y darpariaethau hyn fel ymrwymadau tymor hir neu dymor byr fel sy'n briodol yn ddibynnol ar natur bob darpariaeth.

1.11 Reserfau

Mae reserfau penodol yn cael eu creu ar gyfer rhoi symiau o'r neilltu ar gyfer cynlluniau gwario'r dyfodol. Mae hyn yn cael ei wneud drwy drosglwyddiadau allan o'r Balans Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau.

NODYN 1 – POLISIÂU CYFRIFO (parhad)

Cedwir rhai reserfau eraill sef 'Reserfau na ellir eu defnyddio' i bwrpasau technegol o reoli'r prosesau cyfrifo ar gyfer asedau anghyfredol, offerynnau ariannol a buddion gweithwyr. Nid yw'r rhain yn cynrychioli adnoddau defnyddiadwy y Cyd-Bwyllgor.

1.12 Treth ar Werth

Dim ond mewn sefyllfa ble nad oes modd adennill TAW, y cynhwysir TAW neu'n ei dderbyn fel cost 'TAW anadferadwy'. Nid yw'r Cyd-Bwyllgor wedi cofrestru gyda TAW. Mae'r TAW yn cael ei adennill drwy gofrestrriad TAW Cyngor Gwynedd.

1.13 Dyledwyr a Chredydwyr

Cedwir Cyfrifon y Cyd-Bwyllgor ar sail cronni yn unol â'r Côd Ymarfer Cyfrifwaith. Mae'r cyfrifon yn adlewyrchu gwir wariant ac incwm yn berthnasol i'r flwyddyn dan sylw, p'run a'u os yw'r taliadau a'r derbyniadau wedi eu talu neu eu derbyn a'i peidio yn y flwyddyn.

1.14 Gweithrediadau wedi eu Cyd-reoli

Gweithrediadau a reolir ar y cyd yw'r gweithgareddau sy'n cael eu hymgymryd â hwy ar y cyd â mentrwyr eraill sy'n cynnwys defnyddio asedau ac adnoddau'r mentrwyr yn hytrach na sefydlu endid ar wahân.

Mae'r Cyd-Bwyllgor GwE wedi ei gategoreiddio fel Gweithred sydd wedi ei Gyd-reoli.

NODYN 2 – NEWID MEWN POLISI CYFRIFO

Nid oes unrhyw newid i'r polisiâu cyfrifo yn ystod y flwyddyn ariannol 2014/15.

NODYN 3 - SAFONAU CYFRIFEG SYDD WEDI EU CYHOEDDI OND HEB EU MABWYSIADU ETO

Mae'r Côd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig CIPFA 2014/15 wedi cyflwyno nifer o newidiadau i bolisiâu cyfrifeg a fydd yn weithredol o 1 Ebrill 2014. Mae'r newidiadau sy'n berthnasol i'r Cyd-Bwyllgor fel a ganlyn:

Gwelliannau Blynnyddol i SAARh Cylch 2011-2013 – gwelliannau mân yw rhain, yn bennaf yn profi eglurhad.

Mae'n anhebygol y bydd y newidiadau uchod yn cael effaith sylweddol ar Ddatganiad o Gyfrifon y Cyd-Bwyllgor.

NODYN 4 - BARN ALLWEDDOL WRTH DDEFNYDDIO'R POLISIÂU CYFRIFO

Wrth weithredu'r polisiâu cyfrifo a restrir yn Nodyn 1, mae'r Cyd-Bwyllgor wedi gorfod gwneud penderfyniadau, amcangyfrifon a thybiaethau ynghylch symiau'r asedau ac ymrwymadau i'w cario, nad yw'n amlwg o ffynonellau eraill.

Mae'r penderfyniadau, amcangyfrifon a thybiaethau cysylltiol a wnaed wedi eu selio ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill, y ffactorau eraill hynny yn dybiaethau a thafluniadau hanesyddol, cyfredol a dyfodol ac sy'n cael eu hystyried yn berthnasol.

Gwneir pob ymdrech i ddod o hyd i ac i ddefnyddio'r holl wybodaeth berthnasol wrth asesu a phennu'r sefyllfa, sy'n hynod allweddol wrth ystyried reserfau a glustnodwyd, darpariaethau ac ymrwymadau dibynnol. Gall y gwir ganlyniadau amrywio o'r canlyniadau ac amcangyfrifon. Mae'r amcangyfrifon a thybiaethau gwaelodol wastad yn cael eu hadolygu.

NODYN 5 - TYBIAETHAU WEDI EU GWNEUD AM Y DYFODOL A FFYNONELLAU ERAILL O AMCANGYFRIF ANSICR

Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn cynnwys ffigyrau wedi eu hamcangyfrif yn seiliedig ar dybiaethau wedi eu gwneud gan y Cyd-Bwyllgor am y dyfodol neu sydd yn ansicr fel arall. Mae'r amcangyfrifon wedi eu seilio ar brofiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan na ellir pennu rhai balansau yn bendant, gall y canlyniadau terfynol fod yn wahanol i'r tybiaethau ac amcangyfrifon.

Mae'r eitem ganlynol ar Fantolen y Cyd-Bwyllgor ar 31 Mawrth 2015 yn un a ystyrir gyda risg sylweddol (o ran sicrwydd y gwerth a amcangyfrifir) a allai arwain at gywiriadau arwyddocaol yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod:

- **Ymrwymiad Pensiwn** - Mae sefyllfa'r Ymrwymiad Pensiwn a adlewyrchir yn y cyfrifon yn seiliedig ar nifer o asesiadau a dyfarniadau cymhleth yn unol â'r wybodaeth a ddarparwyd gan Actwari Cronfa Bensiwn Gwynedd. Mae gwybodaeth bellach ar gael yn Nodyn 23 a 24.

NODYN 6 – EITEMAU MATEROL O INCWM A GWARIANT

Mae'r eitemau perthnasol yn cynnwys:-

- Newid o £2,524k yn y maes pensiwn ar ailfesuriad o'r ymrwymladau/(asedau) buddion diffiniedig net, yn unol ag asesiad Actwari Cronfa Bensiwn Gwynedd (Nodyn 15)
- Cynnydd o £3,902k mewn grantiau a chyfraniadau a'r gwariant cyfatebol (Nodyn 19).

NODYN 7 – DIGWYDDIADAU WEDI DYDDIAD Y FANTOLEN

Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw ddigwyddiadau ôl-fantolen.

NODYN 8 - ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU

Mae'r nodyn hwn yn manylu ar yr addasiadau a wneir i gyfanswm yr incwm a gwariant cynhwysfawr a gydnabyddir gan y Cyd-Bwyllgor yn ystod y flwyddyn yn unol ag ymarferion cyfrifo priodol i'r adnoddau hynny a benodir gan ddarpariaethau statudol yn rhai sydd ar gael i'r Cyd-Bwyllgor i gwrdd â gwariant yn y dyfodol.

2014/15		
ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU	Reserf Defnyddiwyd Balans Cronfa Gyfredinol	Symudiad mewn Reserfau na ellir eu defnyddio
	£'000	£'000
Addasiadau yn ymwneud â'r Gronfa Bensiwn:		
Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol wedi eu debydu/ credydu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (Nodyn 24)	(551)	551
Cyfraniadau pensiwn y Cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sydd yn daladwy yn y flwyddyn	552	(552)
Addasiadau yn bennaf ymwneud â'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig		
Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail cronniadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	(3)	3
Cyfanswm Addasiadau	(2)	2

NODYN 8 - ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU (parhad)

2013/14		
ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU		
	Reserf Defnyddiwyd Balans Cronfa Cyffredinol	Symudiad mewn Reserfau na ellir eu defnyddio
	£'000	£'000
Addasiadau yn ymwneud â'r Gronfa Bensiwn:		
Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol wedi eu debydu/ credydu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (Nodyn 24)	(886)	886
Cyfraniadau pensiwn y Cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sydd yn daladwy yn y flwyddyn	654	(654)
Addasiadau yn bennaf ymwneud â'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig		
Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	(50)	50
Cyfanswm Addasiadau	(282)	282

NODYN 9 – TROSGLWYDDIAD I/O RESERFAU A GLUSTNODWYD

Mae'r nodyn isod yn amlygu'r swm a neilltuwyd o'r Gronfa Gyffredinol mewn reserfau a glustnodwyd er mwyn darparu cyllid ar gyfer cynlluniau gwario'r dyfodol.

Reserfau a Glustnodwyd

	Reserfau Cyd-Bwyllgor GwE
	£'000
Balans 31 Mawrth 2014	777
<u>Trosglwyddiadau:</u>	
Rhwng Cronfeydd	0
Mewn	15
Allan	(495)
Balans 31 Mawrth 2015	297

NODYN 10 – GWARIANT AC INCWM ARIANNU A BUDDSODDI

2013/14		2014/15
£'000		£'000
185	Llog net yr ymrwymadau/(asedau) buddion diffiniedig net	136
185	Cyfanswm	136

NODYN 11 – DYLEDWYR TYMOR BYR

	31 Mawrth 2014 £'000	31 Mawrth 2015 £'000
Llywodraeth Cymru	0	1,812
Cyrff Llywodraeth Ganolog	2	67
Awdurdodau Lleol Eraill	1,022	3,638
Endidau Eraill ac Unigolion	17	13
Cyfanswm	1,041	5,530

NODYN 12 – CREDYDWYR TYMOR BYR

	31 Mawrth 2014 £'000	31 Mawrth 2015 £'000
Llywodraeth Cymru	0	1
Cyrff Llywodraeth Ganolog Eraill	46	57
Awdurdodau Lleol Eraill	277	3,968
Corfforaethau a Masnachu Cyhoeddus	6	0
Endidau Eraill ac Unigolion	111	385
Cyfanswm	440	4,411

NODYN 13 – DARPARIAETHAU

Mae'r Cyd-Bwyllgor yn gosod o'r neilltu ddarpariaethau ar gyfer ymrwymadau penodol na ellir ar hyn o bryd eu pennu'n sicr o ran maint neu amser. Ni chaniateir, yn unol ag egwyddorion cyfrifeg, i wneud darpariaethau ar gyfer patrymau gwariant anwastad. Fodd bynnag, gellir sefydlu reserfau wedi eu clustnodi a dangosir y rheiny yn Nodyn 9.

Mae'r darpariaethau a nodir isod wedi eu hadnabod yn rhai tymor hir (dros 12 mis). Fodd bynnag, cynhelir adolygiad cyfnodol ar lefel darpariaeth yr eitemau perthnasol.

	Balans ar 31 Mawrth 2014 £'000	(Ychwanegiad) / Gostyngiad / Trosglwyddiad £'000	Defnydd yn y flwyddyn £'000	Balans ar 31 Mawrth 2015 £'000
<u>Darpariaethau Tymor Hir</u>				
Darpariaeth Pensiwn	0	(4)	0	(4)
	0	(4)	0	(4)

Darpariaeth Pensiwn – darpariaeth ar gyfer gofynion pensiwn i'r dyfodol.

NODYN 14 – RESERFAU DEFNYDDIADWY

Mae'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau yn manylu ar y symudiad yn reserfau defnyddiadwy'r Cyd-Bwyllgor.

NODYN 15 – RESERFAU NA ELLIR EU DEFNYDDIO

31 Mawrth 2014		31 Mawrth 2015
£'000		£'000
(3,225)	Reserf Pensiynau	(4,644)
(50)	Cyfrif Absenoldeb Cronedig	(53)
(3,275)	Cyfanswm Reserfau na ellir eu defnyddio	(4,697)

Reserf Pensiynau

Mae'r Reserf Pensiynau yn amsugno'r gwahaniaethau amser sydd yn deillio o wahanol drefniadau cyfrifo ariannu buddion ymddeol yn unol â darpariaethau statudol. Mae'r Cyd-Bwyllgor yn cyfrifo buddion ymddeol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel mae'r buddion yn cronni blyneddoddd o wasanaeth, gyda'r rhwymedigaeth yn diweddar i adlewyrchu chwyddiant, newid tybiaethau ac enillion buddsoddiadau gan unrhyw adnoddau wedi ei neilltuo i gwrdd â'r gost. Fodd bynnag, mae anghenion statudol yn gofyn i fuddion wedi eu hennill cael eu ariannu fel y mae'r Cyd-Bwyllgor yn cyfrannu dros y gweithwyr i'r gronfa pensiwn neu yn y diwedd talu pensiwn ble mae'n bennaf gyfrifol. Mae balans debyd y Reserf Pensiynau felly yn dangos diffyg sylweddol yn y buddion enilledig gan gyn weithwyr a gweithwyr presennol ble mae'r Cyd-Bwyllgor wedi neilltuo i'w cyfarfod. Mae'r trefniadau statudol yn sicrhau bydd arian wedi ei neilltuo erbyn bydd y buddion angen eu talu.

2013/14		2014/15
£000		£000
(4,097)	Balans 1 Ebrill	(3,225)
1,104	Ailfesuriad ymrwymadau/(asedau) buddion diffiniedig net	(1,420)
(886)	Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol sydd wedi eu debydu neu gredydu i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	(551)
654	Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i pensiynwyr sy'n daladwy yn y flwyddyn	552
(3,225)	Balans 31 Mawrth	(4,644)

NODYN 15 – RESERFAU NA ELLIR EU DEFNYDDIO (parhad)

Cyfrif Absenoldeb Cronedig

Mae'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig yn amsugno'r gwahaniaethau fyddai fel arall yn ymddangos ar Falans y Gronfa Gyffredinol trwy gronni absenoldebau cyfadfer enilledig ond heb eu cymeryd yn y flwyddyn, e.e. hawl gwyliau blynyddol a ddygir ymlaen ar 31 Mawrth. Mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i'r effaith ar Falans y Gronfa Gyffredinol gael ei niwtraleiddio gan drosglwyddiadau i neu o'r Cyfrif.

2013/14		2014/15
£000		£000
0	Balans 1 Ebrill	(50)
(50)	Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi eu cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol	(3)
(50)	Balans 31 Mawrth	(53)

NODYN 16 – DATGANIAD LLIF ARIAN : ADDASIADAU I'R GWARGED NEU DDIFFYG NET AR DDARPARU GWASANAETHAU AM SYMUDIADAU ANARIANNOL

2013/14		2014/15
£'000		£'000
(440)	(Cynnydd)/Gostyngiad mewn Credydwy	(3,971)
1,041	Cynnydd/(Gostyngiad) mewn Dyledwy	4,489
(232)	Ymrwymiad Pensiwn	2
0	Eitemau anariannol eraill sydd wedi eu cynnwys yn y gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaeth	(125)
369		395

NODYN 17 – TALIADAU I SWYDDOGION

a. Mae Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) 2014, yn gosod dyletswydd ar y Cyd-Bwyllgor i ddatgan y wybodaeth ganlynol ar gyfer rhai sydd wedi eu dynodi fel Uwch Swyddogion, sydd gyda chyflog o rhwng £60,000 a £150,000. Yn unol â'r gofynion diffiniedig, cynhwysir isod y cyflog pensiynadwy a hefyd gyfraniadau pensiwn y cyflogwr ond ni chynhwysir cyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr. Gwnaed y taliadau canlynol i uwch swyddogion y Cyd-Bwyllgor:

2013/14				Uwch Swyddogion	2014/15			
Cyfraniadau		Costau			Cyfraniadau		Costau	
Pensiwn		Eraill			Pensiwn		Eraill	
Cyflog	Cyflogwr	Cyflogwr	Cyfanswm		Cyflog	Cyflogwr	Cyflogwr	Cyfanswm
£	£	£	£		£	£	£	£
34,749	11,363	72,170	118,282	Prif Swyddog ¹	0	0	0	
48,648	15,908	0	64,556	Prif Swyddog ²	83,397	22,840	22 106,259	

¹ Yn gyflogedig yn y swydd hyd at 31 Awst 2013

² Yn gyflogedig yn y swydd o 1 Medi 2013

NODYN 17 – TALIADAU I SWYDDOGION (parhad)

b. Talwyd y symiau canlynol i weithwyr eraill y Cyd-Bwyllgor a dderbyniodd mwy na £60,000 o dâl am y flwyddyn (ac eithrio cyfraniadau pensiwn ac yswiriant gwladol y cyflogwr) ond sydd yn cynnwys costau diswyddo a dalwyd mewn 1 achos yn 2014/15 a 3 achos yn 2013/14. Ni fyddai'r swyddi yma'n ymddangos isod heblaw'r costau diswyddo dalwyd yn y flwyddyn unigol.

Nifer gweithwyr eraill a dderbyniodd mwy na £60,000 sydd yn cynnwys cyflogau a chostau diswyddo:		
Nifer yn 2013-14		Nifer yn 2014-15
Cyfanswm		Cyfanswm
1	£60,000 - 64,999	0
1	£65,000 - 69,999	1
0	£70,000 - 74,999	1
0	£75,000 - 79,999	0
0	£80,000 - 84,999	0
0	£85,000 - 89,999	0
1	£90,000 - 94,999	0

NODYN 18 – COSTAU ARCHWILIO ALLANOL

Mae'r Cyd-Bwyllgor wedi derbyn y costau isod ar gyfer archwilio allanol.

2013/14	2014/15
£'000	£'000
6 Ffioedd ar gyfer Gwasanaeth Archwilio Allanol	8

NODYN 19 – INCWM GRANT

a. Mae'r Cyd-Bwyllgor wedi credydu'r grantiau, cyfraniadau a rhoddion canlynol i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr :

	2013/14		2014/15	
	£'000	£'000	£'000	£'000
Grantiau a Chyfraniadau wedi eu Credydu i Wasanaethau				
Llywodraeth Cymru -				
Her Ysgolion Cymru	0		1,174	
TGAU, PISA a Llythrennedd Gwyddoniaeth	0		510	
CPCP -Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth	0		81	
Datblygu Llythrennedd a Rhifedd - Cam 1	0		75	
Arall	0		241	
		0		2,081
Grantiau a Chyfraniadau gan Lywodraeth arall				
Cyngor Chwaraeon Cymru	0		95	
		0		95
Grantiau a Chyfraniadau eraill				
Cyfraniadau'r Cyngorau tuag at y Gwasanaeth Craidd				
Conwy	551		649	
Dinbych	531		629	
Fflint	791		931	
Gwynedd	635		748	
Ynys Môn	356		425	
Wrecsam	656		775	
		3,520		4,157
GEY a GGMA * :				
Ariannu Cyfatebol gan Gyngorau				
Conwy	0		204	
Dinbych	0		325	
Fflint	0		304	
Gwynedd	0		352	
Ynys Môn	0		215	
Wrecsam	0		354	
Llywodraeth Cymru	0		152	
		0		1,906
Arall		853		36
		4,373		6,099
Cyfanswm Grantiau a Chyfraniadau wedi eu Credydu i Wasanaethau				
		4,373		8,275

* Model Cenedlaethol : yr elfen heb ei ddatganoli o'r Grant Effeithiolrwydd Ysgolion (GEY) a Grant y Gymraeg Mewn Addysg (GGMA) yn cynnwys y cyfraniadau ariannu cyfatebol gan awdurdodau.

NODYN 19 – INCWM GRANT (parhad)

b. Mae'r Cyd-Bwyllgor wedi derbyn grant sydd eto i'w adnabod fel incwm gan fod amodau wedi ei glynu i'r grant sy'n golygu y bydd rhaid dychwelyd yr arian i'r rhoddwr. Mae'r balans ar ddiwedd y flwyddyn fel a ganlyn:

	31 Mawrth 2014 £'000	31 Mawrth 2015 £'000
Derbyniadau Grantiau a Chyfraniadau Ymlaen Llaw		
<u>Tymor Byr</u>		
Cyngor Chwaraeon Cymru	0	120
Cyfanswm	0	120

NODYN 20 – PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Mae'n ofynnol i'r Cyd-Bwyllgor ddatgelu trafodaethau materol-berthnasol gyda phartïon cysylltiedig - cyrff neu unigolion sydd â'r potensial i reoli neu ddylanwadu'r Cyd-Bwyllgor, neu i gael eu rheoli neu ddylanwadu gan y Cyd-Bwyllgor. Mae datgelu'r trafodaethau hyn yn galluogi'r darllenwyr i asesu a oes cyfyngiad ar allu'r Cyd-Bwyllgor i weithredu'n annibynnol, neu a yw'n medru cyfyngu ar allu parti arall i fargeinio'n rhydd gyda'r Cyd-Bwyllgor.

Aelodau

Mae gan aelodau'r Cyd-Bwyllgor ddylanwad dros bolisiau ariannol a gweithredol y Cyd-Bwyllgor.

Mae aelodau wedi datgan diddordeb neu berthynas (fel y diffinnir) mewn cwmnïau neu fusnesau a all fod yn ymdrin â'r Cyd-Bwyllgor. Mae dadansoddiad o'r taliadau a'r balansau ar 31 Mawrth 2015 wnaed i'r cwmnïau yma yn ystod 2014/15 o dan y pennawd yma fel a ganlyn:

Taliadau a wnaethpwyd	Symiau sy'n ddyledus gan y Cyd-Bwyllgor	Symiau sy'n ddyledus i'r Cyd-Bwyllgor
£'000	£'000	£'000
4	2	0

Mae'r ffigyrau yn seiliedig ar y wybodaeth parthed dychweliadau Cyngorwyr .

Swyddogion

Mae Uwch Swyddogion (fel a ddiffinnir) y Cyd-Bwyllgor wedi datgan fel sydd yn ofynnol a phriodol, ddiddordeb neu berthynas (fel y diffinnir) mewn cwmnïau, cyrff gwirfoddol, elusennol neu gyhoeddus sydd yn derbyn taliadau gan y Cyd-Bwyllgor. Ni wnaed unrhyw daliadau i'r cwmnïau yma yn ystod 2014/15 ac nid oes unrhyw swm yn ddyledus gan nac i'r Cyd-Bwyllgor gan y cwmnïau a nodwyd.

NODYN 21 – PECYNNAU TERFYNU GWAITH

Mae'r nifer o becynnau terfynu gwaith sydd yn cynnwys cyfanswm y gost fesul band a chyfanswm cost y diswyddiadau gorfodol ac eraill wedi eu cynnwys yn y tabl isod. Mae'r gost yn y tabl isod yn adlewyrchu'r gost berthnasol i'r cyflogwr yn hytrach na gwir gost y taliadau i'r unigolion. Yn 2013/14 roedd yr holl becynnau a restrir yn ymwneud â swyddogion a drosglwyddwyd drosodd i GwE ac fe'u harianwyd yn gyfangwbl gan yr awdurdodau gwreiddiol (gweler Nodyn 22).

(a)	(b)		(c)		(d)		(e)	
Band cost y pecynnau terfynu gwaith (yn cynnwys taliadau arbennig)	Nifer diswyddiadau gorfodol		Nifer yr ymadawiadau cytunedig eraill		Nifer y pecynnau terfynu gwaith fesul band cost		Cyfanswm cost y pecynnau terfynu gwaith ymhob band	
	2013/14	2014/15	2013/14	2014/15	2013/14	2014/15	2013/14	2014/15
£	Nifer	Nifer	Nifer	Nifer	Nifer	Nifer	£'000	£'000
0 - 20,000	4	0	0	0	4	0	56	0
20,001 - 40,000	6	0	0	0	6	0	158	0
40,001 - 60,000	6	0	0	0	6	0	273	0
60,001 - 80,000	3	1	0	0	3	1	199	69
80,001 - 100,000	1	0	0	0	1	0	95	0
100,001 - 150,000	0	0	0	0	0	0	0	0
Cyfanswm	20	1	0	0	20	1	781	69

NODYN 22 – EITEM EITHRIADOL

Mae'r eitem eithriadol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (2013/14) yn nodi'r costau sefydlu unwaith ac am byth y Cyd-Bwyllgor GwE. Y brif elfen yw costau'r pecynnau terfynu gwaith, fel a nodir yn Nodyn 21, a ariennir gan gyfraniadau o'r awdurdodau gwreiddiol.

NODYN 23 - CYNLLUNIAU PENSIWN A GYFRIFIR AMDANYNT FEL CYNLLUNIAU CYFRANIADAU DIFFINIEDIG

Mae athrawon sy'n cael eu cyflogi gan y Cyd-Bwyllgor yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Athrawon, sy'n cael ei weinyddu gan yr Adran dros Addysg y Llywodraeth. Mae'r cynllun yn rhoi buddion penodol i Athrawon ar eu hymddeoliad, ac mae'r Cyd-Bwyllgor yn cyfrannu tuag at y gost drwy dalu cyfraniadau sy'n seiliedig ar dâl pensiynadwy aelodau.

Mewn egwyddor cynllun buddiannau diffiniedig yw'r cynllun. Er hynny, mae'r cynllun heb ei ariannu ac mae'r Adran dros Addysg yn defnyddio cronfa ddamcaniaethol er mwyn cyfrifo cyfradd cyfraniad cyflogwyr i'w talu gan awdurdodau lleol. Nid yw'r Cyd-Bwyllgor yn gallu adnabod ei rhan o'r sefyllfa

NODYN 23 - CYNLLUNIAU PENSIWN A GYFRIFIR AMDANYNT FEL CYNLLUNIAU CYFRANIADAU DIFFINIEDIG (parhad)

ariannol waelodol a pherfformiad y cynllun gyda digon o ddibynadwyedd at ddibenion cyfrifo. At ddiben y Datganiad o'r Cyfrifon, maent felly yn cael eu cyfrifo ar yr un sail a chynllun cyfraniadau diffiniedig.

Yn 2014/15 talodd y Cyd-Bwyllgor £7k (2013/14: £2k) am gost pensiwn athrawon, oedd yn cynrychioli 14.10% o dâl pensiynadwy athrawon. Yn ychwanegol at hyn mae'r Cyd-Bwyllgor yn gyfrifol am gostau unrhyw fuddiannau ychwanegol a dyfarnir ar ymddeoliad cynnar tu allan i delerau'r cynllun athrawon. Nid oedd unrhyw gostau am hyn yn 2014/15 a 2013/14. Cyfrifir am y costau hyn ar sail buddiannau diffiniedig a'u cynhwysir yn Nodyn 24.

NODYN 24 – COSTAU PENSIWN

Fel rhan o delerau ac amodau gwaith eu swyddogion a'u gweithwyr eraill, mae'r Cyd-Bwyllgor yn gwneud cyfraniadau at gostau buddiannau ar ôl cyflogaeth. Er nad yw'r buddion yma yn cael eu talu hyd nes i'r gweithwyr ymddeol, mae gan y Cyd-Bwyllgor ymrwymiad i wneud y taliadau. Mae'n rhaid eu dangos ar yr adeg mae'r gweithwyr yn ennill eu hawliau yn y dyfodol.

Mae GwE yn ymwneud â dau gynllun buddiannau ar ôl cyflogaeth:

- a) **Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol** a weinyddir yn lleol gan Gyngor Gwynedd. Mae'n gynllun wedi ei ariannu, gyda buddion a ddiffinnir a phensiwn cyflog terfynol, sy'n golygu bod yr Awdurdod a'r gweithwyr yn talu cyfraniadau i'r gronfa, sydd wedi eu cyfrifo ar lefel sydd i fod i falansio ymrwymadau'r gronfa gyda'r asedau a fuddsoddir.
- b) **Trefniadau ar gyfer dyfarniad buddiannau ar ôl ymddeol wrth ymddeol yn fuan.** Trefniant buddion a ddiffinnir heb ei ariannu yw hyn, lle adnabyddir yr ymrwymadau wrth wneud y dyfarniad. Er hynny, nid oes asedau buddsoddi wedi eu cronni er mwyn cwrdd â'r ymrwymadau pensiwn, ac mae angen cynhyrchu arian er mwyn cwrdd â gwir daliadau pensiwnau wrth iddynt ddod yn ddyledus.

Mae Cronfa Pensiwn Gwynedd yn cael ei gweithredu dan y fframwaith rheoleiddio ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a Phwyllgor Pensiwnau Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am lywodraethu'r cynllun. Caiff y polisi ei bennu yn unol â Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Y pwyllgor sy'n penodi rheolwyr buddsoddi'r gronfa.

Y prif risgiau i'r Cyd-Bwyllgor o'r cynllun yw'r rhagdybiaethau hirhoedledd, newidiadau statudol i'r cynllun, newidiadau strwythurol i'r cynllun (megis nifer fawr yn tynnu allan o'r cynllun), newidiadau i chwyddiant, enillion bondiau a pherfformiad buddsoddiadau ecwiti a ddelir yn y cynllun. Mae'r rhain wedi'u lliniaru i ryw raddau gan y gofynion statudol i godi'r symiau sy'n ofynnol gan statud fel y disgrifir yn y nodyn polisiâu cyfrifo i'r Cyd-Bwyllgor.

Trafodion sydd yn Perthyn i Fuddion ar ôl Cyflogaeth

Mae'r Cyd-Bwyllgor yn adnabod cost y buddion ymddeol yng nghost gwasanaethau a adroddir pan mae gweithwyr yn eu hennill, yn hytrach na phan mae'r buddion yn cael eu talu. Fodd bynnag, mae'r gost sydd rhaid ei ddangos yn erbyn Treth y Cyngor yn seiliedig ar yr arian a delir yn ystod y flwyddyn. Felly, mae gwir gost buddion ar ôl cyflogaeth/ymddeol yn cael eu gwrth-droi allan o Gronfa Gyffredinol y Cyd-Bwyllgor trwy'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau. Yn ystod y flwyddyn mae'r trafodion canlynol wedi cael eu gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a Balans y Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau.

NODYN 24 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Newid mewn Gwerth Teg Asedau'r Cynllun, Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir ac Ymrwymiad Net	Cyfnod yn gorffen 31 Mawrth 2014			Cyfnod yn gorffen 31 Mawrth 2015		
	Asedau	Ymrwymia dau	(Ymrwymia dau) /asedau net	Asedau	Ymrwymia dau	(Ymrwymia dau) /asedau net
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwerth Teg Asedau'r Cyflogwr	9,806	0	9,806	10,980	0	10,980
Gwerth Presennol Ymrwymiaid wedi eu hariannu		(13,903)	(13,903)	0	(14,205)	(14,205)
Gwerth Presennol Ymrwymiaid heb eu hariannu		0	0	0	0	0
Sefyllfa Agoriadol ar 31 Mawrth	9,806	(13,903)	(4,097)	10,980	(14,205)	(3,225)
Cost Gwasanaeth						
Cost Gwasanaeth Cyfredol*	0	(414)	(414)	0	(415)	(415)
Cost Gwasanaeth y Gorffennol (gan gynnwys cwtogiadau)	0	(287)	(287)	0	0	0
Cyfanswm Cost Gwasanaeth	0	(701)	(701)	0	(415)	(415)
Llog Net						
Incwm Llog ar Asedau'r Cynllun	447	0	447	484	0	484
Cost Llog ar Fuddion a Ddiffinnir Ymrwymiad	0	(632)	(632)	0	(620)	(620)
Cyfanswm Llog Net	447	(632)	(185)	484	(620)	(136)
Cyfanswm Cost Buddion a Ddiffinnir a Adnabyddir mewn Elw / (Colled)	447	(1,333)	(886)	484	(1,035)	(551)
Llif Arian						
Cyfraniadau Aelodau'r Cynllun	109	(109)	0	142	(142)	0
Cyfraniadau y Cyflogwr	645	0	645	540		540
Cyfraniadau ynglŷn â buddion wedi eu hariannu	0	0	0	0	0	0
Buddion a Dalwyd	(406)	406	0	(137)	137	0
Buddion Heb eu Hariannu a Dalwyd	0	0	0	0	0	0
Sefyllfa Cau y Disgwyllir	10,601	(14,939)	(4,338)	12,009	(15,245)	(3,236)
Ail Fesuriadau						
Newid mewn Tybiaethau Demograffig	0	0	0	0	0	0
Newid mewn Tybiaethau Ariannol	0	(420)	(420)	0	(2,376)	(2,376)
Profiadau Eraill	0	1,154	1,154	0	67	67
Enillion ar Asedau ac eithrio symiau a gynhwysir yn llog net	379	0	379	901	0	901
Cyfanswm yr Holl Ail Fesuriadau yn Incwm Cynhwysfawr Arall (ICA)	379	734	1,113	901	(2,309)	(1,408)
Gwerth Teg Asedau'r Cyflogwr	10,980	0	10,980	12,910	0	12,910
Gwerth Presennol Ymrwymiaid wedi eu hariannu	0	(14,205)	(14,205)	0	(17,554)	(17,554)
Gwerth Presennol Ymrwymiaid heb eu hariannu	0	0	0	0	0	0
Sefyllfa Cau ar 31 Mawrth	10,980	(14,205)	(3,225)	12,910	(17,554)	(4,644)

* Mae'r cost gwasanaeth cyfredol yn cynnwys lwfans 0.5% cyflogau ar gyfer costau gweinyddiaeth.

NODYN 24 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Prif Gategoriâu Asedau'r Cynllun fel Canran o Gyfanswm Asedau'r Cynllun

Mae'r actwari wedi darparu dadansoddiad manwl o asedau'r Gronfa yn unol â gofynion IAS19. Mae'r dadansoddiad hwn yn gwahaniaethu rhwng natur a risg yr asedau hynny ac yn eu torri i lawr ymhellach i'r rheini sydd â dyfynbris mewn marchnad actif, a'r rheini nad oes ganddynt. Tybir bod rhaniad asedau GwE ar yr un gyfrannedd â dyraniad asedau'r Gronfa fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2014. Mae'r tabl uchod yn dangos y rhaniad. Mae'r actwari yn amcangyfrif bod gwerth bid asedau'r Gronfa yn £1,486,000,000 ar 31 Mawrth 2015, yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan yr Awdurdod Gweinyddol a chan roi ystyriaeth i enillion mynegai lle bo hynny'n briodol.

Gwerth Teg Asedau'r Cyflogwr

Mae gwerth yr asedau isod a'r gwerth bid yn unol â gofynion IAS19.

Categori Ased	Ar 31 Mawrth 2014				Ar 31 Mawrth 2015			
	Prisiau a ddyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithredol	Prisiau heb eu dyfynnu mewn Marchnadoedd Gweithredol	Cyfanswm		Prisiau a ddyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithredol	Prisiau heb eu dyfynnu mewn Marchnadoedd Gweithredol	Cyfanswm	
	£'000	£'000	£'000	%	£'000	£'000	£'000	%
Ernesau Ecwiti								
Defnyddiwr	206	0	206	2	358	0	358	3
Ynni a Gwasanaethau	263	0	263	2	266	0	266	2
Sefydliadau Ariannol	92	0	92	1	201	0	201	2
Iechyd a Gofal	487	0	487	4	537	0	537	4
Technoleg Gwybodaeth	306	0	306	3	375	0	375	3
Eraill	501	0	501	5	654	0	654	4
Ecwiti Preifat								
Y cyfan	0	525	525	5	0	546	546	5
Eiddo Diriaethol								
Eiddo y DU	0	945	945	9	0	1,238	1,238	10
Eiddo Tramor	0	28	28	0	0	37	37	0
Cronfeydd								
Buddsoddi ac Ymddiriedolaethau								
Unedol								
Ecwiti	2,463	3,217	5,680	52	2,948	3,668	6,616	51
Bondiau	0	1,632	1,632	15	0	1,788	1,788	14
Is-adeiladwaith	0	48	48	0	0	61	61	0
Deilliadau								
Chwyddiant	0	0	0	0	0	0	0	0
Arian a Chyferwerthoedd								
Arian								
Y cyfan	268	0	268	2	233	0	233	2
Cyfanswm	4,586	6,395	10,981	100	5,572	7,338	12,910	100

NODYN 24 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Sail ar gyfer amcangyfrif asedau ac ymrwymïadau

Mae'r ymrwymïadau wedi cael ei hasesu ar sail actiwariad gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau, sef amcangyfrif o'r pensiwn fydd yn daladwy yn y dyfodol yn ddibynnol ar dybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaeth, disgwyliad oes a lefelau cyflog. Mae disgwyliad oes yn seiliedig ar ragamcanion penodol i'r gronfa a elwir yn VitaCurves a thybir bod gwelliant tymor hir eisoes wedi cyrraedd yr eithaf, sydd gyfystyr â 1.25% y flwyddyn.

Mae Hymans Robertson, cwmni actwari annibynnol, wedi amcangyfrif ymrwymïadau Cynllun Pensiwn Gwynedd ac ymrwymïadau Buddion Dewisol. Roedd amcangyfrifon Cynllun Pensiwn Gwynedd yn seiliedig ar y prisiad llawn ddiweddaraf o'r cynllun fel yr oedd ar 31 Mawrth 2013. Mae'r rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddir gan yr actwari fel a ganlyn:-

	31 Mawrth 2014	31 Mawrth 2015
Tybiaethau Ariannol	% y.f.	% y.f.
Cyfradd Codiad Pensiynau	2.8	2.4
Cyfradd Codiad Cyflogau*	4.6	4.3
Cyfradd Chwyddiant	2.8	2.4
Cyfradd ar gyfer gostwng ymrwymïadau'r Cynllun	4.3	3.2
Cyfradd Enillion Tymor Hir a Ddisgwyliar ar yr holl asedau	4.3	3.2
Nifer a ddisgwyliar i gymryd yr opsiwn i drosi pensiwn blynyddol i lwmp swm ymddeol		
am wasanaeth cyn Ebrill 2008	50	50
am wasanaeth ar ôl Ebrill 2008	75	75
Tybiaethau Marwolaeth	Blynyddoedd	Blynyddoedd
Hyd oes ar 65 oed am bensiynwyr cyfredol		
Dynion	22	22
Merched	24	24
Hyd oes ar 65 oed am bensiynwyr y dyfodol		
Dynion	24.4	24.4
Merched	26.6	26.6

*Tybir bod cynnydd mewn cyflogau yn 1% y flwyddyn tan 31 Mawrth 2016 gan ddychwelyd i'r dybiaeth tymor hir a ddangosir wedi hynny.

Mae'r amcangyfrifiad o'r rhwymedigaethau buddion diffiniedig yn sensitif i'r rhagdybiaethau actiwariad sydd wedi'u nodi yn y tabl uchod. Er mwyn meintioli effaith unrhyw newid yn y rhagdybiaethau ariannol a ddefnyddir, mae'r actwari wedi cyfrifo a chymharu gwerth ymrwymïadau'r cynllun fel yr oeddynt ar 31 Mawrth 2014 ar seiliau amrywiol. Mae'r dull a ddefnyddiwyd yn gyson â'r dull a fabwysiadwyd i gael y ffigurau IAS19 a ddarperir yn y nodyn hwn.

Er mwyn meintioli'r ansicrwydd disgwyliad hyd oes, mae'r actwari wedi cyfrifo'r gwahaniaeth yn y gost i'r Cyd-Bwyllgor pe bai cynnydd o flwyddyn mewn disgwyliad oes. Yn nhermau sensitifrwydd, caiff hyn ei dybio i fod yn gynnydd o thua 3% yn y gost o fudd-daliadau. Yn ymarferol bydd gwir gost cynnydd o flwyddyn mewn disgwyliad oes yn ddibynnol ar strwythur y dybiaeth ddiwygiedig (h.y. os yw gwelliannau mewn cyfraddau goroesi yn bennaf berthnasol i oeddrannau iau neu hŷn). Mae'r ffigurau yn y tabl isod wedi deillio'n seiliedig ar broffil aelodaeth y Cyd-Bwyllgor fel yr oedd ar 31 Mawrth 2013, dyddiad y prisiad actwariad mwyaf diweddar. Mae'r dull a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r dadansoddiad sensitifrwydd a ddangosir isod yn gyson â'r dull a ddefnyddiwyd y flwyddyn cynt.

NODYN 24 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Effaith ar Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir yn y Cynllun Newid tybiaeth	Cynnydd bras i'r Cyflogwr 31 Mawrth 2015	Swm ariannol bras 31 Mawrth 2015
	%	£'000
lleihad 0.5% i'r gwir cyfradd disgownt	10	1,832
cynnydd flwyddyn i'r disgwyliad oes	3	527
cynnydd 0.5% i'r cyfradd codiad cyflog	3	596
cynnydd 0.5% i'r gyfradd codiad pensiwn	7	1,191

Effaith ar Lif Arian y Cyd-bwyllgor

Un o amcanion y cynllun yw y dylid cadw cyfraniadau cyflogwyr ar gyfradd mor gyson â phosib. Mae Cyngor Gwynedd wedi cytuno ar strategaeth gydag actwari'r gronfa i gyflawni lefel cyllido o 100% dros yr 20 mlynedd nesaf. Caiff lefelau cyllido eu monitro'n flynyddol.

Caiff y cyfraniadau a delir gan y Cyd-Bwyllgor eu gosod gan Actwari'r Gronfa yn y prisiad pob tair blynedd (y mwyaf diweddar oedd 31 Mawrth 2013), neu ar unrhyw adeg arall pan roddir cyfarwyddyd i wneud hynny gan yr Awdurdod Gweinyddol. Mae'r cyfraniadau sy'n daladwy dros y cyfnod tan 31 Mawrth 2017 wedi'u gosod yn y dystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau. Am fanylion pellach ar y dull a ddefnyddiwyd i osod cyfraddau cyfrannu ar gyfer y Cyd-Bwyllgor, cyfeiriwch at adroddiad actwaraidd 2013, dyddiedig 31 Mawrth 2014.

Gwybodaeth am yr Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir

	Rhaniad Ymrwymiad		Parhad
	£'000	%	
Aelodau Gweithredol	12,867	73.3	22.6
Aelodau Gohiriedig	389	2.2	33.7
Aelodau Pensiynwyr	4,298	24.5	14.7
Cyfanswm	17,554	100.0	20.6

Mae'r ffigyrau uchod yn cynnwys ymrwymïadau wedi eu hariannu ac nad ydynt yn cynnwys ymrwymïadau pensiynwyr heb eu hariannu. Mae'r parhad yn effeithiol ar brisiad swyddogol blaenorol ar 31 Mawrth 2013.

Effaith ym Mlynnyddoedd yDyfodol

Disgwylir i gyfanswm y cyfraniadau a wneir i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gan y Cyd-Bwyllgor fod yn £513,000 yn y flwyddyn i 31 Mawrth 2016.

O ganlyniad i faterion amseriad a'r ffaith fod adroddiad yr Actiwari yn seiliedig ar amcangyfrifon, mae gwahaniaeth o £12,650 yn 2014/15 (£8,523 yn 2013/14) rhwng ffigyrau diffyg yn y Gronfa yn ôl yr actiwari i gymharu gyda'r Ymrwymiad yn perthyn i Gynllun Pensiwn buddiannau wedi eu diffinio yn y Fantolen. Mae'r gwahaniaeth yma wedi ei drin fel Enillion a Cholledion Actiwaraidd ar Asedau ac Ymrwymïadau Pensiwn ac felly wedi eu cynnwys yn y ffigyrau Ymrwymiad yn perthyn i Gynllun Pensiwn buddiannau wedi eu diffinio yn y Fantolen.

CYD-BWYLLGOR GwE

CYFRIF INCWM A GWARIANT REFENIW 2014/15

	Cyllideb Terfynol £	Gwariant Terfynol £	Gor / (Tan) Wariant Net £
Gwariant			
Gweithwyr			
Cyflogau			
- Rheolaeth, Broceru, Safonau a Gweinyddiaeth	729,815	538,893	(190,922)
- Ymgynghorwyr Her	2,189,794	2,172,883	(16,911)
Costau Diswyddo	0	131,925	131,925
Hyfforddiant, hysbysebu a costau gweithwyr eraill	25,230	33,993	8,763
Adeilad			
Rhent (yn cynnwys gwasanaethau)	50,640	41,841	(8,799)
Cludiant			
Costau Teithio	186,780	105,355	(81,425)
Cyflenwadau a Gwasanaethau			
Dodrefn, offer, argraffu, post, ffon, hurio stafelloedd ayb	22,140	38,840	16,700
Technoleg Gwybodaeth	16,329	23,604	7,275
Ffioedd archwilio	7,590	7,590	0
Broceru	255,250	270,018	14,768
Costau Gwasanaethau Cefnogol Awdurdod Lletyol Cyngor Gwynedd			
Cyfreithiol	5,107	5,107	0
Adnoddau Dynol	8,754	8,754	0
Cyllid	37,856	37,856	0
Technoleg Gwybodaeth	25,525	41,854	16,329
Ymrwymadau Model Cenedlaethol	595,446	595,446	0
Defnydd o'r Gronfa Tanwariant			
Cefnogaeth Ysgol i Ysgol	0	387,900	387,900
Eraill	0	157,865	157,865
Prosiectau Penodol			
Cydllynydd Rhanbarthol - Rhaglen Gymorth Genedlaethol: Llythrennedd a Rhifedd	14,882	14,882	0
Grant Effeithiolrwydd Ysgolion (GEY)	1,297,961	1,371,079	73,118
Grant y Gymraeg Mewn Addysg (GGMA)	608,243	608,243	0
Cyrsiau Dyfal Donc	66,310	77,946	11,636
Llythrennedd a rhifedd	5,000	5,000	0
Rhaglen Llythrennedd Corfforol i Ysgolion (PLPS)	95,297	95,297	0
Her Ysgolion Cymru	1,194,705	1,194,705	0
TGAU / PISA	510,842	510,842	0
Cefnogaeth i Bagloriaeth	58,055	58,055	0
Cefnogaeth Consortia GAD	40,033	40,033	0
Datblygu Llythrennedd a rhifedd - Cam 1	75,000	75,000	0
EDIIP	45,667	45,667	0
CPCP	81,343	81,343	0
Mentora a Penaethiaid	21,000	21,000	0
LiDW	56,174	56,174	0
Cyfanswm Gwariant	8,326,768	8,854,990	528,222

CYD-BWYLLGOR GwE

CYFRIF INCWM A GWARIANT REFENIW 2014/15

	Cyllideb Terfynol £	Gwariant Terfynol £	Gor / (Tan) Wariant Net £
<u>Incwm</u>			
Cyfraniadau ar gyfer costau rhedeg y gwasanaeth craidd			
- Cyngor Ynys Môn (10.23%)	(425,039)	(425,039)	0
- Cyngor Gwynedd (17.99%)	(747,738)	(747,738)	0
- Cyngor Conwy (15.61%)	(648,868)	(648,868)	0
- Cyngor Dinbych (15.14%)	(629,293)	(629,293)	0
- Cyngor Fflint (22.38%)	(930,260)	(930,260)	0
- Cyngor Wrecsam (18.65%)	(775,058)	(775,058)	0
Incwm Amrywiol - Cwrs Rhaglen Arweinyddiaeth / CYSAG ayb	0	(29,662)	(29,662)
Defnydd o Tanwariant	0	(545,765)	(545,765)
Prosiectau Penodol			
Grant Effeithiolrwydd Ysgolion (GEY) - LIC (Llywodraeth Cymru)	(1,297,961)	(1,297,961)	0
Grant y Gymraeg Mewn Addysg (GGMA) - LIC	(608,243)	(608,243)	0
Cydlynnydd Rhanbarthol - Rhaglen Gymorth Genedlaethol: Llythrennedd a Rhifedd - LIC	(14,882)	(14,882.00)	0
Cyrsiau Dyfal Donc	(66,310)	(66,310)	0
Llythrennedd a rhifedd - LIC	(5,000)	(5,000)	0
Rhaglen Llythrennedd Corfforol i Ysgolion (PLPS) - Cyngor Chwaraeon Cymru	(95,297)	(95,297)	0
Her Ysgolion Cymru - LIC	(1,194,705)	(1,194,705)	0
TGAU, PISA a Llythrennedd Gwyddoniaeth - LIC	(510,842)	(510,842)	0
Cefnogaeth i Bagloriaeth - LIC	(58,055)	(58,055)	0
Cefnogaeth Consortia GAD - LIC	(40,033)	(40,033)	0
Datblygu Llythrennedd a rhifedd - Cam 1 - LIC	(75,000)	(75,000)	0
EDIIP - "Education Data and Information Improvement Project" - LIC	(45,667)	(45,667)	0
CPCP -Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth - LIC	(81,343)	(81,343)	0
Mentora a Penaethiaid - LIC	(21,000)	(21,000)	0
LiDW - "Learning in Digital Wales" - Hyfforddiant - LIC	(56,174)	(56,174)	0
Llog ar falansau	0	(3,727)	(3,727)
Cyfanswm Incwm	(8,326,768)	(8,905,922)	(579,154)
Cyfanswm	0	(50,932)	(50,932)
<u>Memorandwm -</u>			
<u>Y Gronfa Tanwariant</u>			
			£
Cyfanswm y Gronfa ar 1 Ebrill 2014			(761,662)
Ychwaneger - Tanwariant am y flwyddyn gyllidol 2014/15			(50,932)
Llai - Defnydd o'r Gronfa			545,765
Cyfanswm y Gronfa ar 31 Mawrth 2015			(266,829)
Llai - ymrwymadau			135,000
Heb ei Ymrwymo			(131,829)
<u>Cronfa Adnewyddu Technoleg Gwybodaeth</u>			
Cyfanswm y Gronfa ar 1 Ebrill 2014			(15,000)
Ychwaneger - Cyfraniad am y flwyddyn gyllidol 2014/15			(15,000)
Cyfanswm y Gronfa ar 31 Mawrth 2015			(30,000)

1. AMRYWIADAU ARIANNOL

1.1 Gweithwyr - Rheolaeth, Broceru, Safonau a Gweinyddiaeth: Tanwariant (£191,000):

Yn dilyn addasiad parhaol i'r gyllideb er mwyn ariannu swyddi Pennaeth Safonau, Pennaeth Broceru a Chefnogaeth, a dwy swydd yn gysylltiedig â throsglwyddiad gwaith gweinyddol y Swyddfa Consortiwm i'r GwE (yn unol â gofynion y 'Model Cenedlaethol'), bydd tanwariant unwaith ac am byth eleni gan na fydd costau blwyddyn gyfan ar gyfer y swyddi yma yng nghyfrifon 2014/15. Yn ychwanegol mae amser staff rheolaethol a gweinyddol yn gweithio ar gynlluniau ychwanegol yn cael ei ariannu drwy brosiectau penodol.

Dim newid o sylwedd i'r hyn adroddwyd yn yr adolygiad trydydd chwarter.

1.2 Gweithwyr – Ymgynghorwyr Her: Tanwariant (£17,000):

Sefyllfa derfynol yw tanwariant unwaith ac am byth eleni gan nad yw rhai o weithwyr GwE ar uchafswm eu graddfa gyflog, ac yn dilyn secondiadau i weithio ar brosiectau penodol.

Dim newid o sylwedd i'r hyn adroddwyd yn yr adolygiad trydydd chwarter.

1.3 Gweithwyr - Costau Diswyddo: Gorwariant £132,000:

Cost unwaith ac am byth o ganlyniad i drosglwyddiad gwaith y Swyddfa Consortiwm i'r GwE (yn unol â gofynion y Model Cenedlaethol) gydag asesiad yn arwain at leihau'r nifer swyddi sydd ei angen.

Dim newid i'r hyn adroddwyd yn yr adolygiad trydydd chwarter.

1.4 Gweithwyr - Hyfforddiant, hysbysebu a chostau gweithwyr eraill: Gorwariant £9,000:

Mae costau hysbysebu uwch na'r arfer, gan gynnwys hysbysebu dwy swydd newydd (Pennaeth Broceru a Chefnogaeth a Phennaeth Safonau).

Dim newid o sylwedd i'r hyn adroddwyd yn yr adolygiad trydydd chwarter.

1.5 Adeilad: Tanwariant (£9,000):

Mae cost cytundebau rhent cyfredol yn llai na'r gyllideb a sefydlwyd yn achos busnes y prosiect pryd sefydlwyd GwE. Fel sydd eisoes wedi ei gytuno, mae'r gwasanaeth yn symud o'u swyddfeydd presennol yng Nghaernarfon a Chonwy yn fuan yn y flwyddyn ariannol nesaf, ac felly ni ddisgwylir arbediad parhaol.

Lleihad i'r tanwariant adroddwyd yn yr adolygiad trydydd chwarter, sef tanwariant o (£20,000), gan fod costau hurio ystafelloedd yn uwch na'r disgwyl. Mae'r swyddfeydd newydd yn cynnwys stafelloedd cyfarfod, ac felly yn lleihau'r costau llogi i'r dyfodol.

1.6 Cludiant: Tanwariant (£81,000):

Mae'r sefyllfa derfynol yn cefnogi'r hyn a ragwelwyd wrth ddadansoddi'r tuedd costau teithio yn ystod y flwyddyn. Nodwyd eisoes y byddai'r gwir gost flynyddol yn debygol o fod yn is na'r hyn a sefydlwyd yn yr achos busnes terfynol.

Bwriedir trosglwyddo'r arbediad parhaol allan i benawdau eraill, gan nodi bydd costau sylweddol uwch Yswiriant Gwladol i'w ysgwyddo yn 2016/17. Bydd gofyn i unrhyw addasiad parhaol gael ei gytuno fel rhan o adroddiad sefydlu cyllideb 2015/16.

Dim newid o sylwedd i'r hyn adroddwyd yn yr adolygiad trydydd chwarter.

1.7 Cyflenwadau a Gwasanaethau: Gorwariant £24,000:

Ar y pennawd yma, mae'n ymddangos bod y gyllideb yn yr achos busnes yn annigonol a bydd angen sylw wrth sefydlu cyllideb 2015/16.

Cynnydd i'r hyn adroddwyd yn yr adolygiad trydydd chwarter, sef gorwariant o £16,000. Mae secondiadau/defnydd o ymgynghorwyr allanol yn golygu bod cynnydd yn nifer o weithwyr rhan amser, ac o ganlyniad wedi arwain at gynnydd yn yr angen am nwyddau Technoleg Gwybodaeth.

1.8 Broceru: Gorwariant £15,000:

Y sefyllfa derfynol yw gorwariant ar y gyllideb broceru. Mae'r pennawd yn cynnwys costau unwaith ac am byth wrth sefydlu rhaglenni newydd sydd wedi eu darparu am ddim yn ystod y flwyddyn. Mae'r rhaglenni wedi cychwyn ar y gwaith o gynyddu capasiti o fewn y gyfundrefn.

Yn yr adolygiad trydydd chwarter nid oedd disgwyl gor na thanwariant, fodd bynnag roedd cost sefydlu rhaglenni newydd ychydig yn uwch na'r disgwyl.

1.9 Costau Gwasanaethau Cefnogol Awdurdod Lletyol: Gorwariant £16,000:

Mae'r gost cefnogaeth Technoleg Gwybodaeth yn uwch na'r gyllideb a sefydlwyd yn yr achos busnes. Mae hynny oherwydd cefnogaeth i dair swyddfa (yn lle un), a hefyd cynnydd yn y nifer swyddi (gan gynnwys swyddi ychwanegol sydd wedi eu hariannu drwy grant). Bydd angen rhoi sylw i'r pennawd yma wrth sefydlu cyllideb 2015/16.

Dim newid o sylwedd i'r hyn adroddwyd yn yr adolygiad trydydd chwarter.

1.10 Grant Effeithiolrwydd Ysgolion: Gorwariant £73,000:

Yn dilyn y tanwariant a ragwelwyd yn y costau rheoli, gweinyddu a rhent, roedd posib cynyddu'r buddsoddiad yn y maes gweithio gydag athrawon a chymorthyddion dosbarth mewn ysgolion uwchradd penodol i'w cynorthwyo i gynllunio ar gyfer, ac i weithredu'r Fframweithiau Llythrennedd a Rhifedd.

Lleihad i'r hyn adroddwyd yn yr adolygiad trydydd chwarter, sef gorwariant o £107,000, yn bennaf trwy dargedu'r maes yn ychwanegol drwy brosiectau penodol eraill.

1.11 Cyrsiau Dyfal Donc: Gorwariant £12,000:

Mae gorwariant yn ymddangos oherwydd cynigwyd gostyngiad yn y pris i'r ysgolion yn ystod y flwyddyn.

Yn yr adolygiad trydydd chwarter nid oedd disgwyl gôr na thanwariant, fodd bynnag roedd cost gysylltiedig â'r cyrsiau yn uwch na'r disgwyl.

2. Y GRONFA TANWARIANT

2.1 Cyfanswm y gronfa ar gychwyn y flwyddyn gyllidol 2014/15 oedd £762,000. Mae Cyd-Bwyllgor GwE eisoes wedi penderfynu ymrwymo £680,000 o danwariant 2013/14 ar gynlluniau. Yn derfynol £545,000 o'r ymrwymiad gafodd ei wario yn y flwyddyn ariannol 2014/15, gyda'r gweddill wedi ei ymrwymo fel gwariant yn 2015/16.

2.2 Felly, bydd £81,000 o'r gronfa tanwariant ar gael yn 2015/16, ynghyd â thanwariant 2014/15 o £51,000, Golyga hyn bod cyfanswm o £132,000 ar gael ar gychwyn y flwyddyn gyllidol 2015/16. Bwriedir ei ddefnyddio ar gyfer comisiynu er mwyn cyflawni'r cynllun busnes, y model cenedlaethol, a gofynion ysgolion yn 2015/16 a thu hwnt.



ADRODDIAD AR GYFER Y CYD-BWYLLGOR

15 Gorffennaf 2015

Adroddiad gan:	Cyfarwyddwr Arweiniol (Cadeirydd Bwrdd Rheoli) GwE
Pwnc:	Achos Busnes - Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol

1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Cyflwyno'r achos busnes derfynol er cymeradwyaeth.

2.0 Cefndir

2.1 Cyhoeddwyd dogfen ganllaw'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2014.

2.2 Yng nghyfarfod y Cyd-bwyllgor ar 25 Chwefror 2015, cymeradwywyd adroddiad y Bwrdd Rheoli yn nodi'r cyfeiriad a ffafir ar gyfer alinio trefniadau'r rhanbarth gyda'r Model Cenedlaethol.

2.2 O ganlyniad i gefnogaeth y Cyd-bwyllgor i'r cyfeiriad a ffafir, mae'r achos busnes derfynol hwn yn crynhoi'r sefyllfa bresennol fesul maes gwaith, yn asesu'r opsiynau posib ac yn argymhell yr ymyraethau mwyaf effeithiol ar gyfer cyflawni.

3.0 Argymhellion

3.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor gymeradwyo'r ymyraethau canlynol fesul maes gwaith:

- Cyngor a Chefnogaeth i Lywodraethwyr (tudalen 10 o'r adroddiad)
- Y Cyfnod Sylfaen (tudalen 10 o'r adroddiad)
- Llwybrau Dysgu 14 – 19 (tudalen 12 o'r adroddiad)
- Cynlluniau Strategol y Gymraeg Mewn Addysg a Grant y Gymraeg Mewn Addysg (tudalen 13 o'r adroddiad)

- Cydlynu Rhanbarthol y Strategaeth TGC (tudalen 14 o'r adroddiad)
- Cefnogaeth Adnoddau Dynol Arbenigol (tudalen 14 o'r adroddiad)

3.2 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor ddirprwyo'r cyfrifoldeb o gynllunio a gweithredu ar yr ymyraethau i Fwrdd Rheoli GwE

4.0 Goblygiadau ariannol

4.1 Nid oes goblygiadau ariannol sylweddol yn gysylltiedig â'r newidiadau ac eithrio cost o £10,000 y flwyddyn i gomisiynu ymgynghorydd ar gyfer monitro ac adrodd ar y safon o gefnogaeth a gynhigir i Lywodraethwyr).

5.0 Effaith o ran cydraddoldeb

Nid oes unrhyw effaith newydd o ran cydraddoldeb yn codi o'r adroddiad hwn.

6.0 Goblygiadau Personél

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau newydd o ran personél yn codi o'r adroddiad hwn.

7.0 Atodiadau

7.1 Achos Busnes – Model Genedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol (ynghyd ag atodiadau 1-5 ac A-C)

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

Y Swyddog Monitro:

Mae'r gwaith yma yn adeiladu ar benderfyniad y partneriaid i fabwysiadu'r Model Cenedlaethol yn 2014. Penderfynwyd ar y pryd weithredu'r Model fesul cam yn amodol ar achos busnes a chynllun trosglwyddo cefnogol. Bwriad y cynllun a argymhellir yw cyfarch y gofyn yma. Fodd bynnag mae angen sicrhau fod y trefniadau comisiynu a darparu yn cael eu ffurfioli ble mae GwE yn derbyn gwasanaethau drwy law yr awdurdodau. Mae hefyd angen adolygu strwythurau ehangach ble gosodir rol benodol a newydd i GwE er cydnabod a chyfarch y cyfrifoldebau ac atebolrwydd a osodir ar y Gwasnanaeth.

Y Swyddog Cyllid Statudol:

Cyflwynir sylwadau ar lafar yn y cyfarfod.

Achos Busnes ar gyfer Alinio Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Gogledd Cymru (GwE) efo Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol Llywodraeth Cymru

Atodiad i'r Achos Busnes Llawn ar gyfer sefydlu Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru, Mawrth 2012

1. Rhagair gan Gyfarwyddwyr Addysg Gogledd Cymru

Mae Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod y plant a'r bobl ifanc yn eu hysgolion yn cael y cychwyn gorau mewn bywyd ac yn cyflawni sgiliau bywyd a chymwysterau o'r safon uchaf.

Rydym yn cydnabod bod her fawr yn wynebu Cymru o ran sicrhau bod lefelau cyrhaeddiad addysgol yn gymaradwy, o leiaf, â chystadleuwyr economi'r byd. Sgiliau a gallu ein pobl ifanc i ddysgu yw caffaeliad gorau ein cymdeithas a'n heconomi. Rhaid i Ogledd Cymru gyfrannu at newid yn sylweddol y ffordd y mae'n monitro, herio, cefnogi ac ymyrryd mewn ysgolion, er mwyn gweithio mewn partneriaeth gydag ysgolion i geisio codi safonau cyflawniad disgyblion. Sefydlwyd ffyrdd newydd i'r ALI gyflawni dyletswyddau gwella ysgolion statudol er mwyn cyflymu'r broses o wella perfformiad ysgolion. Roedd sefydlu GwE i fod yn Wasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol yn gam cyntaf pwysig yn y broses hon.

Rydym yn gweithredu mewn cyfnod o galedi heb ei debyg ac ni all yr un awdurdod lleol roi sylw i faterion yn ymwneud â pherfformiad ar ei ben ei hun, heb weithio ar y cyd gydag awdurdodau eraill. Mae'r tasgau sydd i'w cyflawni a'u gweithredu yn rhy feichus a chymhleth. Byddai cael ALI i weithredu'r agenda gwella yn unigol – a hwnnw'n agenda sy'n gyffredin i bob awdurdod – yn arwain at ddyblygu ymdrechion a phrosesau a fyddai'n gwbl aneffeithlon.

Yn sgil cyflwyno'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol ym mis Chwefror 2014, mae hi bellach yn amserol i gyfoethogi'r gwaith cydweithredol sydd eisoes yn digwydd ar ffurf mentrau a phrosesau rhanbarthol, fel y gallwn gysoni ein harferion gwaith yn agosach efo'r Model Cenedlaethol a'r ddogfen ganllawiau ddilynol "Adfywio gwaith rheoli pobl mewn ysgolion", a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2015.

2. Crynodeb Gweithredol

2.1 Mae'r Achos Busnes canlynol yn amlinellu'r opsiynau strategol sy'n cael eu ffafrio ar gyfer alinio trefniadau gweithio rhanbarthol efo'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol.

2.2 Ar gyfer 2015 – 2016, gellir ystyried y bydd y trefniadau rhanbarthol presennol yn dal yn weithredol yn sgil Grant Gwella Addysg rhanbarthol newydd y Llywodraeth a ddaw i rym mis Ebrill 2015.

2.3 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol sylweddol ynghlwm â'r newidiadau arfaethedig yn yr Achos Busnes, ar wahân i'r rheiny sydd â wnelo ag elfen 4C, sef Cefnogi a Hyfforddi Llywodraethwyr (tua £10,000 y flwyddyn i

GwE). Cytunwyd ar hyn mewn egwyddor yn unig gan Fwrdd Rheoli GwE wrth benderfynu ar yr opsiynau posibl ar gyfer 2015 - 2016.

2.4 Daw gweddill yr elfennau ychwanegol yn rhan o fusnes arferol GwE gan fod cyn lleied o newidiadau arfaethedig ar gyfer 2015-16. Mae'r holl elfennau wedi'u cynnwys yng Nghynllun Busnes Penawdol GwE ar gyfer 2015 – 2016.

2.5 Bydd cynllunio busnes manylach yn digwydd ar gyfer 2016-17 yn sgil y Grant Gwella Addysg newydd.

2.6 Dylid nodi hefyd bod her sylweddol yn wynebu Awdurdodau a Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru, GwE, yn 2016 - 2017 o ran ceisio rhesymoli goblygiadau'r Model Cenedlaethol a Grant Gwella Addysg newydd Llywodraeth Cymru, a'r oblygiadau staffio posibl, materion TUPE, peryglon diswyddo a chostau cysylltiedig.

3. Cefndir

3.1 Sefydlwyd Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru (GwE) ym mis Ebrill 2013.

3.2 Mae'r Achos Busnes hwn yn atodiad i Achos Busnes Llawn Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru, Mawrth 2012, sy'n amlinellu sefydlu'r gwasanaeth newydd sef GwE.

3.3 Yn sgil sefydlu Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion newydd Gogledd Cymru ym mis Ebrill 2013, cyhoeddodd Lywodraeth Cymru Ddogfen Ganllawiau yn amlinellu Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol (Chwefror 2014).

3.4 Felly, mae gofyn i Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru, sy'n parhau'n statudol gyfrifol am effeithiolrwydd a safonau ysgolion, ailymweld â chyfrifoldebau GwE ac alinio'r gwasanaeth presennol â gofynion y Model Cenedlaethol.

3.5 Mae'r Achos Busnes Llawn ar gyfer sefydlu'r gwasanaeth gwreiddiol yn cynnwys manylion am yr elfennau y mae GwE yn gyfrifol amdanynt ar hyn o bryd. Mae'r Achos Busnes canlynol yn ystyried yr elfennau ychwanegol a gynhwysir yn y Model Cenedlaethol nad yw GwE yn eu cyflawni ar hyn o bryd. Bydd GwE yn gynyddol gyfrifol am yr elfennau ychwanegol hyn o fis Ebrill 2015 ymlaen ac fe'u cynhwysir yng Nghynllunio Busnes GwE.

4. Cenhadaeth, Gwerthoedd ac Egwyddorion ar gyfer Gwella Ysgolion yn Effeithiol

- 4.1 Amlinellir gweledigaeth a phwmpas y Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol yn y Ddogfen Ganllawiau ac mae chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru yn cefnogi ei weledigaeth a'i brif egwyddorion yn llawn. Dyfynnir y canlynol o'r Ddogfen Ganllawiau:
- 4.2 "Mae llwyddiant Cymru ar lwyfan fyd-eang yn y dyfodol yn ddibynnol ar bobl ifanc clyfar, medrus, hapus ac iach, ac ar system addysg a fydd yn helpu i'w meithrin. Cafodd ein cynigion yn y cytundeb hwn eu cynllunio i gyflawni hyn drwy gefnogi camau i ddiwygio'r ffordd y mae awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol a Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi arweinwyr ysgolion, llywodraethwyr ac athrawon a, thrwy'r broses hon, helpu i ragori wrth addysgu, a hynny mewn ystafelloedd dosbarth rhagorol mewn ysgolion rhagorol.
- 4.3 Bydd adolygiad Hill yn helpu i siapio rhaglen diwygio addysg Cymru ac mae'r model cenedlaethol ar gyfer gwella ysgolion yn rhan annatod o hynny. Caiff y model cenedlaethol ei ddatblygu ar y cyd gan ysgolion, awdurdodau lleol, y consortia rhanbarthol a Llywodraeth Cymru. Mae'n cydnabod y rôl bwysig sydd gan bob haen i'w chwarae i wella deilliannau ar gyfer plant a phobl ifanc. Gall y model cenedlaethol greu'r strwythurau a diffinio'r fframwaith y bydd y bartneriaeth hon yn gweithio oddi mewn iddynt. Ond, i wella addysg a chyfluoedd bywyd yn y fath fodd ag y mae pob plentyn yng Nghymru yn ei haeddu, rhaid wrth ymrwymiad a diben moesol cyffredin drwy'r system gyfan.
- 4.4 Mae awdurdodau lleol yn cadw'r cyfrifoldebau statudol am ysgolion a gwella ysgolion. Seiliwyd y model cenedlaethol ar weledigaeth o gonsortia gwella ysgolion rhanbarthol a fydd yn gweithio ar ran awdurdodau lleol i arwain, trefnu a chydlynw gwelliannau ym mherfformiad ysgolion ac yn addysg ein pobl ifanc. Helpu'r rheini sy'n addysgu ein plant a'n pobl ifanc yw prif genhadaeth a diben ein consortia rhanbarthol. Yn y dyfodol, felly, eu swyddogaeth, nad yw'n agored i drafodaeth, fydd cefnogi ysgolion ac awdurdodau lleol gyda'u hymdrechion i:
- a) wella deilliannau dysgu ar gyfer pob person ifanc;
 - b) sicrhau bod yr addysgu a'r dysgu a geir o safon; a chefnogi a galluogi arweinwyr ysgolion i arwain eu hysgolion yn well."

5. Model ac Egwyddorion Allweddol Gwella Ysgolion

- 5.1 Yn ôl y Ddogfen Ganllawiau, mae ysgolion yn ganolog i'r Model Cenedlaethol. Gwaith llywodraethwyr, arweinwyr ysgolion, athrawon a staff eraill yw gosod disgwyliadau uchel i ddisgyblion, ceisio'n gyson i wella ansawdd y dysgu a'r addysgu, codi safonau, rhannu arferion da a dysgu o'r naill a'r llall drwy wir bartneriaethau a threfn cefnogi ysgol i ysgol.

5.2 Felly, dylai'r Achos Busnes ar gyfer alinio Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru sicrhau bod yr egwyddorion hyn yn parhau yn ganolog pan ystyrir yr opsiynau ar gyfer alinio.

6. Rôl y Consortia Rhanbarthol wrth weithredu'r Model Cenedlaethol

6.1 Yn ôl y Ddogfen Ganllawiau, "Dylid cynllunio gwasanaethau consortia ar y cyd ag ysgolion er mwyn symud tuag at systemau data cyffredin/a rennir. Dylai arbenigedd rhagorol mewn dadansoddi a herio anghenion gwella ysgolion fod wrth wraidd y gwasanaethau hyn. Ni ddylid dibynnu ar gyflogi nifer mawr o staff amser llawn i gyflenwi gwasanaethau consortia. Yn hytrach, dylai staff craidd fanteisio ar sgiliau'r penaethiaid gorau yn eu rhanbarthau, ynghyd ag arbenigwyr ar wella ysgolion, a dylid bod yn hyblyg wrth ddefnyddio cyllidebau i gomisiynu'r gefnogaeth sydd ei hangen ar ysgolion".

6.2 "Dylai'r berthynas a'r llinellau atebolrwydd rhwng awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol fod yn glir er mwyn i bob un yn y system addysg ddeall pwy sy'n gyfrifol am beth. Bydd y modd y caiff y model hwn ei weithredu yn newid dros amser. Wrth i ysgolion ac athrawon ddatblygu dros y ddwy neu dair blynedd nesaf, ac wrth iddynt gynyddu mewn hyder a chael mwy o wybodaeth, byddant yn disgwyl mwy o annibyniaeth, ymreolaeth a rhyddid i wneud eu penderfyniadau eu hunain. Mesur o lwyddiant y consortia rhanbarthol fydd y ffaith eu bod yn peidio â bodoli ar eu ffurf bresennol ymhen amser, gan fod eu gwaith wedi dirwyn i ben."

7. Pwrpas y Ddogfen hon

7.1 Achos Busnes yw'r ddogfen hon i alinio Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru (GwE) â Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol Llywodraeth Cymru (Chwefror 2014).

7.2 Dylid darllen y ddogfen hon fel atodiad i'r Achos Busnes Llawn ar gyfer sefydlu'r gwasanaeth rhanbarthol gwreiddiol, Mawrth 2012 a Dogfen Ganllawiau Llywodraeth Cymru ar Weithio'n Rhanbarthol 126/2014 (Chwefror 2014).

7.3 Rhoddir ystyriaeth yn unig yn y ddogfen hon i'r elfennau a'r dyletswyddau a gynhwysir yn y Model Cenedlaethol nad yw'r Gwasanaeth Rhanbarthol yn eu cyflawni nac yn gyfrifol amdanynt ar hyn o bryd. Disgwylir y bydd GwE, y Gwasanaeth Rhanbarthol, yn gynyddol gyfrifol am yr elfennau ychwanegol o fis Ebrill 2015 ac y cânt eu cynnwys yn ei Gynllun Busnes.

7.4 Mae'r ddogfen hon yn ystyried yr achos addysgol, strategol ac ariannol dros newid a'r sefyllfa bresennol o safbwynt yr elfennau ychwanegol y mae angen rhoi sylw iddynt er mwyn cydymffurfio â'r Model Cenedlaethol. Amlinellir hefyd y newidiadau y bydd rhaid eu gweithredu er mwyn i'r Gwasanaeth Rhanbarthol gydymffurfio â'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol.

8. Llinynnau Ychwanegol y Model Cenedlaethol i gael sylw

(Elfennau mewn cwmpas ar gyfer y Prosiect Alinio)

8.1 Ar ôl ystyried Dogfen Ganllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol, cytunodd bob Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru y dylai'r elfennau canlynol gael sylw er mwyn bod yn gyson â'r Model Cenedlaethol. Felly, ystyrir bod yr elfennau canlynol mewn cwmpas ar gyfer y prosiect hwn. Ystyriwyd nad oedd yr elfennau hyn mewn cwmpas pan sefydlwyd y gwasanaeth rhanbarthol yn wreiddiol (ceir manylion yn Atodiad 2 yr Achos Busnes Llawn ar gyfer sefydlu'r gwasanaeth rhanbarthol newydd).

a) Cyngori a Chefnogi Llywodraethwyr

b) Cyfnod Sylfaen

c) Cynnig Llwybrau Dysgu 14 – 19

ch) Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg a Grant y Gymraeg mewn Addysg.

d) Cydlynu'r Strategaeth TGCh yn Rhanbarthol

dd) Cymorth AD arbenigol

9. Methodoleg y Prosiect Alinio

9.1 Cynhaliwyd archwiliad o'r trefniadau rhanbarthol presennol o safbwynt yr holl feysydd gwaith uchod a chyflwynwyd yr opsiynau strategol i Gyd-Bwyllgor GwE ar 25 Chwefror 2015 i'w cymeradwyo ar y ffordd ymlaen. Ymgynghorwyd â'r cynrychiolydd o Lywodraeth Cymru oedd yn bresennol yn y cyfarfod ar y ffordd ymlaen a ffeirir yn ystod y prosiect er mwyn dileu'r perygl o fethu â chydymffurfio â gofynion y Model Cenedlaethol.

9.2 Cymeradwywyd y ffordd ymlaen a argymhellwyd gan Gyd-Bwyllgor GwE ar 25 Chwefror a'r cynrychiolydd o Lywodraeth Cymru a oedd yn bresennol yn y cyfarfod, ac ystyriwyd bod yr holl opsiynau strategol a ffafriwyd yn dangos trefniant gweithio rhanbarthol oedd yn gyson â'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol.

9.3 Arfarnwyd a chytunwyd ar yr opsiynau ar gyfer alinio gan Gyfarwyddwyr Addysg chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru, yna fe'u cymeradwywyd maes o law gan Gyd-Bwyllgor GwE ar 25 Chwefror 2015. Arfarnwyd yr opsiynau yn erbyn y meini prawf hyn:

- a) Aliniad efo'r Model Cenedlaethol
- b) Rhoi gwerth ychwanegol yn wyneb yr hinsawdd ariannol
- c) Potensial i gyflawni newid yn llwyddiannus

10. Yr Achos Strategol dros Newid

10.1 Cyhoeddwyd Dogfen Ganllawiau y Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol gan Lywodraeth Cymru ym mis Chwefror 2014. Yng Ngwanwyn 2014, cytunodd Cabinetau y chwe Awdurdod Lleol partner i:

- a) Gymeradwyo'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol mewn perthynas â Gwella Ysgolion.
- b) Cymeradwyo a mabwysiadu'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol ar wella Ysgolion a datblygu cynllun busnes gyda'r bwriad o gorffori'r gwasanaethau ychwanegol a restrir yn y Model ym model rhanbarthol GwE, fesul cam, yn amodol ar gael achos busnes boddhaol i bob un a chynllun pontio cefnogol i ofalu parhad a pherfformiad y gwasanaeth.

11. Yr Achos Addysgol dros Newid

11.1 Nid yw'r safonau a gyflawnir gan ddisgyblion Cymru gystal â disgyblion mewn rhai gwledydd eraill. Mae'r disgyblion mwyaf galluog yng Nghymru flwyddyn ar ei hôl hi o ran datblygiad eu sgiliau llythrennedd na disgyblion mewn rhai gwledydd eraill. Mae perygl o ddyblygu systemau yn ddiangen ar draws y chwe Awdurdod Lleol i reoli gwasanaethau a chyflawni gofynion cyffredin. O ystyried yr hinsawdd ariannol sydd ohoni, gyda'i gilydd, gallai arian gael ei ddefnyddio'n

aneffeithlon ble mae potensial i sicrhau bod adnoddau gostyngol yn cael eu defnyddio'n well drwy arbedion maint.

- 11.2 Yn unol ag egwyddorion y Model Cenedlaethol, mae ysgolion yn ganolog i'r newid. Gwaith llywodraethwyr, arweinwyr ysgolion, athrawon a staff eraill yw gosod disgwyliadau uchel i ddisgyblion, ceisio'n gyson i wella ansawdd y dysgu a'r addysgu, codi safonau, rhannu arferion da a dysgu o'r naill a'r llall drwy wir bartneriaethau a threfn cefnogi ysgol i ysgol. Dylai'r Achos Busnes hwn felly ddangos bod partneriaethau a systemau effeithiol ar waith ar draws y rhanbarth i sicrhau cysondeb gwasanaeth a gyrru gwaith effeithiolrwydd a gwella ysgolion.

12. Cyfleoedd

- 12.1 Mae mabwysiadu'r Model Cenedlaethol yn dangos bod y chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru yn deall bod angen newid y ffordd y mae Gwasanaethau Gwella Ysgolion yn monitro, herio, cefnogi ac ymyrryd mewn ysgolion er mwyn gwella ymhellach safonau addysg mewn ysgolion.
- 12.2 Drwy roi sylw i'r elfennau yn y Model Cenedlaethol nad yw Gwasanaeth Rhanbarthol Goledd Cymru yn eu cyflawni ar hyn o bryd, gallai hyn leiha'u'r perygl o weld cyllidebau yn gostwng ac adnoddau yn prinha'u mewn Awdurdodau Lleol gydag effaith andwyol ar ansawdd Gwasanaethau Gwella Ysgol Awdurdodau Lleol unigol.
- 12.3 Fel y nodir uchod, dylai'r Achos Busnes hwn ddangos bod partneriaethau a systemau effeithiol ar waith ar draws y rhanbarth i sicrhau cysondeb gwasanaeth a gyrru gwaith effeithiolrwydd a gwella ysgolion.
- 12.4 O ystyried yr hinsawdd ariannol sydd ohoni, gyda'i gilydd, gallai arian gael ei ddefnyddio'n aneffeithlon ble mae potensial i sicrhau bod adnoddau gostyngol yn cael eu defnyddio'n well drwy arbedion maint.
- 12.5 Mae'r Achos Busnes hwn yn ceisio datblygu ar yr arferion da o fewn Awdurdodau Lleol a (i) chadw gwaith cyflawni a pherchnogaeth yn lleol ble'n briodol (ii) hybu'r cydweithio cynyddol ar lefel ranbarthol.
- 12.6 Dylid nodi hefyd y bydd yr Awdurdodau Lleol a'r Gwasanaeth Rhanbarthol yn wynebu her dros y blynyddoedd nesaf wrth geisio rhesymoli goblygiadau'r Model Cenedlaethol ynghyd â Grant Gwella Addysg newydd Llywodraeth Cymru, a ddaw i rym o fis Ebrill 2015. Adeg ysgrifennu'r Achos Busnes hwn, nid oedd y trefniadau newydd ar gyfer dyrannu'r Grant Gwella Addysg Rhanbarthol newydd yn hysbys felly nid oedd modd blaengynllunio'n effeithiol ar gyfer 2015-2016.
- 12.7 Mae'r Achos Busnes hwn hefyd yn ystyried y ffaith y gellir gwneud arbedion effeithlonrwydd o ran lefelau staffio a chostau ar lefel Awdurdod Lleol, ond ni fanylir ymhellach ar hyn o bryd oherwydd byddai angen mwy o amser a gwaith AD manwl er mwyn meintoli unrhyw arbedion ac arbedion effeithlonrwydd posibl, os o gwbl. Gan nad oedd dealltwriaeth lawn o'r trefniadau ar gyfer y grant rhanbarthol newydd adeg ysgrifennu'r Achos Busnes, penderfynwyd hefyd y byddai'n ddoeth cynnal y trefniadau staffio presennol am 2015 – 2016 gan mai grant sy'n ariannu mwyafrif y swyddi perthnasol.

13. Trefniadau Presennol Llawn, Achos Unigol dros Newid a Rhesymeg dros yr Opsiynau a Ffefrir ar gyfer Alinio

Yn **Atodiad 1-6** yr Achos Busnes hwn, ceir trefniadau presennol llawn, achos unigol dros newid ac opsiynau ar gyfer alinio pob elfen.

- 1) Cyngori a Chefnogi Llywodraethwyr
- 2) Cyfnod Sylfaen
- 3) Cynnig Llwybrau Dysgu 14 – 19
- 4) Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg a Grant y Gymraeg mewn Addysg.
- 5) Cydlynu'r Strategaeth TGCh yn Rhanbarthol
- 6) Cymorth AD arbenigol

1. Yr Opsiwn Strategol a Ffeirir ar gyfer Cyngori a Chefnogi Llywodraethwyr

O ran y llinyn uchod, noda'r Model Cenedlaethol:

Bydd y consortia rhanbarthol yn comisiynu gwasanaethau cefnogi llywodraethwyr a hyfforddiant i lywodraethwyr a fydd yn cynnwys y rhaglenni hyfforddiant gorfodol i lywodraethwyr newydd, hyfforddiant i gadeiryddion llywodraethwyr, a hyfforddiant ar ddeall a chymhwyso data yn effeithiol i bob llywodraethwr.

Bydd y consortia hefyd yn annog ac yn hwyluso rhwydweithiau o lywodraethwyr, yn galluogi llywodraethwyr i arsylwi ar gyfarfodydd ei gilydd a recriwtio cadeiryddion llywodraethwyr galluog i fentora cyrff llywodraethu eraill sy'n ei chael hi'n anodd ymgymryd â'u gwaith yn effeithiol. Bydd y consortia hefyd yn datblygu ar y cyd, gan ymgynghori ag awdurdodau lleol, llywodraethwyr a phenaethiaid, dempled ar gyfer data ar berfformiad i benaethiaid ei ddefnyddio i adrodd i lywodraethwyr, fesul tymor neu fesul hanner tymor, ar berfformiad ysgol yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â: pherfformiad disgyblion a safonau; presenoldeb disgyblion; gwahardd disgyblion; rheoli absenoldeb staff drwy salwch; ansawdd yr addysgu (fel yr asesir drwy arsylwi yn yr ystafell ddosbarth); data ar gynnydd a chyrhaeddiad mewn perthynas â thargedau. Bydd y consortia hefyd yn penderfynu ar bwl o ymgeiswyr galluog a fydd yn barod i wasanaethu ar gyrff llywodraethu lle bo'r llywodraethu yn wan. Wrth arfer y swyddogaethau hyn, rhaid bydd ystyried materion cyllid y gefnogaeth i lywodraethwyr a gaiff ei dirprwyo i ysgolion mewn rhai awdurdodau.

Cefnogi Llywodraethwyr

Ar ôl rhoi ystyriaeth briodol, barnwyd mai'r opsiwn canlynol sy'n rhoi sylw i ofynion y Model Cenedlaethol:

- a) Staff i gyd i aros yn eu hawdurdodau lleol yn ôl y trefniadau presennol ble bydd y cyfrifoldeb yn aros am ddarparu cymorth i lywodraethwyr.
- b) Bydd Ymgynghorwyr Her GwE yn parhau i gael trosolwg a chyfrifoldeb priodol am sicrhau ansawdd a chysondeb cyrff llywodraethu effeithiol ar draws y rhanbarth
- c) Bydd GwE yn comisiynu ymgynghorydd allanol i archwilio'r gwasanaeth cefnogi llywodraethwyr (gan gynnwys hyfforddiant) yn gyson o fewn awdurdodau lleol unigol. Bydd GwE a'r adrannau addysg yn defnyddio'r data perfformiad er mwyn rhannu'r arferion gorau a hybu gwelliannau yn ansawdd y gwasanaeth.

Hyfforddiant Gorfodol

- a) Parheir i ddarparu Hyfforddiant Gorfodol drwy'r Adrannau Addysg ochr yn ochr â hyfforddiant anstatudol (e.e. Amddiffyn Plant).
- b) GwE i barhau i sicrhau ansawdd y ddarpariaeth hyfforddiant, drwy gyfrwng y tîm o Ymgynghorwyr Her.
- c) Serch hynny, wrth i gyllidebau barhau i ostwng, bydd GwE a'r Adrannau Addysg yn parhau i adnabod blaenoriaethau lleol a rhanbarthol ochr yn ochr â datblygu datrysiadau hyfforddiant ar draws hybiau (e.e. agor rhaglen hyfforddiant Aelodau Awdurdod Lleol GwE i lywodraethwyr eraill).

2. Opsiwn Strategol a Ffefrir i'r Cyfnod Sylfaen

O ran y llinyn uchod, noda'r Model Cenedlaethol:

Bydd cefnogaeth Cyfnod Sylfaen y Blynyddoedd Cynnar yn cynnwys herio arweinwyr lleoliadau'r Cyfnod Sylfaen a chyd-drafod â phenaethiaid a darparwyr eraill i archwilio anghenion hyfforddi ac i gomisiynu amrediad priodol o raglenni a sicrhau eu hansawdd.

Herio Perfformiad

- a) Ar gyfer lleoliadau a gynhelir, mae'r trefniadau presennol (trwy gyfrwng ymweliadau blynyddol 1, 2 a 3 GwE) yn gadarn ac wedi'u halinio'n llawn efo'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol.
- b) Fodd bynnag, cydnabyddir nad yw herio perfformiad yn annibynnol mewn lleoliadau nas cynhelir o fewn rhaglen waith GwE ar hyn o bryd. Mae gwaith pellach ar hyn ar waith fel rhan o Raglen Tair Blynedd GwE; felly, nid yw'n rhan o ymateb Gogledd Cymru i'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol. Mae'n werth nodi hefyd nad yw'n glir yn nogfennau canllawiau Llywodraeth Cymru a yw'n fwriad cynnwys herio perfformiad mewn lleoliad nas cynhelir yn y Model Cenedlaethol.

Archwilio, Comisiynu a Sicrhau Ansawdd Rhaglenni Hyfforddi Cyfnod Sylfaen

- a) Rhwydwaith y Cyfnod Sylfaen i barhau i weithio ar y cyd er mwyn arwain ar yr agwedd hon ar y gwaith.
- b) Rhwydwaith CS i barhau i adnabod anghenion hyfforddiant a darparu cyfleoedd hyfforddiant i staff y Cyfnod Sylfaen ar y cyd â GwE.
- c) Bydd hyn hefyd yn sicrhau trefn adrodd o'r is-grŵp i Fwrdd Rheoli a Chyd-Bwyllgor GwE.
- ch) GwE i gynnwys CS yn y Cynllun Busnes drwy gyfrwng mewnbwn rhwydwaith rhanbarthol.

- d) Agwedd bragmatig at yr alinio efo'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol oherwydd y Grant Gwella Addysg newydd a ddaw i rym mis Ebrill 2015.
- dd) GwE i barhau i herio Rhwydwaith y CS ar sut maent yn adnabod cyfleoedd hyfforddi ac yn darparu cyfleoedd hyfforddiant.
- e) Fodd bynnag, o ganlyniad i'r trefniadau newydd ar gyfer alldalu a gostyngiadau arfaethedig yn lefelau Grant y Cyfnod Sylfaen ar gyfer 2015/16, bydd GwE a'r Rhwydwaith CS yn datblygu ac yn cyflwyno cyfleoedd hyfforddi gorfodol ar draws yr hybiau.
- f) Cryfhau'r camau gweithredu uchod drwy benodi Arweinydd Strategol i'r Cyfnod Sylfaen efo GwE erbyn mis Ebrill 2016.
- g) Rhesymoli staffio 14-19 Awdurdod Lleol ar gyfer 2016-2017 yn sgil blwyddyn o'r Grant Gwella Addysg newydd Posibilrwydd o drosglwyddo cyfrifoldebau yn llawn o'r Awdurdodau Lleol i GwE yn amodol ar resymoli gwaith ymhellach mewn pryd ar gyfer 2016 – 2017 oherwydd peryglon TUPE ac AD a'r amserlen angenrheidiol i weithredu newidiadau yn sgil y Grant Gwella Addysg newydd (er cytunwyd mewn egwyddor yn wreiddiol y dylai cynllunio a darparu aros o fewn yr Awdurdodau Lleol ac nid o fewn GwE).
- ng) Mwy o 'adeiladu' rhanbarthol yn bosibl o 2016 ymlaen yn sgil y Grant Gwella Addysg newydd a'r egwyddor o gynllunio busnes fesul tair blynedd.

3. Opsiwn Strategol a Ffefrir i'r Cynnig Llwybrau Dysgu 14 – 19

O ran y llinyn uchod, noda'r Model Cenedlaethol:

Bydd y trosolwg strategol o'r cynnig 14-19 rhanbarthol, gan gynnwys neilltuo adnoddau i raglenni yn unol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, yn cynnwys: cefnogaeth i gynllunio'r defnydd o grantiau; sicrhau bod darpariaeth ysgolion a darparwyr yn gydnaws â'i gilydd er mwyn cael yr effaith ddisgwyliedig sy'n gynhenid i'r grantiau hyn; gweithio gydag awdurdodau lleol i ddarparu trosolwg strategol i herio a chefnogi pob darparwr, gan gynnwys colegau AB a darparwyr hyfforddiant preifat, i sicrhau mynediad cyfartal at gyfleoedd datblygu; gweinyddu'r grantiau perthnasol a chydlynu a chefnogi ceisiadau ar gyfer cyfleoedd grant a fydd yn codi.

- a) Rhwydwaith Rhanbarthol 14 – 19 i aros yn ei le gyda swyddogion o bob Awdurdod Lleol i barhau'n gyfrifol am gynllunio a darparu'r Cynnig Llwybrau Dysgu 14-19.
- b) Cyngor Sir Ddinbych i barhau i fod yn awdurdod arweiniol ar lefel ranbarthol.
- c) Cynrychiolydd GwE i fod yn aelod o'r rhwydwaith rhanbarthol dywededig a bod â chyfrifoldeb arweiniol ar y grŵp er mwyn darparu trosolwg strategol rhanbarthol o'r maes hwn.
- ch) Bydd hyn hefyd yn sicrhau trefn adrodd o'r rhwydwaith i Fwrdd Rheoli a Chyd-Bwyllgor GwE.
- d) GwE i gynnwys Cynnig Llwybrau Dysgu 14-19 yn y Cynllun Busnes drwy gyfrwng cyfraniad y rhwydwaith rhanbarthol.
- dd) Agwedd bragmatig at yr alinio efo'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol oherwydd y Grant Gwella Addysg newydd a ddaw i rym mis Ebrill 2015.
- e) Rhesymoli staffio 14-19 Awdurdod Lleol ar gyfer 2016-2017 yn sgil blwyddyn o'r Grant Gwella Addysg newydd (telerau ac amodau ddim yn hysbys i'r Awdurdodau Lleol tan 16 Ionawr 2015) a disgwylir toriadau staffio oherwydd lleihad o 10% yng nghyfanswm arian grant.
- f) Posibilrwydd o drosglwyddo cyfrifoldebau yn llawn o'r Awdurdodau Lleol i GwE yn amodol ar resymoli gwaith ymhellach mewn pryd ar gyfer 2016 – 2017 oherwydd peryglon TUPE ac AD a'r amserlen angenrheidiol i weithredu newidiadau yn sgil y Grant Gwella Addysg newydd (er cytunwyd mewn egwyddor yn wreiddiol y dylai cynllunio a darparu aros o fewn yr Awdurdodau Lleol ac nid o fewn GwE).
- ff) Mwy o 'adeiladu' rhanbarthol yn bosibl o 2016 ymlaen yn sgil y Grant Gwella Addysg newydd a'r egwyddor o gynllunio busnes fesul tair blynedd.

4. Opsiwn a Ffeirir ar gyfer Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg a Grant y Gymraeg mewn Addysg

O ran y llinyn uchod, noda'r Model Cenedlaethol:

Bydd y consortia yn cydlynu ac yn sicrhau ansawdd gweithgarwch i fodloni nodau'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg drwy sicrhau bod y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a'r Grant Cymraeg mewn Addysg yn gydnaws â'i gilydd ar draws pob un o'r awdurdodau lleol ac ym mhob un o'r consortia rhanbarthol, fel bod cysondeb o ran datblygu rhagoriaeth mewn addysgeg ac o ran bodloni'r targedau y cytunwyd arnynt, nid yn unig ar draws y sectorau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, ond hefyd wrth gyflwyno Cymraeg fel ail iaith.

- a) Rhwydwaith Rhanbarthol y Gymraeg i barhau a swyddogion o bob Awdurdod Lleol i barhau i fod yn gyfrifol am gynllunio a darparu Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg a Grant y Gymraeg mewn Addysg.
- b) Cyngor Gwynedd i barhau i fod yn awdurdod arweiniol ar lefel ranbarthol i gydlynu cynllun rhanbarthol.
- c) Trefn sicrhau ansawdd annibynnol eisoes ar waith wrth i Lywodraeth Cymru archwilio a chymeradwyo cynlluniau strategol rhanbarthol ac ALI unigol.
- ch) Cynrychiolwyr o Awdurdodau Lleol a GwE yn eistedd ar y rhwydwaith rhanbarthol ar hyn o bryd.
- d) Bydd hyn hefyd yn sicrhau trefn adrodd o'r rhwydwaith i Fwrdd Rheoli GwE a'r Cyd-Bwyllgor.
- dd) GwE i gynnwys Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg a Grant y Gymraeg mewn Addysg mewn Cynllun Busnes drwy gyfrwng mewnbyn rhwydwaith rhanbarthol.
- e) Agwedd bragmatig at yr alinio efo'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol oherwydd y Grant Gwella Addysg newydd a ddaw i rym mis Ebrill 2015.
- f) Rhesymoli staffio Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg a Grant y Gymraeg mewn Addysg ar gyfer 2016-2017 yn sgil blwyddyn o'r Grant Gwella Addysg newydd (telerau ac amodau ddim yn hysbys i'r Awdurdodau Lleol tan 16 Ionawr 2015) a disgwylir toriadau staffio oherwydd lleihad o 10% yng nghyfanswm arian grant (Grant y Gymraeg mewn Addysg yn cyllido rhai swyddi Awdurdod Lleol yn rhannol ac yn llawn). Byddai angen blwyddyn ar Awdurdodau Lleol i flaengynllunio yn sgil y Grant Gwella Addysg newydd.
- ff) Posiblwydd o drosglwyddo cyfrifoldebau yn llawn o'r Awdurdodau Lleol i GwE yn amodol ar resymoli gwaith ymhellach mewn pryd ar gyfer 2016 – 2017 oherwydd peryglon TUPE ac AD a'r amserlen angenrheidiol i weithredu newidiadau yn sgil y Grant Gwella Addysg newydd (er cytunwyd mewn egwyddor yn wreiddiol y dylai cynllunio a darparu aros o fewn yr Awdurdodau Lleol ac nid o fewn GwE).
- g) Mwy o 'adeiladu' rhanbarthol yn bosibl o 2016 ymlaen yn sgil y Grant Gwella Addysg newydd a'r egwyddor o gynllunio busnes fesul tair blynedd.

5. Yr Opsiwn Strategol a Ffeirir ar gyfer Cydlynu rhanbarthol y Strategaeth TGCh

O ran y llinyn uchod, noda'r Model Cenedlaethol:

Bydd cydlynu dimensiwn rhanbarthol y Strategaeth TGCh yn cynnwys hunanwerthuso TGCh ysgolion, arweinyddiaeth a chynllunio TGCh ar gyfer dysgu, diogelu, technolegau datblygol, rhith-amgylcheddau dysgu, technoleg dysgu a'r fframwaith llythrennedd a rhifedd cenedlaethol, rhedeg rhwydweithiau ar gyfer penaethiaid adrannau a chydlynwyr TGCh, cefnogi addysgeg a datblygu cwricwlwm (gan gyfeirio at y Strategaeth Dysgu a'r Byd Digidol).

- a) Ymestyn cylch gorchwyl ac adnoddau'r Rhwydwaith TGCh rhanbarthol yn y lle cyntaf.
- b) Barnwyd y byddai dilyn trywydd TUPE/trosglwyddo yn tynnu oddi ar y gwir waith sydd angen ei wneud, sef:
- c) Gosod gwaelodlin ar gyfer datblygu strategaeth TGCh ranbarthol gan y Rhwydwaith TGCh presennol ar y cyd â swyddogion GwE presennol o safbwynt cefnogaeth ysgol i ysgol a llythrennedd a rhifedd ac ati.
- ch) Rhwydwaith TGCh i lunio strategaeth ranbarthol dros-fwaol i'w gweithredu o fewn cynllun busnes tair blynedd GwE.
- d) Ymrwymo i ragor o opsiynau gweithio rhanbarthol unwaith y gosodir y gwaelodlin ar gyfer datblygu strategaeth.
- dd) GwE yn awyddus i fod mewn sefyllfa i wthio'r agenda ymlaen unwaith y bydd y Rhwydwaith Rhanbarthol TGCh wedi cwblhau darn o waith cychwynnol.
- e) Grŵp TGCh i lunio cynllun ac amserlen ar gyfer y darn gwaith uchod.
- f) Adnabod adnoddau gweinyddol o fewn GwE i gynorthwyo efo'r gwaith uchod.
- ff) Roedd GwE yn ystyried y byddai TGCh yn dod yn faes 'unwaith yn unig' yn un o'r ymweliadau tymhorol.

6. Yr Opsiwn Strategol a Ffefrir ar gyfer Cymorth AD Arbenigol

O ran y llinyn uchod, noda'r Model Cenedlaethol:

Byddai cyngor adnoddau dynol arbenigol i ysgolion fel arfer yn cynnwys hyfforddiant i benaethiaid a chadeiryddion llywodraethwyr ar reoli perfformiad a chyngor ar reoli'r achosion hynny pan fo perfformiad athro yn golygu bod rhaid rhoi gweithdrefnau medrusrwydd ar waith neu pan fo cofnod absenoldeb neu salwch athro yn golygu bod angen ystyried cymryd camau difrifol. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gallai fod angen i'r consortia symud tuag at y model hwn fesul cam yn ystod y flwyddyn gyntaf o weithredu lle nad yw'r adnoddau arbenigol i fodloni'r gofyniad hwn eisoes yn bodoli. Ni fydd y consortia rhanbarthol a'r awdurdodau lleol yn dyblygu gwaith ei gilydd.

Mae Cyfarwyddwyr Grŵp Adnoddau Dynol Cymru wedi llunio dogfen i ymateb i'r Model Cenedlaethol o ran rôl Adnoddau Dynol.

- a) Mae'r grŵp wedi edrych ar y sgiliau a'r cymwyseddau sydd o fewn Adrannau Adnoddau Dynol ar draws Awdurdodau Lleol Cymru mewn perthynas â gweithio gydag ysgolion. Ystyriwyd hefyd beth yw'r cynhwysedd o ran swyddogion adnoddau dynol ledled Cymru. Drafftwyd cynllun datblygu i staff adnoddau dynol a darparwyd amlinelliad clir o beth fyddai'r disgwyliadau ar swyddogion AD wrth weithio gydag ysgolion.
- b) Yn sgil yr ymarfer hwn, cyflwynwyd dogfen ddrafft derfynol am sylwadau ac ystyriaeth bellach gan swyddogion Llywodraeth Cymru.
- c) Gofynnir i'r Cyfarwyddwyr Adnoddau Dynol roi ystyriaeth bellach i unrhyw sylwadau sy'n deillio o'r cyfarfod hwn efo ymgynghorwyr arbenigol.
- ch) Cytunodd y Bwrdd Rheoli mai'r bwriad oedd mabwysiadu'r fethodoleg genedlaethol unwaith y byddai Llywodraeth Cymru wedi ymateb yn ffurfiol i'r papur uchod.

14. Yr Achos Ariannol dros Newid

- 14.1 Mae'r Ddogfen Ganllawiau ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol yn nodi isafswm cyfraniad yr Awdurdodau Lleol am 2013 – 2014 yn wreiddiol, gydag addasiadau yn flynyddol yn unol â setliadau cyllidebol llywodraeth leol.
- 14.2 Mae'r Rhwydwaith Cyllid ac Adnoddau yn sicrhau bod y cyllid sydd wedi'i glustnodi ar gyfer gweithgareddau Gwella Ysgol yn cael ei ddyrannu'n briodol yn ôl gwasanaethau cyfredol a gwasanaethau sy'n datblygu.
- 14.3 Bydd cyllid ar gyfer y meysydd gwasanaeth dan ystyriaeth yn yr Achos Busnes hwn yn trosglwyddo i GwE unwaith y trosglwyddir y swyddogaethau darparu.
- 14.4 Ar gyfer 2015 – 2016, gellir ystyried y bydd y trefniadau rhanbarthol presennol yn dal yn weithredol yn sgil Grant Gwella Addysg rhanbarthol newydd Llywodraeth Cymru, a ddaw i rym mis Ebrill 2015.
- 14.5 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol sylweddol yn gysylltiedig â'r newidiadau arfaethedig yn y Cynllun Busnes hwn ar wahân i'r rheiny sy'n gysylltiedig ag elfen 13. 1.C sef Cefnogi a Hyfforddi Llywodraethwyr (tua £10,000 y flwyddyn i GwE). Cytunwyd ar hyn mewn egwyddor yn unig gan Fwrdd Rheoli GwE wrth benderfynu ar yr opsiynau posibl ar gyfer 2015 - 2016.
- 14.6 Daw gweddill yr elfennau ychwanegol yn rhan o fusnes arferol GwE gan fod cyn lleied o newidiadau arfaethedig ar gyfer 2015-16. Mae'r holl elfennau wedi'u cynnwys yng Nghynllun Busnes Penawdol GwE ar gyfer 2015 – 2016.
- 14.7 Bydd cynllunio busnes manylach at 2016-17 yn digwydd yn sgil y Grant Gwella Addysg newydd.
- 14.8 Dylid nodi hefyd bod her sylweddol yn wynebu Awdurdodau a Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru, GwE, yn 2016 - 2017 o ran ceisio rhesymoli goblygiadau'r Model Cenedlaethol a Grant Gwella Addysg newydd Llywodraeth Cymru, a'r oblygiadau staffio posibl, materion TUPE, peryglon diswyddo a chostau cysylltiedig.
- 14.9 Dylid nodi y gellir gwneud arbedion posibl o ran lefelau staffio a chostau ar lefel Awdurdod Lleol ond nid yw'r Achos Busnes hwn yn manylu ar hyn oherwydd byddai angen mwy o amser a

gwaith AD manwl er mwyn meintioli unrhyw arbedion ac arbedion effeithlonrwydd posibl, os o gwbl.

- 14.10 Gan nad oedd dealltwriaeth lawn o'r trefniadau ar gyfer y grant rhanbarthol newydd adeg ysgrifennu'r Achos Busnes, penderfynwyd y byddai'n ddoeth cynnal y trefniadau staffio presennol am 2015 – 2016 gan mai grant sy'n ariannu mwyafrif y swyddi perthnasol. Amcangyfrifir y bydd gostyngiad o 10% yng nghyfanswm y grant yn 2015 – 2016. Swyddi eraill mewn cwmplas fyddai'r rheiny a fyddai'n ymwneud ag elfen Cynghori a Chefnogi Llywodraethwyr, gyda'r gost wedi'i hamcangyfrif yn rhyw £75k dros chwech Awdurdod.

Atodiadau 1 – 6

Atodiad 1a – 1b - Cynghori a Chefnogi Llywodraethwyr

Atodiad 2a – 2b – Cyfnod Sylfaen

Atodiad 3 – Cynnig Llwybrau Dysgu

Atodiad 4 – Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg a Grant y Gymraeg mewn Addysg

Atodiad 5 – Cydlynu'r Strategaeth TGCh yn Rhanbarthol

Atodiad 6 – Rhwydwaith Cyfarwyddwyr AD – Model ar gyfer Cyngor a Chefnogaeth AD arbenigol

Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol

Rhwydwaith Cyfarwyddwyr AD – Model ar gyfer “Cyngor a Chefnogaeth AD arbenigol”

Mae'r **Model Cenedlaethol ar gyfer gwella ysgolion yn rhanbarthol** yn cyfeirio at bob Consortiwm yn sicrhau bod ganddynt ddigon o arbenigedd yn y canol i reoli rhai swyddogaethau traws-gonsortiwm gan gynnwys:

“Rhoi cyngor ar AD arbenigol i gefnogi penaethiaid a chyrff llywodraethwyr wrth ymdrin â materion rheoli perfformiad a medrusrwydd.”

Rhywle arall yn yr un ddogfen, rhoddir ychydig rhagor o fanylion o ran y swyddogaethau AD sydd eu hangen, h.y. rheoli perfformiad, gweithdrefnau medrusrwydd a rheoli absenoldeb salwch.

O safbwynt cyd-destun, cyfeiria'r ddogfen at (a) sicrhau nad yw'r Consortiwm a'r awdurdodau lleol yn dyblygu gwaith ei gilydd, (b) y gofyn am eglurder ynghylch swyddogaethau a (c) dealltwriaeth gytûn o'r disgwyliadau o'r holl randdeiliaid allweddol.

Rhodddwyd ystyriaeth i greu timau AD canolog yn y Consortia i ddarparu “cyngor a chefnogaeth AD arbenigol i gefnogi penaethiaid a chyrff llywodraethwyr wrth ymdrin â materion rheoli perfformiad a medrusrwydd”.

Ni ystyrir bod y cyfryw fodel gweithredu yn addas i'r diben.

Serch hynny, ystyrir bod model AD arall ar gael sy'n llawer mwy tebygol o lwyddo. Mae holl Benaethiaid AD yr awdurdodau lleol yn cefnogi'r model hwn, fel y'i disgrifir.

Mae'r Rhwydwaith Datblygu Adnoddau Dynol yn cydnabod y gofyn i roi sylw effeithiol i danberfformiad ymysg athrawon.

Mae'r model gweithredu AD arall hwn yn ceisio cyflawni'r nod hwn drwy daro cydbwysedd priodol rhwng camau gweithredu ataliol ac ymatebol, gan gydnabod drwy'r adeg mai penaethiaid a chyrff llywodraethwyr yw'r prif chwaraewyr yn y broses ac mai'r unig ffordd iddynt lwyddo yw drwy gael cefnogaeth effeithiol gan weithwyr gwella ysgolion ac arbenigwyr AD.

Ar hyn o bryd, mae'r Model Cenedlaethol yn canolbwyntio'n bennaf ar danberfformiad ymysg athrawon yn hytrach na mewn arweinyddiaeth. Mae'r model gweithredu AD hwn yn adlewyrchu'r gofyn hwn.

Cynigir i bob Consortiwm sefydlu trefniant AD cydweithredol i ddarparu cyngor a chefnogaeth AD arbenigol i benaethiaid a chyrff llywodraethwyr fel y gallant roi sylw i faterion yn ymwneud â'r gweithlu gwella ysgolion mewn ffordd sy'n datblygu ar gryfderau AD presennol pob awdurdod lleol. Bydd hyn yn arwain at weld y tîm AD ym mhob ALI yn darparu cyngor AD, llunio polisïau cyflogaeth a chefnogi gwaith rheoli achos ar gyfer dibenion gwella ysgol, a hynny mewn ffordd lawer mwy unedig ar draws pob rhanbarth.

Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol

Rhwydwaith Cyfarwyddwyr AD – Model ar gyfer “Cyngor a Chefnogaeth AD arbenigol”

Bydd gan Bennaeth AD corfforaethol gyfrifoldeb strategol trosfwaol am gydlynw gwaith AD rhanbarthol i gefnogi gwaith gwella ysgolion y Consortiwm, ond ni fydd yn atebol am y modd y cyflenwir gwasanaeth AD pob awdurdod lleol. Yn yr un modd, bydd gan Swyddog AD Addysg Arweiniol y Consortiwm gyfrifoldeb am gydlynw, ond ni fydd yn atebol am ddarparu gwasanaeth AD.

Mae'r model gweithredu AD hwn yn gweddu'n arbennig i anghenion y Consortia hynny sydd ag ardal ddaearyddol fawr ac/neu alw sylweddol am i'r gwasanaeth AD gael ei ddarparu'n ddwyieithog.

Hefyd, mae'n mynd tu hwnt i'r gofynion o ran cyngor a chefnogaeth AD arbenigol fel y noda'r Model Cenedlaethol.

Tybir nad yw'r model hwn yn gofyn am drosglwyddo cyllid a bod cyllido cyngor a chefnogaeth AD arbenigol i ysgolion yn parhau i fod yn fater rhwng pob awdurdod lleol a'i ysgolion.

Yn olaf, credir bod y model gweithredu AD a gynigir wedi'i ddiogelu at y dyfodol i ryw raddau oherwydd bydd yn weddol rhwydd i'w addasu os bydd unrhyw newid ffiniau yn digwydd rhwng Consortia yn nes 'mlaen.

Mae'r nodweddion canlynol yn elfennau allweddol o'r model gweithredu AD a ffefrir i bob Consortiwm:

1. Bydd Pennaeth AD corfforaethol yn arwain gwaith AD rhanbarthol y Consortiwm oherwydd bydd hyn yn rhoi cyfraniad AD strategol ychwanegol yn ogystal â dangos bod gwella ysgolion yn gyfrifoldeb corfforaethol.
2. Adnabyddir Swyddog AD Addysg arweiniol o fewn y timau AD presennol ym mhob Consortiwm, a fydd yn adrodd dan drefn matrices i Reolwr Gyfarwyddwr y Consortiwm a Phennaeth AD arweiniol y Consortiwm, gyda'r nod o:
 - a. gefnogi'r swyddogion AD Addysg ym mhob awdurdod lleol a Phennaeth AD arweiniol y Consortiwm i weithio'n effeithiol ar draws y rhanbarth efo'r Rheolwr Gyfarwyddwr, cymdeithasau addysgu/undebau llafur eraill a swyddogion allweddol eraill yn y Consortiwm.
 - b. sefydlu perthynas waith effeithiol rhwng tîm(au) gwella ysgol y Consortiwm a'r tîm(au) Cefnogi Llywodraethwyr mewn perthynas â materion yn ymwneud â'r gweithlu.
 - c. helpu i ddatblygu rhaglenni gwaith AD sy'n ymwneud â'r Consortiwm a monitro adroddiadau a chydlynw unrhyw waith AD angenrheidiol ar draws y rhanbarth.
 - ch. helpu i ddatblygu DPP AD ac unrhyw weithgareddau hyfforddiant eraill ar draws y rhanbarth.
3. Bydd y Swyddogion AD Addysg arweiniol dynodedig o bob un o'r pedwar Consortia yn cydweithio â swyddogion Llywodraeth Cymru a chymdeithasau addysgu ar sail Cymru gyfan mewn perthynas â materion gweithlu allweddol, gan arwain at ddatblygu

Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol

Rhwydwaith Cyfarwyddwyr AD – Model ar gyfer “Cyngor a Chefnogaeth AD arbenigol”

-
- polisiâu gweithlu a strategaethau mewn ffordd fwy strwythuredig ar lefel Llywodraeth Cymru, y Consortiwm a'r awdurdod lleol.
4. Bydd swyddog AD Addysg arweiniol ym mhob awdurdod lleol yn gyfrifol am weithio gyda chydweithwyr AD Addysg cyfatebol yn nhimau AD ALL y naill a'r llall i ddarparu'r model gweithredu unedig hwn i ddarparu AD.
 5. Adnabyddir yr holl unigolion perthnasol o dîm AD pob ALL ac, o fis Ebrill 2014, byddant yn adnodd AD unedig a fydd yn cefnogi gwaith gwella ysgolion ar draws ardal y Consortiwm. Byddant, o bryd i'w gilydd, yn cyfarfod â Rheolwr Gyfarwyddwr y Consortiwm i drafod materion gweithlu, ar y cyd â Swyddog AD Addysg arweiniol y Consortiwm a Phennaeth AD arweiniol y Consortiwm.
 6. Gyda'r adnodd AD unedig hwn, caiff ysgolion gyfle i gael cefnogaeth gan grŵp mwy a tra chymwys o arbenigwyr AD addysg, yn ogystal â Phenaethiaid AD corfforaethol ac arbenigwyr AD perthnasol eraill; drwy rannu gwybodaeth ac arbenigedd fel hyn, bydd cyfleoedd i ddatblygu Swyddogion AD mewn rhai meysydd AD arbenigol mewn ysgolion megis delio gyda thanberfformiad athrawon.
 7. Dadansoddir sgiliau yn ystod 2014 i adnabod galluedd AD a meysydd blaenoriaeth i'w datblygu o fewn y tîm AD rhanbarthol; bydd rhagor o gyfleoedd DPP ar gael, fel y bydd angen, gan arwain at gyflwyno ffyrdd gwell a mwy unedig o weithio, yn arbennig o safbwynt cyngor a chefnogaeth AD ar reoli perfformiad athrawon, medrusrwydd ac absenoldeb salwch.
 8. Bydd cyfle i rannu adnoddau dysgu, er enghraifft bydd Academi Llywodraeth Leol Cymru yn darparu nifer o fodiwlau e-ddysgu i'w defnyddio mewn perthynas â hyfforddi swyddogion AD a Llywodraethwyr.
 9. Bydd y gefnogaeth AD a ddarperir yn adweithiol ar brydiau, ond bydd y model hwn yn rhoi modd i roi pwyslais priodol ar ymyraethau AD cynnar.
 10. Blaenoriaeth gynnar fydd uno (a) polisiâu cyflogaeth allweddol ysgolion, ble'n ymarferol, ac (b) arferion gweithredu AD ar draws y rhanbarth mewn ffordd sy'n cydnabod bod sgiliau rheoli pobl yn dda yn cyfrannu at waith gwella ysgol.
 11. Caiff polisiâu cyflogaeth unedig ysgolion eu llunio ar y cyd efo penaethiaid, llywodraethwyr, arbenigwyr gwella ysgolion a chynrychiolwyr undebau llafur; cânt eu profi – yn enwedig – yn erbyn y cyfraniad a wnânt at wella perfformiad gweithlu ysgolion.
 12. Diogelir gwybodaeth leol am ysgolion unigol a pherthynas waith efo penaethiaid ac undebau llafur.
 13. Yr awdurdodau lleol a fydd yn gyfrifol o hyd am reoli data am weithwyr a'r gweithlu, felly ni thorrir deddfwriaeth diogelu data.
 14. Rhoddir ystyriaeth i wefan pob awdurdod lleol a ddefnyddir i roi mynediad rhwyddach at bolisiâu cyflogaeth craidd pob ysgol i benaethiaid, athrawon, staff cefnogol, llywodraethwyr, staff AD ac undebau llafur.
 15. Rhoddir sylw i gyfnodau gwaith prysur o safbwynt gwaith achos, ynghyd ag unrhyw fylchau byrdymor mewn sgiliau AD, fesul hwb unigol yn bennaf, ond bydd opsiynau ehangach ar draws y rhanbarth hefyd ar gael drwy fabwysiadu'r model hwn.
 16. Caiff canlyniad gweithgareddau monitro ysgolion y Consortiwm ei rannu a'i drafod yn rheolaidd efo timau AD ar lefel leol a rhanbarthol fel y gellir adnabod athrawon ac ysgolion unigol ble mae angen ymyrraeth gynnar, a gweithredu'n fuan.

Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol

Rhwydwaith Cyfarwyddwyr AD – Model ar gyfer “Cyngor a Chefnogaeth AD arbenigol”

17. Bydd cynllun ymyrraeth gwella pob ysgol, a baratoir gan y Consortiwm, yn nodi manylion gweithredu gan staff, a fydd yn ofynnol fel rhan o ymyrraeth gwella pob ysgol; bydd gweithwyr proffesiynol a staff AD yn cydweithio ar y camau gweithredu hyn ac yn cytuno arnynt.
18. Trafodir adroddiadau monitro rheolaidd ar waith gwella ysgol sy'n ymwneud ag AD efo Rheolwr Gyfarwyddwr y Consortiwm gan Bennaeth AD arweiniol y Consortiwm a Swyddogion AD Addysg arweiniol eraill, fel y bo'n briodol.

Cydnabyddir bod y model gweithredu AD hwn o ddarparu cyngor a chefnogaeth AD arbenigol ar y cyd yn golygu newid sylweddol mewn diwylliant, a bydd gofyn i'r holl chwaraewyr allweddol fod yn rhagweithiol ac yn gefnogol.

Serch hynny, mae eisoes tystiolaeth i ddangos bod Penaethiaid AD corfforaethol ac uwch Swyddogion AD Addysg wedi croesawu'r her o gydweithio, gyda chanlyniad llawer gwell o gymharu â phetaent wedi gweithio ar eu pen eu hunain.

Gweithredir nodweddion y model gweithredu AD a ffefrir, fel y disgrifir, yn raddol yn ystod 2014/2015.

Bydd angen diwygio CLGau cyfredol awdurdodau lleol i gynnwys y model gweithredu AD newydd arfaethedig, a fydd yn sefydlu arferion gweithio newydd ar draws y rhanbarth.

Bydd angen i'r Consortia a'r darparwyr gwasanaeth AD a gontractir yn allanol, roi sylw ar wahân i'r safbwynt o ran ysgolion nad ydynt yn prynu cyngor a chefnogaeth AD gan awdurdodau lleol ar hyn o bryd.

Achosion Busnes y Consortia

Bwriedir i'r achos busnes ar gyfer pob Consortia gynnwys darpariaeth debyg i “Mabwysiedir y model gweithredu AD a ffefrir, fel y disgrifir yn atodiad xx y Model Cenedlaethol, a'i weithredu gan y Consortiwm, gyda'r bwriad i'r model fod yn llwyr weithredol erbyn mis Ebrill 2015”.

Graham Jones

Cadeirydd – Rhwydwaith Datblygu Adnoddau Dynol a Swyddog Arweiniol Datblygu Adnoddau Dynol ar gyfer Addysg

10 Mawrth 2014

Atodiad 1a

Achos Busnes Strategol Amlinellol Gogledd Cymru

Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol – Cefnogi Llywodraethwyr a Hyfforddiant Ionawr 2015

1. Yr Achos dros Newid

Mae dogfen ganllawiau Llywodraeth Cymru (Chwefror 2014) yn gwneud yr achos dros newid fel a ganlyn:

“Mae awdurdodau lleol yn cadw'r cyfrifoldebau statudol am ysgolion a gwella ysgolion. Seiliwyd y model cenedlaethol ar weledigaeth o consortia gwella ysgolion rhanbarthol a fydd yn gweithio ar ran awdurdodau lleol i arwain, trefnu a chydlyn gwelliannau ym mherfformiad ysgolion ac yn addysg ein pobl ifanc. Helpu'r rheini sy'n addysgu ein plant a'n pobl ifanc yw prif genhadaeth a diben ein consortia rhanbarthol. Yn y dyfodol, felly, eu swyddogaeth, nad yw'n agored i drafodaeth, fydd cefnogi ysgolion ac awdurdodau lleol gyda'u hymdrechion i:

- wella deilliannau dysgu ar gyfer pob person ifanc;
- sicrhau bod yr addysgu a'r dysgu a geir o safon;
- cefnogi a galluogi arweinwyr ysgolion i arwain eu hysgolion yn well.”

Yn benodol o ran darparu Cefnogi Llywodraethwyr a Hyfforddiant, mae'r ddogfen hefyd yn disgrifio yr amcanion strategol a ganlyn:

“Bydd y consortia rhanbarthol yn comisiynu **gwasanaethau cefnogi llywodraethwyr** a hyfforddiant i lywodraethwyr a fydd yn cynnwys y rhaglenni hyfforddiant gorfodol i lywodraethwyr newydd, hyfforddiant i gadeiryddion llywodraethwyr, a hyfforddiant ar ddeall a chymhwyso data yn effeithiol i bob llywodraethwr, a bydd hefyd yn sicrhau ansawdd y ddarpariaeth. Bydd y consortia hefyd yn annog ac yn hwyluso rhwydweithiau o lywodraethwyr, yn galluogi llywodraethwyr i arsylwi ar gyfarfodydd ei gilydd a recriwtio cadeiryddion llywodraethwyr galluog i fentora cyrff llywodraethu eraill sy'n ei chael hi'n anodd ymgymryd â'u gwaith yn effeithiol. Bydd y consortia hefyd yn datblygu ar y cyd, gan ymgynghori ag awdurdodau lleol, llywodraethwyr a phenaethiaid, dempled ar gyfer data ar berfformiad i benaethiaid ei ddefnyddio i adrodd i lywodraethwyr, fesul tymor neu fesul hanner tymor, ar berfformiad ysgol yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â:

- perfformiad disgyblion a safonau;
- phresenoldeb disgyblion;
- gwahardd disgyblion;
- rheoli absenoldeb staff drwy salwch;
- ansawdd yr addysgu (fel yr asesir drwy arsylwi yn yr ystafell ddosbarth);
- data ar gynnydd a chyrhaeddiad mewn perthynas â thargedau.

Bydd y consortia hefyd yn penderfynu ar bwl o ymgeiswyr galluog a fydd yn barod i wasanaethu ar gyrff llywodraethu lle bo'r llywodraethu yn wan.”

2. Methodoleg

- Comisiynwyd Uned Rheoli Prosiectau Cyngor Gwynedd gan GwE i gynnal cyfweiliadau (wyneb i wyneb a dros y ffôn) efo'r swyddogion perthnasol ym mhob Adran Addysg yn ystod mis Rhagfyr 2014 gyda'r bwriad o ddeall y trefniadau cyfredol.
- Ar sail dogfen Ganllawiau Llywodraeth Cymru a thrafodaethau efo swyddogion yr Adran Addysg a GwE, aeth Uned Rheoli Prosiectau Gwynedd ati i ddatblygu set o Opsiynau Strategol Generig (ochr yn ochr â matrices sgorio a graddio) a ddefnyddiwyd fel sail ar gyfer dewis opsiwn a ffefrir yng nghyfarfod Grŵp Strategol Cyfarwyddwyr Addysg ar 16 Ionawr 2015.
- Papurau cefndirol i'w cael yn **atodiad 1**.

3. Dewis yr Opsiwn Strategol a Ffefrir

Ystyriwyd nad oedd modd darparu **Opsiwn 4** gan fod rhai awdurdodau wedi ymrwymo i ailstrwythuro eu rolau Cefnogi Llywodraethwyr gyda'r bwriad o greu arbedion. Ar ben hynny, mae'r ymgynghorwyr arbenigol (Adnoddau Dynol, Cyllid ac ati) wedi'u lleoli o fewn Adrannau unigol ym mhob Awdurdod Lleol.

Cytunwyd bod yr egwyddorion a amlinellwyd o fewn **Opsiwn 3** yn cyd-fynd yn agos â thrywydd y Grŵp Strategol ac yn rhoi datrysiad ymarferol – er bod cynigion sylweddol ar gyfer gwella'r model generig wedi cael eu hystyried a'u cytuno.

4. Yr Opsiwn Strategol a Ffefrir

Cefnogi Llywodraethwyr

- Staff i gyd i aros yn eu hawdurdodau lleol yn ôl y trefniadau presennol ble bydd y cyfrifoldeb yn aros am ddarparu cymorth i lywodraethwyr.
- Bydd Ymgynghorwyr Her GwE yn parhau i gael trosolwg a chyfrifoldeb priodol am sicrhau ansawdd a chysondeb cyrff llywodraethu effeithiol ar draws y rhanbarth
- Bydd GwE yn comisiynu ymgynghorydd allanol i archwilio'r gwasanaeth cefnogi llywodraethwyr (gan gynnwys hyfforddiant) yn gyson o fewn awdurdodau lleol unigol. Bydd GwE a'r adrannau addysg yn defnyddio'r data perfformiad er mwyn rhannu'r arferion gorau a hybu gwelliannau yn y gwasanaeth.

Hyfforddiant Gorfodol

- Parheir i ddarparu Hyfforddiant Gorfodol drwy'r Adrannau Addysg ochr yn ochr â hyfforddiant anstatudol (e.e. Amddiffyn Plant).
- GwE i barhau i sicrhau ansawdd y ddarpariaeth hyfforddiant, drwy gyfrwng y tîm o Ymgynghorwyr Her.
- Serch hynny, wrth i gyllidebau barhau i ostwng, bydd GwE a'r Adrannau Addysg yn parhau i adnabod blaenoriaethau lleol a rhanbarthol ochr yn ochr â datblygu datrysiadau hyfforddiant ar draws hybiau (e.e. agor rhaglen hyfforddiant Aelodau Awdurdod Lleol GwE i lywodraethwyr eraill).

5. Adnabod Risgiau Gweithredu

Risg	Categori Risg	Lliniaru
Efallai na fydd yr opsiwn a ffeirir yn llwyddo i fodloni graddfa ddisgwyliedig y newidiadau (fel y nodir yn y canllawiau)	Canolig	Trafodaethau cychwynnol efo Geraint Rees, Llywodraeth Cymru, 20 Ionawr 2015
Potensial am anghysondeb wrth ddarparu'r gwasanaeth (ac felly perfformiad) ar draws y rhanbarth – o gofio y bydd Adrannau Addysg yn dal yn gyfrifol am y gwasanaeth.	Isel	Bydd Tîm Ymgynghorwyr Her GwE yn parhau i archwilio a sicrhau ansawdd gwasanaethau cefnogi llywodraethwyr drwy Ymweliadau 1,2,& 3 Blynyddol

6. Adnabod Costau ac Adnoddau Ychwanegol ar gyfer Newid

Gweithgaredd	Cyfrifoldeb	Cyllideb
Comisiynu ymgynghorydd allanol i adrodd yn flynyddol ar swyddogaeth cefnogi llywodraethwyr a hyfforddiant pob awdurdod - dyweder 12 diwrnod y flwyddyn	Tîm Rheoli GwE a Grŵp Strategol Cyfarwyddwyr Addysg	£10,000 ar y mwyaf - angen cytuno ar ffynhonnell gyllid
Sicrhau bod data perfformiad gwahaniaethol, arferion gorau a gwersi a ddysgir o ganfyddiadau ac argymhellion yr ymgynghorydd allanol yn cael eu codi, eu rhannu a'u gweithredu.	Tîm Rheoli GwE a Grŵp Strategol Cyfarwyddwyr Addysg	Dim – busnes fel arfer
Adnabod a datblygu cyfleoedd hyfforddiant rhanbarthol i gyd-fynd â chanfyddiadau'r ymgynghorydd allanol a'r gyllideb sydd ar gael.	Tîm Rheoli GwE a Grŵp Strategol Cyfarwyddwyr Addysg	Dim – busnes fel arfer

7. Y Camau Nesaf

Cyflwynir yr Opsiwn Strategol a Ffeirir uchod yng nghyfarfod nesaf Grŵp Strategol Cyfarwyddwyr Addysg ar 30 Ionawr 2015 i'w ystyried ymhellach, cyn mynd ati i ddatblygu achos busnes manwl mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru.

Atodiad 1b - Opsiynau Strategol – Hyfforddiant Llywodraethwyr (Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio’n Rhanbarthol)

Ionawr 2015

Trefniadau Presennol:

- Holl hyfforddiant cyfredol yn cael ei ddarparu yn bennaf gan swyddogion Adran Addysg yr Awdurdodau Lleol ynghyd â chyflenwyr allanol a GwE – cyfanswm o 40 sesiwn yn flynyddol
- Costau uniongyrchol o redeg y cyrsiau yn eithaf bychan (<£5k y.f.) ond mae’r costau o drefnu lleoliadau / gwahodd mynychwyr ayb yn Defnyddio 0.4 CALI fesul awdurdod lleol ar gyfartaledd (tua £75k y.f.)
- Mwyafrif o awdurdodau yn cyflogi’r swyddogion ar gyfer tasgau eraill yn ymwneud a chefnogi llywodraethwyr ond y tu allan i sgôp y model

			Isafswm Sgôr 1 – Uchafswm Sgôr 5			Sgôr Terfynol
Opsiynau	Buddion	Risgiau	Aliniad gyda’r model cenedlaethol	Ychwanegu Gwerth	Y Gallu i Wireddu’r Newidiadau yn Llwyddiannus	
1 –Gwneud Dim	• Parhad o’r trefniadau presennol sydd wedi eu teilwra i anghenion lle	• Dim perchnogaeth o’r maes oddi mewn i GwE • Dim “economies of scale” • Diffyg cysondeb ar y lefel rhanbarthol	0	0	5	5
2 – Trosglwyddo holl gyllidebau a’r staff cyfredol i GwE (gyda goruchwyliaeth oddi mewn i strwythur rheoli presennol GwE)	• Cysondeb ar lefel ranbarthol • Perchnogaeth gan GwE	• Dim cyllid newydd i ariannu rôl goruchwyliaeth oddi mewn i GwE • Gan mai dim ond 40% o amser y swyddogion presennol sydd yn mynd i gefnogi gweithgareddau oddi mewn i sgôp y model cenedlaethol – bydd angen 2x linell adrodd/rheoli ar gyfer y rhan fwyaf o’r swyddogion	3	0	3	6
3 – Trosglwyddo holl gyllidebau a (dyweder) 80% o’r staff cyfredol i GwE (gyda’r cyllid sy’n weddill (20%) yn cael ei ddefnyddio i greu capasiti goruchwyliaeth oddi mewn i strwythur rheoli presennol GwE)	• Cysondeb ar lefel rhanbarthol • Perchnogaeth gan GwE • Adnodd goruchwyllo wedi i’w gyllido oddi mewn i Dîm Rheoli GwE	• Gostyngiad o 20% yn yr adnodd rheng flaen • Angen rhannu adnoddau ar draws ffiniau • Gan mai dim ond 40% o amser y swyddogion presennol sydd yn mynd i gefnogi gweithgareddau oddi mewn i sgôp y model cenedlaethol – bydd angen 2x linell adrodd/rheoli ar gyfer y rhan fwyaf o’r swyddogion	4	3	3	10
4 – Trosglwyddo’r holl gyllid ond DIM o’r staff presennol i GwE er mwyn galluogi GwE i greu trefniadau newydd rhanbarthol	• Opsiwn i greu rolau arbenigol ynghyd ag arweiniaeth wedi’i alinio â’r blaenoriaethau rhanbarthol • Cyfle i benodi 1x CALI yn unig i gyd-lynu’r trefniadau ar gyfer yr holl gyrsiau ar gyfer y rhanbarth – gan rhyddhau arbedion o hyd at £50k i ariannu blaenoriaethau eraill GwE	• Efallai na fydd y swyddogion presennol yn berchen ar y sgiliau a’r cymwysterau a fydd eu hangen ar gyfer rolau newydd • Risg o greu costau diswyddo os nad yw’r trefniadau newydd yn cael eu gweithredu dros gyfnod sylweddol er mwyn cymryd mantais o gyfleoedd megis trosiant staff	5	4	3	12

Hyfforddiant Llywodraethwyr – Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio’n Rhanbarthol – Trefniadau presennol yng Ngogledd Cymru (Ionawr 2015)

Gweithgaredd	Gwynedd	Ynys Môn	Conwy	Sir Ddinbych	Sir y Fflint	Wrecsam
Darparu Hyfforddiant Statudol – Cadeirydd	Keith Parry Uwch Swyddog Gwella Ansawdd Addysg (01286) 679588 2 neu 3 gwrs pob blwyddyn	D Gareth Jones Swyddog Addysg (01248)752926 2 gwrs y flwyddyn	Comisiynu drwy ddarparwr allanol (Ray Wells a Tony Jones) 2 sesiwn y flwyddyn	Gweithio ar draws ffiniau efo Sir y Fflint, Wrecsam a Chonwy i ddarparu ystod ehangach o gyfleoedd. Defnyddio Ray Wells neu Tony Jones i ddarparu hyfforddiant “wyneb i wyneb” yn Sir Ddinbych. Ar fin lansio hyfforddiant ar lein hefyd ar y cyd ag ALI eraill yng Ngogledd Cymru.	1/ Comisiynu drwy ddarparwr allanol (Ray Wells ac eraill am £180 y sesiwn) 2/ Cyfle i fynychu sesiynau efo Wrecsam 1-2 sesiwn y tymor	nick.williams@wrexham.gov.uk Comisiynu drwy ddarparwr allanol (Ray Wells ac eraill am £180 y sesiwn) – cydweithio’n agos â Fflint. 2 y flwyddyn
Darparu Hyfforddiant Statudol – Llywodraethwyr Newydd	Mai Bere Swyddog Gwella Addysg Cynorthwyol (01286) 685049 3 i 5 cwrs y flwyddyn	D Gareth Jones Swyddog Addysg (01248)752926 2 gwrs y flwyddyn	Comisiynu drwy ddarparwr allanol (Ray Wells a Tony Jones) 2 sesiwn y flwyddyn	Fel uchod i Hyfforddiant Cadeiryddion Trefniadau i gyd yn cael eu rheoli ar hyn o bryd gan Chris Harness Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr 01824 708044 Chris.harness@denbighshire.gov.uk	1/ Comisiynu drwy ddarparwr allanol 2/ Cyfle i rannu sesiynau efo Wrecsam 3/ Darperir gan Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr, Kim Brookes, Rheolwr Cefnogi Busnes, Adran Addysg, Sir y Fflint, 01352 704025 2-3 sesiwn y tymor	ITeC – Darparwr Dysgu Seiliedig ar Waith CBSW. O fewn Dysgu Gydol Oes felly hyfforddiant am ddim i bob pwrpas. 6 sesiwn y flwyddyn @ £180 – Saesneg yn unig
Darparu Hyfforddiant Statudol – Perfformiad Data	Bethan James, Alwyn Jones & Elfyn Jones Ymgynghorwyr Her GwE (01286) 679976 3 i 5 cwrs y flwyddyn	Mae ysgolion wedi cael sesiwn hyfforddiant cychwynnol gan swyddogion yr AALI ac mae’r penaethiaid yn cynnal y cyrsiau yn eu hysgolion unigol.	Comisiynu drwy ddarparwr allanol (Ray Wells a Tony Jones) 2 sesiwn y flwyddyn	Fel uchod i Gadeiryddion, a Julian Molloy (Sir Ddinbych) hefyd yn cynnal y sesiynau hyn gan fod cymaint o lywodraethwyr angen hyfforddiant. Trefniadau i gyd yn cael eu rheoli ar hyn o bryd gan Chris Harness Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr 01824 708044 Chris.harness@denbighshire.gov.uk	1/ Comisiynu drwy ddarparwr allanol 2/ Cyfle i rannu sesiynau efo Wrecsam 2-3 sesiwn y tymor	ITeC – Darparwr Dysgu Seiliedig ar Waith. O fewn Dysgu Gydol Oes felly hyfforddiant am ddim i bob pwrpas. 3 sesiwn y flwyddyn @ £180 – Saesneg yn unig
Darparu Hyfforddiant Statudol – Clercod	Mai Bere Swyddog Gwella Addysg Cynorthwyol (01286) 685049 1 cwrs y flwyddyn	D Gareth Jones Swyddog Addysg (01248)752926 2 gwrs y flwyddyn	Comisiynu drwy ddarparwr allanol (Ray Wells a Tony Jones) 2 sesiwn y flwyddyn	Cynnig hyfforddiant trawsffiniol fel uchod. Wedi defnyddio Kim Brookes (ALI Sir y Fflint) i gynnal sesiynau diweddar yn Sir Ddinbych a Chris Harness bellach yn gallu darparu hyfforddiant hefyd.	1/ Darperir gan Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr, Kim Brookes, Rheolwr Cefnogi Busnes, Adran Addysg, Sir y Fflint, 01352 704025 1 sesiwn y tymor	Darperir gan Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr Fflint

Cydlynu cyrsiau	Meleri Humphreys Cymhorthydd Cefnogi Llywodraethwyr (01286) 679303	Margaret Williams Owen Uwch Swyddog Gweinyddol a Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr (01248) 752918	Delyth Wynne-Thomas Swyddog Cefnogi Hyfforddiant Llywodraethwyr (01492) 575003 Delyth.wynne-thomas@conwy.gov.uk	Chris Harness Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr 01824708044 Chris.harness@denbighshire.gov.uk	Kim Brookes, Rheolwr Cefnogi Busnes, Adran Addysg, Sir y Fflint, 01352 704025	Karen Brown Uwch Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr 01978 295447 Llai na 0.1 CALI Cofrestru Wendy Clifton 0.2 CALI
Comisiynu	Dim angen trefn ffurfiol – darparu cyrsiau a gwasanaethau yn y swydd ddisgrifiadau	Dim angen trefn ffurfiol – darparu cyrsiau a gwasanaethau yn y swydd ddisgrifiadau	Dim angen trefn ffurfiol – darparu cyrsiau a gwasanaethau yn y swydd ddisgrifiadau		Dim angen trefn ffurfiol – darparu cyrsiau a gwasanaethau yn y swydd ddisgrifiadau	Dim angen trefn ffurfiol – darparu cyrsiau a gwasanaethu yn y swydd ddisgrifiadau
Sicrhau ansawdd	Darparu cyrsiau statudol gan ddefnyddio sgriptiau safonol cymeradwy LIC – gyda chydweithiwr ‘arsylwi’ yn bresennol yn rheolaidd.	Darparu cyrsiau statudol gan ddefnyddio sgriptiau safonol cymeradwy LIC – gyda chydweithiwr ‘arsylwi’ yn bresennol yn rheolaidd.	Darparu cyrsiau statudol gan ddefnyddio sgriptiau safonol cymeradwy LIC – gyda chydweithiwr ‘arsylwi’ yn bresennol yn rheolaidd.	Hyfforddiant statudol a ddarperir gan hyfforddwyr wedi’i gymeradwyo gan ALI lletyol ac yn seiliedig ar gynnwys LIC	Darperir cyrsiau statudol gan ddefnyddio sgript safonol cymeradwy LIC	Darperir cyrsiau statudol gan ddefnyddio sgript safonol cymeradwy LIC Clerc yn mynychu 95% o gyfarfodydd llywodraethwyr ysgol.
Darparu gwasanaethau cyngor	Mai Bere Swyddog Gwella Addysg Cynorthwyl (01286) 685049 Meleri Humphreys Cymhorthydd Cefnogi Llywodraethwyr (01286) 679303 Gwasanaethau Cyngor yn cynnwys holl faterion statudol/cyfansoddiadol a chynnull y tîm amlddisgyblaethol perthnasol i fynd i’r afael â phroblemau penodol (e.e. materion AD, Cynhwysedd & Chymhwysedd)	Margaret Williams Owen Uwch Swyddog Gweinyddol a Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr (01248) 752918 Gwasanaethau Cyngor yn cynnwys holl faterion statudol/cyfansoddiadol a chynnull y tîm amlddisgyblaethol perthnasol i fynd i’r afael â phroblemau penodol (e.e. materion AD, Cynhwysedd & Chymhwysedd)	Delyth Wynne-Thomas Swyddog Cefnogi Hyfforddiant Llywodraethwyr (01492) 575003 Delyth.wynne-thomas@conwy.gov.uk	Chris Harness Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr 01824708044 Chris.harness@denbighshire.gov.uk Pob mater i wneud efo llywodraethwyr ar wahân i faterion penodol ble mae angen i dimau megis AD, neu Wasanaethau Cyfreithiol gynghori. Mae’r ALI yn cadw cronfa ddata lawn o’r holl lywodraethwyr a chlercod, gan gynnwys manylion cyswllt, rhifau ffon a chyfeiriadau e- bost), dyddiadau penodi, rolau a chyfrifoldebau penodol, a pha bwyllgorau mae pob un yn gwasanaethu arnynt.	Kim Brookes, Rheolwr Cefnogi Busnes, Adran Addysg, Sir y Fflint, 01352 704025	Dafydd Ifans Pennaeth Isadeiledd a Chymorth Addysg 01978 295448 Karen Brown Uwch Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr 01978 295448 Gwaith wedi’i integreiddio efo CLG Gwasanaeth Clercio efo ysgolion – rhoi cyngor yn ôl y galw. Ysgolion ar y cyfan yn gofyn am gyngor AD gan eu Swyddog AD penodedig.

CALI a amcangyfrifir Gwasanaethau Hyfforddiant Statudol a Chyngor	0.3 CALI (MB) 0.5 CALI (MH) A hefyd cymorth strategol ac arbenigol amhenodol gan amrywiol adrannau o fewn Cyngor Gwynedd (AD yn benodol). Defnyddir (a thelir am) gwasanaethau cyfieithu byw yn y 14 cwrs.	0.5 CALI	0.5 CALI	0.8 (CH) 0.4 (cymorth clerigol) A chymorth amhenodol gan adrannau eraill (AD, Cyfreithiol ac ati).	0.2 CALI (KB) 0.1 CALI – pwll o gefnogaeth weinyddol	0.1 CALI (DI) 0.2 0.2 CALI (KB)
Cyllid/Cyllidebau	Dywed Adran Gyllid Gwynedd bod rôl Cymhorthydd Cefnogi Llywodraethwyr wedi'i hariannu'n llawn drwy'r grant GEY, ond mae pob cyllideb arall yn dod o dan gyllid craidd Adran Addysg Gwynedd. Rhannu costau staff yn erbyn y gwasanaeth Hyfforddiant Llywodraethwyr yn debygol o fod yn anodd – gan ei fod wedi'i rannu rhwng amryw o rolau o fewn yr Adrannau AD ac Addysg.	Pob cyllideb yn dod o dan gyllid craidd Adran Gydol Oes Ynys Môn.	Cyllid Craidd	Cyllidebau craidd Cyngor Sir Ddinbych yn cyllido'r Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr a swyddi cymorth clerigol	Cyllideb hyfforddiant/comisiynu – Arian 'glân' Fflint heb elfennau wedi'u hariannu drwy grant	Cyllid craidd
Arall			Darparu 2 gwrs ychwanegol y flwyddyn hefyd ym mhob un o'r meysydd canlynol Lles (Tîm Lles Conwy) Hyfforddiant Diogelu Blynyddol (Cydlynydd Amddiffyn Plant ALI Conwy) Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), Plant sy'n Derbyn Gofal (PDG) a Gwaharddiadau (Tîmau ADY a PDG Conwy).	Gweithgor Swyddogion Cefnogi Llywodraethwyr (Cymru Gweithgor Swyddogion Cefnogi Llywodraethwyr Gogledd Cymru Fforwm Cadeiryddion Llywodraethwyr Cyngor Sir Ddinbych (pob tymor)		Darparu gwasanaethau di-graidd pwrpasol ar gost os oes angen.

Atodiad 2a

Achos Busnes Strategol Amlinellol Gogledd Cymru

Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol – Herio Perfformiad yn y Cyfnod Sylfaen Ionawr 2015

1. Yr Achos dros Newid

Mae dogfen ganllawiau Llywodraeth Cymru (Chwefror 2014) yn gwneud yr achos dros newid fel a ganlyn:

“Mae awdurdodau lleol yn cadw'r cyfrifoldebau statudol am ysgolion a gwella ysgolion. Seiliwyd y model cenedlaethol ar weledigaeth o gonsortia gwella ysgolion rhanbarthol a fydd yn gweithio ar ran awdurdodau lleol i arwain, trefnu a chydlyn gwelliannau ym mherfformiad ysgolion ac yn addysg ein pobl ifanc. Helpu'r rheini sy'n addysgu ein plant a'n pobl ifanc yw prif genhadaeth a diben ein consortia rhanbarthol. Yn y dyfodol, felly, eu swyddogaeth, nad yw'n agored i drafodaeth, fydd cefnogi ysgolion ac awdurdodau lleol gyda'u hymdrechion i:

- Wella deilliannau dysgu ar gyfer pob person ifanc;
- Sicrhau bod yr addysgu a'r dysgu a geir o safon;
- Cefnogi a galluogi arweinwyr ysgolion i arwain eu hysgolion yn well.”

Yn benodol o ran Herio Perfformiad yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r ddogfen yn disgrifio'r amcanion strategol a ganlyn:

“Bydd cefnogaeth Cyfnod Sylfaen y Blynyddoedd cynnar yn cynnwys herio arweinwyr lleoliadau'r Cyfnod Sylfaen a chyd-drafod â phenaethiaid a darparwyr eraill i archwilio anghenion hyfforddi ac i gomisiynu a sicrhau ansawdd amrediad priodol o raglenni.”

2. Methodoleg

- Comisiynwyd Uned Rheoli Prosiectau Cyngor Gwynedd gan GwE i gynnal cyfweiliadau (wyneb i wyneb a dros y ffôn) efo'r swyddogion perthnasol ym mhob Adran Addysg yn ystod mis Rhagfyr 2014 gyda'r bwriad o ddeall y trefniadau cyfredol.
- Ar sail dogfen Ganllawiau Llywodraeth Cymru a thrafodaethau efo swyddogion yr Adran Addysg a GwE, aeth Uned Rheoli Prosiectau Gwynedd at i'w ddatblygu set o Opsiynau Strategol Generig (ochr â matrices sgorio a graddio) a ddefnyddiwyd fel sail ar gyfer dewis opsiwn a ffefrir yng nghyfarfod Grŵp Strategol Cyfarwyddwyr Addysg ar 16 Ionawr 2015.
- Papurau cefndirol i'w cael yn **atodiad 1**.

3. Dewid yr Opsiwn Strategol a Ffefrir

Nid oedd yr un o'r opsiynau generig a oedd wedi'u paratoi ymlaen llaw yn mynd i'r afael yn llawn â'r gofynion ar gyfer gogledd Cymru am y rhesymau a ganlyn:

- Fel y nodwyd yn ystod y cyfnod casglu gwybodaeth, nid yw tîm Ymgynghorwyr Her GwE yn cynnwys arbenigedd Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, mae pob Ymgynghorwr Her GwE yn arbenigwr ar herio perfformiad mewn lleoliadau a gynhelir ac mae'r arbenigedd ar gyfer cyflwyno'r Cyfnod Sylfaen yn yr Adrannau Addysg unigol (e.e. Swyddogion Hyfforddi Cyfnod Sylfaen).

- Ar gyfer lleoliadau nas cynhelir, mae'r Adrannau Addysg unigol yn herio perfformiad trwy gyfrwng y Tîm Athrawon 10%. Yng nghyd-destun y ddogfen canfod ffeithiau, mae termau megis "coetsio" a "chefnogi" yn gyfystyr â "herio" pan gânt eu defnyddio i ddisgrifio rôl y Tîm Athrawon 10%.

4. Yr Opsiwn Strategol a Ffefrir

Wedi i'r Grŵp Strategol Cyfarwyddwyr Addysg ystyried pob model posib yn ofalus, cynigwyd yr Opsiwn Strategol a ffefrir a ganlyn a chytunwyd arno

Herio Perfformiad

- Ar gyfer lleoliadau a gynhelir, mae'r trefniadau presennol (trwy gyfrwng ymweliadau blynyddol 1, 2 a 4 GwE) yn gadarn ac wedi'u halinio'n llawn efo'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol.
- Fodd bynnag, cydnabyddir nad yw herio perfformiad yn annibynnol mewn lleoliadau nas cynhelir o fewn rhaglen waith GwE ar hyn o bryd. Mae gwaith pellach ar hyn ar waith fel rhan o Raglen Tair Blynedd GwE; felly, nid yw'n rhan o ymateb gogledd Cymru i'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol. Mae'n werth nodi hefyd nad yw'n glir yn nogfennau canllaw Llywodraeth Cymru a yw'n bwriadu cynnwys herio perfformiad mewn lleoliad nas cynhelir yn y Model Cenedlaethol.

Archwilio, Comisiynu a Sicrhau Ansawdd Rhaglenni Hyfforddi Cyfnod Sylfaen

- Mae Adrannau Addysg a lleoliadau unigol a gynhelir i barhau i adnabod anghenion hyfforddi a darparu cyfleoedd hyfforddi ar gyfer staff Cyfnod Sylfaen
- GwE i barhau i herio Adrannau Addysg ar sut y meant yn adnabod anghenion hyfforddi a chyflwyno cyfleoedd hyfforddi
- Fodd bynnag, o ganlyniad i'r trefniadau newydd ar gyfer alldalu a gostyngiadau arfaethedig yn lefelau Grant y Cyfnod Sylfaen ar gyfer 2015/16, bydd GwE a'r Adrannau Addysg yn datblygu ac yn cyflwyno cyfleoedd hyfforddi statudol ar draws yr hybiau

5. Adnabod Risgiau Gweithredu

Risg	Categori Risg	Lliniaru
Efallai na fydd yr opsiwn a ffefrir yn llwyddo i fodloni graddfa ddisgwyliedig y newidiadau (fel y nodir yn y canllawiau)	Canolig	Trafodaethau cychwynnol efo Geraint Rees, Llywodraeth Cymru, 20 Ionawr 2015
Potensial am anghysondeb wrth gomisiynu rhaglenni hyfforddi (ac felly perfformiad) ar draws y rhanbarth – o gofio y bydd Adrannau Addysg yn dal yn gyfrifol am gomisiynu	Isel	Bydd Tîm Ymgynghorwyr Her GwE yn parhau i archwilio a sicrhau ansawdd y rhaglenni hyfforddi yn ystod Ymweliadau Blynyddol 1, 2 a 3

6. Adnabod Costau ac Adnoddau Ychwanegol ar gyfer Newid

Gweithgaredd	Cyfrifoldeb	Cyllideb
Adnabod a datblygu blaenoriaethau hyfforddi rhanbarthol a chyfleoedd sy'n gydnaws â'r cyllidebau sydd ar gael	Tîm Rheoli GwE a Grŵp Strategol Cyfarwyddwyr Addysg	Dim – busnes fel arfer

7. Y Camau Nesaf

Cyflwynir yr Opsiwn Strategol a Ffefrir uchod yng nghyfarfod nesaf Grŵp Strategol Cyfarwyddwyr Addysg ar 30 Ionawr 2015 i'w ystyried ymhellach, cyn mynd at i'w ddatblygu achos busnes a chynlyn gweithredu manwl mewn ymgynghoriad â Llywodraeth Cymru.

Atodiad 2b - Opsiynau Strategol - Herio Perfformiad yn y Cyfnod Sylfaen (Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol)

Ionawr 2015

Trefniadau Presennol:

- Mae data perfformiad ar gyfer pob lleoliad a gynhelir yn cael ei herio a'i drafod ag Ymgynghorwyr Her yn ystod ymweliadau blynyddol GwE (1,2 a 3); er, noda GwE nad oes arbenigwyr Cyfnod Sylfaen ar hyn o bryd yn y Tîm Ymgynghorwyr Her Ysgolion Cynradd.
- Nid yw data perfformiad lleoliadau nas cynhelir yn cael ei herio yn ffurfiol, ond mae enghreifftiau o'r Tîm Athrawon 10% yn defnyddio technegau coetsio a dogfennau canllaw Estyn i wella perfformiad.

			Isafswm Sgôr 1 – Uchafswm Sgôr 5			Sgôr Terfynol
Opsiynau	Buddion	Risgiau	Aliniad efo'r Model Cenedlaethol	Ychwanegu Gwerth	Y Gallu i Wireddu'r Newidiadau yn Llwyddiannus	
1 – Gwneud Dim	Parhau â'r trefniadau presennol sydd wedi'u teilwra i anghenion lleol	- Diffyg cysondeb yn rhanbarthol - Diffyg arbenigedd yn y strwythur presennol (GwE) i gyflawni cyfrifoldebau - Dim 'economies of scale'	0	0	5	5
2 – Datblygu arbenigedd o fewn GwE drwy hyfforddi/addasu cyfansoddiad y Tîm Ymgynghorwyr Her sy'n ymwneud ag Ymweliadau Blynyddol 1, 2 a 3. Hyfforddi'r Tîm Athrawon 10% i herio perfformiad mewn lleoliadau nas cynhelir. Trefniadau goruchwyliaeth presennol i barhau	- Dull rhanbarthol ag iddo strwythur, yn unol â gofynion LIC - Perchenogaeth gan GwE - Dim angen cyllid ychwanegol	- Dim arbenigedd yn GwE i herio perfformiad yn y Cyfnod Sylfaen - Diffyg arbenigedd posib yn GwE i ddarparu'r arweinyddiaeth sy'n ofynnol - Gall gwireddu'r buddion gymryd peth amser o ganlyniad i lefel isel o drosiant staff blynyddol	3	0	3	6
3 – Brigdorri Grant y Cyfnod Sylfaen ar gyfer Uwch Ymgynghorydd Her penodol i gefnogi'r Cyfnod Sylfaen (neu gyffelyb), a fydd yn gweithio gydag Ymgynghorwyr Her presennol a rhai mewn unrhyw gyfansoddiad newydd (a staff 10% lleoliadau nas cynhelir)	- Dull rhanbarthol ag iddo strwythur, yn unol â gofynion LIC - Perchenogaeth gan GwE - Oddi mewn i GwE bydd rôl arweinyddiaeth arbenigol sy'n cael ei hariannu yn llawn	Lleihad yng nghyllideb ysgolion ar gyfer darpariaeth Cyfnod Sylfaen, a all arwain at fymryn o ostyngiad mewn perfformiad (yn y tymor byr o leiaf)	4	3	3	10
4 Brigdorri Grant y Cyfnod Sylfaen ar gyfer Uwch Ymgynghorydd Her y Cyfnod Sylfaen a chwe Ymgynghorydd Her sy'n arbenigwyr ar y Cyfnod Sylfaen (gallai hyn fod yn gyllid tymor byr, dros gyfnod o (dyweder) dair blynedd, ar gyfer gwneud tîm yr Ymgynghorwyr Her yn gytbwys	- Dull rhanbarthol ag iddo strwythur, yn unol â gofynion LIC - Perchenogaeth gan GwE - Oddi mewn i GwE bydd rôl arweinyddiaeth arbenigol sy'n cael ei hariannu yn llawn a chapasiti arbenigol ychwanegol i gyflawni'r nod	Lleihad sylweddol yng nghyllideb ysgolion ar gyfer darpariaeth Cyfnod Sylfaen (5% dyweder), a all arwain at ostyngiad mewn perfformiad yn y tymor byr o leiaf	5	1	3	9

Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio’n Rhanbarthol – Herio Perfformiad yn y Cyfnod Sylfaen – Trefniadau presennol yng Ngogledd Cymru (mis Ionawr 2015)

Gweithgaredd	Gwynedd	Ynys Môn	Conwy	Sir Ddinbych	Sir y Fflint	Wrexham
Herio perfformiad a’r cyflwyno	Mae data perfformiad ar gyfer pob lleoliad (ac eithrio lleoliadau nas cynhelir) yn cael ei herio a’i drafod yn ystod ymweliadau blynyddol GwE (1, 2 a 3)	dgied@ynysmon.gov.uk Mae data perfformiad ar gyfer pob lleoliad (ac eithrio lleoliadau nas cynhelir) yn cael ei herio a’i drafod yn ystod ymweliadau blynyddol GwE (1, 2 a 3) Mae staff 10% lleoliadau nas cynhelir yn llunio adroddiad blynyddol yn unol â disgwyliadau Estyn	Annette.evans@conwy.gov.uk 01492 577 863 01492 577 863 Mae data perfformiad ar gyfer pob lleoliad (ac eithrio lleoliadau nas cynhelir) yn cael ei herio a’i drafod yn ystod ymweliadau blynyddol GwE (1, 2 a 3)	Mae data perfformiad ar gyfer pob ysgol yn cael ei herio a’i drafod yn ystod ymweliadau blynyddol GwE (1, 2 a 3) Mae Athrawes Ymgynghorol Cyfnod Sylfaen yr Awdurdod yn gweithio gyda Swyddogion GwE ar ddarparu cymorth i ysgolion Mae Athrawon Ymgynghorol Cyfnod Sylfaen yr Awdurdod yn cefnogi lleoliadau nas cynhelir	Claire Homard 01352 704019 claire.homard@flintshire.gov.uk	dafydd.ifans@wrexham.gov.uk Mae data perfformiad ar gyfer pob lleoliad (ac eithrio lleoliadau nas cynhelir) yn cael ei herio a’i drafod yn ystod ymweliadau blynyddol GwE (1, 2 a 3)
Asesu anghenion ac yna comisiynu, cydlynu a sicrhau ansawdd hyfforddiant a chefnogaeth i ddatblygu	Yn hanesyddol, pob gweithgaredd yn cael ei gontractio yn allanol i Cynnal (a rŵan i GwE) Cyfarfodydd perfformiad bob pythefnos rhwng GwE a’r Adran Addysg (Grŵp Sicrhau Ansawdd) i amlygu unrhyw ysgolion sydd arnynt angen rhagor o gefnogaeth, nodir gweithgareddau priodol a chytunir ar gynllun gweithredu	Cyfarfodydd perfformiad bob pythefnos rhwng GwE a’r Adran Addysg (Grŵp Sicrhau Ansawdd) i amlygu unrhyw ysgolion sydd arnynt angen rhagor o gefnogaeth, nodir gweithgareddau priodol a chytunir ar gynllun gweithredu	Mae cyfarfodydd perfformiad rhwng GwE a’r Adran Addysg (Grŵp Sicrhau Ansawdd) yn amlygu unrhyw ysgolion sydd arnynt angen rhagor o gefnogaeth, nodir gweithgareddau priodol a chytunir ar gynllun gweithredu A yw pob ceiniog o’r gyllideb Cyfnod Sylfaen yn cael ei drosglwyddo i ysgolion?	Cyfarfodydd perfformiad bob pythefnos rhwng GwE a Swyddogion Addysg Arweiniol yr ALL i amlygu unrhyw ysgolion sydd arnynt angen rhagor o gefnogaeth, nodir gweithgareddau priodol a gweithredir arnynt Mae gan yr ALL drefniant gyda Chlystyrau yn yr Awdurdod i adnabod anghenion hyfforddi yn lleol a’u hariannu - cefnogir y trefniant hwn gan Athrawes Ymgynghorol Cyfnod Sylfaen yr Awdurdod	Mae Swyddog Cymorth a Hyfforddiant y Cyfnod Sylfaen ac Athrawes Ymgynghorol yr Awdurdod yn cyflwyno hyfforddiant cynhwysfawr a rhaglen gymorth ar gyfer y Cymorth Sylfaen mewn ysgolion, a ariennir gan Grant y Cyfnod Sylfaen. Mae cydweithio da rhwng tîm y CS ac Ymgynghorwyr Her GwE o ran ysgolion sydd arnynt angen mewnbwn CS. Mae tîm y CS yn ymuno ag Ymgynghorwyr Her ar ymweliadau ‘mynd at wraidd pethau’, cymorth cyn ac ar ôl arolwg ac ati Mae cyfarfodydd rheolaidd rhwng GwE a’r Swyddog Cynradd hefyd yn amlygu ysgolion sydd arnynt angen cymorth	Cyfarfodydd perfformiad bob pythefnos rhwng GwE a’r Adran Addysg (Grŵp Sicrhau Ansawdd) i amlygu unrhyw ysgolion sydd arnynt angen rhagor o gefnogaeth, nodir gweithgareddau priodol a chytunir ar gynllun gweithredu
Cyllid / Cyllidebau	Mae trosglwyddiad y consortiwm i Wynedd yn ddigon ar y cyfan ar gyfer pob gweithgaredd cysylltiedig Mae 1.17% o Gyllid Grant y Cyfnod Sylfaen (£46k allan o	Mae trosglwyddiad y consortiwm yn ddigon ar y cyfan ar gyfer pob gweithgaredd cysylltiedig 99% o’r cyllid yn cael ei ddefnyddio ar gyfer	Mae trosglwyddiad y consortiwm yn ddigon ar y cyfan ar gyfer pob gweithgaredd cysylltiedig	ALL Sir Ddinbych yn trosglwyddo cyllid Grant Cyfnod Sylfaen i ysgolion ar gyfer cymorth, Cymarebau Cyfnod Sylfaen a hyfforddiant. Mae cymorth a hyfforddiant ar	Mae Swyddog Cynradd a Rheolwr Cyllid Sir y Fflint yn rheoli Grant y Cyfnod Sylfaen. Cyllid yn cael ei drosglwyddo i ysgolion ar gyfer staffio a bodloni cymarebau 1:8 a 1:15. Rheolir y cyllid ar gyfer swyddog	Mae 90% o Grant y Cyfnod Sylfaen yn cael ei wario ar leoliadau a gynhelir, 7% ar leoliadau nas cynhelir a’r 3% sy’n weddill ar hyfforddi / coetsio

	£3.9m) yn cael ei gadw yn ôl gan yr Adran Addysg ar gyfer hyfforddi a goruchwyllo	cymorthyddion dosbarth a staff 10% lleoliadau nas cynhelir – 1% yn cael ei gadw ar gyfer hyfforddi	Rhagor o wybodaeth i ddilyn	gyfer darpariaeth plant tair oed mewn lleoliadau nas cynhelir yn cael ei ariannu hefyd. Mae Grant y Cyfnod Sylfaen yn cyfrannu at gost Athrawon Ymgynghorol Blynnyddoedd Cynnar yr Awdurdod	hyfforddi, staff 10% mewn lleoliadau nas cynhelir a rhaglen hyfforddi (yn unol ag amodau'r grant) yn ganolog gan yr ALL.	
Sylwebaeth GwE	Cadarnhad fod gwella Cyfnod Sylfaen yn cael ei gontractio yn allanol i GwE - er bod GwE yn nodi nad oes arbenigedd Cyfnod Sylfaen nac unrhyw gapasiti na chyllideb ychwanegol i gynyddu sgiliau	Cadarnhad fod gwella Cyfnod Sylfaen yn cael ei gontractio yn allanol i GwE - er bod GwE yn nodi nad oes arbenigedd Cyfnod Sylfaen nac unrhyw gapasiti na chyllideb ychwanegol i gynyddu sgiliau	Cadarnhad fod gwella Cyfnod Sylfaen yn cael ei gontractio yn allanol i GwE - er bod GwE yn nodi nad oes arbenigedd Cyfnod Sylfaen nac unrhyw gapasiti na chyllideb ychwanegol i gynyddu sgiliau	Mae Sir Ddinbych yn ariannu Athrawon Ymgynghorol Cyfnod Sylfaen i gefnogi lleoliadau nas cynhelir a'r Cyfnod Sylfaen mewn ysgolion Mae Athrawon Ymgynghorol Cyfnod Sylfaen yr Awdurdod yn gweithio gyda Swyddogion GwE ar agweddau megis ymweliadau monitro ysgol gyfan	Nodyn ALL : ystyria Cyngor Sir y Fflint fod tîm cymorth CS hynod o arbenigol ac effeithiol yn y Sir, sy'n gweithio'n dda oddi mewn i'r trefniadau presennol a dymunir i hyn barhau dan reolaeth yr ALL	Cadarnhad fod gwella Cyfnod Sylfaen yn cael ei gontractio yn allanol i GwE - er bod GwE yn nodi nad oes arbenigedd Cyfnod Sylfaen nac unrhyw gapasiti na chyllideb ychwanegol i gynyddu sgiliau

Atodiad 3 - Cynnig Llwybrau Dysgu 14 - 19

Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio Rhanbarthol - Opsiynau Strategol ar gyfer Cynnig Llwybrau Dysgu 14 - 19

1. Cefndir a Chyd-destun

- a) Roedd cyn Consortiwm Addysg Gogledd Cymru yn cydlynu a monitro'r Cynnig Llwybrau Dysgu 14 - 19. Roedd Arweinydd y Consortiwm yn gyffredinol gyfrifol am faterion ariannol, swyddog y Consortiwm am gydlynu a monitro Strategol y grant a'r cynllun busnes rhanbarthol a swyddog y Consortiwm yn gyfrifol am weinyddiad a dyraniad y grant.

2. Trefniadau Cyfredol ar gyfer Cynnig Llwybrau Dysgu 14 – 19

- a) Mae un swyddog amser llawn sy'n gyfrifol am weinyddiad a dyrannu'r grant (un o gyfres o grantiau rhanbarthol) wedi cael ei drosglwyddo o gyn Consortiwm Addysg Gogledd Cymru i GwE ers mis Medi 2014. Mae GwE felly wëid mabwysiadu cyfrifoldebau gweinyddu a dyrannu'r grant fel rhan o'r trosglwyddiad hwnnw. Mae GwE felly wedi'i alinio gyda'r Model Cenedlaethol yng nghyswllt gweinyddu a dyrannu'r grant.
- b) Mae Cyngor Gwynedd ar hyn o bryd yn Awdurdod bancio ar gyfer rhanbarth Gogledd Cymru a GwE a defnyddir fformiwla y cytunwyd arni yn rhanbarthol i ddyrannu'r grant i awdurdodau unigol i gefnogi cyflawni eu cynlluniau busnes 14 – 19. Rhagdybir y bydd Cyngor Gwynedd yn parhau i fod yn awdurdod bancio ar gyfer y Cynnig Llwybrau Dysgu 14 – 19. Rhagdybir hefyd y bydd fformiwla y cytunir arni yn rhanbarthol yn parhau i gael ei defnyddio unwaith y bydd y grant 14 – 19 yn dod yn rhan o'r Grant Gwella Addysg rhanbarthol newydd.

3. Trefniadau Cyfredol ar gyfer Cynllun Busnes Rhanbarthol 14 - 19

- a) Mae swyddog o Gyngor Sir Dinbych ar hyn o bryd yn gyfrifol am gydlynu'r cynllun busnes rhanbarthol ac am alinio'r strategaethau rhanbarthol gyda'r strategaeth genedlaethol.
- b) Mae'r Grŵp Llywio 14 - 19 Rhanbarthol yn darparu trosolwg strategol o'r maes yn y ffaith ei fod yn fforwm i drafod a rhannu arferion da ar draws y rhanbarth ac i osod amcanion rhanbarthol clir er mwyn unioni gyda strategaethau cenedlaethol. Mae cadeirydd y grŵp dan sylw (Rheolwr 14 - 19 Cyngor Sir Dinbych) hefyd yn darparu trosolwg rhanbarthol Strategol ar gyfer y rhanbarth yng nghyswllt alinio'r cynllun busnes rhanbarthol gyda strategaethau cenedlaethol.
- c) Mae cynlluniau busnes 14 - 19 yn cael eu cynhyrchu gan Awdurdodau Lleol unigol (mae Gwynedd a Môn yn comisiynu cwmni Cynnal i wneud y gwaith) a hynny yn seiliedig ar flaenoriaethau'r Awdurdodau Lleol hynny a bydd y rhain yn cael eu cynnwys mewn un cynllun rhanbarthol a fydd yn cael ei gymeradwyo a'i fonitro gan Lywodraeth Cymru.
- d) Nid oes gan GwE drosolwg Strategol o'r Cynnig Llwybrau Dysgu 14 - 19 ar hyn o bryd a chaiff hyn ei ddarparu i raddau gan y Grŵp Llywio rhanbarthol a swyddog Cyngor Sir Dinbych sy'n cadeirio'r Grŵp Llywio Rhanbarthol.

4. Ymrwymïadau a Chyfrifoldebau Statudol:

- a) Mae Mesur Dysgu a Sgiliau Cymru 2009 yn darparu sail ddeddfwriaethol ar gyfer y Cynnig Llwybrau Dysgu 14 - 19. Mae'r mesur yn sicrhau y bydd cwricwlwm lleol yn cael ei greu sy'n cynnwys amrediad eang o gyrsiau a chyfleoedd y bydd gan ddysgwyr yng Nghymru'r hawl i ddewis o'u mysg. Mae'r mesur hefyd yn amlinellu hawl y dysgwr i ddilyn eu cwrs astudio dewisedig. Mae'r mesur yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol yng Nghymru i lunio cwricwlwm lleol ar gyfer dysgwyr Cyfnod Allweddol 4. Mae hefyd yn darparu pwerau deddfu i Weinidogion Cymru gyda phwerau creu deddfwriaeth i amodi'r isafswm cyrsiau astudio y dylid eu cynnwys mewn cwricwlwm lleol a'r isafswm cyrsiau galwedigaethol i'w hastudio i sicrhau bod cwricwlwm lleol yn cynnwys amrediad eang o opsiynau astudio sy'n academiaidd ac yn alwedigaethol eu natur.
- b) Mae Awdurdodau Lleol yn gyfrifol am baratoi, cyflwyno i Lywodraeth Cymru ac am ddelifrio cu cynlluniau busnes.
- c) Mae swyddogion o bob Awdurdod Lleol yn cydlynu'r rhwydweithiau lleol sy'n cyfrannu i'r cynlluniau busnes 14 - 19.

5. Gofynion y Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio Rhanbarthol:

- a) Mae Dogfen Ganllaw'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio Rhanbarthol yn nodi ei fod o fewn rôl a swyddogaeth y Consortïwm Addysg rhanbarthol, drwy her, i:

“alinio'r strategaethau 14-19 cenedlaethol a lleol ar draws ardal y consortïwm yn ehangach i helpu i godi safonau yn y pynciau craidd, sef Cymraeg/Saesneg a mathemateg, sicrhau bod cyrsiau o safon yn cynnig hyfforddiant perthnasol i ddisgyblion a chyfrannu'n effeithiol at strategaethau adfywio”.

- b) Mae'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio Rhanbarthol hefyd yn nodi y bydd gweithrediadau brocera a gwella'r Consortïwm Rhanbarthol yn cynnwys:

“trosolwg strategol o'r cynnig 14-19 rhanbarthol, gan gynnwys neilltuo adnoddau i raglenni yn unol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, yn cynnwys:

- cefnogaeth i gynllunio'r defnydd o grantiau;
- sicrhau bod darpariaeth ysgolion a darparwyr yn gydnaws â'i gilydd er mwyn cael yr effaith ddisgwyliedig sy'n gynhenid i'r grantiau hyn;
- gweithio gydag awdurdodau lleol i ddarparu trosolwg strategol i herio a chefnogi pob darparwr, gan gynnwys colegau AB a darparwyr hyfforddiant preifat, i sicrhau mynediad cyfartal at gyfleoedd datblygu;
- gweinyddu'r grantiau perthnasol a chydlynu a chefnogi ceisiadau ar gyfer cyfleoedd grant a fydd yn codi”.

- c) Mae'r dehongliad o'r Model Cenedlaethol yn bwysig wrth ystyried yr opsiynau canlynol ar gyfer alinio. Deallir bod y Model yn ei gwneud yn ofynnol i'r Consortïwm Rhanbarthol (GwE) i ddarparu trosolwg strategol rhanbarthol o'r Cynnig Llwybrau Dysgu 14 - 19. Nid yw'r model yn amodi bod y Consortïwm Addysg (GwE) yn gyfrifol am baratoi, cyflwyno i Lywodraeth Cymru nac am ddelifrio'r cynlluniau busnes, a wneir ar hyn o bryd gan swyddogion yr Awdurdodau Lleol (a ariannir yn rhannol gan y grant 14 - 19 ac arian craidd yr Awdurdodau Lleol).

6. Opsiynau Strategol

a) Yn wyneb y ffeithiau uchod, ystyrir bod yr opsiynau canlynol yn diwallu gofynion y Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio Rhanbarthol yng nghyswllt rôl trosolwg Strategol rhanbarthol:

			Isafswm Sgôr 1 - Mwyafswm Sgôr 5			Cyfanswm Sgôr
Opsiynau	Manteision	Anfanteision	Aliniad gyda'r Model	Creu gwerth ychwanegol	Potensial ar gyfer cyflawni yn llwyddiannus	
1. Gwneud dim (Parhau gyda'r trefniadau cyfredol) (h.y. cyn swyddog y Consortiwm bellach yn gyfrifol am weinyddiad y grant o fewn GwE / Gwynedd i barhau yn awdurdod bancio / Cyngor Sir Dinbych i barhau yn awdurdod arweiniol ar 14 - 19 a chydlynu'r Cynllun Busnes Rhanbarthol / Cadeirydd Grŵp Llywio a'r grŵp ei hun i ddarparu trosolwg Strategol o ran cyflawni amcanion Llywodraeth Cymru)	- Parhad gwasanaeth heb unrhyw newidiadau mawr - Cydweithio rhanbarthol cryf eisoed yn bodoli yn rhinwedd y Grŵp Llywio rhanbarthol a Chyngor Sir Dinbych fel awdurdod arweiniol - Mantais arbenigedd a phrofiad y grŵp i ymgymryd â'r trosolwg strategol - Dim cost ychwanegol ar gyfer delifrio	- Ni fyddai GwE yn diwallu gofynion y Model Cenedlaethol yn llawn o ran trosolwg strategol i sicrhau aliniad rhanbarthol gyda strategaeth genedlaethol - Dim cyswllt rhwng GwE ac Awdurdodau Lleol o ran trosolwg strategol i alinio strategaeth ranbarthol gyda strategaeth genedlaethol ond cyswllt yng nghyswllt y grant - Dim arolwg annibynnol o ansawdd a chysodeb y cynllun busnes rhanbarthol gan GwE	0	0	0	0
2. Creu swydd ychwanegol o fewn GwE i ymgymryd â'r trosolwg strategol Ar draws y rhanbarth (rhagdybir Ymgynghorydd Her gan fod y model yn nodi mai drwy her y bydd alinio'r gwaith rhanbarthol gyda'r strategaeth genedlaethol) (h.y. ni fyddai Dinbych yn parhau i gydlynu'r cynllun busnes	- Parhad gwasanaeth heb unrhyw newidiadau mawr - Cydweithio rhanbarthol cryf eisoed yn bodoli yn rhinwedd y Grŵp Llywio rhanbarthol a Chyngor Sir Dinbych fel awdurdod arweiniol - Atebolrwydd clir yng nghyswllt Awdurdodau Lleol i baratoi, cyflwyno a delifrio eu cynlluniau - Atebolrwydd clir o ran GwE, drwy her, i ddarparu trosolwg strategol a chefnogaeth i awdurdodau Lleol	- Cost ychwanegol rôl newydd o fewn GwE (Ymgynghorydd Her) - Swydd ychwanegol o fewn strwythur GwE	0	0	0	0

rhanbarthol / byddai angen i'r Grŵp Llywio barhau i rannu arferion da a chodi safonau ar draws y rhanbarth / swyddog GwE i fod yn aelod parhaus o'r Grŵp Llywio rhanbarthol)	• Byddai GwE wedi alinio'n llawn gyda gofynion y Model Cenedlaethol • Cyswllt rhwng GwE a'r Awdurdodau Lleol o ran gweinyddiad a chynllunio'r defnydd o'r grant • Byddai'r swydd newydd yn darparu cyswllt mwy gyda Llywodraeth Cymru • Costau ychwanegol cymharol fychan (un Ymgynghorydd Her ac yna asesu'r capasiti ar ôl blwyddyn) • Byddai'r swydd yn canolbwyntio ar drosolwg Strategol o'r Cynnig 14 - 19 ac yn cefnogi Awdurdodau Lleol i herio darparwyr a byddai'n bresenoldeb parhaus ar y Grŵp Llywio rhanbarthol					
3. GwE i gomisiynu ymgynghorydd annibynnol i wneud arolwg ansawdd o'r cynllun busnes rhanbarthol. Byddai'r canfyddiadau'n cael eu defnyddio gan GwE, yr Awdurdodau Lleol a'r Grŵp Llywio i rannu arferion da ar draws y rhanbarth ac i yrru gwelliant. (h.y. byddai cyn swyddog y Consortiwm yn parhau i fod yn gyfrifol am weinyddu a dyrannu'r grant drwy GwE / Gwynedd yn parhau i fod yn awdurdod bancio / Cyngor Dinbych i barhau yn awdurdod arweiniol ar faterion 14 - 19 a chydlynu'r cynllun busnes rhanbarthol / Cadeirydd y Grŵp Llywio rhanbarthol a'r grŵp i ddarparu trosolwg Strategol yng nghyswllt cyflawni amcanion	• Parhad gwasanaeth heb unrhyw newidiadau mawr • Cydweithio rhanbarthol cryf eisoes yn bodoli yn rhinwedd y Grŵp Llywio rhanbarthol • Mantais arbenigedd a phrofiad y grŵp i ymgymryd â'r trosolwg strategol a rhannu arferion da ar draws y rhanbarth er mwyn gyrru gwelliant ac alinio strategaethau lleol gyda strategaethau cenedlaethol • Atebolrwydd eglur yng nghyswllt yr awdurdod arweiniol i gydlyn cynllun rhanbarthol • Atebolrwydd eglur yng nghyswllt GwE i gomisiynu arolwg annibynnol o'r cynllun rhanbarthol • Cost ychwanegol gymharol fychan i benodi ymgynghorydd i arolygu'r cynllun busnes (tua £5k - £10k) • Byddai arolwg ansawdd annibynnol yn cynnig golwg	• Byddai'r elfennau cydlynw a throsolwg Strategol ar wahân - Cydlynw yn aros gyda'r Awdurdod arweiniol a'r trosolwg Strategol gyda GwE • Byddai angen rhoi adnodd ychwanegol i GwE i gomisiynu ymgynghorydd i wneud arolwg sicrwydd ansawdd o'r cynllun rhanbarthol • Ni fyddai GwE wedi alinio'n llawn gyda gofyn y Model Cenedlaethol h.y. • Ni fyddai ymgynghorydd annibynnol yn medru bod yn bresenoldeb parhaus i ddarparu'r trosolwg strategol ar gyfer • "cefnogaeth i gynllunio'r defnydd o grantiau; • sicrhau bod darpariaeth ysgolion a darparwyr yn gydnaws â'i gilydd er mwyn cael yr effaith ddisgwyliedig sy'n gynhenid i'r grantiau hyn;	0	0	0	0

Llywodraeth Cymru)	gwrthrychol o'r cynllun rhanbarthol • Byddai ffocws GwE yn parhau ar wella	• gweithio gydag awdurdodau lleol i ddarparu trosolwg strategol i herio a chefnogi pob darparwr, gan gynnwys colegau AB a darparwyr hyfforddiant preifat, i sicrhau mynediad cyfartal at gyfleoedd datblygu"				
--------------------	---	--	--	--	--	--

Atodiad 4 – Grant y Gymraeg Mewn Addysg a Chynlluniau Strategol y Gymraeg Mewn Addysg

Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio Rhanbarthol – Opsiynau Strategol ar gyfer Grant Y Gymraeg Mewn Addysg a Chynlluniau Strategol y Gymraeg Mewn Addysg

1. Cefndir a Chyd-destun

- a) Roedd cyn Consortiwm Addysg Gogledd Cymru yn arfer cydlynu monitro Grant y Gymraeg Mewn Addysg. Roedd Arweinydd y Consortiwm yn gyfrifol am faterion ariannol, swydd y Consortiwm yn gyfrifol am gydlynu a monitro'r grant a'r cynllun rhanbarthol yn strategol a swyddog arall o'r Consortiwm yn gyfrifol am weinyddu a thaliad y grant.

2. Trefniadau Cyfredol Grant y Gymraeg Mewn Addysg

- a) Mae un swyddog amser llawn oedd yn gyfrifol am weinyddiad a thaliad y grant (un o gyfres o grantiau rhanbarthol) wedi cael ei drosglwyddo o gyn Consortiwm Addysg Gogledd Cymru i GwE ers mis Medi 2014. Mae GwE felly wedi mabwysiadu'r cyfrifoldebau gweinyddu a thalu sy'n gysylltiedig â'r grant fel rhan o'r trosglwyddiad staff hwnnw. Mae GwE eisoes felly wedi ei alinio â'r Model Cenedlaethol yng nghyswllt gweinyddu a thalu'r grant hwnnw.
- b) Mae Cyngor Gwynedd ar hyn o bryd yn awdurdod bancio ar gyfer rhanbarth Gogledd Cymru a GwE a defnyddir fformiwla y cytunwyd arni yn rhanbarthol ar gyfer dosbarthu'r grant i awdurdodau unigol i gynorthwyo gyda delifrio eu Cynlluniau Strategol. Rhagdybir y bydd Cyngor Gwynedd yn parhau i fod yn awdurdod bancio ar gyfer grant y Gymraeg Mewn Addysg. Rhagdybir hefyd y bydd fformiwla y cytunir arni yn rhanbarthol yn parhau i gael ei defnyddio unwaith y bydd y grant yn dod yn rhan o Grant Gwella Addysg newydd Llywodraeth Cymru ym mlwyddyn ariannol 2015 - 2016.
- c) Mae awdurdodau unigol yn datganoli cyfran o Grant y Gymraeg Mewn Addysg i ysgolion.

3. Trefniadau cyfredol ar gyfer Cynlluniau Strategol y Gymraeg Mewn Addysg

- a) Mae swyddog o Gyngor Gwynedd yn gyfrifol ar hyn o bryd am gydlynu'r cynllun rhanbarthol ac am alinio nodau Strategaeth Addysg Cyfrwng Gymraeg Llywodraeth Cymru gan fod Pennaeth Addysg Adran Addysg Gwynedd yn cadeirio'r Is-grŵp Cyfrwng Gymraeg ac Adeiladu Cynhwysedd rhanbarthol.
- b) Mae'r Is-grŵp rhanbarthol hwn yn darparu rôl sicrhau ansawdd yn y ffaith ei fod yn trafod ac yn rhannu arferion da ar draws y rhanbarthol ac yn gosod amcanion rhanbarthol clir mewn cyswllt â delifrio nodau Strategaeth Addysg Cyfrwng Gymraeg Llywodraeth Cymru. Mae Cadeirydd y grŵp hwn (Pennaeth Addysg Cyngor Gwynedd) hefyd yn darparu rôl sicrwydd ansawdd ar gyfer y rhanbarth yng nghyswllt y Cynllun Strategol rhanbarthol.
- c) Cynhyrchir Cynlluniau Strategol y Gymraeg Mewn Addysg gan awdurdodau unigol yn seiliedig ar flaenoriaethau'r Awdurdodau Lleol hynny ac fe'u cynhwysir mewn un cynllun rhanbarthol sydd yna'n cael ei gymeradwyo, ei fonitro ac y sicrhau ei ansawdd yn erbyn nodau Strategaeth Cyfrwng Gymraeg Llywodraeth Cymru gan Uned y Gymraeg Mewn Addysg Llywodraeth Cymru.
- d) Nid yw GwE ar hyn o bryd yn cydlynu nac yn sicrhau bod nodau'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Gymraeg Genedlaethol yn cael eu cyflawni drwy sicrhau bod y Cynllun Strategol rhanbarthol mewn aliniad â'r Strategaeth honno, ond gwneir hyn i raddau gan swyddog Cyngor Gwynedd sy'n cydlynu'r cynllun rhanbarthol, yr Is-grŵp Cyfrwng Gymraeg rhanbarthol a Chadeirydd y grŵp hwnnw.

- e) Mewn rhai achosion, ymgynghorir â GwE wrth lunio Cynlluniau Strategol y Gymraeg Mewn Addysg a bydd yn rhoi mewnbwn i'r cynlluniau hynny.

4. Ymrwymadau a Chyfrifoldebau Statudol:

- a) Ar 4 Mawrth 2013, daeth Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion Cymru 2013 i rym. Mae Awdurdodau Lleol, yn rhinwedd y ddeddf hon, yn gyfrifol am baratoi Cynlluniau Strategol y Gymraeg Mewn Addysg ac am eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru am gyfnod o 3 blynedd o fis Ebrill 2014 hyd fis Mawrth 2017. Mae'r cynlluniau hyn yn amlinellu sut y mae Awdurdodau Lleol yn bwriadu cyflawni nodau ac amcanion Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru.
- b) Mae swyddogion o'r Awdurdodau Lleol yn gyfrifol am gydlynu'r pwyllgorau, gweithgorau a'r rhwydweithiau sy'n cyfrannu i Gynlluniau Strategol y Gymraeg Mewn Addysg. Dylid pwysleisio bod y dyletswyddau hyn yn rhan o rôl ehangach swyddi swyddogion o fewn Adrannau Addysg sy'n cyfrannu tuag at baratoi, cyflwyno a chyflawni'r cynlluniau dan sylw.

5. Gofynion y Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio Rhanbarthol:

- a) Er mwyn diwallu gofynion y Model Cenedlaethol, disgwylir i GwE ymgymryd â'r dyletswyddau isod:

“cydlynu ac yn sicrhau ansawdd gweithgarwch i fodloni nodau'r Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg drwy sicrhau bod y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a'r Grant Cymraeg mewn Addysg yn gydnaws â'i gilydd ar draws pob un o'r awdurdodau lleol ac ym mhob un o'r consortia rhanbarthol, fel bod cysondeb o ran datblygu rhagoriaeth mewn addysgeg ac o ran bodloni'r targedau y cytunwyd arnynt, nid yn unig ar draws y sectorau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, ond hefyd wrth gyflwyno Cymraeg fel ail iaith.”.

- b) Mae'r dehongliad o eiriad y Model Cenedlaethol yn bwysig wrth ystyried yr opsiynau canlynol ar gyfer alinio. Deallir bod y Model Cenedlaethol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Consortiwm Addysg Ranbarthol (GwE bellach) i gydlynu a sicrhau ansawdd y cynllun rhanbarthol a dosbarthu a rhannu'r grant er mwyn sicrhau bod nodau ac amcanion Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg y Llywodraeth yn cael eu cyflawni. Nid yw'r Model Cenedlaethol yn nodi bod y Consortiwm Addysg rhanbarthol (GwE) yn gyfrifol am baratoi, cyflwyno'r cynllun Strategol i'r Llywodraeth na chyflawni'r cynlluniau strategol a wneir yn gyfredol gan swyddogion Awdurdodau Lleol (a ariannir yn rhannol gan Grant y Gymraeg Mewn Addysg ac arian craidd Awdurdodau Lleol yn unol â'r hyn a nodir yn eu Cynlluniau Strategol).

6. Opsiynau Strategol

a) Yn wyneb y ffeithiau uchod, ystyrir y gallai'r opsiynau cyfredol ddiwallu gofynion y Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio Rhanbarthol yng nghyswllt y rol cydlynu rhanbarthol a sicrhau ansawdd:

			Sgor isaf 1 – Sgor Uchaf 5			Cyfanswm Sgor
Opsiynau	Manteision	Anfanteision	Aliniad gyda'r Model Cenedlaethol	Ychwanegu Gwerth	Potensial ar gyfer cyflawni'n llwyddiannus	
1. Gwneud Dim (Parhau gyda'r trefniadau cyfredol) (h.y. cyn swyddog y Consortiwm bellach yn gweinyddu'r grant drwy GwE / Gwynedd i barhau yn awdurdod bancio / Gwynedd i barhau yn awdurdod arweiniol o ran cydlynu'r cynllun rhanbarthol / Cadeirydd yr Is-grŵp a'r grŵp ei hun i ddarparu rôl sicrhau ansawdd yng nghyswllt cyflawni amcanion Strategaeth Addysg Gymraeg Llywodraeth Cymru)	- Parhad gwasanaeth heb unrhyw newid - Cydweithio rhanbarthol cryf yn rhinwedd yr is-grŵp a Phennaeth Addysg Gwynedd fel Cadeirydd - Mantais profiad a gwybodaeth y grŵp mewn rôl sicrhau ansawdd a rhannu arfer gorau ar draws y rhanbarth - Dim costau ychwanegol ar gyfer cyflawni	- Ni fyddai GwE yn diwallu gofynion y rol cydlynu a sicrhau ansawdd - Dim cyswllt rhwng GwE a'r Awdurdodau Lleol yng nghyswllt y Cynlluniau Strategol ond cyswllt yng nghyswllt gweinyddu a dyrannu'r grant - Dim gwerthusiad annibynnol o ansawdd a chysondeb Cynlluniau Strategol y Gymraeg Mewn Addysg	0	0	0	0
2. Creu swydd newydd o fewn GwE i wneud y gwaith cydlynu a sicrhau ansawdd rhanbarthol ar draws y rhanbarth (h.y. ni fyddai angen i Wynedd gydlynu'r cynllun rhanbarthol / byddai angen i'r Is-grŵp barhau i drafod a rhannu arferion da ar draws y rhanbarth er mwyn codi safonau / byddai swyddog o GwE yn aelod o'r grŵp hwnnw)	- Parhad gwasanaeth heb unrhyw newid - Cydweithio rhanbarthol cryf yn rhinwedd yr is-grŵp a Phennaeth Addysg Gwynedd fel Cadeirydd - Atebolrwydd clir yng nghyswllt cydlynu a sicrhau ansawdd y cynlluniau - Byddai GwE wedi ei alinio yn llawn gydag anghenion y Model Cenedlaethol - Cyswllt rhwng GwE ac Awdurdodau Lleol yng nghyswllt y cynlluniau a'r grant	- Cost ychwanegol swydd newydd - Swydd ychwanegol yn strwythur GwE	0	0	0	0

	• Gallai'r swydd newydd ddarparu cyswllt mwy rhanbarthol gyda Llywodraeth Cymru Government • Cost cymharol fychan swydd ychwanegol • Byddai'r swydd yn canolbwyntio ar gydlynw a sicrhau ansawdd a byddai'n darparu cysondeb yn rhinwedd bod yn bresenoldeb parhaus ar yr is grŵp					
3. GwE i gomisiynu ymgynghorydd annibynnol i wneud arolwg ansawdd o'r Cynllun Strategol rhanbarthol. Byddai canfyddiadau'r arolwg yn cael ei ddefnyddio gan GwE, Awdurdodau Lleol a'r Is-grŵp i rannu arferion da ac i yrru gwelliant (h.y. byddai cyn swyddog y Consortiwm yn gyfrifol am weinyddu'r grant drwy GwE / Gwynedd yn parhau yn awdurdod bancio / Gwynedd i barhau yn awdurdod arweiniol ar faterion y Gymraeg a chydlynw'r cynllun rhanbarthol / Cadeirydd yr Is-grŵp a'r grŵp ei hun i ddarparu rôl sicrwydd ansawdd yng nghyswllt cyflawni amcanion Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru)	• Parhad gwasanaeth heb unrhyw newid • Cydweithio rhanbarthol cryf yn rhinwedd yr is-grŵp a Phennaeth Addysg Gwynedd fel Cadeirydd • Mantais profiad a gwybodaeth y grŵp mewn rôl sicrhau ansawdd a rhannu arfer gorau ar draws y rhanbarth i yrru gwelliant • Atebolrwydd clir yng nghyswllt yr awdurdod arweiniol i gydlynw cynhyrchu'r cynllun Strategol • Atebolrwydd clir yng nghyswllt GwE i gomisiynu arolwg ansawdd annibynnol o'r cynllun Strategol • Byddai GwE wedi ei alinio gyda gofyn y Model Cenedlaethol • Cyswllt rhwng GwE a'r Awdurdodau Lleol yng nghyswllt y cynlluniau a'r grant • Cost fechan ychwanegol i benodi ymgynghorydd i wneud arolwg sicrwydd ansawdd o'r cynlluniau Strategol (£5k - £10k) • Byddai arolwg sicrwydd ansawdd annibynnol yn rhoi trosolwg gwrthrychol o'r cynlluniau Strategol • Byddai ffocws GwE yn parhau ar yrru gwelliannau	• Byddai'r elfennau cydlynw a sicrhau ansawdd ar wahân - Cydlynw gyda'r Awdurdod arweiniol a sicrwydd ansawdd gyda GwE • Byddai angen adnodd ychwanegol ar GwE i gomisiynu ymgynghorydd i wneud yr arolwg sicrwydd ansawdd • Byddai hyn yn creu haen 'sicrwydd ansawdd' ychwanegol gan fod Uned y Gymraeg Mewn Addysg Llywodraeth Cymru eisoes yn sicrhau ansawdd y cynllun Strategol rhanbarthol	0	0	0	0

Atodiad 5

Aliniad efo'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol

Cydlynu dimensiwn rhanbarthol y Strategaeth TGCh

1. Gofynion y Model Cenedlaethol

- 1.1.** Mae Dogfen Ganllawiau'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol yn nodi bod y canlynol o fewn swyddogaeth a rôl y Consortiwm Addysg Rhanbarthol:

"Bydd cydlynu dimensiwn rhanbarthol y Strategaeth TGCh yn cynnwys hunanwerthuso TGCh ysgolion, arweinyddiaeth a chynllunio TGCh ar gyfer dysgu, diogelu, technolegau datblygol, rhith-amgylcheddau dysgu, technoleg dysgu a'r fframwaith llythrennedd a rhifedd cenedlaethol, rhedeg rhwydweithiau ar gyfer penaethiaid adrannau a chydlynwyr TGCh, cefnogi addysgeg a datblygu cwricwlwm (gan gyfeirio at y Strategaeth Dysgu a'r Byd Digidol)."

- 1.2.** Noda'r ddogfen ganllawiau hefyd y bydd gweithgareddau brocera a gwella'r consortiwm hefyd yn cynnwys:

"comisiynu cyfres o raglenni hyfforddi a datblygu ar gyfer yr ystafell ddosbarth yn bennaf i gefnogi gwelliannau mewn addysgu a dysgu a gwybodaeth am bwnc, a sicrhau ansawdd y rhaglenni hynny";

"enwi adrannau ac ymarferwyr arweiniol rhagorol, gan ddefnyddio meini prawf y cytunwyd arnynt yn genedlaethol, y gellid eu recriwtio i gefnogi ysgolion eraill yn ystod rhan o'u hwythnos waith";

- 1.3.** Yn benodol, dylai awdurdodau lleol rannu gwybodaeth â'r consortia rhanbarthol am eu cynigion a'u penderfyniadau mewn perthynas â:

"trefniadau diogelu ar gyfer plant a phobl ifanc".

2. Rôl GwE yn ôl yr achos busnes cychwynnol

- 2.1.** Roedd yr achos busnes llawn a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2012 yn adnabod Chwe Swyddogaeth Allweddol Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol. Yr ail swyddogaeth oedd:

- 2.1.1.** Darparu Cefnogaeth ar gyfer Awdurdodau Lleol ac Ysgolion, y naill a'r llall, (gyda'i gilydd neu ar wahân yn ôl yr angen) wrth weithredu i wella ysgolion drwy:

"Darparu arbenigedd ar TG (Cwricwlwm ac Addysgeg) a'r Rhith-amgylchedd Dysgu".

3. Rôl a Swyddogaethau Cyfredol GwE

- 3.1** Nid oes trefniadau cyfredol o fewn GwE o ran diwallu anghenion y Model Cenedlaethol a'r cyfeiriad strategol ar gyfer TGC.

4. Is-grwp TGC a Data Gogledd Cymru

4.1 Nod yr Is-grwp yw “darparu arweiniad strategol ar gyfer y Consortiwm yng nghyswllt defnydd diogel ac effeithiol o dechnoleg mewn dysgu ac addysg gyda’r nod o wella safonau addysg dysgwyr a’r deilliannau iddynt” (dyfyniad o’r Cylch Gorchwyl gwreiddiol)

4.2 Mae’r grŵp wedi cael cryn lwyddiant wrth ymdrin ag elfennau o’r anghenion yng nghyswllt y cyfeiriad strategol rhanbarthol ar gyfer TGC, fodd bynnag, mae’n wynebu nifer o heriau pwysig:

4.2.1 Mae darparu cefnogaeth TGC ar draws y 6 Awdurdod yn amrywio’n fawr fel y gwelir yn Adran 5.

4.2.2 Mae gan aelodau’r Is-grwp TGC swyddogaethau pur wahanol yn eu Hawdurdodau Lleol a’u sefydliadau

4.2.3 Mae’r defnydd o dechnoleg wrth ddysgu ac addysgu yn gynyddol ddod yn ganolbwynt yng nghyswllt metrau cenedlaethol a rhanbarthol (e.e. LiDW, grant LiDW CPD a HWB+). Mae Cylch Gorchwyl gwreiddiol y grŵp yn cyfeirio at yr ymrwymiad lleiaf a ddisgwylir gan aelodau, nad yw’n debygol ei fod yn ddigonol i ateb anghenion y Model Cenedlaethol.

4.2.4 Nid oes cyllideb gyfredol na chefnogaeth weinyddol ar gael i’r grŵp.

4.2.5 Mae ansicrwydd ynghylch atebolrwydd y grŵp a’r atebolrwydd i’r grŵp.

Trefniadau Presennol ar gyfer TGCh ar draws y rhanbarth

4.1. Wrecsam

4.1.1. Strwythur

4.1.1.1. Rheolwr Strategaeth TGCh yn cefnogi ysgolion a Dysgu Gydol Oes efo TGCh Strategol.

4.1.1.2. CLG Cefnogaeth i ysgolion yn cynnwys Cymorth Technegol, Cymorth SIMS/MIS, Telegyfathrebu a Chaffael TGCh;

4.1.1.2.1. Trefniant prynu'n ôl 100% gan ysgolion cynradd ac uwchradd ar hyn o bryd

4.1.1.2.2. Angen adnewyddu mis Mawrth 2017

4.1.1.2.3. 3 swyddog yn cefnogi SIMS a MIS a 12 swyddog yn cefnogi Technegol, Rhwydweithiau, Caffael a Thelegyfathrebu

4.1.2. Cefnogaeth – Drwy'r Rheolwr Strategaeth TGCh a Thîm Cefnogi TGCh Ysgolion, caiff ysgolion y canlynol:

4.1.2.1. Cefnogaeth strategol ar gyfer defnyddio technolegau digidol yn y dysgu a'r addysgu

4.1.2.2. Cyngor cwricwlaidd a phedagogiaidd a chefnogaeth cyn ac ôl arolwg - rhywfaint o hyfforddiant mewnol ar dechnoleg newydd gan frocera darparwyr allanol hefyd.

4.1.2.3. Cyngor technegol ar ddyfeisiau TG a rhwydweithiau efo cefnogaeth, cynnal a chadw a gwasanaeth caffael TG.

4.1.2.4. Gwasanaethau rhwydweithiau canolog ac isadeiledd gan gynnwys Hidlo'r We, Rhwydwaith diwifr a reolir, Rheoli Dyfeisiau Symudol, Gwrth-firws a Diogelwch Rhwydwaith

4.1.2.5. Hyfforddiant a chefnogaeth ar gyfer Capita SIMS

4.1.2.6. Cynrychiolaeth ar grwpiau rhanbarthol a chenedlaethol

4.1.2.7. Cefnogaeth yn lleol ar gyfer mentrau a gweithgareddau cenedlaethol a rhanbarthol e.e. HWB a HWB+ / LiDW / Prosiect Band Llydan / Grŵp Adnoddau Digidol 14-19.

4.2. Conwy

4.2.1. Strwythur

4.2.1.1. O ganlyniad i ailstrwythuro rhanbarthol (gweler 2 uchod) ac ALL, mae TGCh bellach yn cael ei hystyried yn un o'r amryw o agweddau ar rôl Uwch Swyddog Effeithiolrwydd Ysgolion.

4.2.1.2. Tua 1.8 CALL yn cefnogi meysydd sy'n gysylltiedig â'r cwricwlwm TGCh mewn ysgolion e.e. HWB+, prosiect dyfeisiau llaw digidol, broceru hyfforddiant TGCh cwricwlaidd.

4.2.2. Cefnogaeth

4.2.2.1. Mae ysgolion uwchradd, a bellach ysgolion cynradd ers mis Ebrill 2014, yn trafod ac yn prynu eu CLG cefnogaeth dechnegol TGCh blyneddol eu hunain drwy gyllideb ddatganoledig. Mae trefniadau ysgolion uwchradd yn amrywio ond ar hyn o bryd mae patrwm ysgolion cynradd yn fwy cyson h.y. 2 CLG ar wahân.

4.2.2.1.1. Caffael a chefnogaeth cynnal a chadw technegol ar gyfer y rhwydwaith cwricwlaidd

4.2.2.1.2. SIMS – cefnogaeth dechnegol, cefnogaeth i ddefnyddwyr a chynnal a chadw

4.2.2.2. Gwasanaethau rhwydweithiau canolog ac isadeiledd yn darparu Hidlo'r We, e-bost, Gwrth-firws, Diogelwch Rhwydwaith a thelegyfathrebu.

- 4.2.2.3. Gall ysgolion cynradd hefyd brynu i mewn i 3 lefel o wasanaethau biwro MIS ALL yn dibynnu ar anghenion yr ysgol.

4.3. Sir Ddinbych

4.3.1. Strwythur

- 4.3.1.1. Mae'r gefnogaeth dechnegol ar gyfer TGCh wedi bod yn cael ei chontractio i ffynonellau allanol am bron i dair blynedd ac mae gan dros 80% o ysgolion ddarparwr gwasanaeth TGCh addysg arbenigol o fframwaith Gwasanaethau TGCh Adran Addysg Lloegr.
- 4.3.1.2. Mae gweddill yr ysgolion wedi caffael cefnogaeth gan dri darparwr arall.
- 4.3.1.3. Mae'r holl gefnogaeth dechnegol i waith gweinyddol TGCh ysgolion yn gcontract ar wahân efo'r prif gcontractwr gwasanaeth.
- 4.3.1.4. Swyddog ALL .3 yn rheoli contractau.
- 4.3.1.5. Grŵp Llywio TGCh yn cynnwys aelodau o UDA ysgolion a bydd Rheolwyr Busnes yn goruchwyllo datblygiadau TGCh yn Sir Ddinbych.

4.3.2. Cefnogaeth

- 4.3.2.1.1 HWB+ hyfforddwr .5 CALL hyd nes mis Gorffennaf 2015, yn darparu rhywfaint o hyfforddiant mewn ysgol.
- 4.3.2.2. Darperir rhywfaint o hyfforddiant TGCh i ysgolion drwy Hyddysg, cwmni hyfforddiant Ysgol Glan Clwyd.

4.4. Gwynedd / Ynys Môn

4.4.1. Strwythur

- 4.4.1.1. Sefydlwyd CYNNAL gan Wynedd ac Ynys Môn i ddarparu cefnogaeth TGCh i ysgolion o fewn yr awdurdodau. Mae cyllid ar gyfer cefnogaeth TGCh a chaffael wedi'i dirprwyo i ysgolion, a chaiff y gwasanaethau cefnogi eu darparu a'u monitro drwy ystod o Gytundebau Lefel Gwasanaeth. Mae adrannau TGCh canolog yn darparu a chynnal cysylltiad i ysgolion drwy brosiectau Dysgu Gydol Oes, a Phrosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus (PSBA)/Dysgu yn y Gymru ddigidol yn fwy diweddar.
- 4.4.1.2. Mae rheolwyr TGCh y cwmni yn gyfrifol am gyngor/cefnogaeth strategol a monitro lefelau/gwasanaethau cefnogi, ar y cyd â Grwpiau Defnyddwyr/Llywio o ysgolion.
- 4.4.1.3. Darperir cefnogaeth dechnegol gan dîm o 13 o dechnegwyr ysgolion cynradd, technegwyr ysgolion uwchradd, technegydd SIMS, a thechnegwyr rhwydwaith/AV, a chefnogir ysgolion yn Ynys Môn, Gwynedd, Conwy a Sir Ddinbych.
- 4.4.1.4. Mae tîm o bump yn cefnogi CAPITA SIMS yn ysgolion Gwynedd a Môn.
- 4.4.1.5. Mae tîm o bump yn gyfrifol am ddatblygu adnoddau ar-lein/rhyngweithiol a systemau rheoli. Mae dau berson sydd ar secondiad o ysgolion uwchradd ar gael ar gyfer defnyddio a chefnogi HWB.

4.4.2. Cefnogaeth

- 4.4.2.1. Gwerthu a gosod offer cyfrifiadurol a thechnegol.
- 4.4.2.2. Trwsio a chynnal a chadw offer cyfrifiadurol a thechnegol.
- 4.4.2.3. Gosod rhwydweithiau a chefnogi gwaith gosod byrddau gwyn rhyngweithiol, sgriniau arddangos a thaflunwyr.
- 4.4.2.4. Gwerthu a chefnogi rhaglenni SIMS / MIS a meddalwedd addysg.
- 4.4.2.5. Cefnogaeth ar gyfer defnyddio systemau gwybodaeth reoli mewn ysgolion.
- 4.4.2.6. Dylunio a datblygu adnoddau addysg rhyngweithiol.

- 4.4.2.7. Datblygu systemau rheoli ar-lein i helpu ysgolion efo MIS.
- 4.4.2.8. Cefnogi a hyrwyddo'r defnydd o Lwyfannau Dysgu.
- 4.4.2.9. Hyfforddiant a gweithdai ar ddefnyddio TGCh ar gyfer staff gweinyddol, technegol a dysgu mewn ysgolion.
- 4.4.2.10. Cynghori ysgolion ar ddatblygu a defnyddio systemau cyfrifiadurol a systemau sy'n seiliedig ar wybodaeth yn eu sefydliad.
- 4.4.2.11. Profi offer trydanol symudol.

4.5 Sir y Fflint

4.5.1 – Strwythur

- 4.5.1.1 Mae'r Rheolwr TGCh Addysg ar secondiad gyda LLC ers mis Hydref 2013 ac o ganlyniad ychydig iawn o gefnogaeth a fu i ysgolion ar lefel strategol oddi mewn i'r Cyngor. Mae athro cynradd 0.2 wedi ymgymryd â rôl ymgynghorol. Mae'r gwasanaeth cefnogi TGCh addysg wedi'i adolygu ac ni fydd rôl ar gyfer y Rheolwr TGCh Addysg presennol yn y strwythur arfaethedig.
- 4.5.1.2 Mae 3 CLG Cefnogaeth TGCh ar gyfer ysgolion sy'n ymwneud â Chymorth Technegol, Cymorth SIMS / MIS a Chaffael TGCh. Angen adnewyddu ym mis Medi 2015. Hyderir y bydd y mwyafrif o ysgolion yn prynu'n ôl i'r CLG newydd.
- 4.5.1.3 Mae 2 Swyddog yn cefnogi SIMS a MIS (*byddant yn symud i dimau hyfforddi TGCh Corfforaethol yn dilyn ad-drefnu*); mae 6 Swyddog yn cefnogi Technegol a Rhwydweithiau (*a fydd yn 3 Swyddog TGCh Corfforaethol a bydd 5 ysgol wedyn cyflogi eu technegwyr eu hunain fel clwstwr*) ac mae 2 Swyddog yn cefnogi Caffael a Thelegyfathrebu (*a fydd yn 1 Rheolwr Busnes oddi mewn i TGCh Corfforaethol*). Nid oes rôl ymgynghorol wedi'i hadnabod - bydd ysgolion yn cefnogi ei gilydd.
- 4.5.1.4 Dylid nodi bod y cynigion ar gyfer y gwasanaeth newydd yn destun ymgynghori ar hyn o bryd gydag ysgolion, er bod y cynigion wedi'u cynhyrchu gan ymgynghorydd allanol yn dilyn proses adnabod anghenion. Nid oes dyddiad wedi'i nodi eto ar gyfer dechrau'r gwasanaeth arfaethedig newydd.

4.5.2 – Cefnogaeth

- 4.5.2.1 Mae TGCh Corfforaethol yn darparu gwasanaethau rhwydweithiau ac isadeiledd hyd at y swîts cyntaf mewn rhwydwaith ysgol; mae staff TGCh addysg yn cefnogi wedyn, gan gynnwys darpariaeth ddiwifr. TGCh addysg sy'n darparu a chefnogi gwasanaeth hidlo'r we. Gan edrych ymlaen, bydd gwasanaethau rhwydwaith/telegyfathrebu yn cael eu darparu yn ganolog lle bo'n bosib.
- 4.5.2.2 Gwerthu, gosod, trwsio a chynnal a chadw offer yn gyffredinol
- 4.5.2.3 Gwerthu a chefnogi rhaglenni SIMS / MIS a meddalwedd addysg.

1. Ystyriaethau

Wrth fodloni ymrwymiad y consortia i gydlyn y Strategaeth TGCh ranbarthol a nodwyd uchod yn 1.1, mae nifer o fentrau a ffactorau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol y bydd angen eu hystyried:

- 1.1. Yr amrywiaeth ar draws y chwe ALL o ran isadeileddau, partneriaid a modelau cefnogi
- 1.2. Grant Dysgu yn y Gymru Ddigidol a disgwyliadau LLC

- 1.2.1. Grant DPP Dysgu yn y Gymru Ddigidol – cydlynu'r prosiect efo GwE
- 1.2.2. Cwblhau prosiect band llydan ysgolion (PSBA)
- 1.2.3. Dyhead parhaus LLC y bydd gan holl ysgolion Cynradd ac Uwchradd yng Nghymru gysylltiad rhyngrwyd wedi'i gynyddu i 100Mb a 1000Mb erbyn 2020
- 1.3. HWB / HWB+ / Llwyfannau Dysgu Rhanbarthol
 - 1.3.1. Ar hyn o bryd, nid oes llawer o ysgolion ar draws y rhanbarth yn defnyddio HWB+ a HWB. Mae'r ffigurau diweddaraf yn nodi mai 25 o ysgolion yn unig ar draws y rhanbarth sy'n ymwneud â'r llwyfan dysgu yn rheolaidd.
- 1.4. Adolygu'r Cwricwlwm:
 - 1.4.1. Adolygu'r Cwricwlwm TGCh - 2012
 - 1.4.2. Adolygiad Donaldson o'r Cwricwlwm
 - 1.4.3. Llythrennedd Digidol
 - 1.4.4. Cyfrifiadura fel pwnc yn y CC
 - 1.4.5. TGAU / TAG newydd
- 1.5. Diogelu a Dinasyddiaeth Ddigidol – cyfleoedd a heriau o ganlyniad i fwy o fynediad i adnoddau ar-lein trwy gyfrwng gwell cysylltiadau rhyngrwyd a dyfeisiau symudol
- 1.6. Ansawdd TGCh i gefnogi dysgu ac addysgu
- 1.7. Datblygiad medrusrwydd TGCh/Cyfrifiadura disgyblion

1. Opsiynau i'w Hystyried / Datblygu - nid yw'r rhain o reidrwydd yn llwyr-gyfngedig - e.e. efallai y byddai cyfuniad o Opsiwn 3 ac Opsiwn 6 yn ateb a ffafir

Opsiwn	Ystyriaethau
Opsiwn 1 - Creu swydd newydd yn GwE i gydlyn'r Strategaeth TGCh ranbarthol	• Ariannu'r swydd • A yw un swydd yn ddigonol i fynd i'r afael ag anghenion ar draws ranbarth y gogledd-orllewin? • Byddai rhaid cael gweithredu yn lleol i gyflwyno Strategaeth Ranbarthol • Nid oes cysondeb o ran cefnogaeth timau cartref presennol yr AALl ar gyfer TGCh • Mae angen cynrychiolydd TGCh a enwir o bob ALL • Lleoliad gwaith / iaith
Opsiwn 2 – Creu swyddi newydd yn GwE i gydlyn TGCh mewn hybiau a/neu gefnogaeth ar gyfer cyfnod allweddol penodol	• Ariannu • Lleoliad gwaith / iaith • Mae dal angen cydlynu ranbarthol a throsolwg strategol
Opsiwn 3 - GwE i neilltuo deilydd/deiliaid portffolio TGCh o blith y staff presennol	• Ariannu a newid Swydd Ddisgrifiadau presennol • Effaith posib ar gyfrifoldebau presennol swyddogion GwE • Capasiti oddi mewn i GwE i ymgymryd â chyfrifoldebau newydd • Arbenigedd oddi mewn i GwE i ymgymryd â chyfrifoldebau newydd • % amser swyddogion ar gyfer cyfrifoldebau newydd • Rôl cydlynu ranbarthol a throsolwg strategol y deilydd/deiliaid portffolio • Byddai rhaid cael gweithredu yn lleol i gyflwyno Strategaeth Ranbarthol • Nid oes cysondeb o ran cefnogaeth timau cartref presennol yr AauLl ar gyfer TGCh • Mae angen cynrychiolydd TGCh a enwir o bob ALL
Opsiwn 4 – Trosglwyddo staff TGCh presennol o'r	• Effaith ar ddyletswyddau presennol staff/swyddogion oddi mewn i

AauLl i GwE	awdurdodau a chefnogaeth ysgol • Yr effaith ar wasanaethau cefnogi a ddarperir ar hyn o bryd i ysgolion gan yr AauLl • Mae angen dealltwriaeth a chyfathrebu da rhwng GwE ac isadeileddau TGCh y chwe ALL • Mae angen cydlynu a strategaeth ranbarthol • Gallai staff presennol yr ALL ychwanegu at Opsiynau 2 a 3 • Materion AD a TUPE o ran trosglwyddo ac unrhyw ddiswyddo sy'n gysylltiedig
Opsiwn 5 - Ymestyn cylch gwaith a darparu adnoddau'r Is-grŵp TGCh Rhanbarthol	• Yr effaith ar ddyletswyddau presennol swyddogion oddi mewn i'r awdurdodau • Adnabod cyswllt ar gyfer TGCh ym mhob ALL • Ariannu / Cyllideb • Swydd ddisgrifiadau a dyrannu amser • Atebolrwydd y grŵp ac atebolrwydd i'r grŵp • Sicrhau awdurdod i'r grŵp weithredu ar draws y rhanbarth • Nid oes cysondeb o ran cefnogaeth timau cartref presennol yr AauLl ar gyfer TGCh
Opsiwn 6 – Secondiadau / Partneriaid Cynorthwyol (amser llawn neu ran amser) o ysgolion i gyflwyno'r Strategaeth TGCh mewn hybiau rhanbarthol/ysgolion	• Effaith posib ar ddyletswyddau presennol athrawon yn eu hysgolion • Effaith negyddol posib ar safonau yn yr ysgolion rheini sy'n rhyddhau eu hymarferwyr gorau • Sicrhau ansawdd y ddarpariaeth • Mae angen cydlynu rhanbarthol a throsolwg strategol
Opsiwn 7 – Comisiynu sefydliadau allanol i gyflawni'r swyddogaethau a nodwyd fel rhan o'r Strategaeth TGCh gyffredinol	• Mae angen cydlynu rhanbarthol a throsolwg strategol • Sicrhau ansawdd y ddarpariaeth • Atebolrwydd ac integreiddio oddi mewn i wasanaethau ALL ar hyn o bryd



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Model cenedlaethol ar gyfer gweithio'n rhanbarthol



Canllawiau

Dogfen ganllawiau rhif: 126/2014
Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2014

Model cenedlaethol ar gyfer gweithio'n rhanbarthol

Cynulleidfa	Consortia rhanbarthol, prif weithredwyr a chyfarwyddwyr addysg cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru; awdurdodau esgobaethol; penaethiaid a chyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yng Nghymru; cyrff cenedlaethol a lleol eraill sy'n ymwneud ag addysg yng Nghymru.
Trosolwg	Mae'r model cenedlaethol ar gyfer gweithio'n rhanbarthol yn amlinellu ein gweledigaeth ar gyfer consortia rhanbarthol ac ar gyfer gwella ysgolion yn ogystal â swyddogaethau perthnasol pob haen (ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol) yn y system addysg.
Camau i'w cymryd	Dim – er gwybodaeth yn unig.
Rhagor o wybodaeth	Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at: Yr Is-adran Rheolaeth ac Effeithiolrwydd Ysgolion Yr Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ Ffôn: 029 2082 6050 e-bost: SMED1@cymru.gsi.gov.uk
Copïau ychwanegol	Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/addysgasgiliau

Cynnwys

1. Cenhadaeth, gwerthoedd ac egwyddorion ar gyfer gwella ysgolion yn effeithiol	1
Gweledigaeth a diben	1
Model ac egwyddorion allweddol ar gyfer gwella ysgolion	1
Cam 1: Asesu ysgolion	2
Hunanwerthuso ysgolion	2
System genedlaethol ar gyfer categorreiddio ysgolion	2
Cam 2: Cynllunio ar gyfer gwella	3
Cam 3: Cyflawni gwelliannau	3
Cam 4: Adolygu effaith	4
Rôl y consortia rhanbarthol i weithredu'r model hwn	4
2. Cwmpas y consortia rhanbarthol	5
Cwmpas gwasanaethau'r consortia	5
3. Cyflawni priod swyddogaethau'r consortia rhanbarthol a'r awdurdodau lleol	7
Cyfrifoldebau'r consortia rhanbarthol	7
Cyfrifoldebau'r awdurdodau lleol	12
4. Llywodraethu ac atebolrwydd	14
Cyd-bwyllgorau	14
Y bwrdd gweithredol	15
Cynllun busnes cyffredinol y consortiwm	16
Cynllun busnes ar gyfer pob awdurdod lleol	17
Craffu a chyswllt rhwng awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol	18
Atebolrwydd a pherthynas â Llywodraeth Cymru	18

Digwyddiadau herio ac adolygu	18
Perthynas ag ysgolion	19
Arolygiad Estyn	19
5. Trefniadaeth a gweithrediad y consortia	21
Trefniadaeth ganolog y consortiwm	21
Swyddogaeth y rheolwr gyfarwyddwr	21
Cyllid	23
Amserlenni	23
Atodiad A: Model llywodraethu consortia	25
Atodiad B: Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol	26
Sail isafswm cyfraniadau'r Awdurdodau Lleol	26
Tablau	27

1. Cenhadaeth, gwerthoedd ac egwyddorion ar gyfer gwella ysgolion yn effeithiol

Gweledigaeth a diben

Mae llwyddiant Cymru ar lwyfan fyd-eang yn y dyfodol yn ddibynnol ar bobl ifanc clyfar, medrus, hapus ac iach, ac ar system addysg a fydd yn helpu i'w meithrin. Cafodd ein cynigion yn y cytundeb hwn eu cynllunio i gyflawni hyn drwy gefnogi camau i ddiwygio'r ffordd y mae awdurdodau lleol, consortia rhanbarthol a Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi arweinwyr ysgolion, llywodraethwyr ac athrawon a, thrwy'r broses hon, helpu i ragori wrth addysgu, a hynny mewn ystafelloedd dosbarth rhagorol mewn ysgolion rhagorol.

Bydd adolygiad Hill yn helpu i siapia rhaglen diwygio addysg Cymru ac mae'r model cenedlaethol ar gyfer gwella ysgolion yn rhan annatod o hynny. Caiff y model cenedlaethol ei ddatblygu ar y cyd gan ysgolion, awdurdodau lleol, y consortia rhanbarthol a Llywodraeth Cymru. Mae'n cydnabod y rôl bwysig sydd gan bob haen i'w chwarae i wella deilliannau ar gyfer plant a phobl ifanc. Gall y model cenedlaethol greu'r strwythurau a diffinio'r fframwaith y bydd y bartneriaeth hon yn gweithio oddi mewn iddynt. Ond, i wella addysg a chyfleoedd bywyd yn y fath fodd ag y mae pob plentyn yng Nghymru yn ei haeddu, rhaid wrth ymrwymiad a diben moesol cyffredin drwy'r system gyfan.


Mae awdurdodau lleol yn cadw'r cyfrifoldebau statudol am ysgolion a gwella ysgolion. Seiliwyd y model cenedlaethol ar weledigaeth o gonsortia gwella ysgolion rhanbarthol a fydd yn gweithio ar ran awdurdodau lleol i arwain, trefnu a chydlyn gwelliannau ym mherfformiad ysgolion ac yn addysg ein pobl ifanc. Helpu'r rheini sy'n addysgu ein plant a'n pobl ifanc yw prif genhadaeth a diben ein consortia rhanbarthol. Yn y dyfodol, felly, eu swyddogaeth, nad yw'n agored i drafodaeth, fydd cefnogi ysgolion ac awdurdodau lleol gyda'u hymdrechion i:

- wella deilliannau dysgu ar gyfer pob person ifanc;
- sicrhau bod yr addysgu a'r dysgu a geir o safon;
- cefnogi a galluogi arweinwyr ysgolion i arwain eu hysgolion yn well.

Model ac egwyddorion allweddol ar gyfer gwella ysgolion

Mae ysgolion yn ganolog i'r model cenedlaethol newydd hwn. Cyfrifoldeb llywodraethwyr, arweinwyr ysgolion, athrawon ac aelodau eraill o staff yw gosod disgwyliadau uchel ar gyfer disgyblion, gan geisio'n barhaus i wella safon yr addysgu a'r dysgu, codi safonau, rhannu arferion da a dysgu oddi wrth ei gilydd drwy bartneriaethau dilyn a threfniadau cefnogi o ysgol i ysgol. Mae Ffigur 1 yn disgrifio cylch blynyddol o wella ysgolion, yr ydym o'r farn y dylai pob ysgol ei fabwysiadu. Bydd y model hwn yn gyfarwydd i lawer o ysgolion a bydd rhai eisoes yn ei ddilyn.

Ffigur 1: Cylch blynyddol o wella ysgolion



Cam 1: Asesu ysgolion

Mae angen i ysgolion adnabod eu hunain a gwerthuso eu cryfderau a'u gwendidau. Mae asesu'n broses gyson i athrawon ac arweinwyr ysgolion, fel ei gilydd, ac mae'n cael ei wneud ar sail gweithgarwch hunanwerthuso a chategoreiddio ysgolion.

Hunanwerthuso ysgolion

Unwaith y flwyddyn, dylai'r hunanwerthuso blynyddol, sy'n cynnwys pob adran o ysgol a phob agwedd ar fywyd yr ysgol, fod yn sbardun rheolaidd i bob ysgol archwilio sut mae'n perfformio ar ran ei holl dysgwyr. Mae angen inni sicrhau bod gan ysgolion y gallu i wneud hyn a bod systemau clir o ddata craidd, syml a phwerus i'w cael i gefnogi'r broses hon. Dylai hynny gynnwys data meincnodi fel bod ysgolion yn gallu cymharu eu hunain yn erbyn yr ysgolion gorau a'r rheini sy'n perthyn i'w teulu o ysgolion. Po fwyaf y bydd ysgolion yn ei 'pherchenogi', gyda chymorth yn ôl yr angen, y mwyaf llwyddiannus y bydd y broses honno, a bydd pob ysgol yn gallu bod hyd yn oed yn fwy 'parod at arolwg'. Fel yr awgryma'r enw, bydd cynghorwyr herio yn y consortia yn herio ac yn sicrhau bod y broses yn cael ei chynnal gydag uniondeb - yn arbennig yn achos yr ysgolion hynny sydd mewn perygl o beri pryder neu sy'n peri pryder.

System genedlaethol ar gyfer categorreiddio ysgolion

Mae pob consortiwm wedi datblygu ei system ei hun ar gyfer categorreiddio ysgolion. Fodd bynnag, fel rhan o'r gwaith ar y model cenedlaethol, mae pob consortiwm wedi cytuno i weithio tuag at system genedlaethol ar gyfer categorreiddio ysgolion, a fydd yn weithredol o 1 Ebrill 2014 ymlaen. Bydd y dull cenedlaethol hwn yn cefnogi ysgolion wrth iddynt hunanwerthuso.

Cam 2: Cynllunio ar gyfer gwella

Dylai ysgolion ddefnyddio eu hasesiadau hunanwerthuso, a'r cryfderau a'r gwendidau a ddatgelir ganddynt, i benderfynu sut mae angen iddynt newid wrth weithredu. Yn aml, bydd y syniadau hyn yn cael eu cynnig yn naturiol gan yr ysgolion a'r athrawon eu hunain ond gellid hwyluso'r broses drwy sicrhau bod 'arferion da' ar gael gan ysgolion eraill. Bydd ysgolion sydd mewn perygl o beri pryder neu sy'n peri pryder yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i wneud hyn oddi wrth y cynghorwyr herio.

Dylai ysgolion osod targedau y gallant fesur eu perfformiad yn eu herbyn. Dylai'r targedau gynnwys gwella'r broses - er enghraifft, safon yr addysgu a'r dysgu, marcio llyfrau neu adborth - a'r deiliannau o ran gwella cyrhaeddiad a chynnydd. Gwaith y cynghorwyr herio fydd herio penaeithiaid a llywodraethwyr i osod targedau i ymgynhyrdd atynt a fydd yn sicrhau bod lefelau cymhelliant yn uchel a bod cyrhaeddiad disgyblion yn sylweddol well.

Cam 3: Cyflawni gwelliannau

Galluogi a chefnogi ysgolion i fanteisio ar amrywiaeth o ddulliau newydd a dulliau y profwyd eisoes eu bod yn llwyddiannus yn yr ystafell ddosbarth, eu rhannu a'u defnyddio, ddylai fod yn ganolog i gyflawni'r gwelliannau angenrheidiol mewn ysgolion. Bydd hyn yn cynnwys rhaglenni datblygu a fydd yn alinio hyfforddiant i athrawon â gwaith grŵp rhyngddynt i arsylwi ar ei gilydd a choetsio ei gilydd, ar gyfer rhoi arferion gwell ar waith a defnyddio Ymarferwyr Arweiniol. Mae arferion da i'w canfod ym mhob ysgol y gellir eu rhannu 'yn yr ysgol' ac y gellid eu defnyddio fel sylfaen ar gyfer gweithgarwch gwella o ysgol i ysgol. Bydd mwy o ysgolion yn perthyn i ffederasiynau a mwy eto yn perthyn i glystyrau. Bydd mwy o ddefnydd o brifathrawiaeth weithredol i gynyddu i'r eithaf werth a photensial ein harweinwyr ysgol gorau. Gallai awdurdodau lleol hefyd fod ar eu hennill yn sgil y newidiadau i drefniadaeth a llywodraethu a ddaw fel rhan o wella ysgolion.

Y consortia fydd yn hwyluso ac yn trefnu'r cydweithio hwn. Bydd yna hefyd raglenni ar lefel consortiwm a fydd yn tynnu ar arbenigedd yr ymarferwyr a'r ysgolion gorau yn y rhanbarth. Bydd cymorth yn dod hefyd o'r sector preifat a'r sector gwirfoddol ac, yn wir, o gymunedau lleol y gellid eu cydweddu ag anghenion ysgolion a'u hathrawon. Bydd gan y sectorau addysg bellach ac uwch hefyd lawer o unigolion a chysiau a allai helpu i ddatblygu athrawon ac ysgolion. Beth bynnag y bo ffynhonnell y cymorth, mae'n hanfodol ei deilwra yn ôl cyd-destun cymdeithasol, ieithyddol a diwylliannol pob ysgol.

Dylid annog a galluogi ysgolion sydd â'r gallu i wneud hynny i arwain ar eu gwelliannau eu hunain a defnyddio eu hadnoddau eu hunain, felly. Yng nghyswllt yr ysgolion hynny sydd mewn perygl o beri pryder neu sy'n peri pryder, cyfrifoldeb y consortia fyddai helpu i gydweddu a broceru'r gefnogaeth sy'n angenrheidiol yn unol â'r gefnogaeth sydd ar gael.

Dylid meithrin arweinyddiaeth ysgolion ar bob lefel a'i datblygu drwy raglenni hyfforddiant, coetsio, neilltuo mentoriaid a darparu cyfleoedd i arweinwyr sy'n datblygu gael secondiad i ysgol arall.

Cam 4: Adolygu effaith

Dylai ysgolion, athrawon a chonsortia ystyried effaith eu gweithredoedd ar gyflawniad pob plentyn a phenderfynu sut i newid eu cynlluniau a'u camau gweithredu yn y dyfodol. Ar y cyfan, bydd pob consortiwm yn mabwysiadu athroniaeth debyg yng nghyswllt y cylch cynllunio ac adolygu a hyrwyddir i ysgolion yn Ffigur 1 uchod. Y cylch blynyddol o gynlluniau ar lefel ysgol, adran, unigolyn, awdurdod lleol a chonsortiwm sy'n sicrhau bod pob rhan o'r system yn gydnaws â'i gilydd.

Rôl y consortia rhanbarthol i weithredu'r model hwn

Dylid cynllunio gwasanaethau consortia ar y cyd ag ysgolion er mwyn symud tuag at systemau data cyffredin/a rennir. Dylai arbenigedd rhagorol mewn dadansoddi a herio anghenion gwella ysgolion fod wrth wraidd y gwasanaethau hyn. Ni ddylid dibynnu ar gyflogi nifer mawr o staff amser llawn i gyflenwi gwasanaethau consortia. Yn hytrach, dylai staff craidd fanteisio ar sgiliau'r penaethiaid gorau yn eu rhanbarthau, ynghyd ag arbenigwyr ar wella ysgolion, a dylid bod yn hyblyg wrth ddefnyddio cyllidebau i gomisiynu'r gefnogaeth sydd ei hangen ar ysgolion.

Dylai'r berthynas a'r llinellau atebolrwydd rhwng awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol fod yn glir er mwyn i bob un yn y system addysg ddeall pwy sy'n gyfrifol am beth.

Bydd y modd y caiff y model hwn ei weithredu yn newid dros amser. Wrth i ysgolion ac athrawon ddatblygu dros y ddwy neu dair blynedd nesaf, ac wrth iddynt gynyddu mewn hyder a chael mwy o wybodaeth, byddant yn disgwyl mwy o annibyniaeth, ymreolaeth a rhyddid i wneud eu penderfyniadau eu hunain. Mesur o lwyddiant y consortia rhanbarthol fydd y ffaith eu bod yn peidio â bodoli ar eu ffurf bresennol ymhén amser, gan fod eu gwaith wedi dirwyn i ben.

2. Cwmpas y consortia rhanbarthol

Cwmpas gwasanaethau'r consortia

Mae'n bwysig bod eglurder ynghylch cwmpas y swyddogaethau a gwasanaethau a ddarperir gan y consortia rhanbarthol, a'r hyn y gall ysgolion ac awdurdodau lleol ei ddisgwyl ganddynt. Dyma rai o'r gwasanaethau a gynigir gan y consortia rhanbarthol:

- gwella ysgolion – a ddiffinnir fel strategaethau ymyrryd, herio a chefnogi a ddarperir gan gonsortia rhanbarthol a fydd yn gwella'r addysgu a'r dysgu yn yr ystafell ddosbarth ac yn arwain at well cyrhaeddiad a chynnydd ymhlith disgyblion ar bob lefel ac ym mhob cyd-destun, gan gynnwys cau bylchau mewn cyrhaeddiad, a mynd i'r afael ag anghenion penodol (er enghraifft, anghenion dysgwyr ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) neu ddysgwyr Mwy Galluog a Thalentog (MAT));
- casglu, dadansoddi a chymhwyso data - a ddiffinnir fel casglu, oddi wrth awdurdodau lleol ac ysgolion, ddata ar berfformiad disgyblion ac ysgolion a'r cynnydd ar draws pob rhanbarth (yn seiliedig ar y setiau data craidd sy'n deillio o amcanestyniadau gan Lywodraeth Cymru a Fischer Family Trust), defnyddio'r data hynny i feincnodi a herio perfformiad ysgolion a, gyda'r ysgolion eu hunain, gosod targedau heriol ar gyfer gwella;
- cefnogi datblygiad arweinyddiaeth ysgolion ar bob lefel - sy'n cynnwys datblygu cyfleoedd i arweinwyr sy'n datblygu ac arweinwyr ar lefel uchel i ddatblygu eu profiad a'u harbenigedd drwy fynd ar aseiniadau a secondiadau i ysgolion eraill, yn ogystal â chomisiynu a chydlynu'r ddarpariaeth o ran rhaglenni hyfforddi a datblygu;
- cefnogi a hyrwyddo datblygiad agweddau ar wella ysgolion sy'n gysylltiedig â lles y dysgwr, gan gynnwys materion megis ymddygiad a phresenoldeb;
- sicrhau bod y modd o gyflwyno'r fframweithiau Llythrennedd a Rhifedd cenedlaethol yn effeithiol ar draws bob ysgol a chydlynu a sicrhau ansawdd y ddarpariaeth hyfforddi a datblygu i gyflawni hyn;
- herio perfformiad lleoliadau'r Cyfnod Sylfaen, a'u modd o gyflawni, ac asesu'r angen am gefnogaeth hyfforddi a datblygu, cyn comisiynu, cydlynu a sicrhau ansawdd y ddarpariaeth;
- alinio'r strategaethau 14-19 cenedlaethol a lleol ar draws ardal y consortiwm yn ehangach i helpu i godi safonau yn y pynciau craidd, sef Cymraeg/Saesneg a mathemateg, sicrhau bod cyrsiau o safon yn cynnig hyfforddiant perthnasol i ddisgyblion a chyfrannu'n effeithiol at strategaethau adfywio;
- gweithio gydag awdurdodau lleol i sicrhau bod eu cynlluniau ar gyfer datblygu a gweithredu strategaethau'r rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif yn mynd law yn llaw â'r cynlluniau ar gyfer gwella ysgolion;

- sicrhau bod modd cyflawni nodau Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru drwy wneud yn siŵr bod y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a'r Grant Cymraeg mewn Addysg wedi'u halinio ar draws pob un o'r awdurdodau lleol sy'n rhan o'r consortia rhanbarthol, fel bod cysondeb wrth ddatblygu rhagoriaeth mewn addysgeg, nid yn unig ar draws y sectorau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, ond hefyd o ran cyflwyno'r Gymraeg fel ail iaith;
- comisiynu, cydlynu a sicrhau ansawdd gwasanaethau hyfforddi a chynghori llywodraethwyr o safon, gan gynnwys y gofynion ar gyfer hyfforddiant gorfodol i lywodraethwyr;
- darparu cyngor adnoddau dynol arbenigol i gefnogi penaethiaid a chyrrff llywodraethu i fynd i'r afael â materion yn gysylltiedig â rheoli perfformiad a medrusrwydd.

Mae pob plentyn yn bwysig. Mae gan ysgolion a cholegau ddyletswydd i ddarparu cwricwlwm a chefnogaeth bersonol briodol i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ac anghenion addysgol arbennig. Fel rhan o'u swyddogaeth gwella ysgolion, felly, bydd y consortia yn helpu ysgolion i ddarparu addysg o safon i'r grwpiau hyn o ddisgyblion ac i sicrhau bod eu cyrhaeddiad a'u cynnydd gyda'r gorau posibl drwy dynnu ar arbenigedd yr ysgolion arbennig gorau, ac arferion da a systemau a fabwysiadwyd gan y lleoliadau prif ffrwd gorau. Dylai gweithdrefnau a phrotocolau a chynlluniau busnes y consortia, felly, ddangos eu bod yn rhoi sylw llawn i blant sydd ag AAA a dylid cynllunio systemau data i ddangos y cynnydd y maent yn ei wneud. Gallai fod angen iddynt dynnu hefyd ar gefnogaeth arbenigol oddi wrth awdurdodau lleol lle bo hynny'n briodol.

Yr awdurdod lleol fydd yn gyfrifol o hyd am gyflenwi gwasanaethau arbenigol, rhoi datganiadau i ddisgyblion ac am y gweithdrefnau cyfreithiol sy'n diogelu lles a hawliau plant ag anghenion arbennig. Dylai'r consortia, yr awdurdodau lleol a'r ysgolion sicrhau bod gwasanaethau ar gyfer disgyblion AAA yn cael eu halinio'n agos.

Yr awdurdodau lleol hefyd fydd yn parhau â'r cyfrifoldeb am ddarparu - naill ai drwy gyflogi eu staff eu hunain neu drwy weithio mewn partneriaeth ag awdurdod lleol arall - drefniadaeth ysgolion a lleoedd ysgolion, darpariaeth anghenion addysgol arbennig ac anghenion dysgu ychwanegol, cludiant i'r ysgol, prydau ysgol, gwasanaethau diogelu, gwasanaethau lles addysg, ymddygiad a phresenoldeb a chyflog ac amodau gwasanaeth gweithwyr. Mewn rhai achosion, gallai awdurdodau lleol mewn rhanbarth ddewis comisiynu'r swyddogaethau hyn gan eu consortiwm a gallai trefniadau o'r fath gadarnhau prif gyfrifoldeb y consortia, sef gwella ysgolion. Fodd bynnag, nid oes amheuaeth yn y model cenedlaethol mai gwella ysgolion ddylai fod yn flaenllaw i ymdrechion a gweithgarwch y consortia rhanbarthol.

Mae'r adrannau canlynol yn egluro'n fanylach sut bydd consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol yn ymgymryd â'u priod swyddogaethau a gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu system integredig sy'n cefnogi ysgolion ac yn osgoi dyblygu gwaith.

3. Cyflawni priod swyddogaethau'r consortia rhanbarthol a'r awdurdodau lleol

Cyfrifoldebau'r consortia rhanbarthol

Mewn perthynas â gwella ysgolion, bydd y consortia rhanbarthol yn **herio** drwy:

- fonitro gwaith a pherfformiad ysgolion, gan ddefnyddio setiau data safonedig Cymru Gyfan, amcanestyniadau Fischer Family Trust a data ysgolion unigol a data yn ystod y flwyddyn ar gynnydd disgyblion a safon yr addysgu a'r dysgu yn yr ystafell ddosbarth, i gategoreiddio perfformiad ac anghenion datblygu ysgol yn unol â'r model categoraidd cenedlaethol cytunedig;
- ymchwilio, gydag arweinwyr ysgolion a chadeiryddion llywodraethwyr, i berfformiad a'r ddarpariaeth ar **lefel ysgol gyfan ac ar gyfer amrywiol bynciau, grwpiau blwyddyn ac is-gategoriâu o ddisgyblion**, er mwyn cymharu cynnydd disgyblion unigol, a neu grwpiau ohonynt, â'r cynnydd a wnaed mewn ysgolion eraill tebyg a nodi meysydd o dangyflawni a bylchau mewn cyflawniad;
- cadarnhau, gyda phenaethiaid a chadeiryddion llywodraethwyr, pa feysydd sydd i gael blaenoriaeth ar gyfer gwella a'r strategaethau i'w defnyddio i gyflawni gwelliannau;
- cytuno ar dargedau a fydd yn ymestyn ac yn codi disgwyliadau, gosod y safon ar gyfer gwella ansawdd yr addysgu a'r dysgu a darparu'r meini prawf ar gyfer llwyddo y bydd cyrhaeddiad a chynnydd pob disgybl yn cael eu mesur yn eu herbyn. Pan na ellir dod i gytundeb [yng nghyd-destun ysgolion sydd yn un oategoriâu Estyn neu sy'n cael eu monitro gan Estyn], bydd y consortiwm yn hysbysu'r awdurdod lleol er mwyn i'r awdurdod, yn unol â'r ddeddfwriaeth bresennol, allu gosod y targedau priodol;
- mae angen gwella'n sylweddol drefniadau asesu ysgolion sy'n destun mesurau arbennig, sy'n cael eu monitro gan Estyn neu awdurdod lleol neu a nodwyd fel arall, drwy'r broses gategoreiddio, fel ysgol sy'n achosi pryder difrifol, a phennu p'un a oes gan lywodraethwyr a thimau arweinyddiaeth ysgolion y gallu a'r ewylllys i arwain ar wella ysgol – a gwneud argymhellion priodol yn ôl yr angen;
- rhoi gwybod am y sefyllfaoedd hynny lle mae ymyrryd statudol yn ofynnol a chynghori ar y math o ymyrryd y gellid ymgymryd ag ef - p'un a yw hynny yn golygu sefydlu ffederasiwn ag ysgol arall, recriwtio pennaeth gweithredol, sefydlu bwrdd gweithredol dros dro neu fesur priodol arall.

Caiff y swyddogaethau hyn eu cymhwyso mewn modd cymesur - hynny yw, bydd yr ysgolion hynny sydd fwyaf angen cefnogaeth yn cael eu monitro'n fwy agos. I'r gwrthwyneb, ni fydd angen monitro ysgolion sy'n perfformio'n gadarn mewn modd mor fanwl. Y swyddogaethau hyn, yn hytrach na chyflenwi rhaglenni a mentrau gwella ysgolion, fydd prif ffocws gweithgarwch y cynghorwyr herio.

Gallai cynghorwyr herio gael eu cyflogi'n amser llawn gan gonsortiwm neu gellid eu penodi'n rhan-amser. Bydd gan y cynghorwyr herio y nodweddion a ganlyn:

- profiad o arwain mewn ysgol lwyddiannus¹;
- arbenigedd mewn dadansoddi a defnyddio data gwella ysgolion;
- dealltwriaeth o sut i roi trefniadau gwella ysgolion ar waith a phrofiad o wneud hynny;
- sgiliau rhyngpersonol cadarn.

Bydd hyn yn golygu cryn newid o ran y swyddogaethau a'r sgiliau angenrheidiol. Bydd angen hygyrddedd ar gynghorwyr herio wrth eu gwaith a dylent ennyn parch ymhlith ysgolion. Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu hyfforddiant cenedlaethol i'r rheini a fydd yn ymgymryd â swydd y cynghorwyr herio fel mater o frys. Bydd angen i'r consortia, felly, hwyluso'r hyfforddiant hwn a chynnig secondiadau hefyd, lle bynnag y bo'n hynny'n bosibl, i helpu unigolion i drosglwyddo i'r swyddogaeth newydd hon. Y consortia fydd yn gyfrifol am enwi staff i gymryd rhan yn yr hyfforddiant, a bydd angen sicrhau bod trefniadau rheoli perfformiad cadarn ar gyfer y rheini a fydd yn ymgymryd â swyddogaeth y cynghorwyr herio. Bydd angen i fyrddau gweithredol a rheolwyr gyfarwyddwyr y consortia asesu ar fyrder allu eu staff i fodloni'r gofynion newydd a thrafod â'r undebau sy'n eu cynrychioli fel bod penaethiaid ac arweinwyr ysgolion yn cael eu herio a'u cefnogi gan gynghorwyr o safon.

Bydd y consortia rhanbarthol yn rhannu gwybodaeth fonitro ag awdurdodau lleol bob tymor, ac yn fwy rheolaidd na hynny yn achos ysgolion sy'n destun mesurau arbennig, sydd angen gwella'n sylweddol, sy'n cael eu monitro gan Estyn neu awdurdod lleol neu a nodwyd fel arall, drwy'r broses gategoreiddio, fel ysgol sy'n achosi pryder difrifol (gweler isod).

Bydd y consortia rhanbarthol hefyd yn **cydlynu, broceru ac yn rhoi cefnogaeth ar gyfer gwella** i ysgolion. Bydd y gweithgareddau hyn yn cael eu datblygu ar y cyd â phenaethiaid ac athrawon. Bydd y gweithgarwch broceru a'r gefnogaeth ar gyfer gwella yn cael eu gwahaniaethu yn ôl gallu ysgol i wella a chomisiynu/broceru ei chefnogaeth gwella ei hun. Lle asesir bod ysgol yn perfformio'n dda neu fod ganddi'r gallu i wneud ei gwelliannau ei hun, bydd yn rhydd i ddefnyddio ei chyllidebau i hawlio a defnyddio'r gwasanaethau fel sy'n briodol i'w hamgylchiadau a'i hanghenion gwella. Fodd bynnag, lle bo cyrhaeddiad a chynnydd disgyblion yn isel mewn ysgol - a/neu lle bo diffyg gallu i hyrwyddo gwelliant yn gyffredinol neu mewn maes penodol - bydd y consortiwm yn trefnu'r gefnogaeth gwella angenrheidiol ar ran yr ysgol gan ymgynghori â'r pennaeth a'r corff llywodraethu ac, lle defnyddir gwasanaethau y codir tâl amdanynt, yn codi tâl ar yr ysgol fel sy'n briodol. Y nod fydd meithrin gallu pob ysgol i gymryd cyfrifoldeb am drefnu ei gwelliannau ei hun.

¹Gallai hyn gynnwys bod yn aelod o uwch-dîm arweinyddiaeth.

Bydd gweithgarwch broceru a gwella'r consortiwm yn cynnwys:

- hwyluso'r defnydd a'r dadansoddiad o ddata fel rhan o'r broses i gefnogi hunanwerthuso fforensig gan ysgolion a nodi bylchau mewn cyrhaeddiad;
- cyhoeddi data meincnodi dienw ar berfformiad a chynnydd grwpiau cymharol mewn gwahanol bynciau a chyfnodau i alluogi ysgolion i ddysgu oddi wrth ei gilydd, a'u hannog i wneud hynny;
- cefnogi arweinwyr ysgolion, lle bo gan ysgol y gallu i arwain ar ei gwelliannau ei hun, i froceru cefnogaeth briodol gan ysgolion eraill, o raglenni a gomisiynwyd gan y consortia ac o ffynonellau eraill;
- goruchwyllo'r gwaith o gyflwyno rhaglen gymorth, gan gynnwys recriwtio penaethiaid ysgolion sy'n Ymarferwyr Arweiniol a phenaethiaid eraill sy'n gallu gweithredu fel penaethiaid gweithredol, yn yr ysgolion hynny sy'n destun mesurau arbennig, sydd angen gwella'n sylweddol, sy'n cael eu monitro gan Estyn neu awdurdod lleol neu a nodwyd fel arall, drwy'r broses gategoreiddio, fel rhai sy'n achosi pryder difrifol;
- comisiynu cyfres o raglenni hyfforddi a datblygu ar gyfer yr ystafell ddosbarth yn bennaf i gefnogi gwelliannau mewn addysgu a dysgu a gwybodaeth am bwnc, a sicrhau ansawdd y rhaglenni hynny;
- gweithio gyda phenaethiaid ac arweinwyr eraill drwy arsylwi ar wersi ar y cyd i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o'r hyn yw addysgu a dysgu rhagorol;
- enwi adrannau ac ymarferwyr arweiniol rhagorol, gan ddefnyddio meini prawf y cytunwyd arnynt yn genedlaethol, y gellid eu recriwtio i gefnogi ysgolion eraill yn ystod rhan o'u hwythnos waith;
- darparu cefnogaeth fentora i benaethiaid a thimau arweinyddiaeth ysgolion sydd angen cefnogaeth i arwain ar wella²;
- annog, cymell a llywio ysgolion i weithio gyda'i gilydd ar wella ysgolion drwy glystyrau lleol o ysgolion;
- sicrhau bod modd cael gafael ar dystiolaeth o'r hyn 'sy'n gweithio' o ran cau bylchau mewn cyrhaeddiad a chefnogi ysgolion i roi ar waith strategaethau ymyrryd wedi'u targedu, ac i asesu eu heffaith;
- cefnogi'r gwaith o sefydlu a datblygu ffederasiynau a byrddau gweithredol dros dro lle cytunir bod hyn yn ffordd o roi trefniadau gwella ysgolion ar waith;

²Dylai'r gefnogaeth hon gael ei darparu gan bennaeth sy'n gweithio ar hyn o bryd (a'r tîm arweinyddiaeth yn ehangach) mewn ysgol sy'n perfformio'n gadarn - er enghraifft, ysgol sy'n Ymarferydd Arweiniol

- hwyluso datblygiad a gwaith Cymunedau Dysgu Proffesiynol, astudio gwersi a dulliau eraill i athrawon weithio gyda'i gilydd mewn ysgol ac ar draws ysgolion i adolygu a gwella eu harferion o ran addysgeg;
- gweithio gydag adrannau addysg prifysgolion i ddarparu mynediad at wybodaeth am addysgu a dysgu ac i gefnogi prosiectau ymchwil mewn ysgolion;
- cydlynu cefnogaeth a hyfforddiant i gynorthwyyr addysgu ac athrawon newydd gymhwyso.

Mewn perthynas â **datblygu arweinyddiaeth ysgolion**, bydd y consortia rhanbarthol, ar y cyd â phenaethiaid arweiniol, yn:

- comisiynu gan ysgolion, prifysgolion a darparwyr arbenigol eraill raglenni datblygu a hyfforddi ar gyfer arweinwyr canol i sicrhau eu bod yn fwy galluog i ddadansoddi a defnyddio data, asesu ansawdd y dysgu yn yr ystafell ddosbarth a choetsio cydweithwyr - gan adlewyrchu gwaith y Bwrdd Datblygu Arweinyddiaeth Cenedlaethol wrth iddo ddatblygu;
- cefnogi trefniadau cynllunio ar gyfer olyniaeth drwy weithio gydag awdurdodau lleol i gasglu data ar y trosiant a'r ymddeoliadau y disgwylir eu gweld ymhlith uwch-arweinwyr mewn ysgolion;
- comisiynu gan ysgolion, prifysgolion a darparwyr arbenigol eraill raglenni datblygu a hyfforddi ar gyfer arweinwyr sy'n datblygu ar lefel uwch - gan adlewyrchu gwaith y Bwrdd Datblygu Arweinyddiaeth Cenedlaethol wrth iddo ddatblygu;
- comisiynu rhaglenni a fydd yn galluogi penaethiaid effeithiol i gefnogi ysgolion eraill drwy arwain Ysgol sy'n Ymarferydd Arweiniol, gweithredu fel pennaeth gweithredol, arwain ffederasiwn neu weithio am ran o'r wythnos fel arweinydd systemau;
- cymell cyfleoedd i arweinwyr datblygol gael mynd ar secondiad arweinyddiaeth i ysgolion eraill, a chydlynu'r cyfleoedd hynny;
- sicrhau bod gan bob pennaeth newydd sy'n ei flwyddyn gyntaf o brifathrawiaeth fentor effeithiol i benaethiaid.

Drwy'r broses herio, bydd y consortia rhanbarthol yn asesu anghenion cyffredinol a phenodol ysgolion ym mhob ardal awdurdod lleol gan ystyried yr hyfforddiant a'r datblygiad penodol sydd eu hangen arnynt o ran **llythrennedd a rhifedd**. Gan ymgynghori â phenaethiaid a chontractiwr Llywodraeth Cymru ar gyfer hyfforddiant llythrennedd a rhifedd, bydd y consortia yn comisiynu ac yn hwyluso strategaeth ar gyfer darparu'r amrediad o gefnogaeth sy'n angenrheidiol yn yr ystafell ddosbarth.

Bydd cefnogaeth **Cyfnod Sylfaen y Blynyddoedd Cynnar** yn cynnwys herio arweinwyr lleoliadau'r Cyfnod Sylfaen a chyd-drafod â phenaethiaid a darparwyr eraill i archwilio anghenion hyfforddi ac i gomisiynu amrediad priodol o raglenni a sicrhau eu hansawdd.

Bydd y consortia yn cydlynw ac yn sicrhau ansawdd gweithgarwch i fodloni nodau'r **Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg** drwy sicrhau bod y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a'r Grant Cymraeg mewn Addysg yn gydnaws â'i gilydd ar draws pob un o'r awdurdodau lleol ac ym mhob un o'r consortia rhanbarthol, fel bod cysondeb o ran datblygu rhagoriaeth mewn addysgeg ac o ran bodloni'r targedau y cytunwyd arnynt, nid yn unig ar draws y sectorau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, ond hefyd wrth gyflwyno Cymraeg fel ail iaith.

Bydd **cydlynw dimensiwn rhanbarthol y Strategaeth TGCh** yn cynnwys hunanwerthuso TGCh ysgolion, arweinyddiaeth a chynllunio TGCh ar gyfer dysgu, diogelu, technolegau datblygol, rhith-amgylcheddau dysgu, technoleg dysgu a'r fframwaith llythrennedd a rhifedd cenedlaethol, rhedeg rhwydweithiau ar gyfer penaethiaid adrannau a chydlynwyr TGCh, cefnogi addysgeg a datblygu cwricwlwm (gan gyfeirio at y Strategaeth Dysgu a'r Byd Digidol).

Bydd y trosolwg strategol o'r **cynnig 14-19** rhanbarthol, gan gynnwys neilltuo adnoddau i raglenni yn unol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, yn cynnwys:

- cefnogaeth i gynllunio'r defnydd o grantiau;
- sicrhau bod darpariaeth ysgolion a darparwyr yn gydnaws â'i gilydd er mwyn cael yr effaith ddisgwyliedig sy'n gynhenid i'r grantiau hyn;
- gweithio gydag awdurdodau lleol i ddarparu trosolwg strategol i herio a chefnogi pob darparwr, gan gynnwys colegau AB a darparwyr hyfforddiant preifat, i sicrhau mynediad cyfartal at gyfleoedd datblygu;
- gweinyddu'r grantiau perthnasol a chydlynw a chefnogi ceisiadau ar gyfer cyfleoedd grant a fydd yn codi.

Bydd y consortia rhanbarthol yn comisiynu **gwasanaethau cefnogi llywodraethwyr** a hyfforddiant i lywodraethwyr a fydd yn cynnwys y rhaglenni hyfforddiant gorfodol i lywodraethwyr newydd, hyfforddiant i gadeiryddion llywodraethwyr, a hyfforddiant ar ddeall a chymhwyso data yn effeithiol i bob llywodraethwr, a bydd hefyd yn sicrhau ansawdd y ddarpariaeth. Bydd y consortia hefyd yn annog ac yn hwyluso rhwydweithiau o lywodraethwyr, yn galluogi llywodraethwyr i arsylwi ar gyfarfodydd ei gilydd a recriwtio cadeiryddion llywodraethwyr galluog i fentora cyrff llywodraethu eraill sy'n ei chael hi'n anodd ymgymryd â'u gwaith yn effeithiol. Bydd y consortia hefyd yn datblygu ar y cyd, gan ymgynghori ag awdurdodau lleol, llywodraethwyr a phenaethiaid, dempled ar gyfer data ar berfformiad i benaethiaid ei ddefnyddio i adrodd i lywodraethwyr, fesul tymor neu fesul hanner tymor, ar berfformiad ysgol yn ystod y flwyddyn mewn perthynas â:

- perfformiad disgyblion a safonau;
- phresenoldeb disgyblion;
- gwahardd disgyblion;
- rheoli absenoldeb staff drwy salwch;

- ansawdd yr addysgu (fel yr asesir drwy arsylwi yn yr ystafell ddosbarth);
- data ar gynnydd a chyrhaeddiad mewn perthynas â thargedau.

Bydd y consortia hefyd yn penderfynu ar bwl o ymgeiswyr galluog a fydd yn barod i wasanaethu ar gyrrff llywodraethu lle bo'r llywodraethu yn wan.

Wrth arfer y swyddogaethau hyn, rhaid bydd ystyried materion cyllid y gefnogaeth i lywodraethwyr a gaiff ei dirprwyo i ysgolion mewn rhai awdurdodau.

Byddai **cyngor adnoddau dynol arbenigol** i ysgolion fel arfer yn cynnwys hyfforddiant i benaethiaid a chadeiryddion llywodraethwyr ar reoli perfformiad a chynghor ar reoli'r achosion hynny pan fo perfformiad athro yn golygu bod rhaid rhoi gweithdrefnau medrusrwydd ar waith neu pan fo cofnod absenoldeb neu salwch athro yn golygu bod angen ystyried cymryd camau difrifol. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gallai fod angen i'r consortia symud tuag at y model hwn fesul cam yn ystod y flwyddyn gyntaf o weithredu lle nad yw'r adnoddau arbenigol i fodloni'r gofyniad hwn eisoes yn bodoli.

Ni fydd y consortia rhanbarthol a'r awdurdodau lleol yn dyblygu gwaith ei gilydd.

Bydd y consortia rhanbarthol yn ystyried ar fyrder argymhellion awdurdodau lleol ar gyfer ymyriadau statudol mewn ysgolion. Fodd bynnag, bydd y pwerau statudol i'w gweithredu yn aros gyda'r awdurdodau.

Cyfrifoldebau'r awdurdodau lleol

Yr awdurdodau lleol fydd yn parhau i ysgwyddo'r atebolrwydd statudol am berfformiad ysgolion ynghyd â'r cyfrifoldeb am arfer pwerau statudol yng nghyswllt ymyrryd a threfniadaeth ysgolion.

Bydd awdurdodau lleol yn penodi swyddog arweiniol ('cleient deallus') fel y prif bwynt cyswllt â'r consortiwm rhanbarthol, yn unol â'r trefniadau a ddisgrifir isod.

Bydd yr awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn cael trafodaethau agored â'i gilydd am eu cynlluniau a ddylai fod yn gwbl glir am eu priod swyddogaethau, a'r camau y mae pob un yn bwriadu eu cymryd. Bydd y prosesau hyn yn cael gwared ar unrhyw berygl o ddyblygu gwaith rhwng y consortia rhanbarthol neu'r awdurdodau. Yn benodol, dylai awdurdodau lleol rannu gwybodaeth â'r consortia rhanbarthol am eu cynigion a'u penderfyniadau mewn perthynas â'r:

- weledigaeth gyffredinol a'r blaenoriaethau cymdeithasol a datblygu economaidd ar gyfer eu hardaloedd, gan ystyried yn benodol unrhyw faterion sy'n debygol o effeithio ar ysgolion;
- trefniadaeth ysgolion, gan gynnwys cynlluniau ar gyfer ffederasiynau, uno a chau a chyflwyno strategaethau'r rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain ganrif;

- cefnogi gwasanaethau ar gyfer y rheini sydd ag anghenion addysgol arbennig ac anghenion dysgu ychwanegol;
- trefnu gwasanaethau cymorth ymddygiad a lles addysg;
- eu strategaeth ymgysylltu ieuenctid;
- trefniadau diogelu ar gyfer plant a phobl ifanc;
- trefniadau i hyrwyddo caffael effeithiol a datblygu gwasanaethau cymorth busnes mewn ysgolion.

Bydd awdurdodau lleol yn rhoi mynediad at systemau data perthnasol i gonsortia rhanbarthol, gan gynnwys setiau data dienw ar berfformiad disgyblion, lle cânt eu dal ar lefel awdurdod lleol, a gwybodaeth arall i hwyluso eu gwaith.

Ni fydd awdurdodau lleol yn dyblygu gwaith na gweithgarwch y consortia rhanbarthol.

Bydd datblygu cysylltiadau cadarn rhwng awdurdodau lleol a chonsortia yn golygu y bydd y ddwy ochr yn ystyried, gyda'i gilydd ac ar fyrder, yr argymhellion ar ymyrryd statudol mewn ysgolion a ddaw o unrhyw ffynhonnell ac, oni fydd yna amgylchiadau eithriadol, byddant yn cytuno i'w gweithredu. Bydd awdurdodau lleol a chonsortia yn dilyn y protocol dwysáu sydd wrthi yn cael ei ddatblygu.

4. Llywodraethu ac atebolrwydd

Cyd-bwyllgorau

Bydd gwaith y consortia rhanbarthol yn cael ei oruchwylio gan gyd-bwyllgor³ yr awdurdodau lleol cyfansoddol neu gwmni hyd braich, gan ddibynnu pa un sy'n bodloni orau ofynion y rhanbarth i gyflawni'r swyddogaethau a'r deilliannau a amlinellir yn yr adroddiad hwn. Dylai awdurdodau lleol nodi y gallai'r Cyd-bwyllgor wneud penderfyniadau a fydd yn effeithio ar gyflawni cynlluniau i wella perfformiad ysgolion, a'r adnoddau sydd ar gael i wneud hynny. O ganlyniad, dylai'r awdurdodau lleol a'r consortia wneud yn siŵr nad yw'r trefniadau llywodraethu a sefydlir ganddynt yn tanseilio'r penderfyniadau a wneir gan yr awdurdod lleol ac atebolrwydd democrataidd. Nid yw ffurf yr oruchwyliaeth mor bwysig â'r gallu a'r awydd i ddarparu gwell deilliannau a sicrhau bod y consortia yn gallu gweithredu yn y ffordd y cytunwyd arni erbyn 1 Ebrill 2014. Bydd gan y cyd-bwyllgor gyfrifoldeb am gymeradwyo cyllideb y consortia (gan gynnwys cydnabyddiaeth ariannol) a chynllunio busnes a rheoli perfformiad y consortia rhanbarthol.

Dylai'r conostia a'r awdurdodau lleol wneud yn siŵr bod gan aelodau'r Cyd-bwyllgor:

- y sgiliau a'r profiad cywir priodol ynghyd â'r lefel briodol o gyfrifoldeb i wneud penderfyniadau;
- dealltwriaeth glir o'u cydgyfrifoldeb yn rhanbarthol;
- eglurder ynghylch eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau a sut y mae'r rhain yn cydweddu â'r atebolrwydd democrataidd.

Gall aelodau'r cyd-bwyllgor neu'r bwrdd gynnwys arweinydd pob awdurdod lleol cyfansoddol neu'r sawl sy'n gyfrifol am y portffolio addysg. Cânt eu cefnogi gan y prif weithredwr arweiniol. Pan fo'r opsiwn cwmni hyd braich yn cael ei fabwysiadu, dylai aelodaeth y bwrdd adlewyrchu'r trefniadau hyn. O ran bwrdd y cwmni, gweler y Cyd-bwyllgor. Dylai consortia rhanbarthol sydd â byrddau cwmni wneud yn siŵr nad yw'r trefniadau yn tanseilio prosesau gwneud penderfyniadau'r awdurdod lleol a'u hatebolrwydd democrataidd.

Fel arfer, bydd y cyd-bwyllgor yn cyfarfod dim mwy nag unwaith yn ystod tymor ysgol i oruchwylio gwaith y consortiwm. Bob blwyddyn, bydd un cyfarfod yn canolbwyntio ar ystyried y cynllun busnes drafft a'r gyllideb gysylltiedig a chytuno arnynt. Bydd y cynllun busnes hefyd yn cynnwys adroddiad gan reolwr gyfarwyddwr y consortiwm rhanbarthol ar y deilliannau (a fydd yn seiliedig ar y ffactorau a amlinellir ar dudalen 14). Bydd cyfarfodydd yn canolbwyntio ar fonitro'r cynnydd yn erbyn y cynllun. Ar ôl ymgynghori â chadeirydd y pwyllgor, bydd rheolwr gyfarwyddwr y bwrdd a'r prif weithredwr arweiniol yn cytuno ar yr agenda a'r papurau y bydd angen eu paratoi ar gyfer pob cyfarfod o'r cyd-bwyllgor.

³ Mae adrannau 101 a 102 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (ac yn achos Swyddogaethau Gweithredol, adrannau 19 a 20 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 a'r Rheoliadau perthnasol a wnaed o dan yr adrannau hyn) yn galluogi i waith awdurdodau gael ei wneud drwy amrywiaeth o drefniadau mewnlol ac, yn y cyd-destun hwn, drefniadau allanol sy'n cynnwys awdurdodau eraill ac sy'n golygu gweithio gyda hwy. Yn benodol, mae'r pwerau hyn yn cynnwys gallu dau neu fwy o awdurdodau i gyflawni eu swyddogaethau ar y cyd, a phan fo hynny'n digwydd, eu cyflawni drwy gyd-bwyllgor, a/neu gan eu swyddogion.

Dylai'r Cyd-bwyllgor sefydlu trefniadau ar gyfer penodi uwch-aelodau o'r staff ac i ddelio â materion yn ymwneud ag Adnoddau Dysgu megis cwynion.

Fel arfer, bydd cyfarfodydd y cyd-bwyllgorau yn agored i'r cyhoedd.

Y bwrdd gweithredol

Bydd cyd-bwyllgorau yn dirprwyo prosesau gwneud penderfyniadau gweithredol y consortiwm i fwrdd gweithredol. Swyddogaeth y bwrdd hwn fydd goruchwyllo, cefnogi a herio gwaith y consortiwm rhanbarthol.⁴ Mae Llywodraeth Cymru yn awgrymu y dylai aelodau'r bwrdd gweithredol, a benodir gan gyd-bwyllgorau, gynnwys:

- un cynrychiolydd o'r cyd-bwyllgor a fydd hefyd yn hyrwyddo'r consortiwm yn y rhanbarth;
- enwebai o Lywodraeth Cymru (statws sylwedydd);
- cyfarwyddwr addysg arweiniol;
- rheolwr gyfarwyddwr; a
- dim mwy na [phump] unigolyn a fydd yn cael eu penodi, gyda chymeradwyaeth y cyd-bwyllgor, am eu harbenigedd mewn addysg, arweinyddiaeth a llywodraethu corfforaethol a fydd yn cael eu dewis o bwl o unigolion cymeradwy wedi'i dynnu ynghyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a Llywodraeth Cymru. Bydd y sawl a enwebir yn cynnwys o leiaf un pennaeth sy'n gweithio ar hyn o bryd mewn ysgol yn ardal y consortiwm.

Gan adrodd yn rheolaidd i'r Cyd-bwyllgor, dirprwyir i'r bwrdd gweithredol y cyfrifoldeb am osod y cyfeiriad o ran gweithredu'r elfennau canlynol:

- strategaeth - bydd aelodau'r bwrdd gweithredol yn herio, mewn ffordd adeiladol, ddatblygiad strategaeth a fydd yn cael ei gweithredu i fodloni nodau'r sefydliad, ac yn cyfrannu ati;
- cynllunio busnes - bydd aelodau'r bwrdd gweithredol yn ystyried ac yn argymhell cynllun busnes blynyddol i'r cyd-bwyllgor;
- cyllideb - bydd aelodau'r bwrdd gweithredol yn sicrhau bod y cynllun busnes y cytunwyd arni yn cydymffurfio â'r gyllideb;

⁴Mae'r ddarpariaeth gyfreithiol y cyfeirir ati yn nhroednodyn 4 uchod hefyd yn darparu ar gyfer cyd-bwyllgorau i drosglwyddo eu swyddogaethau yn gyfan neu'n rhannol i is-bwyllgorau. Byddai'r bwrdd gweithredol yn cael ei gyfansoddi fel is-bwyllgor i'r cyd-bwyllgor pan fo awdurdodau yn dewis gweithredu drwy'r opsiwn hwn. Pan fyddant yn dewis gweithredu drwy gwmni hyd braich, byddai'r bwrdd gweithredol yn cael ei gyfansoddi fel is-bwyllgor i'r prif fwrdd.

- perfformiad - bydd aelodau'r bwrdd gweithredol yn monitro ac yn adolygu perfformiad rheolwyr o ran cyflawni'r nodau ac amcanion a neilltuwyd a monitro'r adrodd ar berfformiad;
- hunanwerthuso a risg - bydd angen i aelodau'r bwrdd gweithredol sefydlu trefniadau i sicrhau bod rheolaethau ariannol a systemau'r conosztia rhanbarthol yn gadarn a, lle bo angen, bydd hyn yn cael ei adrodd i'r awdurdodau lleol unigol;
- pobl - bydd aelodau'r bwrdd gweithredol yn argymhell i'r cyd-bwyllgor y lefelau priodol o dâl ar gyfer y rheolwr gyfarwyddwr a'r uwch-dîm a byddant yn chwarae rôl flaenllaw wrth benodi/diswyddo'r rheolwr gyfarwyddwr.

Swyddogaeth cadeirydd y bwrdd gweithredol fydd:

- pennu'r agenda ar gyfer y bwrdd gweithredol mewn cydweithrediad â'r rheolwr gyfarwyddwr a sicrhau bod y bwrdd yn gweithredu'n effeithiol;
- sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei darparu i aelodau eraill y bwrdd gweithredol yn gywir, yn brydlon ac yn glir;
- sicrhau bod y bwrdd gweithredol yn gweithredu'n effeithiol ym mhob agwedd ar ei swyddogaeth;
- cefnogi cyfathrebu effeithiol ag awdurdodau lleol cyfansoddol a Llywodraeth Cymru;
- hwyluso cyfraniadau effeithiol gan holl aelodau'r bwrdd gweithredol a sicrhau bod y cysylltiadau rhwng pob aelod o'r bwrdd gweithredol a rhwng aelodau'r bwrdd gweithredol a swyddogion yn briodol.

Fel arfer, bydd y rheolwr gyfarwyddwr a chadeirydd y bwrdd gweithredol yn mynychu cyfarfodydd y cyd-bwyllgor.

Gweler Atodiad A am enghraifft o'r fodel llywodraethu

Cynllun busnes cyffredinol y consortiwm

Bydd pob consortiwm rhanbarthol yn cynhyrchu cynllun busnes blynyddol, gan ddefnyddio templed safonol a fydd yn nodi:

- crynodeb o amcanion strategol, deilliannau â blaenoriaeth a thargedau'r consortiwm;
- adroddiad yn crynhoi perfformiad ysgolion y consortiwm dros y 12 mis diwethaf a dadansoddiad o'r prif gryfderau a gwendidau yn y consortiwm;
- y blaenoriaethau ar gyfer gwella - o ran ysgolion a materion trawsbynciol penodol;

- y rhaglenni gwaith sydd i'w cynnal dros y 12 mis canlynol;
- y gwelliant mesuradwy ym mherfformiad ysgolion sydd i'w gyflawni dros y 12 mis.

Bydd y cynllun busnes drafft yn cael ei gyflwyno i'r cyd-bwyllgor i'w gymeradwyo. Bydd y rheolwr gyfarwyddwr yn adrodd i'r cyd-bwyllgor ar ganlyniad trafodaethau ag awdurdodau lleol ac ysgolion unigol ynghylch y cynllun drafft, a gaiff eu cynnal yn ôl y trefniadau isod. Bydd y cynllun busnes, fel y cytunwyd arno gan y cyd-bwyllgor, yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau erbyn mis Chwefror bob blwyddyn.

Dylid cwblhau'r broses o gyflwyno a chymeradwyo cynllun busnes erbyn diwedd mis Mawrth bob blwyddyn.

Cynllun busnes ar gyfer pob awdurdod lleol

Yn ogystal â'r cynllun busnes cyffredin, bydd y consortia rhanbarthol yn cynhyrchu atodiadau drafft ar gyfer pob awdurdod lleol yn y consortiwm. Bydd yr atodiadau drafft yn esbonio'r hyn y mae'r cynllun busnes yn ei olygu o ran ysgolion, blaenoriaethau ar gyfer gwella ysgolion, gwasanaethau gwella ysgolion a thargedau gwella ysgolion ar gyfer pob awdurdod cyfansoddol.

Bydd yr holl awdurdodau lleol yn darparu i'w consortiwm ddatganiad o unrhyw newidiadau y maent yn bwriadu eu gwneud dros y 12 mis nesaf o ran trefniadaeth ysgolion a'u trefniadau arfaethedig ar gyfer darparu gwasanaethau ar gyfer anghenion addysgol arbennig ac anghenion dysgu ychwanegol, cymorth ymddygiad a lles addysg a gwasanaethau plant ehangach a allai fod yn berthnasol i ysgolion.

Bydd yr atodiad a'r datganiad yn cael eu trafod yn unigol gyda phob awdurdod drwy gyfarfod gyda'r swyddog arweiniol/cleient deallus a'r aelod etholedig sydd â chyfrifoldeb am wasanaethau plant ac addysg, a'r Arweinydd (neu ddirprwy a enwebwyd i'r Cyd-bwyllgor). Bydd Awdurdodau Lleol yn sicrhau bod y trefniadau llywodraethu ar gyfer y consortia yn eu galluogi i barhau i oruchwylio eu dyletswyddau statudol ac i fod yn atebol amdanynt.

Bydd angen i atodiad y cynllun busnes gydweddu â chynlluniau corfforaethol eraill yr awdurdod lleol a'r Cynllun Sengl.

Caiff unrhyw bryderon neu geisiadau gan yr awdurdod lleol mewn perthynas â chynnwys y cynllun busnes drafft na all y rheolwr gyfarwyddwr a'r awdurdod cyfansoddol gytuno arnynt eu hadrodd i aelodau'r cyd-bwyllgor wrth iddynt ystyried y cynllun drafft.

Wedi cytuno ar atodiad cynllun busnes ar gyfer pob awdurdod lleol, bydd yr atodiad hwnnw, wedi iddo gael ei gytuno, yn ffurfio Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng y consortiwm a'r awdurdod lleol.

Craffu a chyswilt rhwng awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol

Bydd y consortia rhanbarthol yn enwebu uwch swyddog i gysylltu â swyddog arweiniol pob awdurdod. Cyfrifoldeb y swyddogion hynny fydd cytuno ar gwmpas eu cyfarfodydd a pha mor aml y'u cynhelir a, po fwyaf o ysgolion yn yr awdurdod sy'n perthyn i un o'r categorïau pryder, y mwyaf o gyswilt a geir â'r awdurdod hwnnw. Bydd nodyn yn cael ei wneud o'r cyfarfodydd a fydd yn cofnodi'r materion a drafodwyd a'r penderfyniadau y cytunwyd arnynt.

Bydd pob Awdurdod Lleol a'u consortiwm rhanbarthol perthnasol yn gwneud trefniadau ar gyfer craffu'n ddemocrataidd ac yn gadarn ar gynllun busnes a gweithgareddau pob consortiwm mewn perthynas â'u hardal awdurdod lleol perthnasol. Bydd angen digon o wybodaeth hefyd ar bwyllgor craffu ar wasanaethau addysg pob awdurdod i allu ystyried perfformiad eu hysgolion.

Mae awdurdodau lleol yn ymrwymo i fod yn rhesymol o ran yr hyn y maen nhw'n ei ddisgwyl gan staff ac adnoddau'r consortia a sicrhau na fydd raid i uwch-arweinwyr dreulio gormod o amser ar waith adrodd a chraffu.

Atebolrwydd a pherthynas â Llywodraeth Cymru

Bydd Llywodraeth Cymru, drwy'r Gweinidog Addysg a Sgiliau, yn cymeradwyo cynlluniau busnes blynyddol y consortia.

Bydd rheolwr gyfarwyddwr pob consortiwm yn cyfarfod â swyddogion arweiniol y Llywodraeth bob hanner tymor, yn ysbryd datblygu ar y cyd, i:

- drafod cynnydd yn erbyn cynlluniau busnes y consortia;
- rhannu gwybodaeth am weithio fel consortia;
- nodi ffactorau sy'n hwyluso cynnydd ar wella ysgolion neu sy'n ei ddal yn ôl;
- cydgysylltu ynglŷn â rhoi rhaglenni a mentrau'r Llywodraeth ar waith - megis y rhaglen llythrennedd a rhifedd neu waith y Bwrdd Arweinyddiaeth Ysgolion.

Digwyddiadau herio ac adolygu

Bydd sesiynau herio ac adolygu yn disodli'r cylch cyfredol o archwiliadau. Bydd y broses casglu gwybodaeth gychwynnol ar gyfer y sesiynau hyn yn cynnwys tynnu'r data ar berfformiad a'r wybodaeth sydd gan Lywodraeth Cymru ac Estyn am bob rhanbarth at ei gilydd. Bydd y canfyddiadau hyn yn sail i drafodaeth gyda'r pedwar rheolwr gyfarwyddwr ar hunan-ymwybyddiaeth y rhanbarth a'r arbenigedd sydd i'w gael ym mhob rhanbarth. Bydd hyn yn arwain at ddigwyddiad herio ac adolygu gyda phob consortiwm. Bydd cwmpas ac amllder y digwyddiad hwn yn amrywio yn ôl angen a risg, ond fe'i cynhelir o leiaf ddwywaith y flwyddyn.

At hyn, unwaith y flwyddyn, bydd y Gweinidog Addysg a Sgiliau yn cadeirio sesiwn herio ac adolygu ar gyfer pob consortiwm i gadw llygad ar y cynnydd a wneir o ran gwella ysgolion ym mhob rhanbarth. Bydd adroddiad blynyddol rheolwr gyfarwyddwr y consortiwm yn rhan o'r broses hon. Cynrychiolir y consortiwm gan gadeirydd y bwrdd gweithredol, y rheolwr gyfarwyddwr a'r cyd-bwyllgor.

Bydd y blaenoriaethau a'r camau y cytunwyd arnynt yn sgil y sesiynau herio ac adolygu hyn yn cael eu rhoi ar waith gan y consortia a'r awdurdodau lleol fel y bo'n briodol ac yn cael eu hadlewyrchu yn y cynllun busnes ar gyfer y 12 mis nesaf.

Pan nad oes gan gonsortiwm y gallu neu'r ewyllys i gyflawni ei swyddogaethau, mae'r Gweinidog Addysg a Sgiliau yn cadw'r hawl i wneud trefniadau eraill ar gyfer gwella ysgolion ac yng nghyswllt swyddogaethau'r consortiwm, gan ymgynghori â'r cyd-bwyllgor.

Perthynas ag ysgolion

Bydd pob consortiwm yn sefydlu dau banel i ymgynghori ag arweinwyr a llywodraethwyr ysgolion. Diben y paneli hyn fydd trafod y cynlluniau a'r cynigion ar gyfer gwella ysgolion a derbyn adborth ar ansawdd y gwasanaeth a dderbyniwyd o ran swyddogaethau herio a chefnogi'r consortia.

Bydd y panel yn cynnwys cynrychiolwyr o ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion arbennig.

Bydd y paneli defnyddwyr hyn yn cyfarfod bob tymor o leiaf a bydd y cyfarfod yn yr Hydref yn ystyried y cynllun busnes drafft ar gyfer y flwyddyn nesaf. Caiff unrhyw bryderon sylweddol sydd gan arweinwyr a llywodraethwyr ysgolion mewn perthynas â chynnwys y cynllun busnes drafft eu hadrodd i'r cyd-bwyllgor wrth iddo ystyried y cynllun drafft.

Dylai'r consortia hefyd wneud trefniadau i gasglu adborth yn rheolaidd oddi wrth y rheini a fydd yn cymryd rhan yn eu rhaglenni a dylid cydgasglu'r wybodaeth a'i chyflwyno i'r paneli defnyddwyr.

Arolygiad Estyn

Mae Estyn wedi cytuno â'r Gweinidog Addysg a Sgiliau y bydd yn ymgymryd â chylch gwaith ar y cynnydd a wneir gan y consortia. Bydd y cylch gwaith yn dechrau ddiwedd Haf 2014 ac yn cael ei gyhoeddi yng Ngwanwyn 2015.

Bydd yr arolygiad o gonsortia yn dechrau ddiwedd Hydref 2015 ac yn parhau tan Hydref 2016. Bydd Estyn yn canolbwyntio'n bennaf ar effaith y consortia ar y safonau y mae dysgwyr yn eu bodloni, safon y gwasanaeth a ddarperir i ysgolion ac ar safon arweinyddiaeth a rheolaeth y consortia.

Mae gan Estyn Fforwm Ymgynghorol ar gyfer arolygu'r consortia rhanbarthol a thrwyddo mae'n ymgynghori â chynrychiolwyr o Gymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr Awdurdodau Lleol Cymru (SOLACE), Cymdeithas Cyfarwyddwyr

Addysg Cymru, y pedwar consortiwm, yr Adran Addysg a Sgiliau a Swyddfa Archwilio Cymru ar ddatblygiad ei fframwaith arolygu.

Mae Estyn yn cydweithio â Swyddfa Archwilio Cymru ar ei swyddogaeth i arolygu'r consortia fel rhan o dîm arolygu Estyn.

Erbyn diwedd mis Tachwedd 2013, bydd Estyn wedi arolygu gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc ym mhob un o'r 22 o awdurdodau lleol. Rhwng 2013 a 2016, bydd Estyn yn parhau i gadw llygad drwy fonitro'r awdurdodau sy'n perthyn i'r categori o awdurdodau sy'n cael eu monitro gan Estyn, neu sydd angen gwella'n sylweddol neu sy'n destun mesurau arbennig. Fodd bynnag, mae Estyn yn cadw'r hawl i ail-arolygu unrhyw awdurdod sy'n achosi pryder sylweddol. Bydd Estyn yn ystyried yn benodol pa mor effeithiol y mae awdurdodau lleol yn defnyddio eu consortia rhanbarthol i ymdrin â materion yn gysylltiedig â pherfformiad eu hysgolion.

Bydd angen i fframwaith Estyn ar gyfer arolygu gwasanaethau addysg awdurdodau lleol o 2016 hyd 2022 ystyried canlyniadau Comisiwn Williams ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus. Bydd angen ystyried hefyd ddatblygiad y consortia rhanbarthol yn y dyfodol a swyddogaethau statudol awdurdodau lleol na fydd yn cael eu cyflawni drwy gonsortia neu drwy drefniadau eraill i gydweithio.

5. Trefniadaeth a gweithrediad y consortia

Trefniadaeth ganolog y consortiwm

Gallai'r consortia benderfynu, oherwydd maint daearyddol y rhanbarth neu'r angen i adlewyrchu gwahaniaethau o ran diwylliant ac iaith, drefnu bod eu gwasanaethau yn cael eu darparu drwy ganolfannau. Penderfyniad y byrddau gweithredol fydd hwn. Fodd bynnag, dylai pob consortiwm sicrhau bod digon o arbenigwyr yn y canol i reoli'r swyddogaethau canlynol ar draws y consortiwm:

- casglu, dadansoddi a chymhwyso data - a ddiffinnir fel casglu data o awdurdodau lleol ac ysgolion ar berfformiad a chynnydd ysgolion a disgyblion ar draws pob rhanbarth (sy'n seiliedig ar y setiau data craidd a seiliwyd ar amcanestyniadau Llywodraeth Cymru a Fischer Family Trust);
- cynllunio a chydlynu'r gwasanaeth gwella, sicrhau ansawdd y swyddogaeth herio a rheoli perfformiad o ran pa mor effeithiol y mae'n gwella deilliannau;
- arwain yn strategol ar brif linyddau'r gwaith megis datblygu arweinyddiaeth, llythrennedd a rhifedd, a darpariaeth cyfrwng Cymraeg;
- cynllunio busnes gan gynnwys rheoli adnoddau ariannol, asesu risg, rheoli adnoddau dynol staff y consortia a chomisiynu gwasanaethau;
- comisiynu, cydlynu a sicrhau ansawdd yr hyfforddiant o safon a ddarperir i lywodraethwyr a gwasanaethau cynghori gan gynnwys y gofynion cenedlaethol ar gyfer hyfforddiant gorfodol i lywodraethwyr;
- rhoi cyngor ar adnoddau dynol arbenigol i gefnogi penaethiaid a chyrff llywodraethwyr wrth ymdrin â materion rheoli perfformiad a medrusrwydd.

Swyddogaeth y rheolwr gyfarwyddwr

Bydd swyddogaethau allweddol y rheolwr gyfarwyddwr yn cynnwys:

1. Rheoli cysylltiadau strategol a chyd-arweinyddiaeth - bydd angen i'r rheolwr gyfarwyddwr gymryd yr awenau i ddatblygu mwy o ymreolaeth i ysgolion yn ogystal ag adrodd i awdurdodau lleol cyfansoddol (sy'n cadw eu cyfrifoldebau statudol am addysg a gwella ysgolion) a chydweithio â hwy, cydgysylltu â Llywodraeth Cymru ac adrodd i fwrdd gweithredol. Bydd cymhlethdod y trefniadau yn golygu y bydd angen i'r rheolwr gyfarwyddwr feithrin cysylltiadau personol cadarn gan hefyd ganolbwyntio ar fodloni'r safonau uchaf a bod yn gyfrifol am berfformiad o'r radd flaenaf ar gyfer y rhanbarth.
2. Y gallu i ddadansoddi data yn gyflym, darllen sefyllfaoedd, deal a dehongli cyd-destunau lleol a gwleidyddol gwahanol a chyfathrebu'n dda. Bydd rhaid i'r rheolwr gyfarwyddwr hefyd arwain ar arloesi, chwilio am gyfleoedd a manteisio arnynt a chymryd risgiau sydd wedi'u hystyried ymlaen llaw i ymdrechu i wella'n barhaus.

3. Arwain gwasanaethau gwella ysgolion - bydd y rheolwr gyfarwyddwr yn gyfrifol am arwain a darparu, yn strategol, fodel o ddiagnosis a chefnogaeth craff, sydd wedi'i ddiffinio'n glir, i ysgolion. Mae hyn yn cynnwys arwain tîm sy'n perfformio'n dda i weithio gydag arweinwyr ysgol, athrawon ac eraill sy'n ymwneud â darparu gwasanaeth addysg fel rhan o'r gweithgarwch herio a chefnogaeth trylwyr ar gyfer gweithgareddau gwella sy'n seiliedig ar ddadansoddiadau manwl o ddata a thystiolaeth. Bydd effaith y gwaith hwn i'w gweld yn y gwelliant sydyn a pharhaus yn y deilliannau ac yn yr amrywiaeth o wasanaethu priodol a geir yn y consortia.
4. Datblygu mesurau meithrin gallu o ysgol i ysgol ar draws y system - credwn fod y gallu i gyflawni gwelliannau ar draws y system, yn y tymor hir, yn nwylo yr ysgolion. Mae'n rhaid i'r rheolwr gyfarwyddwr allu ysgogi ac arwain penaethiaid rhagorol, arweinwyr canol ac athrawon ac, yn ehangach na hynny, gynllunio system ar gyfer gwella a meithrin gallu a arweinir gan yr ysgolion.
5. Datblygu gwasanaeth gwella sy'n hyblyg ac sy'n bodloni gofynion ei rhanddeiliaid, a'i ddefnyddio - yn unol â gofynion ac anghenion cyfnewidiol yr ysgolion ac awdurdodau lleol, bydd y rheolwr gyfarwyddwr yn arwain ar ddull hyblyg o gaffael gwasanaethau gwella ysgolion. Bydd y swyddogaeth yn gofyn am sensitifrwydd masnachol a'r gallu i greu economi gymysg o arbenigedd o safon y bydd ysgolion yn gallu ei defnyddio.
6. Arwain a rheoli sefydliad canolog darbodus a deinamig - bydd y rheolwr gyfarwyddwr yn rheoli ac arwain y consortiwm yn strategol, mewn ffordd weladwy ac ysbrydoledig. Bydd hyn yn galw am gydnabod hanes a chyflawniadau'r sefydliad hyd yma, yn ogystal ag adolygu'r model staffio a chyflawni a sicrhau ei fod mor effeithlon ac effeithiol â phosibl ac yn cydymffurfio â disgwyliadau Llywodraeth Cymru ac Estyn. Mae'n hanfodol, felly, bod gan y rheolwr gyfarwyddwr sgiliau rheoli pobl cadarn ac effeithiol a'i fod yn gallu darparu datblygiad proffesiynol o safon i staff. Bydd hefyd yn gallu rheoli brand yn effeithiol, rhannu gwybodaeth am reoli adnoddau a meithrin cysylltiadau â rhanddeiliaid. At hynny, bydd rhaid i'r rheolwr gyfarwyddwr arwain ar arloesi, chwilio am gyfleoedd a manteisio arnynt a chymryd risgiau sydd wedi'u hystyried ymlaen llaw i wella'n barhaus.
7. Bydd y rheolwr gyfarwyddwr yn llunio adroddiad blynyddol ar berfformiad yng nghynllun busnes y flwyddyn ganlynol.

Felly, sgiliau a phrofiadau uwch-arweinydd strategol y bydd eu hangen ar reolwr gyfarwyddwr. Rhaid wrth brofiad cadarn o greu argraff wrth arwain sefydliad gwella ysgolion sydd wedi gwella deilliannau addysgol yn sylweddol. Bydd ef neu hi'n uchelgeisiol o ran gwella ysgolion, yn gallu herio a rheoli'r gwaith hwnnw, yn barod i arwain a llywio tîm o arweinwyr ysgol, staff ac awdurdodau lleol drwy'r broses ac yn alluog i wneud hynny.

Y cyd-bwyllgor fydd yn pennu'r cyflog a'r amodau a bydd y rheolwr gyfarwyddwr yn atebol i gadeirydd y bwrdd gweithredol fel rheolwr llinell.

Cyllid

Bydd tair ffynhonnell yn cyllido'r consortia rhanbarthol:

1. Mae awdurdodau lleol wedi gwneud ymrwymiad⁵ i ddiogelu cyllid ar gyfer gwella ysgolion a'i drosglwyddo'n uniongyrchol i'r consortia. Mae awdurdodau lleol wedi ymrwymo i'r cytundeb hwn yn ffurfiol â Llywodraeth Cymru ac mae ganddo'r un statws â chytundebau eraill megis Compact Simpson a'r targedau ar gyfer y cyfraddau dirprwyo sef 80 y cant a 85 y cant.

O 1 Ebrill 2014 ymlaen, bydd y cyllid a drosglwyddir yn cael ei gadw gan yr awdurdod ariannol arweiniol ar ran y consortiwm a bydd ar gael yn llawn i'r consortiwm. Dylai adnoddau ariannol pellach gael eu hychwanegu pe bai rhagor o swyddogaethau yn cael eu trosglwyddo i'r consortiwm.

Bob blwyddyn, bydd swyddogion ariannol arweiniol pob consortiwm yn nodi cyllid y consortia rhanbarthol yn unol â'r cytundeb rhwng CLILC a Llywodraeth Cymru. Bydd lefel y cyllid y cynigir ei throsglwyddo o bob awdurdod lleol i'r consortiwm hefyd yn destun ymgynghori â'r Llywodraeth.

2. Arian wedi'u neilltuo ar gyfer ysgolion a gwella ysgolion a ddarperir drwy'r consortia gan Lywodraeth Cymru. Caiff prif grantiau'r Llywodraeth a'r arian cyfatebol cysylltiedig gan yr Awdurdodau Lleol eu trosglwyddo drwy'r awdurdod arweiniol i'r consortiwm, ar wahân i'r elfennau hynny sy'n cael eu dirprwyo'n uniongyrchol i ysgolion. Bydd yr elfennau a gedwir yn ganolog o'r prif grantiau a gyhoeddir yn rhanbarthol yn cael eu trosglwyddo'n llawn ac yn cael eu cadw gan y consortia.

Rhaid dirprwyo i'r ysgolion yr holl arian y bwriedir ei ddirprwyo i ysgolion. Os bydd angen canllawiau a chymorth ychwanegol ar ysgolion ar sut i wario'r arian yn effeithlon, cânt eu darparu gan y consortia.

3. Cyllid a gynhyrchir gan y consortia yn sgil codi tâl am rai o'r rhaglenni ac ymyriadau a gomisiynir ganddynt.

Disgwylir i'r consortia fod yn agored ac yn eglur wrth ddefnyddio pob elfen o'r cyllid, gan ddefnyddio'r cynlluniau busnes fel cyfrwng i gytuno ar ddadansoddiad llawn o'r gyllideb ac ar adroddiad blynyddol y rheolwr gyfarwyddwr i adrodd yn glir ac yn dryloyw ar sut cafodd y cyllid ei wario.⁶


Amserlenni

Er mwyn dechrau gwella deilliannau, y nod yw trosglwyddo, yn ystod y misoedd nesaf, i drefniadau'r consortia a nodir yn yr adroddiad hwn erbyn 1 Ebrill 2014.

⁵Mae'r ymrwymiad hwn yn cyfeirio at y cytundeb cenedlaethol rhwng CLILC, 22 o arweinwyr yr awdurdodau lleol a'r Gweinidog Addysg a Sgiliau.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod na fydd modd darparu rhai o'r gwasanaethau gwella ysgolion sydd wedi'u cynnwys yn y model hwn erbyn 1 Ebrill 2014. O ganlyniad, fel rhan o'r cynllun busnes ac i ddarparu elfen o hyblygrwydd, bydd angen i'r consortia ddangos yn glir yr hyn a fydd yn cael ei ddarparu erbyn Ebrill 2014 ac Ebrill 2015, ynghyd â rhesymeg glir yn esbonio pam.

Atodiad A: Model llywodraethu consortia



Atodiad B: Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol

Ar 28 Tachwedd, cafodd y Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol ei gymeradwyo gan Bwyllgor Cydgysylltu CLILC.

Cyn hynny, ar 7 Hydref, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau ddatganiad ysgrifenedig a oedd yn amlinellu ei benderfyniad i dderbyn y cynnig diwygiedig gan lywodraeth leol i ddiogelu'r cyllid ar gyfer gwella ysgolion sy'n rhan o setliad cyllidebol llywodraeth leol, ac i ddatblygu ar y cyd Fodel Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol.

Mae'r cytundeb hwn yn disodli'r cynnig, yn Adolygiad Hill, i gyllido gwasanaethau gwella ysgolion rhanbarthol drwy drosglwyddo cyllid o'r RSG. Mae'n cytuno y caiff cyfraniadau'r Awdurdodau Lleol i'r consortia gwella ysgolion rhanbarthol eu diogelu ar sail y fethodoleg a'r cyllid a nodwyd yn y papurau a gyflwynwyd i'r Is-grŵp Dosbarthu (DSG) a'r Is-grŵp Cyllid (FSG).

Sail isafswm cyfraniadau'r Awdurdodau Lleol

Mae'r swm yn seiliedig ar yr isafswm a gynigiwyd yn wreiddiol (£19.2 miliwn) wedi tynnu canran cyfartalog y gostyngiad yn y cyllid refeniw craidd i Gymru, fel a gyhoeddwyd yn y Setliad Llywodraeth Leol Terfynol ar gyfer 2014-15. Mae hyn gyfystyr â -3.4%.

Mae dyraniadau'r awdurdodau unigol yn seiliedig ar ddosraniad Asesiad o Wariant Safonol y sector 'Ysgolion Prif Ffrwd' fel a amlinellir yn Setliad Terfynol 2014-15. Mae'r sector Ysgolion Prif Ffrwd yn cynnwys y prif feysydd gwasanaeth sy'n gysylltiedig ag ysgolion cynradd, uwchradd a darpariaeth addysg arbennig. Mae isafswm cyfraniadau terfynol yr Awdurdodau Lleol ar gyfer 2014-15 i'w gweld yn Nhabl 2.

Mae'r ffigurau hyn yn cynrychioli cyfraniadau craidd yr Awdurdodau Lleol, heb gynnwys incwm a refeniw grant. Yn ogystal â'r cyllid craidd hwn, mae cyfanswm y cyllid ar gyfer y consortia rhanbarthol yn cynnwys incwm a gynhyrchwyd drwy drefniadau masnachu, ar lefel ysgolion a Chytundebau Lefel Gwasanaeth eraill, cyllid grant penodol a ddyrannwyd ar sail ranbarthol ac unrhyw elfennau o arian cyfatebol yr awdurdodau lleol ar gyfer y grantiau hyn. Gallai Awdurdodau Lleol hefyd ddarparu cyllid ychwanegol ar gyfer gweithgarwch ychwanegol penodol. Mae hyn yn cynrychioli 'cyllideb gros' ar gyfer y consortia a bydd y refeniw hwn yn dal i gael ei ryddhau i'r consortia. (Lle bydd consortia rhanbarthol yn ymgymryd â swyddogaethau ychwanegol, bydd y cyllid yn cael ei newid fel y bo'n briodol).

Tablau

Mae tabl 1 yn dangos y cyfraniadau cyfredol ar gyfer 2013-14 a'r cyfraniadau a gynigiwyd yn wreiddiol ar gyfer 2014-15 ym mhapurau'r DSG a'r FSG.

Mae tabl 2 yn dangos isafswm cyfraniadau gofynnol yr Awdurdodau Lleol ar gyfer 2014-15, wedi'u lleihau yn unol â'r newidiadau i'r Setliad Llywodraeth Leol Terfynol (-3.4%).

Tabl 1: Gwariant consortia'r Awdurdodau Lleol a dosraniad arfaethedig y cyllid a drosglwyddwyd ar sail y Sector Ysgolion Prif Ffrwdⁱ

Consortia	Local Authority	Consortia 2013-14 budgets net of income and grant revenue		Transfer Out based on mainstream schools sector		Difference from 2013-14 Budgets		Transfer Out based on Mainstream Schools distribution scaled in line with South East Consortia (a)		Difference from 2013-14 Budgets
		Amount (£)	% Share	Amount (£)	% Share	Amount (£)	% Share	Amount (£)	% Share	Amount (£)
North Wales	Anglesey	£360,800	2.2%	£367,906	2.3%	£7,106	0.0%	£435,073.70	2.3%	£74,274
	Gwynedd	£634,304	3.9%	£648,257	4.0%	£13,953	0.1%	£766,607.69	4.0%	£132,304
	Conwy	£552,640	3.4%	£573,346	3.5%	£20,706	0.1%	£678,020.37	3.5%	£125,380
	Denbighshire	£539,264	3.3%	£545,654	3.4%	£6,390	0.0%	£645,272.71	3.4%	£106,009
	Flintshire	£788,128	4.9%	£818,362	5.0%	£30,234	0.2%	£967,768.35	5.0%	£179,640
	Wrexham	£644,864	4.0%	£681,942	4.2%	£37,078	0.2%	£806,442.48	4.2%	£161,578
	Sub total	£3,520,000	21.7%	£3,635,467	22.4%	£115,467	0.7%	£4,299,185.30	22.4%	£779,185
ERW	Powys	£813,250	5.0%	£693,524	4.3%	-£119,726	-0.7%	£820,138.98	4.3%	£6,889
	Ceredigion	£470,750	2.9%	£365,586	2.3%	-£105,164	-0.6%	£432,330.14	2.3%	-£38,420
	Pembrokeshire	£610,250	3.8%	£669,959	4.1%	£59,709	0.4%	£792,271.77	4.1%	£182,022
	Carmarthenshire	£992,000	6.1%	£1,000,607	6.2%	£8,607	0.1%	£1,183,285.37	6.2%	£191,285
	Swansea	£993,250	6.1%	£1,197,996	7.4%	£204,746	1.3%	£1,416,711.19	7.4%	£423,461
	Neath Port Talbot	£707,500	4.4%	£754,452	4.6%	£46,952	0.3%	£892,190.45	4.6%	£184,690
	Sub total	£4,587,000	28.3%	£4,682,124	28.8%	£95,124	0.6%	£5,536,927.91	28.8%	£949,928
Central South	Bridgend	£693,359	4.3%	£755,003	4.7%	£61,644	0.4%	£892,842.05	4.7%	£199,483
	Vale of Glamorgan	£651,860	4.0%	£700,208	4.3%	£48,348	0.3%	£828,043.26	4.3%	£176,183
	Rhondda Cynon Taf	£1,250,876	7.7%	£1,341,118	8.3%	£90,242	0.6%	£1,585,962.63	8.3%	£335,087
	Merthyr Tydfil	£295,094	1.8%	£318,843	2.0%	£23,749	0.1%	£377,053.39	2.0%	£81,959
	Cardiff	£1,525,297	9.4%	£1,648,302	10.2%	£123,005	0.8%	£1,949,228.46	10.2%	£423,931
	Sub total	£4,416,486	27.2%	£4,763,474	29.3%	£346,988	2.1%	£5,633,129.78	29.3%	£1,216,644
South East	Caerphilly	£1,133,580	7.0%	£1,026,964	6.3%	-£106,616	-0.7%	£1,214,454.30	6.3%	£80,874
	Blaenau Gwent	£423,953	2.6%	£370,663	2.3%	-£53,290	-0.3%	£438,334.04	2.3%	£14,381
	Torfaen	£760,016	4.7%	£531,326	3.3%	-£228,690	-1.4%	£628,328.89	3.3%	-£131,687
	Monmouthshire	£468,403	2.9%	£425,265	2.6%	-£43,138	-0.3%	£502,904.59	2.6%	£34,502
	Newport	£926,421	5.7%	£800,576	4.9%	-£125,845	-0.8%	£946,735.20	4.9%	£20,314
	Sub total	£3,712,373	22.9%	£3,154,794	19.4%	-£557,579	-3.4%	£3,730,757.01	19.4%	£18,384
Wales		£16,235,859	100.0%	£16,235,859	100.0%	£0	0.0%	£19,200,000.00	100.0%	£2,964,141

Notes

Scaling factor of 1.182 used to scale in line with South East Consortia 2013-14 budget levels.

Tabl 2: Isafswm cyfraniadau gofynnol yr Awdurdodau Lleol ar gyfer 2014-15, yn seiliedig ar SSA Ysgolion Prif Ffrwd 2014-15

Rhanbarth	Awdurdod Lleol	Fformiwla SSA	
		Dosraniad y Sector Ysgolion Prif Ffrwd 2014-15	Canran y dosraniad
Y Gogledd	Ynys Môn	422,621	2.3%
	Gwynedd	740,733	4.0%
	Conwy	652,994	3.5%
	Sir Ddinbych	623,793	3.4%
	Sir y Fflint	933,484	5.0%
	Wrecsam	782,631	4.2%
	Is-gyfanswm	4,156,256	22.4%
ERW	Powys	786,048	4.2%
	Ceredigion	414,511	2.2%
	Sir Benfro	759,950	4.1%
	Sir Gaerfyrddin	1,141,069	6.2%
	Abertawe	1,370,773	7.4%
	Castell-nedd Port Talbot	850,288	4.6%
	Is-gyfanswm	5,322,639	28.7%
Canol De Cymru	Pen-y-bont ar Ogwr	862,092	4.6%
	Bro Morgannwg	799,973	4.3%
	Rhondda Cynon Taf	1,531,657	8.3%
	Merthyr Tudful	359,863	1.9%
	Caerdydd	1,917,619	10.3%
	Is-gyfanswm	5,471,204	29.5%
Y De-ddwyrain	Caerffili	1,169,666	6.3%
	Blaenau Gwent	417,511	2.3%
	Torfaen	600,536	3.2%

	Sir Fynwy	481,642	2.6%
	Casnewydd	934,254	5.0%
	Is-gyfanswm	3,603,609	19.4%
	Cymru	18,553,708	100.0%

ⁱ Mae'r sector Ysgolion Prif Ffrwd yn cynnwys yr IBA canlynol: Addysgu Meithrin a Chynradd a Gwasanaethau Ysgol Eraill, Addysgu Ysgolion Uwchradd a Gwasanaethau Eraill, Addysg Arbennig, Grant Brecwast Ysgolion, Grant Blas am Oes, Grant Cwnsela Ysgolion, Grant AAA Prif Ffrwd Ôl-16, Grant AAA Ysgolion Arbennig Ôl-16 a Grant y Tu Allan i'r Sir.



Achos Busnes Llawn

Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion
Rhanbarthol (RSEIS) Gogledd Cymru

Mawrth 2012

Cynnwys

1	Cyflwyniad	4
1.1	Rhagair	4
1.2	Pwrrpas yr Achos Busnes Llawn	5
2	Gweledigaeth ar gyfer y Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol (RSEIS)	6
3	Trosolwg Rhanbarthol o Ogledd Cymru mewn Cyd-destun	7
3.1	Safonau	7
3.1.1	Bandio Cenedlaethol ar gyfer Ysgolion Uwchradd	8
3.1.2	Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA)	9
3.2	Yr Iaith Gymraeg	9
3.3	Poblogaeth ac Ysgolion	9
4	Cefndir a'r Achos dros Newid	11
4.1	Trefniadau Presennol	11
4.2	Yr Achos Addysgol dros Newid	11
4.3	Yr Achos Ariannol dros Newid	12
4.3.1	Cost Gros Bresennol / Cost fesul Disgybl	12
4.3.2	Gwariant Presennol yn Seiliedig ar Staff o fewn y Cwmpas	13
4.3.3	Trefniadau Datganoli Presennol	14
4.3.4	Swyddogaethau Gwella Ysgolion a Ariennir gan Grantiau	14
5	Prif Swyddogaethau'r RSEIS	15
5.1	Prif Nodau ac Amcanion yr RSEIS	15
6	Ymgynghori â Rhanddeiliaid	16
6.1	Canfyddiadau'r Ymgynghoriad â Rhanddeiliaid ar Wasanaeth Rhanbarthol (Mawrth 2011)	16
6.2	Canfyddiadau'r Ymgynghoriad Rhanddeiliaid ar Achos Busnes Amlinellol (ABA) RSEIS (Hydref 2011)	16
7	Model Llywodraethu	18
7.1	Arfarnu Dewisiadau Llywodraethu	18
7.2	Diffyg Pensiynau – Amcangyfrif o'r Cyfraddau Cyfraniad ar gyfer RSEIS	19
7.3	Model Atebolrwydd Llywodraethu RSEIS	20
7.4	Penderfynu ar yr Awdurdod Lletyol	21
7.5	Ethol Cyd-bwyllgor	21
8	Cyflawni'r 6 Prif Swyddogaethau	22
8.1	Agenda Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Gogledd Cymru yng Nghyd-destun Ehangach Gwella Ysgolion	23
8.2	Haen 1 – Agenda Rhanbarthol Gogledd Cymru i Godi Safonau	24
8.3	Haen 2 – Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol newydd Gogledd Cymru(RSEIS)	27
8.3.1	Y Model Cyflwyno	27
8.3.2	Gwasanaethu Anghenion Diwylliannol ac Ieithyddol y Rhanbarth	30
8.3.3	Comisiynu o'r RSEIS	31
8.4	Haen 3 – Strwythur y Gwasanaeth Gwybodaeth Reoli (Capita ONE)	32
8.4.1	Pwrrpas	32
8.4.2	Cydweithredu ONE	32
8.4.3	Cerrig Milltir y Prosiect	33

8.5	Haen 4 – Swyddogaethau Cefnogi	34
9	Model Ariannol	35
9.1	Cost Haen 2 - Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru Newydd (RSEIS)	35
9.2	Costau Gweithredu'r RSEIS	36
9.2.1	Costau Gadael	36
10	Model Adnoddau Dynol(AD)	38
10.1	Amserlen AD Allweddol ar gyfer y RSEIS	38
10.2	Cynllunio ar gyfer Newid	38
10.3	Rolau sydd ar gael yn y RSEIS	39
10.3.1	Rolau Arweinwyr Systemau	39
10.3.2	Cyfleoedd i Arweinwyr Systemau gael eu Secondio	39
10.3.3	Rolau Cefnogi	39
10.4	Trefniadau TUPE	40
10.5	Ystodau Cyflog	40
10.6	Polisiâu a Threfnau	40
Atodiad 1	Proffil Economaidd-gymdeithasol Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru	42
Atodiad 2	Swyddogaethau Gwella Ysgolion a Ystyrir eu bod o Fewn y Cwmpas	45
Atodiad 3	Trefniadau Cyflenwi Gwasanaethau Gwella Ysgolion Awdurdodau Lleol	47
Atodiad 4	Chwe Swyddogaeth Allweddol Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol	51
Atodiad 5	Arfarniad Opsiynau – Modelau Llywodraethu RSEIS	53
Atodiad 6	Trosolwg ar y Materion Pensiwn i'r RSEIS	68
Atodiad 7	Model Cyflawni RSEIS (Haen 2)	71
Atodiad 8	Cost y Haen 2 (RSEIS)	72
Atodiad 9	Dadansoddiad Llawn o'r Costau Gweithredu	74
Atodiad 10	Adroddiad Ariannol ar Gostau Gadael Posibl	75
Atodiad 11	Siart Llif Cynllunio ar gyfer Newid (Staff) Siart Llif Dileu Swyddi	78
Atodiad 12	Swydd-ddisgrifiadau a Manylebau Swydd DRAFFT ar gyfer Rolau Arweinwyr Systemau	80
Atodiad 13	Swydd-ddisgrifiadau a Manylebau Swydd DRAFFT ar gyfer y Rolau Cefnogi	85

1. Cyflwyniad

1.1 Rhagair

Mae Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru (ALI) wedi ymrwymo i sicrhau bod y plant a'r bobl ifanc yn eu hysgolion yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd ac yn sicrhau sgiliau byw o'r radd flaenaf.

Rydym yn cydnabod bod her fawr yn wynebu Cymru i sicrhau bod ei lefelau cyrhaeddiad addysgol o leiaf yn debyg i'w chystadleuwyr yn economi'r byd. Nid oes gan ein cymdeithas a'n heconomi yr un ased mwy gwerthfawr na sgiliau a gallu ein pobl i ddysgu. Rhaid i Ogledd Cymru chwarae ei rhan i sicrhau newid sylweddol yn y ffordd y mae'n monitro, herio, cefnogi ac ymyrryd mewn ysgolion er mwyn gweithio mewn partneriaeth gydag ysgolion a chodi safonau cyrhaeddiad disgyblion. Rhaid sefydlu ffyrdd newydd o sicrhau swyddogaethau statudol gwella ysgolion ALI fydd yn gwneud gwahaniaeth i ba mor gyflym y gwneir gwelliannau i berfformiad ysgolion. Mae'r Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol (RSEIS) a ffurfiwyd yn gam pwysig o'r dulliau cyflawni newydd.


Ni all yr un awdurdod unigol fynd i'r afael â'r materion perfformiad presennol fel endid unigol, sy'n gweithio ar wahân i awdurdodau eraill. Mae'r tasgau i'w cyflawni a'u gweithredu'n rhy feichus a chymhleth. Byddai'r rhaglen wella, sy'n gyffredin i bob awdurdod, sy'n cael ei hysgogi ar sail ALI unigol, yn arwain at ddyblygu ymdrech a phrosesau ac aneffeithlonrwydd. Mae hybu'r cydweithio sydd eisoes yn digwydd, trwy'r cynlluniau a'r prosesau consortia rhanbarthol presennol, yn fodd i ni sefydlu a datblygu Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol.

Bydd y datblygiad cyffrous hwn yn darparu Gogledd Cymru â gwasanaeth effeithiolrwydd a gwella ysgolion o safon sy'n gost effeithiol ac yn effeithlon er mwyn codi safonau a 'gwneud gwahaniaeth' i blant a phobl ifanc. Bydd yn hyrwyddo ffordd newydd o wella safonau. Bydd yn: cynnal systemau cadarn newydd o wybodaeth perfformiad er mwyn mesur effeithiolrwydd; codi safonau - gwella llythrennedd a rhifyedd, hyrwyddo lles, codi dyheadau, gwella gwytnwch disgyblion fel dysgwyr, gwella canlyniadau a lleihau amrywiad rhwng ysgolion ac o'u mewn er mwyn sicrhau pwrpas moesol addysg; cefnogi gwelliant addysgol mewn ysgolion; a, chefnogi datblygu arweinyddiaeth o fewn ysgolion a chyrrff llywodraethu.

Bydd y RSEIS yn ganolog i wella ysgolion yng Ngogledd Cymru. Bydd yn bwerdy i ysgogi arfer da ar draws y rhanbarth. Bydd yn sicrhau her a chefnogaeth gyson i ysgolion ar draws y chwe sir gan arwain at sicrhau bod ein plant a'n pobl ifanc yn cyflawni eu potensial.




Richard Parry Jones
Prif Weithredwr Dros Dro Ynys Môn



Harry Thomas
Prif Weithredwr Gwynedd



Iwan Davies
Prif Weithredwr Conwy



Mohammed Mehmet
Prif Weithredwr Sir Ddinbych



Colin Everett
Prif Weithredwr Ffiint



Helen Paterson
Prif Weithredwr Wrecsam

1.2 Pwrpas yr Achos Busnes Llawn

Bydd y ddogfen hon yn rhoi sylw i'r materion y tynnwyd sylw atynt gan chwe Chabinet / Byrddau Gweithredol Gogledd Cymru wrth gymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol ar gyfer ymgynghori (Medi/Hydref 2011) a gan y rhanddeiliaid yn ystod yr ymgynghoriad (Hydref/Tachwedd 2011):

- rhaid i'r achos dros newid a'r weledigaeth ar gyfer y gwasanaeth newydd fod yn llawer cryfach;
- rhaid i ansawdd y gwasanaeth newydd ar gyfer pob cyngor yn ogystal â'r rhanbarth gael sylw mwy penodol;
- rhaid datrys y model llywodraethu ac atebolrwydd;
- rhaid rhoi sylw i'r materion yn ymwneud â diffyg pensiynau, yn cynnwys unrhyw faterion sy'n ymwneud yn benodol â chwmni Cynnal;
- rhaid i'r model allu dangos sut y bydd yn diwallu anghenion amlddiwylliannol ac ieithyddol y rhanbarth;
- rhaid i'r model allu dangos sut y bydd yn gwella safonau; ac
- amlinellu'r materion ariannol ac AD, yn cynnwys yr effaith bosibl ar anghenion staff.

2. Gweledigaeth ar gyfer y Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol (RSEIS)

Bydd Consortiwm Gogledd Cymru'n ceisio sicrhau'r canlyniadau canlynol:

- | |
|---|
| <ul style="list-style-type: none">▪ C1 - Gwell safonau llythrennedd (Cymraeg/Saesneg) a rhifedd (Mathemateg) sy'n cymharu'n dda gyda'r goreuon mewn gwledydd eraill▪ C2 - Un gwasanaeth cydlynol ar gyfer monitro, cefnogi, herio ac ymyrryd o fewn ysgolion ar draws y rhanbarth▪ C3 - Defnyddio Arweinyddion System gyda dull cyson a chefnidir o lwyddiant diweddar o ran gwella ysgolion.▪ C4 - Bod pob ysgol yn gallu defnyddio ystod llawer ehangach o gefnogaeth arbenigol na'r hyn sydd ar gael mewn ALI unigol ar hyn o bryd▪ C5 - Nad oes unrhyw Awdurdodau Lleol nac ysgolion [lleoliadau ysgol] mewn unrhyw gategori arolwg gan Estyn ag angen gwelliannau sylweddol neu fesurau arbennig |
|---|

Ar ôl ei sefydlu bydd y Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol newydd yn bodloni'r dyheadau canlynol ynghynt, sef bod:

Ein Plant a'n Pobl Ifanc:

- Yn cyrraedd eu potensial llawn fel unigolion, ac, yn cyrraedd safonau ac yn sicrhau canlyniadau i ddysgwyr sy'n debyg i'r gorau mewn gwledydd eraill
- Yn cael mynediad i ddarpariaeth o'r ansawdd gorau wedi ei darparu ar sail gyson

Ein Hysgolion yn gallu comisiynu gwasanaeth fydd yn eu cefnogi i:

- gael arweinyddiaeth a rheolaeth sy'n ysgogi'r safonau a'r ddarpariaeth orau
- gyflogi athrawon sy'n deall sut i ddiwallu anghenion eu dysgwyr
- gael amgylcheddau dysgu (gan weithio o fewn cyfyngiadau'r amgylchedd adeiledig) sy'n ysbrydoli dysgwyr i gyflawni eu potensial llawn

Ein Hawdurdodau Lleol yn gallu comisiynu gwasanaeth fydd yn:

- darparu eu swyddogaethau gwella ysgolion statudol
- ganolfan i ymarfer rhagorol (a chefnogaeth) fydd yn sicrhau bod mwy o gapasiti ac arbenigedd ar gael i ysgolion, gan ddefnyddio Arweinyddion System gyda dull cydlynol a hanes o lwyddiant diweddar o ran gwella ysgolion.
- ysgogi datblygiad cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar gyfer cymunedau addysg trwy Ogledd Cymru
- sicrhau gwerth am arian, trwy arbedion maint, heb gyfaddawdu ar ansawdd
- cael ei ysgogi gan anghenion ein hysgolion, yn unigol ac ar y cyd

3. Trosolwg Rhanbarthol o Ogledd Cymru mewn Cyd-destun

Mae Gogledd Cymru wedi ei rannu'n chwe Awdurdod sef, Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam.

Ceir profil economaidd-gymdeithasol o bob Awdurdod Lleol yn Atodiad 1.

3.1 Safonau

Mae perfformiad llwyr ar lefel Consortiwm yn dangos tuedd gyffredinol o wella, sy'n cymharu'n dda â chonsortia eraill, er gwaethaf y cynnydd bychan yn 2011 o'i gymharu â 2010. Mae perfformiad yn dal i fod yn uwch na pherfformiadau Cymru gyfan ar gyfartaledd.

% disgyblion 15 oed sy'n cyrraedd trothwy lefel 2 yn cynnwys Cymraeg / Saesneg a Mathemateg




Fig.1

Mae dadansoddiad data o berfformiad tair blynedd y rhanbarthau ar draws Cymru, yn y dangosyddion perfformiad allweddol (Tabl 1), yn dangos bod myfyrwyr yn ysgolion gogledd Cymru ar gyfartaledd yn cyflawni (i) yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar draws pob dangosydd; (ii) y safonau uchaf ar Lefel 1; (iii) y safonau ail uchaf ar Lefel 2, Lefel 2+ a'r Dangosydd Pwnc Craidd; a, (iv) y safonau ail uchaf yn y dangosyddion sgôr pwyntiau.

Tabl.1

	Pupil No.	Pupil No.	Pupil No.	TL1	TL1	TL1	TL2	TL2	TL2	TL2+	TL2+	TL2+	CSI	CSI	CSI	AWPS	AWPS	AWPS	CPS	CPS	CPS
	9	10	11	9	10	11	9	10	11	9	10	11	9	10	11	9	10	11	9	10	11
North Wales	7959	7880	7766	89.6	91.5	92.3	60.7	65.1	68.9	47.7	50.7	52.1	46.9	49.9	50.8	384.1	404.9	443.4		310.2	317.6
South West	10439	10268	9937	89.6	91.1	92	63.6	65.1	69.6	51.4	51.6	53.9	50.2	50.2	51.9	390.1	405	443.6		311.2	320.2
South Wales	9526	9235	9041	87.7	88.6	89.2	59	61.6	65.4	43.6	46.1	45.6	42.4	45	44.7	379.2	389.7	410.9		297.6	303.5
South East	8676	8614	8258	86.7	88.4	89.5	57.2	61.8	64.6	42.7	46.3	46.4	41.6	44.6	45	358.8	377	398		298.7	304.9
Wales	37607	37072	36088	88.2	89.7	90.3	60.7	63.8	67.3	47.2	49.4	50.1	46	48	48.7	378.9	394.3	422.9		305.1	311.6

Dyma'r casgliadau gan Lywodraeth Cymru (ar y cynnydd gan Consortia Gogledd Cymru i gwrdd â'r nod o godi safonau trwy; weithio gyda phartneriaid, hunan werthuso, defnyddio data, ac asesu capasiti):

- i Consortiwm Gogledd Cymru mae'r gwahaniaeth rhwng trothwy lefel 2 a throthwy lefel 2 yn cynnwys Cymraeg/Saesneg a Mathemateg, o gwmpas y ffigwr cyfartalog cenedlaethol;
- mae amrywiad eang ar draws y consortiwm yn y gwahaniaeth rhwng trothwy lefel 2 a throthwy lefel 2 cynwysiedig;
- mae'r gwahaniaeth rhwng trothwy lefel 2 a throthwy lefel 2 cynwysiedig wedi cynyddu o 13% i 17% rhwng 2009 a 2011;
- mae bron i hanner yr ysgolion yn y consortiwm yn dangos gwahaniaeth rhwng 10 ac 20 y cant rhwng trothwy lefel 2 a throthwy lefel 2 cynwysiedig; ac
- mae'r gwahaniaeth rhwng canran y disgyblion sy'n ennill TGAU A*-C yn Gymraeg/Saesneg, yr un radd TGAU mewn mathemateg a'r rhai sy'n ennill trothwy lefel 2 cynwysiedig yn debyg i Gymru'n gyffredinol.

3.1.1 Bandio Cenedlaethol ar gyfer Ysgolion Uwchradd

Ym mis Chwefror 2011, amlinellodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau yr angen am welliannau a chyfres glir o gamau gweithredu i symud ymlaen ei raglen wella. Mae'r system bandio cenedlaethol ar gyfer ysgolion uwchradd yn un o'r camau hyn. Bydd yn grwpio ysgolion mewn bandiau fydd yn adlewyrchu eu perfformiad a'u cynnydd, ac yn ystyried yr heriau y maent yn eu hwynebu a'u hamgylchiadau unigol. Mae'r Gweinidog wedi datgan:

- nad diben bandio yw labelu ysgolion, gan enwi a beirniadu, nac ychwaith greu tabl cynghrair a fydd yn achosi rhwyg rhwng ysgolion;
- diben bandio yw grwpio ysgolion ar sail gwahanol ffactorau er mwyn pennu blaenoriaethau ar gyfer gwahanol fathau o gymorth a phennu'r rhai y gall y sector ddysgu ohonyn nhw;
- yr elfen bwysicaf o'r system fandio fydd y fframwaith o herio a chefnogi a gaiff ei ddatblygu dros amser i gyd-fynd â phob band;
- trwy'r bandiau bydd cefnogaeth, her ac ymyrraeth yn cael eu darparu mewn modd mwy safonol a thryloyw; a
- mater i awdurdodau lleol a chonsortia fydd cytuno ar sut yn union y dylid defnyddio'r bandiau er mwyn helpu i dargedu cymorth a chodi safonau i bawb.

Llywodraeth Cymru, Pynciau – 'Bandio Ysgolion', 08 Rhagfyr 2011

Ym mis Rhagfyr 2011 rhyddhaodd Llywodraeth Cymru fandiau ysgolion uwchradd yn seiliedig ar ddata 2011¹. O ran ysgolion uwchradd yn rhanbarth Gogledd Cymru (gyda Band 1 yr uchaf) gosodwyd:

- 15% ym Mand 1
- 35% ym Mand 2
- 24% ym Mand 3
- 16% ym Mand 4
- 11% ym Mand 5

Bydd Consortia Gogledd Cymru yn defnyddio ymarfer da yn ysgolion y rhanbarth i gefnogi a sbarduno gwelliant yn yr ysgolion hyn ym Mand 4 a 5.

¹ *Bandio Ysgolion Uwchradd Llywodraeth Cymru - Data 2011*

3.1.2 Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA)

Yn ôl arolwg PISA 2009 o gyrraedd addysgol pobl ifanc 15 oed, gwelwyd bod safonau yng Nghymru wedi gostwng ers 2006, ac ym mhrif feysydd darllen, mathemateg a gwyddoniaeth roedd y sgôr gymedrig yng Nghymru yn sylweddol is na gweddill y DU. Ym mhob un o'r tri maes roedd y sgôr gymedrig i Gymru a'n 'safle' rhyngwladol yn is nac yn 2006.

Mewn ymateb i'r arolwg dywedodd y Gweinidog dros Blant, Addysg a Dysgu Gydol Oes:

'Rhaid i ni ysgwyddo lefel o gyfrifoldeb am y broblem a'i datrys. Mae angen i ni ail ganolbwyntio ar safonau uwch, gosod uchelgeisiau a disgwyliadau uchel i ni'n hunain a sicrhau gwelliannau ym mhob agwedd o'n system.'

3.2 Yr Iaith Gymraeg

Mae darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn amrywio rhwng y naill awdurdod a'r llall, ac o fewn awdurdodau. Ar draws awdurdodau Gogledd Cymru, caiff 51% o ysgolion cynradd ac uwchradd eu dosbarthu fel rhai Cyfrwng Cymraeg (yn cynnwys yr ysgolion sy'n cael eu categorio fel rhai 'dwy ffrwd, neu fath dwyieithog B').

Gyda 99% o'i hysgolion wedi eu dosbarthu fel rhai Cyfrwng Cymraeg, gan Wynedd y mae'r ganran uchaf ar draws y rhanbarth a thrwy Gymru gyfan, gydag Ynys Môn yn ail agos gyda 96% (yn cynnwys y rhai sy'n cael eu categorio fel rhai 'dwy ffrwd, neu fath dwyieithog B'). Wrth i ni symud tua dwyrain y rhanbarth tuag at Sir y Fflint a Wrecsam, canran yr ysgolion cyfrwng Cymraeg (yn cynnwys y rhai sy'n cael eu categorio fel rhai 'dwy ffrwd, neu fath dwyieithog B') yw 7% a 12%, yn y drefn honno.

Tabl.2

	Cyfrwng Cymraeg ²			Cyfanswm Ysgolion (Cyn ac uwch)	% sy'n ysgolion Cyfrwng Cymraeg
	Cynradd (Cyfrwng Cymraeg a Dwy Ffrwd)	Uwchradd (Cyfrwng Cymraeg a Math Dwyieithog B)	Cyfanswm		
Gogledd Cymru	207	25	232	454	51%
Ynys Môn	49	4	53	55	96%
Gwynedd	101	14	115	116	99%
Conwy	26	2	28	68	41%
Sir Ddinbych	19	3	22	60	37%
Sir y Fflint	5	1	6	86	7%
Wrecsam	7	1	8	69	12%

Yn ystod yr ymgynghoriad, croesawai'r ysgolion yn y Gogledd Ddwyrain y gobaith am gefnogaeth cyfrwng Cymraeg gan Arweinyddion Systemau RSEIS dwyieithog a'r gobaith o rannu arferion da gydag ysgolion sydd â phrofiad cyfrwng Cymraeg helaeth.

3.3 Poblogaeth ac Ysgolion

Cyfanswm y boblogaeth sy'n byw³ yng Ngogledd Cymru yw 678,461, 23% o gyfanswm poblogaeth Cymru. Mae'r amcanestyniadau'n awgrymu y bydd poblogaeth y rhai o dan 16 oed ar draws Gogledd Cymru yn aros yn eithaf cyson yn ystod y 25 mlynedd nesaf, gyda gostyngiad o lai na 1%. O fewn yr awdurdodau unigol mae amrywiadau, rhagwelir mai yn Sir Ddinbych y bydd y cynnydd uchaf o tua 6% ac yn Sir Fflint y bydd y gostyngiad uchaf o tua 9%.

Yn Ionawr 2011⁴, roedd cyfanswm o 466 o ysgolion Meithrin, Cynradd, Uwchradd ac Arbennig yn y chwech ALI, gyda mwy na 100,000 o ddisgyblion llawn amser a rhan amser.

² LICC, Diffinio Ysgolion yn ôl Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg, Hydref 2007

³ Cyfarwyddiaeth Ystadegol, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Amcanestyniadau Poblogaeth Canol-Blwyddyn 2010

⁴ Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010/11 Nifer Ysgolion, yn ôl sector a Disgyblion ar y gofrestr, yn ôl rhyw a sector 2010/11

Tabl.3

	Nifer Ysgolion				% o gyfanswm nifer yr ysgolion yng Ngogledd Cymru	Yr Holl Ddisgyblion yn ôl Rhanbarth ac ALI (Meithrin, Cyn, Uwch, ac Arbennig)	% o'r holl ddisgyblion yng Nghymru
	Meithrin	Cynradd	Uwchradd	Arbennig			
Gogledd Cymru	2	399	55	10	466	101,504	22%
Ynys Môn	0	50	5	1	12%	9,540	2%
Gwynedd	0	102	14	3	26%	17,342	4%
Conwy	0	61	7	1	15%	16,012	3%
Sir Ddinbych	0	52	8	2	14%	15,830	3%
Sir y Fflint	1	74	12	2	20%	23,800	5%
Wrecasm	1	60	9	1	16%	18,980	4%

Yng Ngwynedd y mae'r ganran uchaf o ysgolion yn y rhanbarth, wedi'i ddilyn gan; Sir y Fflint, Wrecsam, Conwy, Sir Ddinbych ac Ynys Môn.

4. Cefndir a'r Achos dros Newid

4.1 Trefniadau Presennol

Y chwech ALI yng Ngogledd Cymru yw Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam.

Ar draws y chwe ALI mae'r trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau gwella ysgolion yn amrywio.

Mae gan Gonwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam dîm o swyddogion o fewn pob awdurdod i gyflawni swyddogaethau Gwella Ysgolion craidd i'r ysgolion sydd o fewn yr awdurdod hwnnw. Mae swyddogaethau Gwella Ysgolion craidd yn cyfeirio at swyddogaethau statudol ac ymgynghorol gwella ysgolion (monitro, herio, cefnogi ac ymyrryd). Cefnogir y rhain gan nifer o swyddogaethau gwella ysgolion ychwanegol e.e. Blynyddoedd Cynnar, 14-19, Cynhwysiant, Cerddoriaeth, Athrawon Bro, staff cefnogi TGCh, Ysgolion Iach, Pobl Ifanc Egnïol, Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion, System Gwybodaeth Reoli.

Mae dadansoddiad llawn o'r swyddogaethau Gwella Ysgolion a ystyrir 'o fewn y cwrdd' ar gyfer y prosiect hwn ar gael yn Atodiad 2.

Mae Ynys Môn a Gwynedd yn comisiynu Cynnal i ddarparu cefnogaeth ar gyfer swyddogaethau Gwella Ysgolion craidd ac ychwanegol.

Ar draws y 6 ALI yng Ngogledd Cymru caiff cefnogaeth ar gyfer pynciau penodol ei chomisiynu gan Cynnal neu Cymorth Cwricwlwm (CS), yn uniongyrchol gan yr ALI neu'r ysgolion.

Mae'r Gwasanaeth Addysg Awyr Agored yn wasanaeth rhanbarthol a weithredir gan Gonwy ar gyfer ysgolion yng Nghynghorau Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam. Mae'r gwasanaeth hefyd yn ymgymryd â rôl statudol Ymweliadau Addysgol a'r swyddogaeth fonitro ar gyfer yr ALI hyn, yn cynnwys Ynys Môn.

4.2 Yr Achos Addysgol dros Newid

Nid yw'r safonau a gyrhaeddwyd gan ddisgyblion yng Nghymru gystal â disgyblion mewn rhai gwledydd eraill.

Mae'r disgyblion mwyaf galluog yng Nghymru flwyddyn ar ôl yn eu datblygiad o ran sgiliau llythrennedd o'u cymharu â disgyblion mewn rhai gwledydd eraill.

Ar hyn o bryd mae systemau'n cael eu dyblygu'n ddiangen ar draws y chwe Awdurdod Lleol i reoli gwasanaeth a sicrhau gofynion cyffredin, fel, penodi a hyfforddi Arweinyddion System; sefydlu Cymunedau Dysgu Proffesiynol; sefydlu Systemau Proffilio Ysgolion [systemau dadansoddi data]; cwrdd â gofynion Fframweithiau Effeithiolrwydd a Safonau Ysgol; cydweithio ag awdurdodau eraill i gydlynw'r gwaith o weithredu nifer o gynlluniau a grantiau Llywodraeth Cymru.

O ystyried yr hinsawdd ariannol bresennol, ar y cyd, mae aneffeithlonrwydd o ran defnyddio arian pan fo'n bosibl sicrhau bod llai o adnoddau'n cael eu defnyddio'n fwy effeithlon trwy arbedion maint.

Cyfleoedd

- Mae'r RSEIS yn dangos bod Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru'n deall yr angen i newid y ffordd y mae Gwasanaethau Gwella Ysgolion yn monitro, herio, cefnogi ac ymyrryd ag ysgolion er mwyn gwella ymhellach safonau addysg mewn ysgolion.
- Mae'r RSEIS yn lliniaru'r risg y gallai cyllidebau is a llai o adnoddau gan ALI gael effaith negyddol ar ansawdd Gwasanaethau Gwella Ysgolion ALI unigol.
- Mae'r RSEIS yn sicrhau bod gan bob ysgol ar draws y rhanbarth fynediad at gymorth iaith Gymraeg.
- Mae'r RSEIS yn awyddus i ddatblygu ac adeiladu ar arfer da presennol [mewn Gwasanaethau Gwella Ysgolion ALI unigol] fel y lefel ansawdd isaf i sefydlu'r gwasanaeth newydd, gan [i] gadw darpariaeth a pherchnogaeth leol lle y bo'n briodol [ii] sicrhau cyswllt â Chynhwysiant a Gwasanaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol presennol, a, [iii] datblygu'r cydweithio sy'n digwydd yn gynyddol ar lefel Consortiwm.
- Mae'r RSEIS yn fodd i faterion allweddol o Adroddiadau Arolwg presennol gan Estyn o Wasanaethau ALI, Ysgolion a lleoliadau eraill gael sylw ar y cyd, a, pharatoi ar gyfer Arolygiadau Consortiwm newydd Estyn o 2014.
- Mae'r RSEIS yn fodd i rannu arfer da ar draws y rhanbarth.

4.3 Yr Achos Ariannol dros Newid

4.3.1 Cost Gros Bresennol / Cost fesul Disgybl

Ar sail yr wybodaeth a dderbyniwyd ac a ddilyswyd gan bob un o'r chwe Phrif Swyddog Addysg Statudol, gwnaed dadansoddiad i sefydlu'r 'gost bresennol fesul disgybl' o ddarparu'r swyddogaethau Gwella Ysgolion statudol ac ymgynghorol presennol 'o fewn y cwmpas' ar gyfer pob ALI (fe'i diffinnir yn Atodiad 2) .

Er mwyn sefydlu gwir wariant, mae'r dadansoddiad yn ystyried yr holl amser a dreuliwyd yn cyflawni'r swyddogaethau, waeth pa ganran a nodwyd (e.e. dim isafswm nac uchafswm canran), ac yn cynnwys cyflogau a ariennir â grantiau ac amcangyfrif o gostau teithio.

	Cyfanswm Gweithwyr Ymgynghorol CALI (holl %au)	Cyfanswm Staff Gweinyddol CALI	Cost ar gyfer Gwasanaeth Gwella Ysgolion (holl %au)	Niferoedd Disgyblion	Cost Bresennol Fesul Disgybl
Cynnal	16.75	10.84			
Ynys Mon	0.95	0.00	489,000	9,540	51.26
Gwynedd	1.00	0.00	779,000	17,342	44.92
Conwy	10.13	1.67	724,000	16,012	45.22
Sir Ddinbych	14.01	4.65	1,004,000	15,830	63.42
Sir y Flint	17.01	5.47	1,264,000	23,800	53.11
Wrecsam	11.68	4.00	859,000	18,980	45.26
	72	27	5,119,000	101,504	50.43

Tabl.4

Nid yw cost staff gwella ysgolion o fewn Cynnal wedi ei gynnwys ar wahân yn y tabl gan fod y taliadau cysylltiedig yn gynnwysiedig yng nghostau bob ALI unigol.

Cyfanswm cost gros o ddarparu swyddogaethau 'o fewn y cwmpas' ar draws chwe ALI GC yw **£5.1m**. Mae hyn yn gyfwerth â chost gyfartalog o £51 fesul disgybl, gyda'r gost uchaf yn £63 a'r isaf yn £45. Mae'r Gweinidog wedi datgan ei fod yn disgwyl y dylai'r gost fesul disgybl leihau er mwyn rhyddhau cyllid i ysgolion, ac mae wedi cyfeirio at darged yn y rhanbarth o £33 fesul disgybl.

4.3.2 Gwariant Presennol yn Seiliedig ar Staff o fewn y Cwmpas

Mae dadansoddiad yn ôl ALI ar gael yn Atodiad 3.

I bwrpas y prosiect hwn, cytunodd Cyfarwyddwyr CCAC GC os yw aelod o staff yn treulio'r hyn sydd gyfwerth â, neu'n fwy na, 60% o'u hamser ar y swyddogaethau a nodwyd, yna ystyrir eu bod 'o fewn y cwmpas' (gweler Atodiad 2).

Mae 112 aelod o staff 'o fewn y cwmpas' ar draws y chwe ALI a Chynnal, 72 yn darparu'n uniongyrchol 60% neu fwy o'r swyddogaethau gwella ysgolion a nodwyd, a 40 o staff gweinyddol (yn cynnwys staff cyfieithu) yn cyfateb i 27 o staff cyfwerth ag amser llawn (CALI) ar y gweithgareddau hyn.

Ystyriwyd y canlynol:

- er mwyn adlewyrchu'r gwariant y gellir dylanwadu arno ym mhob ALI, cynhwysir costau cyflogau'r 72 aelod staff sydd o fewn y cwmpas ar 100% o'r gost;
- caiff costau cyflogau a theithio sy'n gysylltiedig â staff o fewn y cwmpas ar gyfer Cynnal, eu hadlewyrchu o fewn costau pob ALI fel y taliadau gwirioneddol a wnaed ar gyfer y gwasanaeth hwnnw (effeithio ar gostau Ynys Môn, Gwynedd a Chonwy);
- caiff costau cyflogau sy'n gysylltiedig â staff o fewn y cwmpas ar gyfer CS, eu cynnwys fel cyflogau staff o fewn y ALI sy'n eu cyflogi, gydag unrhyw falans yn cael ei rannu rhwng ALI y bartneriaeth (Conwy, Sir Ddinbych a Sir y Fflint);
- er mwyn canfod y costau cludo presennol cyffredinol ar gyfer staff ALLau - ar gyfer pob unigolyn, cymhwyswyd y ganran a nodwyd fel gwariant ar weithgareddau o fewn y cwmpas, i gyfanswm eu costau theithio. O ganlyniad yr amcangyfrif cyffredinol o'r gost deithio bresennol yw £97k; a
- bydd arbedion cyflogau gweinyddol gwirioneddol yn y dyfodol yn dibynnu pa staff cefnogi a drosglwyddir i'r gwasanaeth newydd, a pha rai fydd yn aros gyda'r ALI.

	Cyfanswm Nifer Gweithwyr Ymgynghorol (60%>)	Cyfanswm CALI Staff Gweinyddol	Gwariant y Gellir Dylanwadu Arno*
Cynnal	21	10.84	
Ynys Môn	0	0.00	435,000
Gwynedd	0	0.00	711,000
Conwy	11	1.67	723,000
Sir Ddinbych	10	4.65	728,000
Sir y Fflint	17	5.47	1,122,000
Wrecsam	13	4.00	684,000
	72	27	4,403,000

Tabl.5

*Costau cyflogau a theithio ar gyfer yr holl staff sydd o fewn y cwmpas, ynghyd ag unrhyw gostau am wasanaethau o fewn y cwmpas gyda Chynnal a/neu CS ac eithrio gwariant a ariennir gan grantiau allanol. Nid yw cost staff gwella ysgolion o fewn Cynnal wedi ei gynnwys ar wahân yn y tabl gan fod y taliadau cysylltiedig yn fater i bob ALI unigol.

Y gwariant y gellir dylanwadu arno, fydd yn sail i adeiladu'r model ariannol o fewn yr Achos Busnes Llawn, yw **£4.4m** (staff o fewn y cwmpas ynghyd â chostau teithio).

O'r referniw hwn mae'r prosiect wedi'i ymrwymo i sicrhau arbediad o 10%, a bydd angen i bob ALI ystyried sut byddan nhw'n cwrdd â'r gost o gomisiynu'r gwasanaeth newydd, ac o bosibl ariannu swyddi i gyflawni'r swyddogaethau Gwella Ysgolion sy'n weddill.

4.3.3 Trefniadau Datganoli Presennol

Bydd trefniadau ar gyfer ariannu gwasanaethau gwella ysgolion yn amrywio ar draws y chwe ALI. Mae rhai Awdurdodau wedi datganoli rhan o swyddogaethau gwella ysgolion i gyllidebau ysgolion unigol.

Bydd angen i bob ALI ystyried y lefel datganoli presennol wrth ariannu'r gwasanaeth rhanbarthol newydd. Cynigir bod pob ALI yn adolygu'r trefniadau presennol i sicrhau bod cyllideb ganolog ddigonol i alluogi'r ALI i dalu eu cyfran o gost y gwasanaeth rhanbarthol gan sicrhau'r cronfeydd uchaf posibl i'w datganoli i ysgolion.

Mae pob ALI yn gyfrifol am adolygu ei drefniadau ariannu ei hun. Bydd hyn yn dylanwadu ar y cam o weithredu'r prosiect hwn.

4.3.4 Swyddogaethau Gwella Ysgolion a Ariennir gan Grantiau

Ar hyn o bryd mae rhai o'r ALI yn ariannu elfennau o'r gwasanaeth gwella ysgolion gyda chyfanswm grantiau o £311k.

Mae'n bwysig nodi tra bod gwariant a ariennir gan grantiau wedi'i gynnwys yn 4.3.1. 'Cost Bresennol fesul Disgybl' i ddangos cyfanswm y costau, nid yw gwariant a ariennir gan grantiau wedi ei gynnwys yn yr ymarferiad costio yn 4.3.2 'Gwariant Presennol yn Seiliedig ar Staff o fewn y Cwmpas' er mwyn canfod cyllideb yr ALI ar gyfer y prosiect hwn, y 'gwariant y gellir dylanwadu arno'.

Gall grantiau gael eu defnyddio gan ALI a/neu ysgolion yn y dyfodol i gomisiynu gwasanaeth ychwanegol gan y gwasanaeth rhanbarthol, yn dibynnu ar amodau a thelerau unigol pob ffynhonnell ariannu.

5. Prif Swyddogaethau'r RSEIS

Y weledigaeth yw sefydlu gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion rhanbarthol i fod yn atebol i, a chyflawni cyfrifoldebau statudol y chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru mewn perthynas â'r dyletswyddau i fonitro; herio; darparu gwasanaethau cymorth ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus y cwrwllwm a rheoli ysgolion, a darparu gwasanaethau y gellir eu comisiynu gan ysgolion ac awdurdodau lleol.

Mae **6 phrif swyddogaeth** y gwasanaeth rhanbarthol newydd, y mae'r egwyddor graidd o gyflwyno ar strategaethau iaith Gymraeg lleol a chenedlaethol yn sail iddynt er mwyn datblygu a chynyddu rhagoriaeth mewn addysgeg ac addysg cyfrwng Gymraeg/dwyieithog mewn cymunedau ledled Gogledd Cymru, fel a ganlyn:

1. cefnogi ALLau i gyflawni eu swyddogaethau statudol mewn perthynas ag effeithiolrwydd ysgolion;
2. rhoi cymorth i ALLau ac Ysgolion (ar y cyd ac ar wahân fel y gallai'r achos fod) mewn gweithgarwch Gwella Ysgolion;
3. ymgymryd yn benodol â'r cyfrifoldeb am Weithredu'r FfEY ac ar gyfer atebolrwydd CIF;
4. darparu ar gyfer datblygu, cynnal a chadw ac adolygu fframweithiau rhanbarthol ar sail wedi'i chomisiynu;
5. darparu canolfan arbenigedd ar gyfer gwasanaeth system gwybodaeth rheoli ac ar gyfer rheoli dadansoddi a dehongli data; a
6. darparu canolfan arbenigol ar gyfer materion Rheoli Addysg a Gwasanaeth Adnoddau Dynol Addysg i ddarparu arbenigedd a chynghor.

I gael disgrifiad llawn o'r 6 phrif swyddogaeth, gweler Atodiad 4.

5.1 Prif Nodau ac Amcanion yr RSEIS

Gan roi ystyriaeth ddyledus i'r cymhellwyr cenedlaethol a rhanbarthol, y **prif nodau** yw sefydlu gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol a fydd:

- yn gweithredu'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgol cenedlaethol i godi safonau a gwella lles trwy leihau amrywiaeth mewn a rhwng ysgolion ac awdurdodau lleol, gan ystyried angen lleol;
- yn ymateb i gyfundrefn arolygu Estyn, sydd wedi codi'r bar ac wedi pwysleisio gweithio mewn partneriaeth yn ei feini prawf arolygu diwygiedig;
- yn dynodi arbedion effeithlonrwydd; ac yn
- darparu sylfaen sy'n galluogi i wasanaethau Addysg eraill/cysylltiedig.

Bydd y *Bwrdd Rhanbarthol Addysg a Gwasanaethau Eraill Cysylltiedig* yn anelu at gyflwyno'r prosiect yn erbyn dau **amcan** trosfwaol:

- cyflwyno'r Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion o dan y trefniadau rhanbarthol ar draws chwe Awdurdod Gogledd Cymru, erbyn mis Medi 2012; ac
- adnabod arbedion trwy gyflwyno Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion rhanbarthol o 10% o wariant Gogledd Cymru.

6. Ymgynghori â Rhanddeiliaid

6.1 Canfyddiadau'r Ymgynghoriad â Rhanddeiliaid ar Wasanaeth Rhanbarthol (Mawrth 2011)

Mae canfyddiadau'r 'Adroddiad ar Ddichonolrwydd a goblygiadau sefydlu Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol i chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru'⁵, yn dynodi bod y fath wasanaeth yn ymarferol a byddai'n darparu datblygiad trawsnewidiol allweddol a allai gynnig darpariaeth ansawdd uchel a chyfrannu at gyflawni gwell canlyniadau i ddysgwyr. Byddai'n galluogi ysgolion ac ALLau hefyd i ddiwallu eu rhwymedigaethau statudol.

Ym mis Mawrth 2011, trefnwyd cyfarfodydd ymgynghori Awdurdodau unigol gyda rhanddeiliaid perthnasol ym mhob awdurdod gan y Cyfarwyddwyr/Prif Swyddogion unigol, gydag adroddiadau pellach i bwyllgorau craffu a byrddau gwaith y chwe ALI. Yn ogystal, cynhaliwyd ymgynghoriadau gyda Grwpiau Ffocws perthnasol (gyda Phenaeithiaid; Llywodraethwyr Ysgol; Undebau Llafur) a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr ar draws y rhanbarth gan Swyddog y Consortiwm a'r Ymgynghorydd Annibynnol. Canfu'r Adroddiad⁶ dilynol gefnogaeth sylweddol i'r strategaeth; mewn llawer o achosion, croesawyd sefydlu Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion rhanbarthol. Cydnabu eraill y cymhellwyr tuag at y fath wasanaeth a'u heffaith. Ar yr un pryd, roedd cefnogaeth i weithredu'r Dewis.

Penderfyniad nesaf y Bwrdd Rhanbarthol Addysg a Gwasanaethau Cysylltiedig oedd bwrw ymlaen yn gydweithredol a cheisio sefydlu Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion rhanbarthol sy'n addas at ddiben y dyfodol (yn enwedig gweithredu'r SEF), sy'n adeiladu ar gryfderau presennol ac sy'n darparu gwasanaeth integredig ar draws y rhanbarth. Bydd y chwech ALI yn berchen ar y gwasanaeth rhanbarthol hwn a byddant yn gweithredu fel endid ar wahân o dan fframwaith comisiynu ar y cyd. Bydd hyn yn gofyn i'r gwasanaeth rhanbarthol fod yn broffesiynol o drylwyr a chanolbwyntio ar addysgeg, dysgu ac arweinyddiaeth wrth ddelio ag ysgolion; yn yr un modd bydd trylwyrdeb proffesiynol yn ofynnol gan ysgolion ac ALLau. Bydd y fath ddull yn hanfodol i lwyddiant a hygyrdd y datblygiad hwn.

6.2 Canfyddiadau Ymgynghoriad y Rhanddeiliaid ar Achos Busnes Amlinellol (ABA) RSEIS (Hydref 2011)

Ym mis Medi 2011, cyflwynwyd yr ABA drafft i bob un o'r chwe Bwrdd Gwaith a benderfynodd:

- y dylid ymgynghori'n eang â'r rhanddeiliaid ar ABA o fis Hydref 2011 ymlaen;
- sefydlu gwasanaeth rhanbarthol erbyn mis Medi 2012, yn amodol ar yr FBC; ac
- y gall y broses recriwtio i benodi Prif Swyddog ddechrau, gyda'r penodiad yn digwydd ar ôl i'r ABLI gael ei fabwysiadu ym mhob un o'r chwe awdurdod.

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar yr ABA gyda rhanddeiliaid ar draws y chwe awdurdod yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd 2011. Datblygwyd Cynllun Ymgynghorol llawn ar gyfer yr ABA a darparwyd 'Pecyn Ymgynghori' i'r Awdurdod Lleol a oedd yn cynnwys copi o'r ABA, cyflwyniad generig, crynodeb gweithredol, papurau trafod, copi o'r Cynllun Ymgynghori a ffurflen adborth.

⁵ 'Adroddiad ar Ddichonolrwydd a goblygiadau sefydlu Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol i Chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru' Gerson Davies, Ymgynghorydd Annibynnol, Ionawr 2011

⁶ Adroddiad ar Ymgynghori mewn perthynas â'r cynnig i sefydlu Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol i Chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru' Gerson Davies, Ymgynghorydd Annibynnol, Ebrill 2011

Dyma brif ganfyddiadau'r ymgynghoriad gyda rhanddeiliaid ABA:

MODEL CYFLAWNI	
Tîm Craidd	Bydd angen i nifer yr Arweinwyr Systemau fod yn fwy na 31.
	Nid yw 3 ymweliad y flwyddyn fesul ysgol yn ddigon.
	Mae ysgolion eisiau Arweinwyr System a chanddynt wybodaeth leol am eu hysgolion.
	Angen diffinio'n glir y Weledigaeth ar gyfer yr RSEIS yn yr FBC.
	Dylai 'Cymorth Ychwanegol' fod ar gael i bob ysgol i gymell codi safonau.
	Bydd angen dynodi a mynd i'r afael â materion daearyddol.
	Bydd angen llif / dadansoddiad data (TGCh) ar y Tîm Craidd
	Ystyriaethau ychwanegol i'r Tîm Craidd (yn seiliedig ar fodel ABA).
Tîm Estynedig Arbenigwyr Pwnc	Pryder bod yr Arbenigwyr Cwricwlwm yn Nhîm Estynedig RSEIS (nid ydynt yn swyddi parhaol)
	Byddai angen ymrwymiad sylfaenol gan Ysgolion i'r gwasanaeth gan y Tîm Estynedig (yn seiliedig ar fodel ABA).
Secondiadau	Er y cydnabyddir bod secondiad yn gyfle da i ddatblygu staff, mae ysgolion yn ei chael hi'n fwyfwy anodd ac anymarferol i ryddhau staff da.
Swyddogion yn yr ALI	Angen diffinio'r Tîm Cartref, ei gyfrifoldebau a'i berthynas gyda'r RSEIS ymhellach.
Safonau / Ansawdd	Angen dangos sut bydd yr RSEIS yn gwella safonau, gan gyflawni o leiaf, os nad mwy, na'r hyn sydd ar waith ar hyn o bryd
Iaith Gymraeg / Dwyieithrwydd	Rhaid i'r RSEIS fod yn wasanaeth dwyieithog.
	Nid oes rhaid i'r holl staff a gyflogir gan yr RSEIS fod yn ddwyieithog er mwyn sicrhau gwasanaeth dwyieithog.
Costau / Arbedion / Datganoli	Pryderon, er y croesewir mwy o datganoli, ni fydd digon o arian yn cael ei datganoli i ysgolion brynu i mewn i'r ddarpariaeth tîm estynedig.
Amserlenni'r Prosiect	Pryder bod amserlenni'r prosiect yn rhy dynn ac y gallai hyn arwain at wasanaeth aneffeithiol.
MODEL LLYWODRAETHU	
Etholaeth y Trefniadau Llywodraethu	Mae angen cael cynrychiolaeth deg yn y trefniadau Llywodraethu i gynnwys; ysgolion, llywodraethwyr a'r esgobaeth - pob un yn meddu ar hawl i bleidleisio.
Atebolrwydd yn y Trefniadau Llywodraethu	Bydd angen i'r ABLI ddangos atebolrwydd yn y trefniadau Llywodraethu.
RÔL ARWEINYDD Y SYSTEM / ADNODDAU DYNOL	
Trefniadau Trawsnewidiol	Mae angen eglurhad o ran; diogelu cyflog, pensiynau a chyflogaeth staff wedi'u heffeithio; ymddeoliad cynnar / pecynnau diswyddiad gwirfoddol; amserlen ar gyfer newidiadau staff; y broses ddiswyddo; y broses ar gyfer penodi a strwythur arfaethedig yr RSEIS.
Swyddi Arweinydd System	Mae dull trylwyr yn ofynnol i benodi'r Arweinwyr System.

7. Model Llywodraethu

7.1 Arfarnu Dewisiadau Llywodraethu

Ym mis Gorffennaf 2011, cynhaliodd yr ABA ymarfer cychwynnol a ystyriodd yr amryw ddewisiadau ar gyfer Llywodraethu a chydabuwyd y bydd angen cyflawni mwy o waith cyn y gellid dod i benderfyniad.

Comisiynodd Cyfarwyddwyr ADEW Gogledd Cymru gyngor cyfreithiol arbenigol Trowers and Hamlins, a luniodd ddau adroddiad ar fathau, a manteision / anfanteision, yr amryw fodelau Llywodraethu. Argymhellodd yr asesiad cychwynnol gan Trowers and Hamlins ar y dewisiadau llywodraethu mewn perthynas â'r RSEIS, fod y prosiect yn ystyried y dewisiadau ar gyfer 'Cyd-bwyllgor gydag Awdurdod Lletyol a Chwmni Cyfyngedig drwy Warant':

- **Cyd-bwyllgor gydag Awdurdod Lletyol** - dirprwyir swyddogaethau gan bob ALI i Gyd-bwyllgor gydag aelodaeth pob un o'r chwech ALI a rhanddeiliaid Gwasanaeth. Nodir Awdurdod Lletyol i gyflogi staff a darparu rhai swyddogaethau cymorth.
- **Trefniadau Corfforaethol (e.e. Cwmni Cyfyngedig drwy Warant)** - byddai trefniant hyd braich yn cael ei sefydlu fel y 'cerbyd corfforaethol' i gyflwyno'r gwasanaeth. Byddai angen contract ar bob ALI gyda'r cerbyd corfforaethol hwn i brynu gwasanaethau a byddai angen i drefniadau fod ar waith ar gyfer perchenogaeth a llywodraethu.

Hwyluswyd gweithdy (a fynychwyd gan y Tîm Prosiect, Cyfarwyddwyr ADEW a Swyddogion Cyfreithiol ledled chwe Awdurdod Gogledd Cymru) gan Trowers and Hamlins i ystyried y dewisiadau yng nghyd-destun yr RSEIS. Yn dilyn hyn, cynhaliwyd Arfarniad Dewisiadau llawn gydag ystod o randdeiliaid ar fodelau llywodraethu'r 'Cyd-bwyllgor gydag Awdurdod Lletyol a 'Chwmni Cyfyngedig drwy Warant' (gweler Atodiad 5).

Yn seiliedig ar ganfyddiadau'r arfarniad dewisiadau, **argymhelliad y Bwrdd Addysg a'r Gwasanaethau Eraill Cysylltiedig yw bod 'Cyd-bwyllgor gydag Awdurdod Lletyol' yn cael ei fabwysiadu fel y model llywodraethu ar gyfer y Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol**, onibai bod y model yn cael ei adolygu fel rhan o'r adolygiad ôl-weithredu.

Yng nghyd-destun datblygu'r gwasanaeth rhanbarthol, mae'r prif anfanteision (sgorio 0 – nid yw'n bodloni'r meini prawf) sy'n gysylltiedig â model 'Cwmni' mewn perthynas â'r:

- diffyg pensiynau (gweler 7.2) - er y bydd gan y ddau ddewis werthusiad diffyg pensiynau y bydd angen ei dalu'n ôl dros nifer o flynyddoedd, hwyrach na fydd y gyfradd cyfrannu tuag at ddiffyg gwasanaeth y gorffennol yn fforddiadwy yn sgil trefniant talu'n ôl mwy cyfyngol fel cwmni yn ei hanfod (ar sail gwerthusiad yr actiwari ar ddata amcangyfrifedig); a'r
- gallu i fanteisio ar eithriad TAW – gyda chwmni cyfyngedig drwy warant yn y cyd-destun hwn, oherwydd bydd mwyafrif ei incwm yn dod o ddarparu addysg a gwasanaethau sy'n agos eu cysylltiad (wedi'u heithrio o TAW), nid oes hawl ganddo adennill TAW ar unrhyw bryniannau/gorbenion sy'n ymwneud â'r gwasanaethau hynny.

Cydnabuwyd hefyd bod:

- y costau sefydlu a chychwynnol parhaus sy'n ymwneud â TGCh ar gyfer y gwasanaeth dan fodel cwmni yn dyblu un Cyd-bwyllgor gydag Awdurdod Lletyol, sy'n gofyn am gaffael cymorth yn y sector preifat (byddai gwrthdaro buddiannau yn achos ALI yn darparu'r cymorth hwn);

- byddai cyfnerthiad gwleidyddol yn fwy annhebygol ym model y Cwmni wrth ystyried yr atebolrwydd personol posibl ar gyfer Cyfarwyddwyr y cwmni (ond dylid prynu yswiriant a rhoi iawndal), a'r gwrthdaro buddiannau potensial rhwng Aelodau sy'n eistedd fel Cyfarwyddwyr yn erbyn Aelodau sy'n eistedd fel Cynghorwyr; a
- byddai cyfnerthiad staff yn fwy annhebygol ym model y Cwmni gyda'r staff yn ffafrio dewis lle maent yn parhau i gael eu cyflogi gan yr ALI ac yn parhau mewn Llywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus ac yn debygol o arwain at wrthwynebiad gan staff a'u hundebau yn sgil pryderon canfyddedig ynghylch tâl, amodau, pensiynau etc.

7.2 Diffyg Pensiynau – Amcangyfrif Cyfraddau Cyfrannu ar gyfer RSEIS

Mae'r Actiwari ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi darparu amcangyfrif cychwynnol o'r diffyg pensiwn potensial a'r gyfradd cyfraniadau pensiwn ar gyfer y gwasanaeth rhanbarthol newydd. Roedd y wybodaeth a ddarparwyd i'r actiwari i seilio'r amcangyfrif hwn yn gyfyngedig a dim ond arwydd o'r cyfraddau potensial yw'r casgliadau a wnaed gan na fydd gwybodaeth wirioneddol y gweithwyr yn hysbys hyd nes i'r broses adnoddau dynol gael ei gweithredu.

Dyma'r Dewisiadau ar gyfer trin y diffyg pensiwn a werthuswyd ar gyfer y gwasanaeth rhanbarthol:

Dewis 1: Dull a Ariennir yn Llawn (bydd y diffyg pensiwn yn aros gyda'r cyflogwr presennol)

- Byddai'r diffyg pensiwn cyffredinol i'r cyflogwr yn parhau'n ddigyfnewid.
- Gallai'r cyflogwr presennol dalu swm o'r diffyg pensiwn i'r gronfa pensiwn o'i gwirfodd a chrisialu'r swm o fewn cyfrifon yr awdurdod, mewn perthynas â'r staff yn trosglwyddo.
- Os bydd y cyflogwr presennol yn dewis peidio â chrisialu'r swm hwn, byddai'n cael ei adlewyrchu o fewn prisiad nesaf y gronfa pensiwn. Byddai llai o staff i adennill y diffyg mewn cyfraniadau a allai arwain at gyfradd cyfrannu uwch i'r cyflogwr.

Dewis 2: Dull Rhannu'r Diffyg (y diffyg pensiwn yn trosglwyddo i'r gwasanaeth rhanbarthol newydd)

- Byddai actiwari'r gronfa pensiwn yn gwneud cyfraniad mewn perthynas â'r corff rhanbarthol i asesu'r gyfradd cyfrannu ofynnol i adlewyrchu cyfraniad y gwasanaeth i'r dyfodol a diffyg y gwasanaeth yn y gorffennol

Rhagwelir y bydd pob trefniant cydweithio yn defnyddio Dewis 2, ac yn yr achos arbennig hwn nid yw Dewis 1 yn ddewis ymarferol pan rydym yn cymryd i ystyriaeth gwmni Cynnal, sydd â statws Cwmni, ond â dim oblygiad i gadw diffyg ariannol pensiwn ar gyfer y staff sy'n trosglwyddo i wasanaeth newydd.

O'r herwydd, mae'r modelu ariannol ar gyfer RSEIS wedi cynnwys yr amcangyfrifon ar sail Opsiwn 2 gyda 'Dull Cyfran o'r Diffygion' yn seiliedig ar y cyfnod taenu a ganiateir fel arfer i Awdurdod Lleol (addasiad o ran gwasanaeth yn y gorffennol 'wedi'i daenu' dros 20 mlynedd).

Mae trosolwg llawn o'r materion pensiwn ar gyfer yr RSEIS ar gael yn Atodiad 6.

7.3 Model Atebolrwydd Llywodraethu RSEIS


Mae'r model canlynol yn dangos y berthynas atebolrwydd rhwng yr Awdurdod Lleol ac RSEIS.

Atebolrwydd Awdurdodau Lleol

- Bydd pob awdurdod lleol (ALI) naill ai'n prynu'r gwasanaeth gan y sefydliad cydweithredol neu'n cyd-ariannu'r trefniant (yn dibynnu ar y strwythur a ddewisir)
- Bydd yr ALI yn cadw'r pwêr i negydu'r cytundeb lefel gwasanaeth neu drefniadau datganoli a allai amrywio'n lleol
- Mae'r Prif Swyddog Addysg ALI yn cadw'r cyfrifoldeb statudol dros gyflawni'r swyddogaethau gyda chefnogaeth yr Aelod Gweithredol
- Mae'r Prif Swyddog Addysg ALI a'r Aelod Gweithredol yn atebol i'r cyngor cyffredinol
- Bydd y Prif Swyddog Addysg ALI a'r Aelod Gweithredol yn sicrhau bod y gwasanaeth yn diwallu anghenion eu hysgolion

Atebolrwydd Rhanbarthol / ar y Cyd

- Cyflawnir hyn trwy fodel *Cyd-bwyllgor gydag Awdurdod Lletyol neu Gwmni Cyfyngedig trwy Warant*.
- Gall Cyngorau benodi aelodau o'r cyd-bwyllgor, neu gyfarwyddwyr y cwmni, sy'n gallu bod yn Aelodau neu beidio
- Mae angen i Aelodau/Cyfarwyddwyr roi didorddebau'r endid ar y cyd yn gyntaf er mwyn rheoli'r 'gwasanaeth cyfan', gan ganolbwyntio ar y diddordebau 'cydweithredol'
- Goruchwylio'r modd y rheolir y gwasanaeth cydweithredol
- Byddai aelodau'r Cyd-bwyllgor yn atebol i'w cyngor ALI a'u haelodau craffu eu hunain
- Bydd y Prif Swyddog yn atebol i'r Cyd-bwyllgor neu'r Cwmni
- Bydd y Cyd-bwyllgor yn cael ei gefnogi a'i herio gan *Grŵp Defnyddwyr Llywodraethwyr ac Ysgolion RSEIS*



7.4 Penderfynu ar yr Awdurdod Lletyol

Er mwyn cyflogi staff o dan y Cyd-bwyllgor, bydd angen i'r RSEIS ddefnyddio Awdurdod Lletyol, sef un o blith chwe awdurdod Gogledd Cymru.

I gyflenwi'r rôl 'cyflogaeth', bydd yr Awdurdod Lletyol hefyd yn gyfrifol am ddarparu cefnogaeth AD, Cyllid a Chyfreithiol i staff y gwasanaeth newydd (Haen 2).

Gwahoddwyd Awdurdodau Lleol i fynegi diddordeb i letya. Yn dilyn ystyriaeth ofalus, trwy benderfyniad y mwyafrif mae Grŵp Prif Weithredwyr Gogledd Cymru yn argymhell Gwynedd fel Awdurdod Lletyol RSEIS.

7.5 Ethol Cyd-bwyllgor

Dull amlinell yw hwn a fyddai'n cael ei ddatblygu a'i sefydlu gan 'Brif Swyddog' a 'Chyd-bwyllgor' RSEIS rhwng mis Ebrill a mis Medi, ar ôl mabwysiadu'r Achos Busnes Llawn.

Bydd y Cyd-bwyllgor yn cynnwys 'aelodau â phleidlais' ac 'aelodau cyfetholedig heb bleidlais'

Tabl.7

Aelodau â Phleidlais	Aelodau Cyfetholedig Heb Bleidlais
6 Aelod Portffolio Addysg <i>Un o bob ALI yng NgC</i>	6 Prif Swyddog Addysg Statudol <i>Un o bob ALI yng NgC</i>
1 Cynrychiolydd Esgobaeth <i>Wedi'i enwebu o ledled Esgobaeth Wrecsam, Llanelwy a Bangor, ar dymor cylchdro hanner blwyddyn</i>	1 Cynrychiolydd Cyfreithiol <i>Wedi'i enwebu gan aelodau CCAC Cyfreithiol GC, ar dymor cylchdro hanner blwyddyn</i>
1 Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd *	1 Cynrychiolydd S151 <i>Wedi'i enwebu gan Grŵp Trysorlys S151 GC ar dymor cylchdro hanner blwyddyn</i>
1 Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd *	
1 Cynrychiolydd Ysgolion Arbennig*	
1 Cynrychiolydd Llywodraethwyr *	

11 aelod â phleidlais

8 aelod heb bleidlais

Cyfanswm o **19 o aelodau** (â phleidlais a heb bleidlais)

Nodiadau:

- Yn ogystal, byddai 'Grŵp Defnyddwyr Llywodraethwyr ac Ysgolion RSEIS' yn cael ei sefydlu i roi cefnogaeth a her i'r Cyd-bwyllgor. Byddai aelodau'r grŵp hwn yn enwebu cynrychiolydd ysgolion Uwchradd, Cynradd, Arbennig a chynrychiolydd Llywodraethwyr i gymryd y seddau â phleidlais ar y Cyd-bwyllgor*. Ar dymor cylchdro hanner blwyddyn y byddai hwn.
- Mae Trowers and Hamlin wedi cadarnhau y 'caiff y chwe Chyngor benodi trydydd partïon (Esgobaethau, Ysgolion a Llywodraethwyr) i eistedd ar y Cyd-bwyllgor, ond mai mater o ddewis yw penderfynu wedyn a ydynt yn cael hawliau pleidleisio ai peidio. Heb weithredu penodol pellach, y sefyllfa dan y Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yw y byddai ganddynt hawliau pleidleisio, o ran bod y Ddeddf yn fud ar y mater. Fodd bynnag, ni fyddai dim yn atal y Cyngorau rhag penodi ar statws arsylwr neu heb bleidlais os dewisant'. Mae'r model yn rhoi hawliau pleidleisio i'r trydydd partïon hyn er mwyn bodloni'r pryderon a fynegwyd gan y rhanddeiliaid yn ymgynghoriad yr achos busnes amlinell, ac er mwyn cydnabod yr Ysgolion fel 'prynwyr' allweddol Gwasanaeth RSEIS (er mai drwy'r ALI y bydd hynny yn y rhan fwyaf o achosion).

8. Cyflawni'r 6 Phrif Swyddogaeth

Er mwyn cyflawni'r chwe phrif swyddogaeth (rhan 5), bydd y rhaglen yn cael ei chyflwyno mewn pedair haen gyd-ddibynnol:

- Bydd Haen 1 yn cyflwyno strategaeth ranbarthol Gogledd Cymru i godi safonau i fodloni'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgol genedlaethol, trwy Gonsortium Gogledd Cymru.
- Bydd Haen 2 yn cyflwyno Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru (RSEIS) i gefnogi Haen 1.
- Bydd Haen 3 yn cyflwyno Strwythur System Gwybodaeth Rheoli (Capita ONE) i gefnogi Haenau 1 a 2.
- Bydd Haen 4 yn cyflwyno'r 'Swyddogaethau Cymorth' i gefnogi Haenau 1 a 2 (Awdurdod Cyfrifol).

Er y bydd y Rhan hon (8) yn disgrifio pob un o'r pedair Haen, bydd ffocws yr Achos Busnes Llawn hwn ar brosiect Haen 2 i gyflwyno Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru.

Tabl.8


Dyddiadau Cerrig Milltir Allweddol ar gyfer Haenau 1 i 4

		Haen
Chwe / Maw 2012	Achos Busnes Llawn RSEIS i Gabinetau / Byrddau Gwaith ALI	2
Mawrth 2012	Cytuno ar yr Awdurdod Lletyol ar gyfer yr RSEIS	4
Ebrill 2012	Penodi Prif Swyddog yr RSEIS	2
	Trefnau a phrosesau wedi'u sefydlu ar gyfer rhannu a lledaenu arbenigedd o fewn a rhwng ONE a SIMS	3
	Penodi Rheolwr Gwybodaeth amser llawn i reoli'r Prosiect Gwybodaeth Reoli Rhanbarthol	3
Mehefin 2012	Trefnau a phrosesau wedi'u datblygu ar gyfer B2B (data myfyrwyr a phresenoldeb), Bases, a PULSE	3
Medi 2012	Penodi Arweinwyr System a Staff Cymorth RSEIS	2
	Cyd-bwyllgor wedi'i Sefydlu	2
	Dull Arweinwyr System Cyffredin o fonitro a herio perfformiad ysgolion.	1
	Dull Arweinwyr System Cyffredin o gefnogi ac ymyrryd mewn perfformiad ysgolion.	1
	Un casgliad cyffredin o gasglu a dadansoddi data perfformiad ysgolion.	1
	Arf Hunanwerthuso Arweinyddiaeth a Rheolaeth Ysgol	1
	Proffil Cyffredin o Berfformiad yr Awdurdod Lleol	1
	Dull Cyffredin o Hwyluso a Dal Ymarfer Da	1
	Rolau a Chyfrifoldebau Cyffredin i Benaethiaid Ysgol a Cyrff Llywodraethol mewn perthynas â Safonau	1
	Arfer cyffredin i hwyluso a chofnodi arferion da gan Gymunedau Dysgu Proffesiynol	1
	Cydlynu Strategaethau Llythrennedd, Rhifedd a Chynhwysiad rhanbarthol	1
	Datrysiaid Capita ONE yn dod yn weithredol – bydd defnyddwyr ar draws y rhanbarth yn cael mynediad i'w data oddi wrth Sir y Fflint	3
	B2B (data myfyrwyr a phresenoldeb), Bases, a modylau PULSE wedi'u gweithredu gyda mynediad i set wedi'i chysoni o adroddiadau safonol sydd wedi'i nodi a'i datblygu gyda'r holl Benaethiaid Gwella Ysgolion	3
	Protocol rhannu gwybodaeth a chytundeb trosglwyddo data wedi'u sefydlu ar gyfer yr holl Awdurdodau a'u hysgolion	3
Tach 2012 i Faw 2013	Adeiladu Tîm, gweithdai alinio diwylliannol, rhaglenni sefydlu, hyfforddiant sgiliau penodol i'r staff a benodwyd i'r RSEIS	2
Ebrill 2013	Staff yn trosglwyddo i'r RSEIS, wedi'u cyflogi gan yr Awdurdod Lletyol	2/4
	Awdurdod Lletyol i'r RSEIS yn darparu cefnogaeth Adnoddau dynol, Cyllid a Chyfreithiol i'r staff a'r gwasanaeth newydd	4

8.1 Agenda Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Gogledd Cymru yng Nghydestun Ehangach Gwella Ysgolion

Bydd Agenda Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Gogledd Cymru (Haenau 1 i 4) yn cyfrannu at y Gwasanaeth Gwella Ysgolion ehangach a gyflwynir yn lleol i ysgolion.

Fig.3



Byrr rôl statudol y Prif Swyddog Addysg yn aros gyda 'Gwasanaeth Addysg yr ALI'.

Mae 'Gwasanaeth Gwella Ysgolion yr ALI' yn cynnwys y meysydd hynny sy'n cyfrannu at 'Gwasanaeth Addysg yr ALI' trosfwaol ar hyn o bryd, ond (ac eithrio Gwaith Achos Adnoddau Dynol) nid ydynt yn cyflawni'r 6 Phrif Swyddogaeth sydd o fewn cwpas yr RSEIS ar hyn o bryd.

Bydd y staff 'Tîm Cartref*' yn cael ei adnabod gan bob ALI fel staff sy'n ofynnol i ddiwallu'r swyddogaethau gwella ysgolion hynny nad ymdrinnir â hwy gan yr RSEIS na chan y timau eraill yng 'Ngwasanaeth Gwella Ysgolion yr Awdurdod Lleol'. Bydd y staff hyn yn parhau i gael eu cyflogi gan yr Awdurdod Lleol.

Y 'Gwasanaethau Addysg ALI Eraill' yw'r meysydd hynny e.e. Rheoli Safle, Arlwyyo, AAA, y gwaith hwnnw ochr yn ochr â'r Gwasanaeth Gwella Ysgolion, sy'n cyfrannu at y 'Gwasanaeth Addysg ALI' trosfwaol.

Caiff pedair Haen RSEIS eu harchwilio yn rhannau dilynol 8.2 i 8.5.

8.2 Haen 1 – Agenda Rhanbarthol Gogledd Cymru i Godi Safonau

O fis Medi 2012 ymlaen, bydd pob Tîm Gwella Ysgolion yr ALI (presennol), Cynnal a CS yn gweithio i strategaeth ranbarthol gytûn a fydd yn sicrhau cysondeb yn y prosesau i fonitro, herio, cefnogi ac ymyrryd mewn ysgolion ledled Gogledd Cymru.

Bydd hyn yn arwain at newid sylweddol ar draws y chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru o ran y broses ar gyfer cysylltu gydag ysgolion i gymell cynyddu safonau a gwella perfformiad. Mae Awdurdodau Lleol ar draws y rhanbarth yn ymroi i sicrhau bod y ffordd newydd hon o weithio cydweithredol yn arwain at well safonau ac yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i berfformiad ysgolion a disgyblion.

Cefndir

Cafodd y dull hwn ei gymell gan Consortïwm Gogledd Cymru ADEW [Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru]. Mae'r grŵp yn cynnwys Prif Swyddogion Addysg pob awdurdod etholaethol ac fe'i cefnogir gan Gydlynnydd y Consortïwm a Swyddfa'r Consortïwm (a gynhelir gan ALI Gwynedd).

Yn 2009, sefydlodd y Consortïwm grŵp gweithredol – Grŵp Llywio'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion (SEF) i symud yr agenda Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion ymlaen ac adnabod darpar drefniadau cydweithio. Mae Grŵp Llywio'r FfEY yn cynnwys; uwch gynrychiolydd pob All, Prif Weithredwr Cynnal, ac Uwch Swyddog Gwella Ysgolion Cynradd Cynnal sy'n cynrychioli Gwynedd ac Ynys Môn (mae'r ddau awdurdod yn ystyried Cynnal yn estyniad o'r awdurdodau). Caiff y Grŵp ei gadeirio gan Gydlynnydd y Consortïwm. Mae'r Grŵp wedi gweithio ar nifer o feysydd a fydd, o fis Medi 2012 ymlaen, yn cyflwyno un strategaeth unedig a phrosesau ar gyfer dull cydweithredol sy'n galluogi chwe thîm yr awdurdod, Cynnal a CS i weithio mewn ffyrdd newydd i gyflwyno swyddogaethau statudol gwella ysgolion yr ALI a fydd yn cynyddu cyflymder gwella perfformiad ysgol.

Cyflwyno'r Strategaeth Ranbarthol

Mae gwaith Haen 1 yn ymgorffori'r cyswllt gyda Chynhwysiad, ADY a'r Gwasanaethau Cymorth Ysgolion sydd mor hanfodol i ddarparu'r cymorth angenrheidiol i ysgolion fodloni anghenion pob disgybl unigol. Mae'r cyswllt hwn hefyd yn ymestyn i waith amlasiantaeth, yn enwedig wrth ddatblygu'r Tîm o gwmpas cysyniad y teulu o fodloni anghenion unigol trwy weithio mewn partneriaeth.

O fis Medi 2012 ymlaen, bydd amryw linyddau cyd-ddibynnol o ddulliau cyffredin cydweithredol ar waith yn Haen 1 i fonitro, herio, cefnogi ac ymyrryd mewn ysgolion ar draws y rhanbarth:

Llinyn 1 – Dull Arweinwyr System Cyffredin o fonitro a herio perfformiad ysgolion.

Bydd gan bob cyfarfod monitro a herio gyda Phenaethiaid ac uwch swyddogion yr ALI ym mhob ALI agenda cyffredin, ffocws ac ansawdd cyflwyno newydd. Bydd pob swyddog wedi cael hyfforddiant Arweinydd System.

Llinyn 2 – Dull Cyffredin i Arweinwyr System fonitro ac ymyrryd ym mherfformiad ysgolion.

Bydd yr holl gymorth ac ymyrraeth i ysgolion unigol ym mhob ALI wedi'u targedu o gasgliad o feini prawf ranbarthol cyffredin o elfen Gwella Ysgolion cyffredin newydd ym mhob Cytundeb Partneriaeth Ysgol ALI. Bydd yr holl swyddogion wedi cael hyfforddiant Arweinydd System.

Llinyn 3 – Un dull casgliad cyffredin o gasglu a dadansoddi data perfformiad ysgolion

Bydd gan bob ALI fynediad i set data craidd ranbarthol o berfformiad ysgolion unigol ar draws y rhanbarth a dadansoddiad o berfformiad sy'n defnyddio Dangosyddion Perfformiad Allweddol gyda safel sirol Prydau Ysgol am Ddim. Bydd hyn yn hwyluso defnydd cyson o ddata ar gyfer adnabod tueddiadau allweddol ar draws ac mewn ALLau, i hwyluso [i] rhannu arfer da perfformwyr uchel, a [ii] cymorth ranbarthol targedig ar gyfer grwpiau o ysgolion gydag achosion cyffredin o berfformiad gwael.

Llinyn 4 – Arf Hunanwerthuso Arweinyddiaeth a Rheolaeth Ysgol

Bydd gan bob ysgol yn y rhanbarth fynediad i gyfrwng Cyffredin ar gyfer Rheolwyr ac Arweinwyr Ysgolion a fydd yn sicrhau dealltwriaeth gyffredin o feini prawf ar gyfer ansawdd a safonau proffesiynol y cytunwyd arnynt. Bydd hyn yn cynorthwyo Arweinwyr Systemau i sicrhau dealltwriaeth gyffredin o'r meini prawf, yn caniatáu i dimau rheoli ysgolion ei ddefnyddio, yn darparu cyfrwng hyfforddi o fewn ysgolion a rhyngddynt, ac ar gyfer monitro a herio cyfarfodydd gyda swyddogion ALLau / Arweinwyr Systemau. Bydd yn sicrhau canlyniadau ansawdd asesiadau ranbarthol cyffredin ar gyfer targedu cefnogaeth ac ymyrraeth er mwyn gwella perfformiad ysgolion.

Llinyn 5 – Proffil Cyffredin o Berfformiad yr Awdurdod Lleol

Bydd proffil o berfformiad pob ALI yn erbyn cyfres o ddangosyddion perfformiad. Bydd y proffil yn adnabod [i] yr ysgolion hynny gydag arfer da mewn meysydd penodol a [ii] unigolion a grwpiau o ysgolion sy'n gofyn am lefelau cymorth penodol a materion allweddol cyffredin y mae angen sylw arnynt. Bydd hyn yn hwyluso rhannu arfer da mewn gweithgareddau cefnogi ac ymyrraeth da ar draws y rhanbarth.

Llinyn 6 – Dull Cyffredin o Hwyluso a Dal Ymarfer Da

Gwneir gwaith pellach i ffurfioli meini prawf ar gyfer ymarfer arsylwi da yn y dosbarth. Bydd hyn yn hwyluso cysondeb mewn ymarfer ansawdd ar gyfer arweinyddiaeth systemau ledled y Consortiwm.

Llinyn 7 – Rolau a Chyfrifoldebau Cyffredin i Benaethiaid Ysgol a Cyrff Llywodraethol mewn perthynas â Safonau

Bydd gwaith pellach yn cael ei gyflawni i ddatblygu protocol ranbarthol i sicrhau bod gan benaethiaid a llywodraethwyr eglurder o ran eu rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â thrafodaethau proffesiynol ar berfformiad ysgol. Bydd hyn yn hwyluso cysondeb mewn ymarfer ansawdd ar gyfer arweinyddiaeth system ar draws y bwrdd.

Llinyn 8 – Arfer cyffredin i hwyluso a chofnodi arfer da gan Gymunedau Dysgu Proffesiynol

Bydd y cyfarfodydd monitro rhwng ALLau ac ysgolion ar draws y rhanbarth yn cynnwys ffocws ar y Cymunedau Dysgu Proffesiynol sy'n datblygu o ganlyniad i raglen ranbarthol o hyfforddiant ac arweiniad yn 2010-11. Mae Llywodraeth Cymru yn llunio gwefan genedlaethol ar gyfer Cymunedau Dysgu Proffesiynol sy'n disodli cyfrwng rhyngweithiol seiliedig ar Moodle y Consortiwm sy'n canolbwyntio ar ymchwil ar gyfer gwella ac ymarfer effeithiol. Mae'r ymgyrch cenedlaethol a ranbarthol dros gydweithredu wedi amlygu'r angen i ymarferwyr rannu'r arferion gorau ac mae'r Bwrdd Rhaglenni Addysg a Gwasanaethau Cysylltiedig Rhanbarthol wedi cymeradwyo hwn yn eiddgar fel modd o godi safonau. Mae Grŵp Llywio'r FfEY wedi hwyluso'r rhaglen hyfforddiant genedlaethol ac eisoes wedi cynnal trosolwg cychwynnol o effeithiolrwydd a chanlyniadau yn ystod Ymweliad Perfformiad hydref 2011.

Llinyn 9 – Cydlynu Strategaethau Llythrennedd, Rhifedd a Chynhwysiad rhanbarthol

Bydd gwaith pellach yn cael ei gyflawni i ddatblygu'r strategaethau rhanbarthol y cânt eu cymhell gan y grwpiau llywio rhanbarthol sefydledig ar gyfer Llythrennedd, Rhifedd a Chynhwysiad. Bydd y gwaith yn cysylltu â strategaethgau cenedlaethol a'r canlyniadau a fwriedir.

Yn ogystal a'r llinynnau a grybwyllwyd uchod, mae Consortiwm Gogledd Cymru ADEW yn rhan o nifer o ddatblygiadau eraill i hybu mwy o weithio cydweithredol, fel, [i] Gwasanaeth a Reolir gan TGCh Rhanbarthol [gan gynnwys amgylchedd dysgu rhithwir], [ii] Gwasanaeth Cerddoriaeth Deithiol ac Ensemble [iii] Cydlynu Trefniadau Ariannu Ysgolion Dirprwyedig.

Bydd y llinynnau a nodwyd uchod yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r canlyniadau canlynol:

- | |
|---|
| C.1 - Gwella safon llythrennedd (Cymraeg/Saesneg) a rhifedd (Mathemateg) sy'n cymharu'n dda gyda'r goreuon mewn gwledydd eraill |
| C.2 - Un gwasanaeth cydlynol ar gyfer monitro, cefnogi, herio ac ymyrryd o fewn ysgolion ar draws y rhanbarth |
| C.3 - Defnyddio Arweinyddion System gyda dull cyson a chefnidir o lwyddiant diweddar o ran gwella ysgolion. |
| C.4 - Bod pob ysgol yn gallu defnyddio ystod llawer ehangach o gefnogaeth arbenigol na'r hyn sydd ar gael mewn ALI unigol ar hyn o bryd |
| C.5 - Nad oes unrhyw Awdurdodau Lleol nac ysgolion [lleoliadau ysgol] mewn unrhyw gategori arolwg gan Estyn ag angen gwelliannau sylweddol neu fesurau arbennig |


Bodloni'r Agenda Rhanbarthol ar gyfer Codi Safonau trwy'r RSEIS (Haen 2)

Bydd y dulliau cyffredin a amlinellir uchod yn arwain at y chwe awdurdod, Cynnal a CS yn gweithio ar yr un agenda safonau yn yr un ffordd o fis Medi 2012 ymlaen. I ddechrau, bydd wyth proses a strwythur rheoli yn adlewyrchu ei gilydd ar draws Gogledd Cymru.

Bydd sefydlu un strwythur, y Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol (RSEIS) yn cynnig ffordd o ddefnyddio darbodion maint a ffocws canolog i wella ysgolion ledled Gogledd Cymru. Bydd y mecanwaith cyflwyno Haen 2 hwn yn amsugno dulliau cyffredin Haen 1 a bydd yn bwerdy i gymell arfer da ar draws y rhanbarth. Bydd yn hyrwyddo ffordd newydd o gymell safonau. Bydd yn cynnig gwasanaeth gwella ac effeithiolrwydd ysgol ansawdd da mewn ffordd cost effeithiol ac effeithlon i godi safonau a 'gwneud gwahaniaeth'. Bydd yn sicrhau cysondeb o ran her a chymorth i ysgolion ar draws y chwe sir fel bod ein plant a'n pobl ifanc yn diwallu eu potensial.

8.3 Haen 2 – Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol Gogledd Cymru(RSEIS)

Fig.4



8.3.1 Y Model Cyflwyno

Bydd yr RSEIS newydd (Haen 2) yn cael ei reoli gan Brif Swyddog gyda thîm sy'n cynnwys Arweinwyr Systemau, Rheolwr Busnes/Cyllid, Cymorth Gweinyddol a Chyfieithwyr.

Mae Rhan 10 yr Achos Busnes Llawn hwn yn archwilio'r rolau mewn perthynas â'r Disgrifiadau Swydd a'r Manylion am yr Unigolyn, eu heffaith ar staff presennol (TUPE) a'r cyflog yn fanylach.

Y Prif Swyddog

Bydd angen i'r Prif Swyddog: siapio'r sefydliad newydd, paratoi, datblygu a chyflwyno cyfeiriad strategol y Gwasanaeth newydd; gweithredu, cadw llygad ac adolygu polisiau rhanbarthol; ac arwain, rheoli a chyfarwyddo tîm wrth gydlyn cyflwyno gwasanaeth o ansawdd, yn effeithiol, economaidd ac yn ymatebol i amgylchiadau lleol.

Fel y cytunodd chwe Bwrdd Gweithredol / Cabinet Gogledd Cymru yn Hydref 2011, mae'r broses recriwtio ar gyfer swydd y Prif Swyddog eisoes yn mynd rhagddi, a chaiff y penodiad ei wneud ar ôl i'r ABLI gael ei fabwysiadu yn y chwe awdurdod.

Arweinwyr Systemau

Gyda ffocws clir ar Arweinyddiaeth a Rheolaeth, bydd yr Arweinwyr Systemau hefyd yn darparu rheolaeth strategol mewn Llythrennedd a Rhifedd a meysydd y Cwricwlwm (pynciau). Bydd Arweinwyr Systemau yn gyfrifol am:

Arweinyddiaeth

- Rhoi cymorth ac arweiniad i sicrhau bod gweledigaeth, ethos a phwrpas moesol yr ysgol yn cael eu rhannu gan yr holl staff a rhanddeiliaid.
- Rhoi cymorth a her i wella'r arfer o hunanwerthuso effeithiol a chynllunio gwella ysgolion.
- Rhoi cymorth ac arweiniad i sicrhau bod arweinwyr a rheolwyr yn gwneud y defnydd gorau o'u harbenigedd i wella'u heffeithiolrwydd.
- Darparu lefel o her trwy werthuso darpariaeth yn wrthrychol, gan gasglu tystiolaeth ddilys a dibynadwy o ystod o ffynonellau yn y sefydliad a thu hwnt.
- Deall data cymharol a gwerth ychwanegol a'i ddefnyddio i adnabod perfformiad uchel a thanberfformiad disgyblion, ysgolion a meysydd pwnc/adrannau.
- Dadansoddi a defnyddio data i farnu perfformiad a herio tangyflawniad grwpiau o ddysgwyr yn ôl rhyw, ethnigrwydd, anghenion addysgol arbennig a chyrhaeddiad ymlaen llaw.
- Herio'r ysgol i osod targedau uchelgeisiol ond realistig.
- Defnyddio ystod briodol o ddata meintiol ac ansoddol i syntheseiddio ystod eang o wybodaeth i ffurfio damcaniaethau.
- Darparu adborth adeiladol sy'n ffurfio'r sail ar gyfer gwelliant i'r dyfodol.
- Gallu meithrin gallu pobl eraill i gynnal hunanwerthusiad.

Addysgu a Dysgu (Addysgeg)

- Darparu cefnogaeth a chynghor ar, a gwerthuso ansawdd; arddulliau addysgu a dysgu ac arbenigedd pwnc.
- Rhoi arweiniad ar ddefnydd trylwyr o asesu ffurfiannol a chrynodol ac ar eu defnydd i wella gwaith y dysgwyr.
- Hyrwyddo a chefnogi'r gwaith o ddatblygu rhwydweithiau ymarfer proffesiynol
- Nodi arfer addysgu a dysgu effeithiol y gellir ei rannu mewn ac ar draws rhwydweithiau.
- Sicrhau bod pob ysgol yn datblygu'r agenda sgiliau'n ddigonol, yn enwedig ym maes llythrennedd a rhifedd.

Datblygu Pobl a'r Sefydliad

- Cychwyn a chefnogi ymchwil gweithredu i arfer effeithiol
- Rhoi cynghor ar sut gallai anghenion datblygu gael eu bodloni trwy gyfeirio at enghreifftiau o arfer DPP da.
- Hwyluso datblygu rhwydweithiau arfer proffesiynol.
- Rhoi cynghor ac arweiniad ar weithdrefnau, i werthuso effeithiolrwydd DPP ac effaith rhwydweithiau arfer proffesiynol.

Cwricwlwm

- Darparu cymorth a her ar gyfer datblygu cwricwlwm ac arbenigaeth pwnc.
- Darparu cymorth wrth ddatblygu cwricwlwm sy'n berthnasol, personol, yn hyrwyddo cysylltiad â dysgu ac sy'n adlewyrchu amrywiaeth ethnig, diwylliannol ac ieithyddol yr ysgol.
- Rhoi cymorth ac arweiniad ar gynllunio'r cwricwlwm a datblygu cynlluniau gwaith effeithiol, cynlluniau tymor byr a chynllunio ar gyfer asesu ar gyfer dysgu.

Agweddau'r Myfyrwyr

- Nodi asiantaethau eraill sy'n gweithio gyda'r lleoliad a natur a chwmpas eu hymwneud.
- Cefnogi'r ysgol yn ei hymdrechion i gasglu safbwyntiau'r rhieni, plant a phobl ifanc a sut gweithredir ar y rhain.
- Rhoi arweiniad ar hyrwyddo ethos cynhwysol a mwyhau cyfleoedd i blant a phobl ifanc elwa ar gysylltiadau gydag asiantaethau eraill.

Atebolrwydd Mewnol

- Darparu arweiniad a chymorth i werthuso arfer ystafell ddosbarth yn erbyn meini prawf penodol a thrylwyr er mwyn i'r staff wybod a deall nodweddion dysgu ac addysgu ansawdd uchel, cydnabod a dadansoddi agweddau ar arfer da a fydd yn trosglwyddo i gyd-destunau dysgu eraill, a darparu adborth adeiladol sy'n ffurfio'r sail ar gyfer gwelliant i'r dyfodol.
- Darparu arweiniad a chymorth i sefydlu systemau rheoli perfformiad grymus sy'n gwneud defnydd effeithiol o ddata cyrhaeddiad.
- Datblygu meini prawf sy'n sbarduno gweithdrefnau ymyrryd ar lefel ysgol gyfan ac adrannol.

Partneriaeth y Tu Hwnt i'r Ysgol

- Cefnogi dull amlasiantaeth yn seiliedig ar anghenion y gymuned ddysgu leol neu deulu o ysgolion.
- Nodi asiantaethau eraill sy'n gweithio gyda'r lleoliad a natur a chwmpas eu hymwneud.

Rhagwelir y bydd gofyniad i **30 Arweinydd Systemau CALI** gyflwyno'r meysydd gwaith uchod ar draws yr ysgolion yn rhanbarth Gogledd Cymru. Seiliwyd hyn ar y dadansoddiad canlynol o ddarpariaeth gwasanaeth (gan ystyried yr adborth ymgynghori):

(gweler y nodiadau sy'n cyd-fynd yn Atodiad 7)

	Diwrnodau
Ymweliadau ysgol (pob ysgol – 466 gan gynnwys Meithrin, Cynradd, Uwchradd, Arbennig) Dyraniad o 6 diwrnod fesul ysgol: 3 ymweliad rheolaidd 3 diwrnod o gynllunio a pharatoi (gan gynnwys Rheoli Perfformiad)	2796
Ysgolion y mae angen Cymorth Ychwanegol Arnynt* - Cefnogaeth wedi'i thargedu (yn seiliedig ar broffilio ysgolion yn rhagweithiol) : 388 ysgol 20% = 10 diwrnod x 78 ysgol = 780 19% = 6 diwrnod x 74 ysgol = 444 6% = 16 diwrnod x 23 ysgol = 368 - Ar ôl yr Arolygiad : Monitro gan Estyn = 16 x 10 diwrnod (160 diwrnod) Monitro gan yr ALI = 15 x 6 diwrnod (90 diwrnod) Gwelliant Sylweddol/Mesurau Arbennig = 5 x 32 diwrnod (160 diwrnod)	1592 410
Adolygiad Cyn-arolygiad (gan gynnwys adroddiad cyn-arolygiad) 9 Ysgol uwchradd x 10 diwrnod 'unigolyn' (90 diwrnod) 67 Ysgol gynradd x 3 diwrnod 'unigolyn' (201 diwrnod) 2 Ysgol arbennig x 10 diwrnod 'unigolyn' (20 diwrnod)	311
Cyfanswm Diwrnodau Cymorth y mae eu Hangen gan yr RSEIS	5109

Tabl.9

Diwrnodau Cyswllt yr Ysgol Yn seiliedig ar 195 o ddiwrnodau ysgol (gan gynnwys diwrnodau hyfforddi) Minws 20 diwrnod (cronnol) i gyfrif am 5 niwrnod bob ochr i'r gwyliau haf a Nadolig Minws cyfartaledd o 3 diwrnod o absenoldeb salwch	172
--	-----

Nifer yr Arweinwyr Systemau y mae eu Hangen ar gyfer yr RSEIS	30 CALI
--	----------------

* Y nifer arferol sy'n ofynnol yw nifer y diwrnodau, gan ganiatáu hyblygrwydd ar gyfer rhagor neu lai yn ôl y gofyn

Mae'n bwysig nodi y bydd nifer o swyddi ychwanegol y byddant ar gael yn unol â:

- nifer y staff (Tîm Cartref) y bydd eu hangen ar bob ALI i gefnogi'r swyddogaethau hynny nad ymdrinnir â hwy gan yr RSEIS na 'Thimau Gwella Ysgolion yr ALI' eraill; a
- comisiynu ychwanegol gan yr RSEIS ar gyfer Arweinwyr Systemau naill ai o'r ALI neu ysgolion, trwy gyllidebau neu grantiau. Bydd y dull hwn yn darparu

cyfleoedd proffesiynol i Benaethiaid ac Athrawon gael eu secondio am gyfnodau tymor byr i'r RSEIS, gan sicrhau bod y Gwasanaeth yn gallu defnyddio'r arferion gorau o ysgolion ar draws y rhanbarth. Bydd ysgolion yn cael y cyfle i gryfhau ac ymestyn gweithio cydweithredol ar draws y rhanbarth er mwyn comisiynu cefnogaeth wedi'i thargedu ar y cyd a rhannu arferion da.

Rheolwr Busnes/Cyllid

Gan adrodd i'r Prif Swyddog, bydd y Rheolwr Busnes/Cyllid yn rheoli tîm gweinyddol bach a fydd yn cael y dasg o reoli cyllideb cymorth busnes ac ariannol uniongyrchol y Gwasanaeth, gan adrodd bob chwarter i gyrff llywodraethol yr ysgolion. Bydd y Rheolwr Busnes / Cyllid yn chwarae rôl allweddol wrth fonitro gwariant yn erbyn y gyllideb, gan gyflwyno diweddariadau chwarterol i'r tîm rheoli ac i randdeiliaid ehangach.

Cymorth Gweinyddol

Rhagwelir y bydd angen cymorth gweinyddol ar gymhareb o 1:5 ar yr RSEIS. Ar sail y gofyniad a ragwelir am 30 Arweinydd Systemau CALI, bydd y Gwasanaeth yn gofyn am 6 swydd weinyddol CALI. Bydd deiliaid y swyddi hyn yn adrodd i'r Rheolwr Busnes / Cyllid. Yn ogystal, bydd 1 swydd Cynorthwydd Personol CALI yn adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Swyddog.

Cyfieithydd

Er mwyn sicrhau bod yr egwyddor greiddiol o weithredu ar strategaethau iaith Gymraeg lleol a chenedlaethol i ddatblygu a chynyddu rhagoriaeth mewn addysgeg ac addysg cyfrwng Cymraeg/dwyieithog mewn cymunedau ledled Gogledd Cymru'n sail i'r gwasanaeth rhanbarthol newydd, rhagwelir y bydd angen 2 gyfieithydd CALI ar yr RSEIS. Mae'r swyddi hyn yn adrodd i'r Rheolwr Busnes / Cyllid.

8.3.2 Gwasanaethu Anghenion Diwylliannol ac Ieithyddol y Rhanbarth

Yr hyn sy'n glir yn sgil ymgynghori â rhanddeiliaid yw'r angen i gael gwasanaeth dwyieithog a all ddarparu cymorth cyfrwng Cymraeg llawn ar draws y rhanbarth, sef nodwedd sylfaenol o'r Gwasanaeth newydd. Mae hyn yn cyfrannu at Strategaethau iaith Gymraeg lleol a chenedlaethol i gymell datblygiad cyfrwng Cymraeg a dwyieithog i gymunedau addysg ledled Gogledd Cymru.

Yn ogystal, nododd yr ymgynghori gyda rhanddeiliaid yr angen i sicrhau bod amrywiaeth ac amrywiadau lleol yn cael eu hystyried mewn unrhyw fodel cyflwyno, ac roedd ysgolion yn arbennig eisiau cadw'r manteision y mae'r gwasanaeth lleol yn ei gynnig ar hyn o bryd - sef bod staff gwella ysgolion yn adnabod eu hysgol a'i hathrawon

Mae'r wybodaeth leol yn bwysig dros ben er mwyn helpu i adleoli ymarferwyr i weithio ochr yn ochr â'r rheini sydd mewn cyd-destunau ieithyddol tebyg a datblygu sgiliau addysgol i safon uchel. Bydd rhai ysgolion yn addysgu cyfran fwy o'r rheini sy'n dysgu Saesneg neu Gymraeg fel ail iaith nag eraill, felly mae'n rhaid i'r gefnogaeth fod yn briodol. Mewn rhai ardaloedd ceir y rheini sy'n dysgu Cymraeg a Saesneg fel ieithoedd ychwanegol a bydd angen i'r RSEIS fod yn sensitif i'r holl anghenion. Mae addysgeg effeithiol yn golygu bod â meistrolaeth dros faterion ieithyddol a chyfleoedd.

O ganlyniad, rhagwelir y bydd presenoldeb lleol swyddogion o'r gwasanaeth rhanbarthol yn gweithio gydag ysgolion lleol. Mae hyn yn gwireddu manteision dull cyson a chyffredin o droi at fframweithiau a phrotocolau, wrth fodloni anghenion ysgolion unigol ledled y rhanbarth.

8.3.3 Comisiynu o'r RSEIS

Dull amlinell a fyddai'n cael ei ddatblygu a'i sefydlu gan *'Brif Swyddog'* a *'Chyd-bwyllgor'* RSEIS rhwng mis Ebrill a mis Medi 2012 yw hwn, ar ôl mabwysiadu'r achos busnes llawn.

Caiff yr RSEIS ei gomisiynu drwy gyfrwng Cytundeb Lefel Gwasanaeth (CLG) Comisiynu dwy ran.

Rhan A CLG ar gyfer Prif Ddarpariaeth RSEIS

Bydd pob Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru yn ymrwmo i gomisiynu (prynu) y 'prif' ddarpariaeth gan yr RSEIS.

Mae'r 'prif' wasanaeth yn cyfeirio at hawl pob ysgol yn yr ALI hwnnw i gael dyraniad 6 diwrnod, gyda; 'cefnogaeth wedi'i thargedu', 'cefnogaeth ôl arolygu' a 'chyn arolygu' yn cael ei rhoi i'r ysgolion hynny sy'n cael eu dynodi gan yr RSEIS. Caiff y gwaith hwn ei gyflawni gan dîm parhaol o 30 o Arweinwyr Systemau CALI. (*Gweler y dadansoddiad o'r ddarpariaeth gwasanaethau a chyfrifoldebau Arweinydd Systemau yn adran 8.3.1 o'r achos busnes llawn hwn.*)

Bydd Rhan A o'r CLG hefyd yn cynnwys:

- telerau ac amodau safonol
- cyfnod y cytundeb
- statws y cytundeb
- datrys anghydfodau
- trefniadau talu
- cyfnod adolygu
- taliadau cosb

Bydd y trefniadau talu yn unol â'r dull y cytunwyd arno ac a welir yn adran 9.1 o'r achos busnes llawn hwn.

Rhan B Cytundebau yn ôl y Gofyn

Gall Awdurdodau Lleol ac ysgolion, yn unigol neu ar y cyd o bob cwr o'r rhanbarth, brynu cefnogaeth ychwanegol gan Arweinwyr Systemau 'yn ôl y gofyn' (mae hyn yn cynnwys cefnogaeth arbenigwr ar y cwricwlwm) gan RSEIS. Bydd hyn yn rhoi cyfle i ysgolion gryfhau ac ymestyn gweithio cydweithredol ar draws y rhanbarth, cyd gomisiynu cefnogaeth wedi'i thargedu a rhannu arferion da.

Bydd Rhan B y CLG yn cynnwys:

- cofrestr o'r gwasanaethau ychwanegol sydd ar gael
- meini prawf cymhwyso
- buddiolwyr
- trefniadau talu
- cyfnod adolygu

Bydd y trefniadau talu yn seiliedig ar dariff am uned o wasanaeth (e.e. cost arbenigwr ar y cwricwlwm ar gyfradd ddyddiol), i gael ei gyd-drafod gan y Prif Swyddog cyn bydd y gwasanaeth ar gael. Caiff y gwaith hwn ei gyflawni gan Benaethiaid ac athrawon sy'n ymarfer ar hyn o bryd, wedi'u secondio am gyfnodau byr i'r RSEIS, gan sicrhau y gall y gwasanaeth ddefnyddio'r arferion gorau o ysgolion ar draws y rhanbarth.

8.4 Haen 3 - Strwythur y Gwasanaeth Gwybodaeth Reoli (Capita ONE)

8.4.1 Pwrpas

Dyma brosiect rhyngddibynnol tair blynedd o hyd (Haen 3) ar gyfer yr RSEIS er mwyn sefydlu Gwasanaeth Gwybodaeth Reoli Rhanbarthol a fydd yn cefnogi ac yn galluogi: cyflawni cyfrifoldebau statudol, monitro perfformiad, adolygu a gwella, ynghyd â gweithgareddau datblygu'r Consortiwm o chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru a'u hysgolion o ran y dyletswyddau i fonitro, herio, gwella perfformiad a deilliannau. Yn sgil darparu Gwasanaeth Gwybodaeth Reoli Rhanbarthol, bydd **system lletyol gyffredin** yn cael ei rhoi ar waith ar y cyd, gydag offer **meddalwedd gyffredin** yn seiliedig ar **strwythurau cronfa ddata cyffredin** a ddefnyddir gan wasanaethau sydd wedi mabwysiadu **prosesau busnes cyffredin**.

Bydd yr holl awdurdodau'n defnyddio system gwybodaeth reoli 'ONE' Capita, a all gadw cofnod unigol, manwl a chreiddiol ar gyfer pob disgybl, ac sy'n galluogi staff proffesiynol i gael mynediad ati neu adrodd arni drwy amrywiaeth o fodiwlau rhaglen.

8.4.2 Cydweithredu ONE

Mae cydweithredu Capita ONE yn seiliedig ar:

- fabwysiadu ymagwedd strategol tuag at nodi a chyflenwi gwasanaethau gwybodaeth reoli rhanbarthol sy'n cynnwys gwasanaethau i Awdurdodau ac i ysgolion; a
- datblygu a gweithredu a ysgogir gan anghenion busnes a gweithrediad prosesau busnes cyffredin effeithlon sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau er mwyn cefnogi gwelliant, a chyfrannu'n effeithiol tuag at sicrhau'r deilliannau gorau i ddisgyblion.

Canlyniad hyn fydd cefnogaeth ranbarthol er mwyn casglu, dadansoddi, cyflwyno ac adrodd data, ar gyfer Awdurdodau Lleol unigol a'r Consortiwm, yn sail ar gyfer gwneud penderfyniadau, ac ar gyfer gwaith gwasanaethau addysg ac ysgolion er mwyn codi safonau.

Mae i'r prosiect chwe ffrwd waith.

1. Cysoni cronfeydd data - codi cronfeydd data'r holl Awdurdodau i safon uchel gyffredin, a gweithredu codau cytunedig i hwyluso chwilio, dadansoddi ac adrodd ar draws y Consortiwm.
2. Prosesau busnes – nodi, datblygu a dogfennu prosesau busnes i'w defnyddio ar draws yr holl Awdurdodau er mwyn mwyafu effeithlonrwydd gweithredol, hygyrddedd data a chipio arfer gorau.
3. Gweithredu modiwlau meddalwedd – gweithredu fesul cam, gan gynnwys nodi anghenion, hyfforddi a safoni'r dull adrodd.
4. Gweithredu technegol - pennu'r Awdurdod lletyol, dyluniad technegol a darparu amgylchedd lletyol diogel i'w ddefnyddio gan yr holl Awdurdodau.
5. Diogelwch a phreifatrwydd – cynnal asesiad o'r effaith ar breifatrwydd, nodi anghenion a datrysiadau a'u hymgorffori mewn dyluniad/darpariaeth dechnegol, a defnyddio meddalwedd wrth weithredu er mwyn sicrhau diogelwch a phreifatrwydd wrth drin data a defnyddio meddalwedd.
6. Gweithio gyda'n gilydd – nodi, datblygu a rhoi trefnau gweithredol ar waith er mwyn mwyafu cydweithio, rhoi trefnau gweithredol effeithlon ar waith er mwyn mwyafu'r cydweithio, rhoi trefnau gweithredol effeithlon ar waith a gwireddu arbedion.

Dyma'r buddiannau a ddisgwylir:

- darparu gwasanaeth rheoli gwybodaeth a rennir, gan sicrhau bod mwy o gapasiti ac arbenigedd ar gael i Awdurdodau Lleol ac ysgolion;

- gwasanaethau a chefnogaeth gyson ar gyfer y gwasanaethau addysg ar draws y Consortiwm drwy ddefnyddio prosesau busnes cyffredin ar gyfer ansawdd/hygyrddedd data a defnyddio modiwlau meddalwedd;
- cynyddu effeithlonrwydd drwy gymhwyso prosesau a phrotocolau busnes sy'n arddangos arfer da, a ddefnyddir ar draws y Consortiwm;
- tegwch yn sgil darparu gwasanaeth o ansawdd uchel ar draws y Consortiwm drwy fabwysiadu rheolaeth ddoethach, mynediad at gefnogaeth o ansawdd uchel gan gymheiriaid a chydweithio;
- proses wneud penderfyniadau a gwella perfformiad sy'n seiliedig ar wybodaeth amserol, o ansawdd uchel, am berfformiad;
- cynyddu'r ystod o feysydd gwasanaeth swyddogaethol a gefnogir drwy ddefnyddio systemau gwybodaeth reoli;
- arbedion arian mesuradwy a gwell gwerth am arian wrth gynnal meddalwedd Capita ONE yn flynyddol;
- gwerth ychwanegol yn sgil datrysiaid technegol lletyol ar gyfer diogelwch, cadernid a pharhad busnes; ac
- ymddiriedolaeth a hyder ymysg rhanddeiliaid yn ymrwymiad y Consortiwm a'i allu i reoli data personol mewn modd diogel, a bodloni gofynion deddfwriaethol ynghylch diogelu data.

8.4.3 Cerrig Milltir y Prosiect

- Mae Swyddogion Arweiniol wedi dechrau gweithio ar gysoni cronfeydd data ym meysydd Bases, B2B a chyfeiriadau.
- Y tablau am-edrych wedi'u hadolygu a'r cysoni wedi'i gynllunio.
- Prosesau busnes cychwynnol yn canolbwyntio ar gywirdeb ac ansawdd data wedi'u drafftio ar gyfer Bases, B2B a Pulse gydag A & T yn mynd rhagddo i'w gwblhau erbyn Mawrth.
- Symud i A & T fersiwn 4 ynghyd â'r gweithredu ar gyfer Awdurdodau nad ydynt yn defnyddio'r modwl wedi'i drefnu drwy gyfrwng pecyn cymorth i'w gyflenwi gan Capita ar gyfer y gwasanaeth hanfodol hwn sy'n wynebu'r cyhoedd.
- Ym mis Tachwedd 2011, yn dilyn proses gydweithredol a oedd yn cynnwys cytuno ar feini prawf gwerthuso a dull strwythuredig o dderbyn a gwerthuso cynigion, penderfyniad unfrydol y Penaethiaid TG oedd y dylai Sir y Fflint gynnal yr ateb technegol a rennir. Mae'r caledwedd a meddalwedd y system wedi'u llwytho.
- Allrwyd Diogel wedi'i brynu drwy gyfrwng PSBA gyda chais iddo gael ei osod erbyn diwedd Chwefror.
- Asesiad o'r Effaith ar Breifatrwydd (yn seiliedig ar arweiniad ICO) wedi'i gwblhau a'r gwaith datblygu protocolau, trefnau a chytundebau i gael ei gwblhau pan fydd yr ateb a gynhelir yn dechrau gweithredu.
- Protocol Rhannu Gwybodaeth Drafft, yn cynnwys cytundeb trosglwyddo data, ar gyfer Awdurdodau Gogledd Cymru a'u hysgolion wedi'i gwblhau yn barod i'w adolygu ac ymgynghori arno gyda'r rhanddeiliaid.
- Pecyn cymorth cydweithredol wedi'i ddyfeisio ar gyfer gweithredu B2B gyda mewnbwn allanol cyfyngedig.

8.5 Haen 4 – Swyddogaethau Cefnogi

Er mwyn cyflogi staff o dan y Cyd-bwyllgor, bydd angen i'r RSEIS ddefnyddio Awdurdod Lletyol, sef un o blith chwe awdurdod Gogledd Cymru (gweler adran 7.4 *'Dewis yr Awdurdod Lletyol'*).

I gyflenwi'r rôl 'cyflogaeth', bydd yr Awdurdod Lletyol hefyd yn gyfrifol am ddarparu cefnogaeth AD, Cyllid a Chyfreithiol i staff y gwasanaeth newydd (Haen 2).

Mewn perthynas â Swyddogaeth Allweddol 6, sef *'darparu canolfan arbenigol ar gyfer materion Rheoli Addysg a Gwasanaeth Adnoddau Dynol Addysg i ddarparu arbenigedd a chynghor'*, gan gyfeirio'n arbennig at y gwaith achos AD (e.e. darparu cefnogaeth a chynghor arbenigol i'r ysgolion), ystyrir hyn yn brosiect ar wahân mewn cydweithrediad â Bwrdd Rhanbarthol Gwasanaethau Cefnogi Gogledd Cymru. Yn y cyfamser, bydd y swyddogaeth hon yn parhau i gael ei chyflawni gan bob ALI, yn uniongyrchol â'u hysgolion.

9. Model Ariannol

9.1 Cost Haen 2 - Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol Newydd (RSEIS)

	Cyfanswm £	Tabl.10
Costau'n Gysylltiedig â Chyflogeion	2,916,689	
Costau'n Gysylltiedig ag Eiddo	49,600	
Costau'n Gysylltiedig â Chludiant	190,370	
Cyflenwadau a Gwasanaethau	57,725	
Cyllideb Comisiynu	250,000	
Gwasanaethau Cefnogi	50,647	
Cyfanswm Cost Refeniw Flynyddol	3,515,031	

Mae hyn yn seiliedig ar un adeilad, gyda phob canolfan ychwanegol angen ffigur amcangyfrifedig o £19k. Mae dadansoddiad llawn o'r costau hyn ar gael yn Atodiad 8.

Mae cost cyflenwi'r swyddogaethau gwella ysgolion statudol a chynghorol presennol sydd o fewn y cwmpas ar gyfer pob ALI yn £5.1m (adran 4.3.1).

Er mwyn canfod y gwariant y gellir dylanwadu arno a fydd yn darparu sylfaen ar gyfer creu'r model ariannol, cafodd y ffigur hwn ei addasu (i) £406k i adlewyrchu'r swyddi sydd o fewn y cwmpas (>60%) ar 100% o'r gost ac wedi'i ostwng oherwydd y swyddi nad ydynt o fewn y cwmpas (<60%), a (ii) £311k i adlewyrchu'r gwariant a ariennir drwy gyfrwng grantiau. Mae'r gwariant y gellir dylanwadu arno yn **£4.4m** (adran 4.3.2).

Cost yr RSEIS yw £3.5m, gyda chost gyfartalog y disgybl o £35 (a fyddai'n cynyddu gydag unrhyw gomisiynu ychwanegol gan AauLI neu ysgolion, trwy gyllidebau neu grantiau).

Mae cost y RSEIS o'i gymharu â'r gwariant y gellir dylanwadu arno yn dynodi arbediad rhanbarthol cyffredinol posibl o £882k (20%), swm y gellir ei ail-fuddsoddi mewn Addysg, neu ei ryddhau fel arbediad ariannol gwirioneddol, yn ddibynol ar anghenion pob awdurdod lleol.

Mae cost yr RSEIS i bob Awdurdod Lleol i'w gweld isod:

Tabl.11

	Ynys Mon	Gwynedd	Conwy	Sir Ddinbych	Sir y Fflint	Wrecsam	Cyfanswm
Cyfanswm nifer Ysgolion	56	119	69	62	89	71	466
% disgyblion	9.4%	17.1%	15.8%	15.6%	23.4%	18.7%	100.0%
Cost Gwella Ysgolion (holl %au)	489,096	779,165	723,764	1,004,370	1,263,738	859,322	5,119,455
Addasiad i gynnwys costau cyflog ar sail 100% ar gyfer staff ymgynghorol o fewn y cwmpas (>60%), llai costau swyddi nad ydynt o fewn y cwmpas	(54,374)	(68,232)	46,972	(195,340)	(8,424)	(126,683)	(406,080)
Cost Gwasanaeth Presennol (o fewn y cwmpas)	434,722	710,933	770,736	809,031	1,255,314	732,639	4,713,374
Llai gwariant wedi'i ariannu gan grantiau	0	0	(48,020)	(81,152)	(133,309)	(48,366)	(310,847)
Gwariant y gellir Dylwanadu Arno	434,722	710,933	722,716	727,879	1,122,005	684,273	4,402,528
Cost o RSEIS (Arweinyddion System gydag ychwanegedd Arbenigeddau Llythrennedd, Rhifedd a Phwnc Strategol)							3,520,000
Methodoleg Codi Tâl	10.25%	18.02%	15.70%	15.32%	22.39%	18.32%	100.00%
Codi Tâl am RSEIS	360,800	634,304	552,640	539,264	788,128	644,864	3,520,000
Arbediad o'i gymharu â Gwariant y gellir Dylwanadu Arno	73,922	76,629	170,076	188,615	333,877	39,409	882,528
Arbediad fel % o'r Gwariant y gellir Dylwanadu Arno	17.0%	10.8%	23.5%	25.9%	29.8%	5.8%	20.0%

Mae'r fethodoleg codi tâl a ddewiswyd i ddyrannu'r gost i'r 6 ALI yn seiliedig ar 'Ddyraniad ar Sail Dangosyddion ar gyfer Ariannu Addysg', blynyddol Llywodraeth Cymru. Mae'r fethodoleg yn cymryd y ganran ar gyfer pob ALI (wedi'i dyrannu ar gyfer cydrannau'r gwasanaeth, addysgu mewn ysgolion Cynradd a Meithrin, ac addysgu mewn ysgolion Uwchradd) ac yn ei chymhwyso i'r RSEIS. Mae'r fformwla yn cynnwys ffactorau i adlewyrchu niferoedd disgyblion, trothwy setliadau a nifer y disgyblion sy'n gymwys am ginio ysgol am ddim.

9.2 Costau Gweithredu'r RSEIS

Er mwyn sefydlu'r gwasanaeth newydd, nodwyd costau gweithredu o oddeutu £1.2m. Mae'r rhain yn cynnwys costau untro'n gysylltiedig â:

- diswyddiadau posibl (ceir archwiliad pellach o'r rhain yn adran 9.1.2);
- trosglwyddo a recriwtio staff (h.y. canolfan asesu ar gyfer penodiadau newydd, dadansoddiad o anghenion hyfforddi, meithrin tîm a chysoni diwylliannau, cynefino);
- costau swyddfa (h.y. dodrefn swyddfa ac adnoddau sylfaenol); a
- chostau TGCh (h.y. seilwaith, systemau gwybodaeth, cefnogi ac ymgynghori)

	Cyfalaf £	Refeniw £	Cyfanswm £
Cost Diswyddiadau		1,027,000	1,027,000
Recriwtio/Trosglwyddo Staff		34,000	34,000
Costau Swyddfa	27,000	5,000	32,000
Costau TGCh	107,000		107,000
Cyfanswm y Costau Gweithredu	134,000	1,066,000	1,200,000

Tabl.12

Ceir dadansoddiad llawn o'r costau gweithredu hyn yn Atodiad 9.

Mae'r chwe Awdurdod yng Ngogledd Cymru wrthi'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru i sicrhau cymorth ar gyfer y costau hyn.

9.2.1 Costau Gadael

Ar draws y chwe ALI a Cynnal, ceir 112 aelod o staff o fewn y cwrpas, 72 yn cyflenwi 60% neu fwy o'r swyddogaethau gwella ysgolion a nodwyd yn uniongyrchol, a 40 o aelodau staff gweinyddol (gan gynnwys staff cyfieithu) sy'n cyfrannu 27 CALI tuag at y gweithgareddau hyn.

O blith yr 72 o aelodau staff cynghori sydd o fewn y cwrpas, bydd 1 swydd yn troi'n wag, ac mae 16 aelod o staff ar secondiad ar hyn o bryd, a byddant yn dychwelyd i'w swyddi parhaol blaenorol pan fydd y gwasanaeth rhanbarthol newydd yn weithredol. Disgwylir y bydd gofyn i'r ALLau gael 8 swydd yn eu Tîm Cartref i gefnogi'r swyddogaethau hynny na chânt eu cyflawni gan yr RSEIS na'r 'Tîmau Gwella Ysgolion ALI' eraill. Bydd y 47 sy'n weddill yn trosglwyddo i'r gwasanaeth newydd.

O'r 40 aelod o staff gweinyddol a nodwyd yn cefnogi staff cynghori cefnogol sy'n cyflenwi'r swyddogaethau o fewn y cwrpas, mae cyfanswm canran yr amser a dreulir ganddynt ar y gweithgarwch hwn wedi'i dalgrynnu i 27 CALI. Felly, er mwyn nodi'r costau gadael posibl yn gysylltiedig â staff gweinyddol, caiff cyflog cyfartalog y 40 aelod o staff ei lluosu â'r 27 o swyddi CALI.

Mae'r Achos Busnes Llawn (ABLI) yn seiliedig ar gyflenwi gwasanaeth lle bydd angen 30 o Arweinwyr Systemau a 9 swydd cefnogi.

Wrth ystyried y 47 o swyddi cynghori sydd o fewn y cwmpas yn erbyn y gofyniad posibl am 30 o arweinwyr systemau yn y gwasanaeth newydd, ac o dybio y bydd gan bob un o'r 47 aelod o staff yr hawl i drosglwyddo i'r gwasanaeth newydd o dan TUPE, amcangyfrifir y ceir 17 aelod o staff dros ben. Mae'n bwysig nodi y bydd nifer o swyddi ychwanegol ar gael i'r 17 aelod staff ymgeisio amdanynt yn unol ag (i) nifer ychwanegol y staff (Tîm Cartref) y bydd eu hangen ar bob ALI i gefnogi'r swyddogaethau hynny nad ymdrinnir â hwy gan yr RSEIS na 'Thimau Gwella Ysgolion yr ALI' eraill, a (ii) comisiynu ychwanegol gan yr RSEIS ar gyfer Arweinwyr Systemau naill ai o'r ALI neu ysgolion, trwy gyllidebau neu grantiau. Yn seiliedig ar gyfartaledd o'u cyflogau cyfredol, amcangyfrifir bod hyn yn creu cyfanswm o £705k o dan bolisiâu lleol a £867k o dan bolisi wedi'i gysoni (gweler Atodiad 10).

Rhagwelir y ceir cyfradd o 1:5 ar gyfer cefnogaeth weinyddol yn y gwasanaeth newydd, a allai ddarparu 9 o swyddi gweinyddol (gan gynnwys cyfieithu). Gan fod 27 CALI wedi'u nodi yn y trefniadau cyfredol, gallai hyn olygu bod 20 o swyddi dros ben. Yn seiliedig ar gyfartaledd o'u cyflogau cyfredol, amcangyfrifir bod hyn yn creu cyfanswm o £141k o dan bolisiâu lleol a £160m o dan bolisi wedi'i gysoni.

Tabl.13

	Nifer o Staff	Taliad Diswyddiadau	
		Polisi Lleol £	Polisi wedi'i gysoni £
Staff Cynghori o fewn y cwmpas (ag eithrio swyddi secondiad a gwag)	55	2,280,000	2,806,000
Gofyniad RSEIS	30		
Gofyniad Tîm Cartref Disgwyliedig	8		
Potensial nifer o Swyddi Cynghori dros ben	17	705,000	867,000
 Staff Gweinyddol o fewn y cwmpas (yn seiliedig ar gyfartaledd)	27	211,000	241,000
Gofyniad RSEIS	9		
Potensial nifer o Swyddi Gweinyddol dros ben	18	141,000	160,000
Taliad Diswyddiadau posibl	35	846,000	1,027,000

£1m yw cyfanswm y costau gadael posibl ar gyfer staff cynghori a gweinyddol, yn seiliedig ar delerau ac amodau wedi'u cysoni.

Mae Adroddiad Ariannol Llawn RSEIS ar Gostau Gadael Posibl ar gael yn llawn yn Atodiad 10.

10. Model Adnoddau Dynol (AD)

10.1 Amserlen AD Allweddol ar gyfer y RSEIS

Ebrill 2012	Penodi Prif Swyddog yr RSEIS
Ebrill - Mai 2012	Ymgynghoriad ffurfiol â'r staff, i gynnwys mynegiannau o ddiddordeb ar gyfer ymddeol a diswyddo gwirfoddol.
Mai 2012	Cadarnhau'r swyddi a fydd ar gael yn 'Nhimau Cartref' yr ALLau.
Gorffennaf 2012	Proses asesu ar gyfer swyddi yng ngwasanaeth newydd yr RSEIS.
Awst 2012	Penodi i'r swyddi yn yr RSEIS newydd.
Medi 2012 Cartref ALI	Ymgynghoriad pellach â'r staff na chawsant eu penodi i'r swyddi Tîm nac i'r RSEIS newydd.
Tachwedd 2012 - Mawrth 2013	Meithrin tîm, gweithdai cysoni diwylliannau, rhaglenni cynefino, Mawrth hyfforddiant ar sgiliau penodol i'r holl staff a benodwyd i'r RSEIS newydd.
Ebrill 2013	(i) Trosglwyddo staff i'r RSEIS newydd a (ii) terfynu contractau'r staff na chawsant eu penodi naill ai i swyddi'r Tîm Cartref ALI neu'r swyddi yn yr RSEIS newydd.

10.2 Cynllunio ar gyfer Newid

Bydd angen ymgynghori â'r undebau ar y broses ar gyfer rheoli newid gyda'r staff. Mae dau siart lif wedi cael eu llunio i roi crynodeb o'r broses ar gyfer newid o'r trefniadau presennol i'r gwasanaeth RSEIS newydd, a'r broses ar gyfer diswyddo (gweler Atodiad 11). Bydd hefyd angen cytuno â'r holl sefydliadau sy'n cyflogi a'r undebau ar amserlen fanwl ar gyfer ymgynghori, recriwtio, adleoli a gweithgarwch diswyddo. Darperir yr amserlen i'r holl staff yn ystod yr ymgynghoriad ffurfiol â'r staff yn ystod mis Ebrill a mis Mai 2012.

Gwnaed nifer o ddarnau o waith eisoes ar gysoni diwylliannau a chynefino mewn sefydliad newydd, a'r rhain fydd yn ffurfio sylfeini'r dull ar gyfer yr RSEIS. Yn ogystal, mae trafodaeth bellach yn ofynnol i ganfod cyfleoedd i gysoni diwylliannau a meithrin yr ethos tîm newydd yn y gwasanaeth.

Ymysg y meysydd allweddol i'w hystyried y mae:

- Ymatebolrwydd a Diwylliant, a fydd yn cynnwys adolygu gofynion TG y gwasanaeth gan y bydd hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar allu'r gwasanaeth newydd i fod yn hyblyg, yn ystwyth ac yn ymatebol;
- Amgyffredion o ddylanwad gan gynnwys amgyffrediad cyflogwyr/gweithwyr er mwyn sicrhau dull unedig o gyflenwi gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol;
- Cyswllt llawn gyda phob Awdurdod Lleol o safbwynt sut y bydd y timau cartref a'r gwasanaeth newydd yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau cysondeb ar draws Gogledd Cymru;
- Darparu adnoddau ar gyfer y materion Adnoddau Dynol fel nad ydynt yn oedi gweithredu'r gwasanaeth newydd yn ormodol; a
- Datblygu strategaeth leoli ac adeiladau priodol ar gyfer y gwasanaeth newydd.

10.3 Rolau sydd ar gael yn y RSEIS

10.3.1 Rolau Arweinwyr Systemau

Ar hyn o bryd mae pob ALI yn darparu monitro, cefnogaeth, ymyrraeth a her i ysgolion ar bob agwedd ar wella ysgolion. Bydd y model gwasanaeth newydd yn golygu y bydd yr Arweinwyr Systemau newydd yn ymwneud â chefnogi, monitro, herio ac ymyrryd yn uniongyrchol gydag ysgolion ar 7 maes Gwella Ysgolion allweddol; arweinyddiaeth, addysgu a dysgu, datblygu pobl a sefydliadau, cwricwlwm, agweddau myfyrwyr, atebolrwydd mewnol, a phartneriaeth y tu hwnt i'r ysgolion.

O'r 30 o rolau Arweinwyr Systemau a ddynodwyd ceir 4 'arweinydd tîm' i ddarparu goruchwyliaeth reoli dydd i ddydd i'r 26 Arweinydd Systemau sy'n weddill. Bydd yr 'arweinwyr tîm' yn adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Swyddog. Bydd gan yr Arweinwyr Systemau gyfrifoldeb dros y meysydd gwaith a gofnodir yn adran 8.3.1.

Er na fydd yn ofynnol i'r holl staff fod yn gallu gweithio'n ddwyieithog, er mwyn sicrhau cydbwysedd ieithyddol caiff rhai o'r swyddi eu dynodi yn rolau lle mae'r Gymraeg yn hanfodol. Mater i Brif Swyddog RSEIS roi sylw iddo ar ôl iddo ddechrau yn ei swydd fydd y cydbwysedd hwn, a gallai amrywio yn dilyn ymgynghori pellach gydag ysgolion. Bydd unrhyw ofnion dwyieithrwydd ar gyfer rolau ychwanegol, a gomisiynir yn ychwanegol at y tîm craidd, yn cael eu pennu yn ôl yr angen.

Gweler Atodiad 12, am Swydd-ddisgrifiadau a Manylebau Person drafft ar gyfer Arweinwyr Systemau, a gaiff eu llunio gan y Prif Swyddog ar ôl ei benodi, mewn ymgynghoriad â'r staff a'r undebau.

10.3.2 Cyfleoedd i Arweinwyr Systemau gael eu Secondio

Bydd cyfle i Benaethiaid ac Athrawon mewn-swydd gymryd secondiadau tymor byr gyda'r RSEIS yn unol â chomisiynu ychwanegol gan yr RSEIS am Arweinwyr Systemau gan naill ai'r ALI neu'r ysgolion, drwy gyfrwng cyllidebau neu grantiau. Bydd y dull hwn yn rhoi cyfleoedd proffesiynol i Benaethiaid, gan sicrhau y gall y Gwasanaeth ddefnyddio'r arferion gorau o ysgolion ar draws y rhanbarth.

Bydd angen i Benaethiaid sy'n dymuno manteisio ar gyfleoedd i gymryd secondiad gael eu rhyddhau o'u swyddi presennol gyda chytundeb Corff Llywodraethu'r ysgol.

10.3.3 Rolau Cefnogi

Rheolwr Cyllid/Busnes

Gan adrodd i'r Prif Swyddog, bydd y Rheolwr Cyllid/Busnes yn rheoli tîm gweinyddol bychan a fydd â'r dasg o reoli cyllideb ariannol a chefnogaeth fusnes y Gwasanaeth yn uniongyrchol, gan adrodd yn chwarterol i gyrff llywodraethu ysgolion. Bydd gan y Rheolwr Cyllid/Busnes rôl allweddol i fonitro gwariant yn erbyn y gyllideb, cyflenwi diweddariadau chwarterol i'r tîm rheoli a rhanddeiliaid ehangach.

Cefnogaeth Weinyddol

Disgwylir y bydd ar yr RSEIS angen cefnogaeth weinyddol ar gymhareb o 1:5. Yn seiliedig ar disgwyl y bydd gofyn cael 30 o Arweinwyr Systemau CALI, bydd yn rhaid i'r Gwasanaeth felly gael 6 o swyddi gweinyddol CALI. Bydd y swyddi hyn yn adrodd wrth y Rheolwr Cyllid/Busnes. Yn ogystal, bydd 1 swydd Cynorthwydd Personol CALI a fydd yn adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Swyddog. Ni fydd rôl y gweinyddwr yn amrywio llawer, fodd bynnag, bydd angen adolygu'r tasgau a wnânt yn unol â'r model cyflenwi gwasanaeth newydd.

Cyfieithydd

Er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth rhanbarthol newydd yn cael ei sylfaenu ar egwyddor graidd cyflawni ar strategaethau iaith Gymraeg lleol a chenedlaethol er mwyn datblygu a chynyddu rhagoriaeth mewn addysgeg ac addysg ddwyieithog/cyfrwng Cymraeg mewn cymunedau ar draws Gogledd Cymru, rhagwelir y bydd ar yr RSEIS angen 2 Gyfieithydd CALI. Bydd y swydd hon yn adrodd i'r Rheolwr Cyllid/Busnes.

Gweler Atodiad 13, am Swydd-ddisgrifiadau a Manylebau Swydd drafft Arweinwyr Systemau, a gaiff eu llunio gan y Prif Swyddog ar ôl ei benodi, mewn ymgynghoriad â'r staff a'r undebau.

10.4 Trefniadau TUPE

Mae'n bosibl y bydd gan yr aelodau o staff sydd ar hyn o bryd yn ymwneud â chyflenwi'r swyddogaethau sydd 'o fewn y cwrpas' drwy eu sefydliadau unigol yr hawl i drosglwyddo i'r sefydliad newydd, a fydd yn darparu'r swyddogaeth honno'n seiliedig ar wasanaeth a rennir. Byddai'r trosglwyddo'n amodol ar reoliadau TUPE. O dan y rheoliadau hyn, bydd aelodau o staff yn trosglwyddo gyda'u hawliau statudol presennol a'r hawliau yn eu contract o leiaf.

Cyfrifoldeb y sefydliad newydd fyddai unrhyw ddiswyddiadau canlyniadol.

10.5 Ystodau Cyflog

Mae pob awdurdod yn defnyddio gwerthusiad swyddi GLPC a chynllun Soulbury. Fodd bynnag, mae'r dull o ddefnyddio'r rhain yn amrywio rhwng y chwe awdurdod.

Cyn gynted ag y cytunir ar awdurdod lletyol, dylid cyflawni'r holl werthusiadau swyddi yn y dyfodol yn unol â chynlluniau gwerthuso'r awdurdod lletyol.

Ar gyfer y modelu ariannol, rydym wedi defnyddio'r cynlluniau uchod a phenodi gwasanaethau gwerthuso swyddi Hay i feincnodi'r gwerthoedd yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Mae ystod cyflog felly wedi cael ei dyfarnu ar gyfer pob un o'r rolau drwy ddefnyddio'r lefelau isaf ac uchaf o gyflogau mewn cynghorau.

Tabl.14

Rôl	Cyfanswm Pwyntiau	Chwartel Uchaf	Canolog	Chwartel Isaf
Uwch Arweinydd Systemau	702	67,349	59,949	54,570
Arweinydd Systemau	634	60,609	54,489	49,762
Rheolwr Cyllid/Busnes	406	42,890	38,730	34,569
Cyfieithydd	240	29,470	26,137	23,583
Gweinyddwr	144	22,094	19,602	17,213

10.6 Polisïau a Threfnau

Bydd angen cynnal adolygiad llawn o'r gwahaniaethau rhwng polisïau a threfnau ar draws y 6 awdurdod. Bydd angen i'r adolygiad hwn gael ei gynnal gan yr awdurdod lletyol er mwyn sicrhau bod y polisïau, y trefnau a'r telerau ac amodau'n cael eu cymhwyso i'r cyflogai. Bydd angen i'r cyflogwr newydd hefyd ymrwymo i gytuno i strategaeth cysoni cyflogau, telerau ac amodau cyn pen 3-5 mlynedd ar ôl ffurfio'r gwasanaeth newydd, er mwyn rhoi sylw i unrhyw faterion cyflog cyfartal yn unol â'r ddeddfwriaeth.

Fodd bynnag, er mwyn rheoli'r broses drosglwyddo, mae angen proses a pholisïau cyffredin ar gyfer:

- **Adleoli** (y broses nid hawliadau megis diogelu cyflogau);
- **Ceisiadau am ymddeoliadau cynnar** (y broses nid yr hawliadau);
- **Paru â swyddi;**
- **Recriwtio a Dethol i'r swyddi newydd;**
- **Rheoli Diswyddiadau** (fodd bynnag, o safbwynt hawliadau diswyddo bydd telerau ac amodau cyfredol y gweithwyr yn weithredol ac felly ni fydd gofyn ymgynghori ar yr agwedd hon);
- **Y Polisi Absenoldeb drwy Salwch;** a'r
- Trefniadau **gweithio oriau hyblyg.**

Caiff y rhain eu datblygu gyda'r chwe ALI a'r undebau yn ystod mis Chwefror a mis Mai 2012.

Proffil Economaidd-gymdeithasol Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru

Cyngor Sir **Ynys Môn**⁷ yw'r awdurdod lleiaf ond un yng Nghymru, a chanddo boblogaeth o oddeutu 69,000. Er y cafwyd cynnydd o 900 ym mhoblogaeth y sir rhwng 1997 a 2007, mae nifer y plant o dan 10 a'r bobl ifanc 20-30 oed wedi gostwng.

Ar y cyfan, mae'r sir, ac iddi arwynebedd o 714km², yn weddol wledig ac nid yw'n cynnwys ond pedair canolfan drefol, sef Caergybi, Llangefni, Amlwch a Phorthaethwy. Mae dros 60% o'r boblogaeth (dros dair oed) yn siarad Cymraeg.

Er bod cyflog wythnosol cyfartalog y sir [£427.90] fymryn yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru [£425.30], ceir lefel uchel o amddifadedd yn rhannau o'r sir gyda 15.3% o'r boblogaeth rhwng 16 a 54 yn economaidd anweithgar.

Ceir chwe ward Cymunedau yn Gyntaf yn y sir - pedair ohonynt yng Nghaergybi, a'r ddau olaf yn Amlwch ac yn Llangefni. Mae oddeutu 15% o'r boblogaeth yn derbyn budd-dal tai a budd dal treth y cyngor, ac mae 18.4% o ddisgyblion ysgol gynradd, 14.4% o ddisgyblion ysgol uwchradd a 45.3% o ddisgyblion yn yr ysgol arbennig yn derbyn prydau ysgol am ddim.

Sir wledig yw **Gwynedd** a chanddi aneddiadau bychain gwasgaredig ac aneddiadau trefol mwy, gan gynnwys Bangor a Chaernarfon yn y gogledd, Pwllheli yn y gorllewin, Porthmadog a Blaenau Ffestiniog yng nghanol y sir a Thywyn a Dolgellau yn y de. Mae economi Gwynedd wedi'i seilio'n bennaf ar amaethyddiaeth a'r sector gwasanaethau. Mae'n cynnwys ardaloedd sylweddol o amddifadedd economaidd a chymdeithasol.

Mae dwysedd y boblogaeth yng Ngwynedd yn isel. Mae'r sir yn gorchuddio mwy na 12% o arwynebedd Cymru ond nid yw ond yn cynnwys ond tua 4% o'r boblogaeth. Amcangyfrif canol blwyddyn 2010 ar gyfer poblogaeth Gwynedd oedd 119,007. Ceir oddeutu 28,135 o blant a phobl ifanc 0 - 19 oed yn y sir. Erbyn 2021, rhagwelir y ceir gostyngiad o tua 4% yn y boblogaeth dan 16 oed.

Mae dros 60% o boblogaeth Gwynedd (dros dai blwydd oed) yn siarad, yn darllen ac yn ysgrifennu Cymraeg, o'i gymharu ag 16% yng ngweddill Cymru. Mae gweinyddiaeth gyhoeddus y cyngor yn ddwyieithog, ac mae'r cyngor yn ceisio sicrhau bod pobl yn derbyn gwasanaethau yn yr iaith a ddewisir ganddynt, boed yr iaith honno'n Gymraeg neu'n Saesneg. Yn rhan o gynllun iaith addysg y sir, mae'r awdurdod lleol wedi mabwysiadu polisi addysg ddwyieithog a weithredir mewn ysgolion ledled y sir.

Mae **Conwy**⁸ yng nghanol gogledd Cymru. Mae ganddi boblogaeth o 111,400. Yng Nghonwy, mae 34.3% o bobl dros dair oed yn siarad Cymraeg o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 25.6%.

Mae Conwy'n cynnwys y gyfran isaf o breswylwyr o oedran gweithio yng Nghymru, sef 58.7% O blith y rhain, mae 26.8% yn economaidd anweithgar, sydd ychydig yn is na'r 27.2% ar draws Cymru gyfan. O'r boblogaeth o oedran gweithio yng Nghonwy, mae ychydig llai na 13% ohonynt heb gymwysterau, sy'n is na chyfartaledd Cymru o 15%.

18.1% yw canran y disgyblion ysgol yng Nghonwy o oedran ysgol gorfodol sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n debyg i'r ffigur cenedlaethol o 18.9%. Dyma'r 11eg

⁷ ESTYN 'Adroddiad ar ansawdd awdurdod lleol Ynys Môn, Tachwedd 2009'

⁸ ESTYN 'Adroddiad ar ansawdd gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy - Mawrth 2011

uchaf yng Nghymru o ran lefel cymhwyso. Dim ond pedair o'r 71 o ardaloedd yng Nghonwy sydd wedi'u cynnwys yn y 10% o ardaloedd lle ceir y mwyaf o amddifadedd yng Nghymru.

Mae 1.1% o'r boblogaeth yn lleiafrifoedd ethnig, sy'n is na chyfartaledd Cymru.

Asesiad Gwariant Safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn 2010-11 oedd £1,698 am bob aelod o'r boblogaeth. Dyma'r lefel gyfartalog ar draws Cymru. Yn yr un modd ag a wnaed yn y gorffennol, pennodd y Cyngor ei gyllideb refeniw cyffredinol yn seiliedig ar tua 98% o'r Asesiad Gwariant Safonol, gan alluogi iddo gadw Treth y Cyngor yn isel iawn.

Ardal wledig i raddau helaeth yw **Sir Ddinbych**⁹. Mae'r sir yng ngogledd Cymru ac yn cynnwys poblogaeth o 97,000. Mae'n cynnwys rhai o ardaloedd mwyaf ffyniannus Cymru ynghyd â rhai o'r ardaloedd lle ceir y mwyaf o amddifadedd yn y wlad. Mae'n cynnwys ardal sy'n cychwyn yng nghyrchfannau glan môr Rhyl a Phrestatyn gan barhau i lawr drwy Ddyffryn Clwyd, ac i'r de hyd at Gorwen a Llangollen. Mae oddeutu chwarter y boblogaeth gyfan yn siarad Cymraeg, ond bydd hyn yn codi i 60% mewn rhai ardaloedd gwledig.

Diwydiannau gwasanaeth a thwristiaeth yw'r prif gyflogwyr yn Sir Ddinbych. Gyda'i gilydd, mae'r grwpiau hyn yn darparu oddeutu 64% o'r holl swyddi. Darperir 13% o swyddi drwy weithgynhyrchu, ac mae 3% o'r swyddi ym myd amaeth.

Mae 62.4% o'r oedolion o oedran gweithio yn Sir Ddinbych yn economaidd weithgar o'i gymharu â 61.0% ar gyfer Cymru. Mae'r gyfran o weithwyr hunangyflogedig (9.8%) yn uwch na'r gyfran ar gyfer Cymru (7.7%) Mae chwarter y gweithlu heb unrhyw sgiliau neu a chanddynt ryw faint o sgiliau. 4.2% yw'r gyfradd diweithdra yn y Sir, o'i gymharu â 4.3% ar gyfer Cymru gyfan. Lefel uchel o gyflogaeth dymhorol yw'r rheswm am natur newidiol y boblogaeth ysgolion mewn un ardal yn Y Rhyl.

Mae **Sir y Fflint** mewn lleoliad unigryw yng ngogledd ddwyrain Cymru ac yn rhannu ei ffiniau â Sir Ddinbych yn y gorllewin, Wrecsam yn y de a Swydd Gaer yn y dwyrain a'r de ddwyrain. Mae Aber Afon Dyfrdwy yn rhedeg ar hyd y rhan fwyaf o'i ffin ogleddol. Mae'n gweithredu fel prif borth i ymwelwyr ac ar gyfer busnes rhwng Gogledd Cymru a Lloegr, ac yn cyflawni swyddogaeth bwysig yng ngweithrediad economaidd isranbarth Gogledd Ddwyrain Cymru. Nodweddir y sir gan amrywiaeth, ac mae'n cynnwys bro ddiwydiannol sylweddol a ffyniannus, a phatrwm cymysg o aneddiadau gwledig, lled wledig a threfol, y mae'r mwyafrif ohonynt yn cynnal poblogaeth gynyddol.

Yn ôl yr Amcangyfrifon Canol-blwyddyn Blyneddol o'r Boblogaeth, tyfodd poblogaeth Sir y Fflint o 142,036 ym 1991 i 149,709 yn 2010.

Yn ôl Cyfrifiad Poblogaeth 2001, gallai 20,599 o'r bobl yn Sir y Fflint siarad Cymraeg; mae hyn yn cynrychioli 14.4% o'r boblogaeth 3 blwydd oed a throsodd, ac o gymharu â Chyfrifiad 1991, yn gynydd o 2,200 o breswylwyr yn Sir y Fflint. Er mai 14.4% yw'r ffigur cyffredinol ar gyfer siaradwyr Cymraeg yn Sir y Fflint, mae amryw o wardiau yn Sir y Fflint yn cynnwys cyfran uwch o siaradwyr Cymraeg na'r cyfartaledd cenedlaethol (20.8%).

Yn ôl Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, mae 71.8% o breswylwyr Sir y Fflint mewn cyflogaeth o'i gymharu â 66.4% yng Nghymru a 70.3% ym Mhrydain.

⁹ ESTYN 'Adroddiad ar ansawdd Awdurdod Lleol Sir Ddinbych, Mawrth 2009

Mae **Wrecsam**¹⁰ wedi'i lleoli yng ngogledd ddwyrain Cymru ac yn ffinio â Sir y Fflint i'r gogledd orllewin, Sir Ddinbych i'r gorllewin, Powys i'r de a Lloegr i'r dwyrain. Cyfanswm y boblogaeth yw 133,207.

Yn Wrecsam, mae gan 17.6% o bobl dros dair oed o leiaf un neu fwy o sgiliau yn y Gymraeg (h.y. siarad, darllen neu ysgrifennu) o'i gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 25.6%.

Mae 64.3% o gyfanswm poblogaeth Wrecsam o oedran gweithio. O blith y rhain, mae 18.5% yn economaidd anweithgar, sy'n sylweddol is na'r 24.6% ar draws Cymru. Mae 13.8% yn hawlio rhyw fath o lwfans gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP). O'r rhai sy'n hawlio lwfans ceisio swydd, mae 31.3% dan 25 oed. Mae hyn yn is na'r 34.2% ar gyfer Cymru.

O blith y boblogaeth sy'n gweithio yn Wrecsam, mae 11.2% heb gymwysterau, sy'n is na chyfartaledd Cymru gyfan o 13.7%.

19% yw canran y disgyblion ysgol yn Wrecsam o oedran ysgol gorfodol sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim, sy'n debyg i'r ffigur cenedlaethol o 18.9%. Mae'r lefel hon o gymhwyso y 10fed uchaf yng Nghymru. Bellach, dim ond chwech o'r 85 o ardaloedd yn Wrecsam sydd wedi'u cynnwys yn y 10% o ardaloedd lle ceir y mwyaf o amddifadedd yng Nghymru.

O 31 Mawrth 2010, roedd gan Wrecsam 100 o blant a oedd yn derbyn gofal gan yr awdurdod. Roedd 119 o blant ar y gofrestr Amddiffyn Plant. Mae 3.5% o'r boblogaeth yn lleiafrifoedd ethnig, sy'n debyg i gyfartaledd Cymru.

¹⁰ESTYN 'Adroddiad ar ansawdd gwasanaethau addysg awdurdodau lleol ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam Tachwedd 2010'

Swyddogaethau Gwella Ysgolion yr Ystyrir eu bod o Fewn y Cwmpas**Categoriâu NAD YDYNT o fewn y Cwmpas**

- Athrawon Bro (athrawon)
- Dechrau'n Deg / Y Cyfnod Sylfaen / Y Blynyddoedd Cynnar
- Rhwydwaith 14-19
- Cefnogaeth TGCh Dechnegol / Systemau / System Gwybodaeth Reoli
- Ysgolion Iach / Blas am Oes / ECO
- Pobl Ifanc Weithgar
- Addysg Gorfforol a Chwaraeon mewn Ysgolion
- Cynhwysiad
- Y Gwasanaeth Cerddoriaeth
- Addysg Awyr Agored
- Cynorthwydd Personol y Prif Swyddog Addysg Statudol / Pennaeth Gwasanaeth
- Derbyniadau
- Gwaith Achos AD
- Y Celfyddydau Mynegiannol

Categoriâu sydd O FEWN y Cwmpas

- Arolygydd / Cynghorwyr Cynradd neu Uwchradd
- Cynghorwyr Pwnc
- Cynghorwyr Llythrennedd / Rhifedd
- Casglu Data ar Berfformiad Ysgolion/Swyddogion Dadansoddi
- Staff Gweinyddol (gweler yr adran isod)

Staff Gweinyddol

Ar draws y nifer o staff gweinyddol a gyflogir o fewn yr Adran/y Gwasanaeth Gwella Ysgolion, ystyriwch y gyfran o amser a dreulir yn rhoi cefnogaeth uniongyrchol i'r categorïau sydd 'O FEWN y cwmpas'. Dylid cyflwyno hyn ar ffurf ffigur CALL ar y templed casglu, ac yna nodi manylion y staff gweinyddol sy'n cyfrannu at y ffigur CALL.

Meini Prawf er mwyn Pennu bod Aelodau Unigol o Staff o Fewn y Cwmpas

Unrhyw aelod o staff sy'n ymwneud ag un neu fwy o'r gweithgareddau a restrir isod, sydd gyfwerth â mwy na 60% o'u hamser:

1. Lleoli, rheoli, recriwtio a datblygiad proffesiynol parhaus Gweithwyr Proffesiynol Gwella Ysgolion (a elwir o hyn allan yn Arweinwyr Systemau).
2. Ymweliadau Rheolaidd (tair bob blwyddyn fesul Ysgol o hyn allan) ag Ysgolion er mwyn monitro perfformiad yr ysgol.
3. Cynnal a rheoli ymyraethau mewn Ysgolion sy'n Destun Pryder.
4. Ymyraethau Thematig, e.e. yn ymwneud â grwpiau penodol o ddysgwyr, sydd fel arfer yn tangyflawni (e.e. nad Cymraeg neu Saesneg yw eu hiaith gyntaf, Anghenion Dysgu Ychwanegol, Plant sy'n Derbynn Gofal ac ati.)
5. Casglu, dehongli a dosbarthu Data Ysgolion a Pherfformiad Disgyblion i Ysgolion, oddi mewn i'r ALL, i Aelodau Etholedig, et al.
6. Darparu adroddiadau ynglŷn â Safonau a Pherfformiad Ysgolion i Aelodau Etholedig, ESTYN, Llywodraeth Cymru a'r cyhoedd. (Sylwer: mae'n ofyniad statudol i'r ALL roi

sylwebaeth ar Ysgol cyn iddi gael ei Harolygu).

7. Sylwebaeth ar Gynllun Gweithredu Ysgol yn Dilyn Arolwg, a chymeradwyo'r Cynllun hwnnw. (Ceir mwy o waith yn gysylltiedig â'r dyletswyddau hyn yn achos Ysgol sydd wedi cael ei rhoi mewn categori ffurfiol gan ESTYN).
8. Presenoldeb wrth benodi Pennaeth, a phresenoldeb arferol wrth benodi i swyddi heblaw am Benaethiaid.
9. Rheoli Strategaeth Llythrennedd a Rhifedd a lleoli arbenigwyr llythrennedd a rhifedd a chynnal rhaglenni datblygiad proffesiynol parhaus llythrennedd a rhifedd.
10. Herio Ysgolion drwy Arweinyddiaeth, Addysgu, Dysgu, Grwpiau sy'n Tangyflawni, Presenoldeb, Ymddygiad, Rheoli Cyllid, Defnyddio Data ar Berfformiad ac Asesu, Plant sy'n Derbyn Gofal, Cymunedau Dysgu Proffesiynol a defnyddio adnoddau i gefnogi gwelliant.
11. Cefnogaeth ac arweiniad i Athrawon newydd gymhwyso.
12. Arwain datblygiad gwaith rhwng ysgolion.
13. Cefnogaeth ar gyfer y cwricwlwm, gan gynnwys cyngor am bynciau a chyngor am gyfnodau ac agweddau penodol.
14. Cyflenwi mentrau lleol.
15. Cyflawni cyfrifoldebau a swyddogaethau'r cynllun rheoli perfformiad.
16. Cyngor a chefnogaeth TGCh.
17. Cynnull a rheoli grwpiau sy'n ymwneud â themâu neu gyfnodau penodol.
18. Canolfannau Datblygiad Proffesiynol.
19. Cyflawni ymchwil.

Trefniadau Cyflenwi Gwasanaethau Gwella Ysgolion Awdurdodau Lleol

Cwmni Cynnal

Sefydlwyd Cynnal yn ôl ym 1996 gan Wynedd ac Ynys Môn i ddarparu gwasanaethau cefnogi i ysgolion o fewn y ddau awdurdod. Cofrestrwyd Cynnal fel cwmni cyfyngedig o dan warant, a rhoddwyd y cyfrifoldeb o reoli'r cwmni i Fwrdd Cyfarwyddwyr a gynrychiolai'r ddau awdurdod a'u hysgolion.

Prif amcanion Cynnal yw darparu gwasanaethau cefnogi'r cwricwlwm drwy dîm o gynghorwyr pwnc ac athrawon ymgynghorol, a gwasanaethau cefnogi technoleg gwybodaeth drwy dîm o dechnegwyr cyfrifiaduron a rhwydwaith.

Mae Ynys Môn a Gwynedd yn comisiynu Cynnal i ddarparu cefnogaeth ar gyfer gwella ysgolion a swyddogaethau'r cwricwlwm drwy gyfres o gytundebau lefel gwasanaeth. Yn ychwanegol at hyn, mae Conwy'n comisiynu cefnogaeth cwricwlwm, gyda sefydliadau eraill fel ESTYN a Llywodraeth Cymru'n comisiynu gwasanaethau ad hoc.

Mae gan Cynnal dîm o swyddogion i gyflenwi'r swyddogaethau craidd ar gyfer gwella ysgolion. Ar hyn o bryd mae cyfanswm o 21 o aelodau o staff yn treulio'r rhan fwyaf o'u hamser yn cyflenwi swyddogaethau gwella ysgolion sydd gyfwerth ag 16.75 o weithwyr amser llawn (CALI). Ystyrir bod pob un o'r 21 o aelodau o staff o fewn y cwmpas (60% >), y mae 1 ohonynt ar drefniant secondiad. Yn ychwanegol at hyn, mae 13 o aelodau o staff (10 CALI) yn darparu cefnogaeth (e.e. gweinyddu, cyfieithu) ac mae pob un o'r 13 aelod o staff o fewn y cwmpas hyd yma.

Oddi mewn i Cynnal, ceir cyfanswm o 33 aelod o staff o fewn y cwmpas.

Mae'r staff cynghori sydd o fewn y cwmpas ar hyn o bryd yn treulio amser ar swyddogaethau eraill sydd gyfwerth ag 1.65 CALI. Bydd angen i Cynnal adolygu'r swyddogaethau eraill hyn er mwyn ystyried a ellir rhoi'r gwaith hwn i swyddogion eraill yn y Cwmni, ynteu a fydd angen datblygu swyddi newydd.

Cost yr amser y mae aelodau o staff Cynnal yn ei dreulio ar swyddogaethau gwella ysgolion, gan gynnwys cludiant, yw £1,605k. Codir cyfanswm o £1,192k gan Ynys Môn, Gwynedd a Chonwy am hyn. Costau llawn y staff o fewn y cwmpas, gan gynnwys cludiant, yw £1,725k.

Ynys Môn

Mae Ynys Môn yn comisiynu Cynnal i ddarparu cefnogaeth ar gyfer swyddogaethau gwella ysgolion drwy gyfres o gytundebau lefel gwasanaeth. Mae Ynys Môn yn datganoli rhai agweddau ar y gwasanaeth gwella ysgolion, gyda'r ysgolion yn comisiynu'n uniongyrchol â Cynnal.

Cost gyfredol y cytundeb lefel gwasanaeth â Cynnal ar gyfer swyddogaethau gwella ysgolion yw £435k, y telir £139k ohono o gyllidebau a ddatganolir i'r ysgolion, ac y telir £296k ohono o'r gyllideb ALI nad yw wedi'i ddatganolir.

Yn ychwanegol at y gefnogaeth gan Cynnal, mae 4 aelod o staff o fewn yr ALI yn treulio rhywfaint o'u hamser yn cyflawni swyddogaethau gwella ysgolion sydd gyfwerth ag 0.95 CALI, ac ni nodir unrhyw staff cefnogi.. Cefnogir yr aelodau hyn o staff gan 0.95 CALI o waith gweinyddol. Bydd gan Ynys Môn gapasiti o oddeutu 1.15 CALI mewn perthynas â'r ganran o waith swyddogion a gaiff ei throsglwyddo i'r gwasanaeth newydd. Cost yr amser y mae aelodau o staff yr ALI yn ei dreulio ar swyddogaethau ysgolion yw £54k.

O'r 72 o'r aelodau o staff cynghori y nodir eu bod o fewn y cwmpas (60% neu fwy), ni chyflogir yr un o'r rhain gan Ynys Môn.

Gwynedd

Mae Gwynedd yn comisiynu Cynnal i ddarparu cefnogaeth ar gyfer swyddogaethau Gwella Ysgolion drwy gyfres o gytundebau lefel gwasanaeth. Mae Gwynedd yn datganoli rhai agweddau ar y gwasanaeth gwella ysgolion, gyda'r ysgolion yn comisiynu Cynnal yn uniongyrchol.

Cost gyfredol y cytundeb lefel gwasanaeth â Cynnal ar gyfer swyddogaethau gwella ysgolion yw £711k, y telir £254k ohono o gyllidebau a datganoli i'r ysgolion, ac y telir £457k ohono o'r gyllideb ALI sydd heb ei datganoli.

Yn ychwanegol at y gefnogaeth gan Cynnal, mae 7 aelod o staff o fewn yr ALI yn treulio rhywfaint o'u hamser yn cyflawni swyddogaethau gwella ysgolion sy'n gyfwerth ag 1 CALI, ac ni nodir unrhyw staff cefnogi. Bydd gan Wunedd gapasiti o oddeutu 1 CALI mewn perthynas â'r ganran o waith swyddogion a gaiff ei throsglwyddo i'r gwasanaeth newydd. Cost yr amser y mae aelodau o staff yr ALI yn ei dreulio ar swyddogaethau ysgolion yw £68k.

O'r 72 o'r aelodau o staff cynghori y nodir eu bod o fewn y cwmpas (60% neu fwy), ni chyflogir yr un o'r rhain gan Wunedd.

Conwy

Mae gan Conwy dîm o swyddogion wedi'u lleoli o fewn yr awdurdod sy'n cyflenwi'r swyddogaethau craidd ar gyfer gwella ysgolion. Bydd Conwy'n datganoli rhai agweddau ar y gwasanaeth gwella ysgolion, gydag ysgolion cynradd yn comisiynu gan yr ALI, a rhai o'r ysgolion uwchradd yn comisiynu Cynnal yn uniongyrchol.

Mae cyfanswm o 12 aelod o staff ar hyn o bryd yn treulio amser yn cyflenwi swyddogaethau gwella ysgolion, sydd gyfwerth â 10.13 CALI. O'r rhain, ystyrir bod 11 aelod o fewn y cwmpas (60% >), y mae 1 ohonynt ar drefniant secondiad. Yn ogystal â hyn, mae 6 aelod o staff (1.67 CALI) yn darparu cefnogaeth (e.e. gweinyddu, cyfieithu) ac mae pob un o'r 6 rhain wedi'u cynnwys o fewn y cwmpas hyd yma.

Yng Nghonwy, mae cyfanswm o 16 aelod o staff o fewn y cwmpas.

Mae'r staff cynghori sydd o fewn y cwmpas ar hyn o bryd yn treulio amser ar swyddogaethau eraill sydd gyfwerth â 1.15 o waith amser llawn. Bydd angen i Conwy adolygu'r swyddogaethau eraill hyn er mwyn ystyried a all swyddogion eraill gyflawni'r gwaith, ynteu a fydd angen datblygu swyddi newydd.

Ar y llaw arall, bydd gan Conwy gapasiti o oddeutu 0.4 CALI mewn perthynas â'r ganran o waith swyddogion a gaiff ei throsglwyddo i'r gwasanaeth newydd.

Mae cost y gwasanaethau gwella ysgolion yn £724k ar hyn o bryd, sy'n cynnwys unrhyw gomisiynu am gefnogaeth i'r cwricwlwm gan Cynnal a Chefnogaeth Cwricwlwm (CS), gwerth hyd at £22k. Mae'r gwariant y gellir dylanwadu arno yng Nghonwy yn £723k, gyda £311k yn cael ei dalu o gyllideb yr ALI na chaiff ei datganoli a £412k yn cael ei dalu o gyllidebau dirprwyedig yr ysgolion.

Sir Ddinbych

Mae gan Sir Ddinbych dîm o swyddogion yn yr awdurdod i gyflenwi'r swyddogaethau ar gyfer gwella ysgolion.

Ar hyn o bryd, mae cyfanswm o 25 o aelodau staff yn treulio amser yn cyflenwi swyddogaethau gwella ysgolion sydd gyfwerth ag 14.01 CALI. O'r rhain, ystyrir bod 10 o fewn y cwmpas (60% >), y mae 2 ohonynt ar drefniant secondiad. Yn ychwanegol at hyn mae 6 aelod o staff (4.65 CALI) yn darparu cefnogaeth (e.e. gweinyddu, cyfieithu), gyda phob un o'r 6 aelod o staff o fewn y cwmpas hyd yma.

Yn Sir Ddinbych mae cyfanswm o 14 aelod o staff o fewn y cwmpas.

Ar hyn o bryd, mae'r staff cyngori o fewn y cwmpas yn treulio amser ar swyddogaethau eraill, sydd gyfwerth â 1.92 CALI. Bydd angen i Sir Ddinbych adolygu'r swyddogaethau eraill hyn gan ystyried a all swyddogion eraill gyflawni'r gwaith, ynteu a fydd angen datblygu swyddi newydd.

Ar y llaw arall, bydd gan Sir Ddinbych gapasiti o tua 6.53 CALI mewn perthynas â'r ganran o waith swyddogion a drosglwyddir i'r gwasanaeth newydd. Mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd ar draws y chwe awdurdod, gan fod 15 gweithiwr yn aros yn eu swyddi cyfredol sydd ar hyn o bryd yn treulio hyd at 50% o'u hamser ar swyddogaethau gwella ysgolion. Bydd angen i Sir Ddinbych wneud dadansoddiad pellach o'r swyddi hyn, gyda'r potensial i ganfod arbedion pellach.

£1m yw cyfanswm y gost am y staff sydd o fewn y cwmpas, gan gynnwys cludiant, ac mae hyn yn cynnwys comisiynu gwerth £21k gan Cefnogaeth Cwricwlwm (CS). Mae'r gwariant y gellir dylanwadu arno yn Sir Ddinbych yn £728k. Ni ddatganolir unrhyw ran o'r gyllideb hon i'r ysgolion.

Sir y Fflint

Mae gan Sir y Fflint dîm o swyddogion yn yr awdurdod i gyflenwi swyddogaethau craidd ar gyfer gwella ysgolion. Mae Sir y Fflint yn datganoli rhai agweddau ar y gwasanaeth gwella ysgolion, gyda'r ysgolion yn comisiynu'n uniongyrchol gan yr ALI.

Ar hyn o bryd, mae cyfanswm o 20 o aelodau staff yn treulio amser yn cyflenwi swyddogaethau gwella ysgolion sy'n gyfwerth ag 17.01 CALI. O'r rhain, ystyrir bod 17 o fewn y cwmpas (60% >), y mae 5 ohonynt ar drefniant secondiad. Yn ychwanegol at hyn mae 7 aelod o staff (5.47 CALI) yn darparu cefnogaeth (e.e. gweinyddu, cyfieithu), ac mae pob un o'r 7 aelod o staff o fewn y cwmpas hyd yma.

Yn Sir y Fflint mae cyfanswm o 19 aelod o staff o fewn y cwmpas.

Ar hyn o bryd, mae'r staff cyngori o fewn y cwmpas yn treulio amser ar swyddogaethau eraill, sydd gyfwerth â 1.2 CALI. Bydd angen i Sir y Fflint adolygu'r swyddogaethau eraill hyn gan ystyried a all swyddogion eraill gyflawni'r gwaith, ynteu a fydd angen datblygu swyddi newydd.

Ar y llaw arall, bydd gan Sir y Fflint gapasiti o tua 1.3 CALI mewn perthynas â'r ganran o waith swyddogion a drosglwyddir i'r gwasanaeth newydd.

£1,246k yw cyfanswm y gost am y staff sydd o fewn y cwmpas, gan gynnwys cludiant, ac mae hyn yn cynnwys comisiynu gwerth £11k gan Cafnogaeth Cwricwlwm (CS). Mae'r gwariant y gellir dylanwadu arno yn Sir y Fflint yn £1,122k, gyda £990k yn cael ei dalu o gyllideb yr ALI na chaiff ei datganoli a £132k yn cael ei dalu o gyllidebau dirprwyedig yr ysgolion.

Wrecsam

Mae gan Wrecsam dîm o swyddogion yn yr awdurdod i gyflenwi'r swyddogaethau craidd ar gyfer gwella ysgolion.

Ar hyn o bryd, mae cyfanswm o 22 o aelodau staff yn treulio amser yn cyflenwi swyddogaethau gwella ysgolion, sydd gyfwerth ag 11.68 CALI.

O'r rhain, ystyrir bod 13 o fewn y cwmpas (60% >), y mae 7 ohonynt ar drefniant secondiad tra bod un swydd ar fin dod yn wag. Yn ychwanegol at hyn mae 8 aelod o staff (4.00 CALI) yn darparu cefnogaeth (e.e. gweinyddu, cyfieithu), gyda phob un o'r 8 aelod o staff o fewn y cwmpas hyd yma.

Yn Wrecsam mae cyfanswm o 13 aelod o staff o fewn y cwmpas.

Ar hyn o bryd, mae'r staff cynghori o fewn y cwmpas yn treulio amser ar swyddogaethau eraill, sydd gyfwerth â 0.40 CALI. Bydd angen i Wrecsam adolygu'r swyddogaethau eraill hyn gan ystyried a all swyddogion eraill gyflawni'r gwaith, ynteu a fydd angen datblygu swyddi newydd.

Ar y llaw arall, bydd gan Wrecsam gapasiti o tua 2.38 cyfwerth ag amser llawn mewn perthynas â chanran gwaith y swyddogion a drosglwyddir i'r gwasanaeth newydd. Mae hyn yn uwch na'r cyfartaledd ar draws y chwe awdurdod, gan fod 9 gweithiwr yn aros yn eu swyddi cyfredol sydd ar hyn o bryd yn treulio rhwng 5% a 50% o'u hamser ar swyddogaethau gwella ysgolion. Bydd angen i Wrecsam wneud dadansoddiad pellach o'r swyddi hyn, gyda'r potensial i ganfod arbedion pellach.

Mae cost y gwasanaethau gwella ysgolion yn £859k ar hyn o bryd. Nid yw Wrecsam yn comisiynu dim cefnogaeth ychwanegol ar hyn o bryd. Mae'r gwariant y gellir dylanwadu arno yn Wrecsam yn £684k. Ni ddirprwyir dim o'r gyllideb hon i'r ysgolion.

ATODIAD 4

Chwe Swyddogaeth Allweddol Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol¹¹

Dyma'r 6 swyddogaeth:

1. **Cynorthwyo'r Awdurdodau Lleol i gyflawni eu swyddogaethau statudol mewn perthynas ag effeithiolrwydd ysgolion drwy:**
 - Ffonitro gwaith a pherfformiad ysgolion ar sail ystod o dystiolaeth ac adrodd yn ôl ar hyn.
 - Herio ysgolion ar sail perfformiad a darpariaeth ysgol gyfan, ac mewn perthynas â rhaglenni dysgu unigol a threfniadau cefnogi disgyblion er mwyn hybu gwelliant yn neilliannau'r disgyblion
 - Ymyrryd yn y ddarpariaeth a wneir gan ysgol pan fo angen am hynny, a chefnogi'r ysgolion hynny sy'n ei chael hi'n anodd a'r rhai a chanddynt wendidau difrifol.
 - Hyrwyddo defnyddio a dehongli data i sicrhau atebolrwydd deallus.
2. **Darparu Cefnogaeth ar gyfer Awdurdodau Lleol ac Ysgolion, y naill a'r llall, (gyda'i gilydd neu ar wahân yn ôl yr angen) wrth weithredu i wella ysgolion drwy:**
 - Gynorthwyo ysgolion i fynd i'r afael â materion effeithiolrwydd/gwella ysgol a deilliannau disgyblion.
 - Darparu cyngor a chefnogaeth ar gyfer addysgeg (dysgu ac addysgu), arwain a rheoli, ac o ran atebolrwydd deallus a datblygiad proffesiynol. (Hunanwerthuso, asesu a monitro).
 - Datblygu a rhoi arweinydd systemau ar waith, drwy ddull cysylltai, a bod yn rhagweithiol wrth hybu'r agenda arweinyddiaeth systemau.
 - Hwyluso rhwydweithio a rhwydweithiau ymarfer proffesiynol a'u cefnogi yn ôl yr angen.
 - Mynd i'r afael â materion sy'n peri pryder i ysgolion ac Awdurdodau Lleol a chefnogi'r ysgolion hynny sydd angen gwella'n sylweddol.
 - Darparu arbenigedd ar TG (Cwricwlwm ac Addysgeg) a'r Rhith-amgylchedd Dysgu
3. **Ysgwyddo cyfrifoldeb penodol am weithredu'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion (FfEY) ac am atebolrwydd y Fframwaith Arolygu Cyffredin drwy:**
 - Ddarparu a datblygu arbenigeddau'r staff a gwybodaeth reolaethol mewn dysgu ac addysgu.
 - Cefnogi hunan werthusiad ysgolion.
 - Cefnogi'r Awdurdodau Lleol a'r ysgolion wrth iddynt weithredu eu cyfrifoldebau mewn perthynas â'r FfEY – gan gynnwys gwella deilliannau a lles y disgyblion.

¹¹ 'Adroddiad ar ddichonadwyedd a goblygiadau sefydlu Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol ar gyfer chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru' Gerson Davies, Ymgynghorydd Annibynnol, Ionawr 2011

- Sicrhau y cyflawnir holl weithgareddau gwasanaeth rhanbarthol yng nghydestun y FfEY.
- Hwyluso datblygiad a gwaith Cymunedau Dysgu Proffesiynol.
- Darparu cefnogaeth ar gyfer Ysgolion sy'n Destun Pryder gan geisio bodloni eu hanghenion
- Cyfrannu at baratodau ar gyfer arolygon Estyn o ysgolion unigol ac arolygon eraill.
- Gwneud trefniadau ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus drwy gyrsiau, broceriaeth, casglu a rhannu ymarfer da, a datblygu Porth rhanbarthol.

4. Darparu ar gyfer datblygu fframweithiau rhanbarthol, eu cynnal a'u hadolygu ar sail comisiynu, i gynnwys:

- Protocolau.
- Canllawiau gweithredol a dogfennaeth.
- Dogfennaeth a bwletinau.

5. Darparu canolfan arbenigedd ar gyfer gwasanaeth y system gwybodaeth reoli (MIS) ac ar gyfer rheoli, dadansoddi a dehongli data.

6. Darparu canolfan arbenigol ar gyfer materion Rheoli Addysg a Gwasanaeth Adnoddau Dynol Addysg i ddarparu arbenigedd a chyngor.

Er bod y cyfrifoldebau a nodir uchod yn darparu fframwaith ar gyfer y gwasanaeth rhanbarthol, byddai'n rhaid i'r trefniadau sicrhau bod anghenion awdurdodau ac ysgolion unigol yn cael eu hadlewyrchu yn narpariaeth y gwasanaeth; cyfrifoldeb y Cyd-bwyllgor Comisiynu fydd hyn. Os mai cyfrifoldeb gwasanaeth rhanbarthol fydd y swyddogaethau hyn, ni ddylai fod ynghlwm â gweithgareddau eraill oni chaiff ei gomisiynu'n benodol.

Arfarniad Opsiynau

Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol (RSEIS)

Modelau Llywodraethu

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys y canlynol:

1. Methodoleg
2. Opsiynau Llywodraethu ar gyfer y Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol
 - 2.1 Trefniadau Llywodraethu o ran Aelodau ac Awdurdodau Lleol Unigol
 - 2.2 Model Atebolrwydd Llywodraethu RSEIS
3. Pwysoli'r Meini Prawf
4. Rhoi Sgôr i'r Opsiynau
5. Casgliadau'r Arfarniad Opsiynau

1. Methodoleg

Pwrpas yr adroddiad hwn yw ystyried yr opsiynau Llywodraethu o ran datblygu'r Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol (RSEIS).

Cymerwyd rhan yn yr arfarniad opsiynau hwn gan y rhanddeiliaid canlynol:

- Swyddogion S151 GC
- Cyfarwyddwyr CCAC GC
- Swyddogion Cyfreithiol GC
- Tîm Prosiect RSEIS
- Bwrdd Addysg Rhanbarthol GC a Gwasanaethau Cysylltiedig Eraill (*aelodaeth: Noddwr y Prosiect, Aelodau Gweithredol, Cyfarwyddwyr CCAC GC*)

Ym Mehefin 2011, sefydlwyd Tîm Prosiect gan y Bwrdd Addysg Rhanbarthol a Gwasanaethau Cysylltiedig Eraill i gefnogi Cyfarwyddwyr CCAC GC i ysgrifennu Achos Busnes Amlinellol (OBC) er mwyn datblygu'r Gwasanaeth newydd. Gwnaed ymarferiad cychwynnol gan yr OBC i ystyried y gwahanol opsiynau Llywodraethu, a gwelwyd y byddai angen gwneud gwaith pellach cyn y gellid dod i benderfyniad.

Comisiynodd Cyfarwyddwyr CCAC GC gyngor cyfreithiol arbenigol gan arbenigwyr Trowers and Hamlins, a chafwyd dau adroddiad ganddynt ar y mathau o wahanol fodelau Llywodraethu, eu manteision a'u hanfanteision. Yna hwyluswyd gweithdy (a fynychwyd gan y Tîm Prosiect, Cyfarwyddwyr CCAC GC a Swyddogion Cyfreithiol ar draws chwe Awdurdod Gogledd Cymru) gan Trowers and Hamlins i ystyried yr opsiynau yng nghyd-destun y RSEIS.

Yn ystod y gweithdy, datblygwyd meini prawf ar gyfer asesu gan ystyried yr Achos Busnes Amlinellol a'r adborth gan Bwyllgorau Gwaith y chwe Awdurdod.

Gwnaed y gwaith o bwysoli'r meini prawf gan Gyfarwyddwyr CCAC GC.

Mae'r templed Arfarnu Opsiynau'n ddull cydnabyddedig gan CLILC, ac mae wedi ei brofi ar gyfer ei ddefnyddio o fewn y sector cyhoeddus.

Dilynwyd y drefn ganlynol:

- ystyriwyd a datblygwyd y drafft cychwynnol gan Swyddogion Cyfreithiol GC, yn cynnwys ymgais i roi sgôr i'r opsiynau yn erbyn y meini prawf;
- yna rhannwyd y drafft llawn gyda Swyddogion S151 GC, a wahoddwyd i roi sgôr i'r opsiynau (heb weld y sgorau a roddwyd gan y Swyddogion Cyfreithiol);
- yna rhannwyd y drafft llawn â Chyfarwyddwyr CCAC GC, a wahoddwyd i roi sgôr i'r opsiynau (heb weld y sgorau a roddwyd gan y Swyddogion Cyfreithiol na'r Swyddogion S151); ac yn olaf
- cyflwynwyd y drafft llawn i Fwrdd Addysg Rhanbarthol a Gwasanaethau Cysylltiedig Eraill GC, a ystyriodd y sgorau blaenorol er mwyn cytuno ar set o sgorau terfynol, ac argymhell model Llywodraethu ar gyfer y RSEIS.

Bydd yr argymhelliad yn dylanwadu ar yr Achos Busnes Llawn, a gyflwynir i chwe Bwrdd Gweithredol yr Awdurdodau Lleol yn Chwefror 2011.

2. Opsiynau Llywodraethu ar gyfer y Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol (RSEIS)

Llywodraethu yw'r ffordd y mae Awdurdodau Lleol (ALI) yn llywodraethu, perchnogi a sicrhau bod gwasanaethau'n atebol. Mae nifer o strwythurau cyfreithiol y gall awdurdodau lleol eu mabwysiadu i gefnogi cytundeb gwasanaeth cyffredin:

- **Secondio** – byddai rhai ALI naill ai'n sicrhau bod staff ar gael i'r cyngor arall, neu'n derbyn staff o'r llall.
- **Dirprwyo i Un Awdurdod** - bod swyddogaethau'n cael eu dirprwyo gan bob ALI i un ohonynt, sydd wedyn yn cyflawni'r swyddogaethau ar ran y lleill.
- **Dirprwyo i Gyd-bwyllgor (gydag Awdurdod Lletyol)** – bod swyddogaethau'n cael eu dirprwyo gan bob ALI i Gyd-bwyllgor sy'n cynnwys aelodau o bob un o'r chwe ALI.
- **Trefniadau Cytundebol Masnachol (Model Cytundebol)** - bod un ALI yn darparu gwasanaethau i gyrrff sector cyhoeddus arall yn gyfnewid am dâl o dan Ddeddf Awdurdodau Lleol (Nwyddau a Gwasanaethau) 1970.
- **Trefniadau Corfforaethol (e.e. Cwmni Cyfyngedig trwy Warrant)** - gwneud trefniant hyd braich - 'trefniant corfforaethol' - i ddarparu'r gwasanaeth. Byddai angen i bob ALI gael contract gyda'r trefniant corfforaethol i brynu gwasanaethau, a byddai angen gwneud trefniadau ar gyfer perchnogaeth a llywodraethu.
- **Trefniadau Cydweithredol** - fel gyda'r Trefniadau Cytundebol Masnachol mae'n cynnwys trefniant cadarn rhwng y chwe ALI, a bydd yn osgoi rhwystrau caffael os gwneir y trefniadau'n briodol.

Yn asesiad cychwynnol Trowers and Hamlins ar yr opsiynau ar gyfer y prosiect gwelwyd:

- ✗ *'nad yw'n ymddangos y byddai'r model **Secondio** (ynddo'i hun) yn addas yn nhermau masnachol na chyfreithiol i'r trefniant arfaethedig ar gyfer y prosiect trawsnewid addysg.* Fodd bynnag byddai'n opsiwn ymarferol i rai staff arbenigol a fyddai'n darparu gwasanaethau ar wahân (Tîm Estynedig). Er ei fod yn osgoi goblygiadau caffael ac yn gallu bod yn ddewis defnyddiol yn hytrach na throsglwyddo staff – ar y cyfan mae'n gyfyngedig o ran ei ddefnydd, ac yn fwy addas i brosiectau tymor byr, yn hytrach na fel dull o ddarparu gwasanaethau cyffredin.
- ✗ mae'r opsiwn o **Ddirprwyo i Awdurdod Arall** yn *'annhebygol o fod yn ddeniadol am resymau gwleidyddol ac ymarferol'*. Er ei fod yn hysbys mewn llywodraeth leol, ei fod yn gallu osgoi rheolau caffael, a bod pwerau statudol clir yn bodoli i hwyluso trefniant o'r fath - mae'n gallu bod yn anodd yn wleidyddol os yw gwasanaethau rheng flaen dan sylw, mae'n dibynnu'n drwm ar ymddiriedaeth ac mae'n cynnwys trosglwyddo arian yn hytrach na chael tâl am wasanaeth, a allai olygu diffyg atebolrwydd.
- ✓ *'byddai **dirprwyaeth** gan bob un o'r chwe ALI i Gyd-bwyllgor a gyfansoddir yn unol ag Adran 102 (o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972) yn fwy deniadol na dirprwyo o un awdurdod i un arall',* ond byddai angen Awdurdod Lletyol i gyflogi staff a llunio contractau, gan na fyddai Cyd-bwyllgor yn gallu gwneud hyn.

Roedd yr asesiad cychwynnol yn cydnabod bod iddo'r un manteision â dirprwyo i awdurdod arall (mae'n hysbys mewn llywodraeth leol, ei fod yn gallu osgoi rheolau caffael, a bod pwerau statudol clir yn bodoli i hwyluso trefniant o'r fath), ond mae hefyd yn gallu sicrhau cydraddoldeb rhwng ALI a thryloywder gwleidyddol.

Mae'r anfanteision yn debyg i ddirprwyo i awdurdod arall (er ei fod yn dibynnu'n drwm ar ymddiriedaeth ac yn cynnwys trosglwyddo arian), ond mae'n cydnabod hefyd bod cynrychiolaeth gytbwys yn gallu bod yn anodd, a rhaid sefydlu trefniadau cyfansoddiadol trylwyr o'r cychwyn.

- ✗ ystyrid hefyd nad oedd **Model Cytundebol** *'yn addas yn nhermau masnachol na chyfreithiol i'r trefniant arfaethedig ar gyfer y prosiect trawsnewid addysg'.* Y brif

broblem yw bod rheolau caffael yn berthnasol i'r rhan fwyaf o contractau, fydd yn golygu na ellir rhoi contract uniongyrchol i ALI arall heb brofi'r farchnad yn gyntaf.

- ✓ *'byddai **Trefniant Corfforaethol** (e.e. Cwmni Cyfyngedig trwy Warrant) fel y trefniant darparu yn gallu bod yn effeithiol trwy nifer o wahanol strwythurau, ac ni fyddai gan un model achos cyfreithiol cryfach nag un arall'.*

Mantais y model hwn yw'r hyblygrwydd y mae'n ei roi i reoli'r Gwasanaeth, gyda phosibilrwydd o ddiwylliant newydd, llai o fiwrocratiaeth a phroses gynt o wneud penderfyniadau na'r sector cyhoeddus. Gall y trefniant corfforaethol gyflogi ei staff ei hun, masnachu a llunio contractau.

Fodd bynnag, Mae'r Trefniant Corfforaethol yn llai syml na'r holl fodelau eraill. Os bydd model corfforaethol yn cael ei ddewis, byddai angen gwneud dadansoddiad manylach o faterion yn gysylltiedig â risg a chyllid (yn cynnwys treth). Rhaid i fodel corfforaethol fod â chyfansoddiad a chael ei redeg fel bod modd eithrio rhag gofynion caffael (Teckal), gydag ALI fel rhanddeiliaid sy'n rheoli. Bydd gan drefniant corfforaethol erthyglau cymdeithasu sy'n amlinellu ei bŵer a'i amcanion, a bydd angen sefydlu contractau a chytundeb rhanddeiliaid gyda phob ALI.

- ✗ *'nid yw'n ymddangos y byddai'r model **Trefniant Cydweithredol** yn addas yn nhermau masnachol na chyfreithiol i'r trefniant arfaethedig ar gyfer y prosiect trawsnewid addysg'.*

Cysyniad sy'n datblygu yw hwn ac mae'n dibynnu ar achos Comisiwn v Yr Almaen a gadarnhaodd na fyddai angen tendro'n ffurfiol ar gyfer trefniant cydweithredol gwirioneddol.

Tra bod hyn yn gallu gweithio'n dda i ddau awdurdod sy'n dymuno darparu gwasanaeth heb ddilyn llwybr dirprwyo neu contractau ffurfiol, wrth i'r niferoedd dyfu daw'n fwyfwy anodd gorfodi'r trefniadau. Wrth weithio i weithredu set glir o swyddogaethau ar draws chwe ALI, mae angen peth ffurfioldeb i'r trefniadau.

2.1 Trefniadau Llywodraethu o ran Aelodau ac ALI Unigol

Nid yw gweithredu'r cynnig i sefydlu gwasanaeth rhanbarthol yn lleihau rôl a chyfrifoldebau ALI unigol o ran effeithiolrwydd a gwella ysgolion. Mae'r cyfrifoldebau statudol yn dal i fod yn berthnasol i'r ALI. Mae'r datganiadau canlynol yn berthnasol i'r holl fodelau:

- bydd y chwe ALI yn dal i fod yn berchen ar y gwasanaeth rhanbarthol;
- bydd monitro'r ffordd y mae'r gwasanaeth yn cyflawni'r swyddogaethau'n cael ei wneud gan y Cyd-bwyllgor / Aelodau'r Cwmni Cyfyngedig a benodir gan ALI, bydd eu haelodau'n cynnwys; deiliaid portffolio, Cyfarwyddwr Addysg/Prif Swyddogion Addysg unigol y chwe ALI, ac ysgolion;
- bydd y Cyd-bwyllgor / Aelodau Cwmni Cyfyngedig yn sicrhau bod gofynion ALI yn cael eu bodloni trwy'r swyddogaethau a'r cyfrifoldebau a ddarperir gan y Gwasanaeth;
- bydd yn dal angen i ALI unigol fonitro a chraffu ar y gwasanaethau a dderbynnir trwy fonitro rheolaidd yn cynnwys eu swyddogaeth graffu a phrosesau gwleidyddol perthnasol eraill; a
- byddai cyfle i Bwyllgorau Craffu ofyn am adroddiadau penodol ar faterion yn ymwneud ag effeithiolrwydd ysgolion yn ychwanegol at drefniadau gweithredol y gwasanaeth.

Mae'r trefniadau hyn yn sicrhau bod aelodau lleol yn dal yn atebol yn wleidyddol. Mewn gwirionedd, mae cyfle i unrhyw un o'r modelau llywodraethu gryfhau atebolrwydd lleol trwy sicrhau bod aelodau lleol yn dod yn eiriolwyr i blant ac yn hyrwyddwyr i anghenion y gymuned.

2.2 Model Atebolrwydd Llywodraethu RSEIS


Mae'r model canlynol yn dangos y berthynas atebolrwydd rhwng yr Awdurdod Lleol ac RSEIS.

Atebolrwydd Awdurdodau Lleol

- Bydd pob awdurdod lleol (ALI) naill ai'n prynu'r gwasanaeth gan y sefydliad cydweithredol neu'n cyd-ariannu'r trefniant (yn dibynnu ar y strwythur a ddewisir)
- Bydd yr ALI yn cadw'r pwêr i negydu'r cytundeb lefel gwasanaeth neu drefniadau datganoli a allai amrywio'n lleol
- Mae'r Prif Swyddog Addysg ALI yn cadw'r cyfrifoldeb statudol dros gyflawni'r swyddogaethau gyda chefnogaeth yr Aelod Gweithredol
- Mae'r Prif Swyddog Addysg ALI a'r Aelod Gweithredol yn atebol i'r cyngor cyffredinol
- Bydd y Prif Swyddog Addysg ALI a'r Aelod Gweithredol yn sicrhau bod y gwasanaeth yn diwallu anghenion eu hysgolion

Atebolrwydd Rhanbarthol / ar y Cyd

- Cyflawnir hyn trwy fodel *Cyd-bwyllgor gydag Awdurdod Lletyol neu Gwmni Cyfyngedig trwy Warant*.
- Gall Cyngorau benodi aelodau o'r cyd-bwyllgor, neu gyfarwyddwyr y cwmni, sy'n gallu bod yn Aelodau neu beidio
- Mae angen i Aelodau/Cyfarwyddwyr roi didorddebau'r endid ar y cyd yn gyntaf er mwyn rheoli'r 'gwasanaeth cyfan', gan ganolbwyntio ar y diddordebau 'cydweithredol'
- Goruchwyllo'r modd y rheolir y gwasanaeth cydweithredol
- Byddai aelodau'r Cyd-bwyllgor yn atebol i'w cyngor ALI a'u haelodau craffu eu hunain
- Bydd y Prif Swyddog yn atebol i'r Cyd-bwyllgor neu'r Cwmni
- Bydd y Cyd-bwyllgor yn cael eu cefnogi a'u herio gan y 'Grŵp Defnyddwyr Ysgolion a Llywodraethwyr RSEIS'



3. Pwysoli'r Meini Prawf

Mae'r meini prawf ar gyfer yr arfarniad opsiynau wedi eu rhestru isod. Mae Cyfarwyddwyr CCAC GC wedi ystyried eu pwysigrwydd cymharol trwy ddsbarthu 100 o bwyntiau rhyngddynt.

Tabl 1

Modelau Llywodraethu – Meini Prawf <i>(mae mwy o ddiffiniadau os oes angen yn Nhabl 2 isod)</i>		Pwyntiau a Ddyfarnwyd
1	Ffit Strategol	
1.1	Modd trosglwyddo'r Prif Swyddogaethau (4 o'r 6) i'r Gwasanaeth newydd	6
1.2	Rhaid gallu cefnogi'r egwyddor graidd o weithredu strategaethau iaith Gymraeg lleol a chenedlaethol er mwyn datblygu a chynyddu rhagoriaeth mewn addysgeg ac addysg cyfrwng Cymraeg/dwyieithog mewn cymunedau trwy Ogledd Cymru	6
2	Gwerth am Arian	
2.1	Sicrhau Nod 2 'nodi arbedion o 10% o wariant Gogledd Cymru trwy ddarparu Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion rhanbarthol'	6
2.2	Rhaid bod â'r potensial i sicrhau arbedion yn y dyfodol	4
2.3	Galluogi gwireddu Prif Amcanion yr Achos Busnes Amlinellol	6
2.4	Ni ddylai gael costau Diffygion Pensiwn anfforddiadwy	4
2.5	Ni ddylai gael costau staffio cychwynnol anfforddiadwy e.e. adleoli, diswyddo	4
2.6	Ni ddylai gael costau TGCh cychwynnol anfforddiadwy	4
2.7	Rhaid iddo allu manteisio ar eithrio rhag TAW	3
3	Gallu i Ddarparu	
3.1	Sicrhau Nod 1 'darparu'r Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion o dan y trefniadau rhanbarthol ar draws y chwe Awdurdod yng Ngogledd Cymru, erbyn Medi 2012'	6
3.2	Rhaid cyfyngu ar fiwrocratiaeth	3
3.3	Rhaid gallu cyflogi staff	6
3.4	Rhaid gallu llunio contractau	3
3.5	Rhaid gallu masnachu	3
4	Cynaliadwyedd	
4.1	Rhaid gallu tyfu a newid	6
4.2	Rhaid gallu sicrhau gwasanaethau cefnogi priodol (e.e. cyfreithiol, cyllid, AD)	6
5	Derbynioldeb	
5.1	Rhaid gallu lliniaru tensiynau gyda phrif randdeiliaid (Ysgolion a'u Cyrff Llywodraethu)	6
5.2	Rhaid bod yn dderbyniol i reolyddion (e.e. ESTYN, CLILC, LIC)	6
5.3	Rhaid bod yn debygol o gael cefnogaeth Wleidyddol	6
5.4	Rhaid cael cefnogaeth staff neu'r potensial i oresgyn gwrthwynebiad staff	6
Cyfanswm		100

Tabl 2 – Diffiniadau ar gyfer Tabl 1

1.1	Y 4 o'r 6 Prif Swyddogaeth o ran cwmpas y prosiect hwn yw: ▪ cefnogi ALI i gyflawni eu swyddogaethau statudol o ran effeithiolrwydd ysgolion; ▪ rhoi cefnogaeth i ALI ac Ysgolion (ar y cyd ac ar wahân yn ôl y sefyllfa) o ran Gwella Ysgolion; ▪ cymryd cyfrifoldeb penodol am Weithredu'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion ac atebolrwydd Fframwaith Arolygu Cyffredin; ▪ sicrhau darpariaeth ar gyfer datblygu, cynnal, ac adolygu'r fframweithiau rhanbarthol ar sail comisiynu;
2.3	Y Prif Nodau yw: ▪ gweithredu'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion er mwyn codi safonau a gwella lles trwy leihau amrywiaeth o fewn a rhwng ysgolion ac awdurdodau lleol, gan ystyried angen lleol; ▪ ymateb i drefn arolygu Estyn, sydd wedi codi'r gofynion a phwysleisio gweithio mewn partneriaeth o safbwynt ei feini prawf arolygu diwygiedig; ▪ nodi arbedion effeithiolrwydd; a ▪ darparu sail sy'n caniatáu i wasanaethau Addysg eraill/cysylltiedig gael eu rhesymoli yn y dyfodol e.e. Cynhwysiant
2.4	Angen rhoi ystyriaeth yma i'r effaith bosibl ar Cynnal o safbwynt eu statws fel cwmni
4.1	Ydi'r model yn caniatáu i Wasanaethau (Addysg ac Eraill) ychwanegol gael eu cynnwys yn y cwmpas?
5.1	A oes modd cael Ysgolion fel Rhanddeiliaid ffurfiol, beth yw lefel bosibl yr effaith ar staff ALI dan sylw?
5.3	Mae angen cefnogaeth wleidyddol ar lefel Leol a Chenedlaethol - rhaid cyfyngu'r rhwymedigaeth i un, neu bob un o chwe awdurdod Gogledd Cymru

4. Rhoi Sgôr i'r Opsiynau

- Trosglwyddwyd y pwysoliadau i'r golofn 'Pwysoliad y Cytunwyd arno'.
- Rhoddwyd sgôr o rhwng 0 a 3 i bob opsiwn a'u cynnwys yn y golofn 'Sgôr Grai'.
- Lluoswyd y 'Sgôr Grai' â'r sgôr 'Pwysoliad y Cytunwyd arno' i gael y sgorau wedi'u pwysoli.

3 – Cyflawni'r holl feini prawf
 2 – Cyflawni rhai o'r meini prawf, ond nid pob un
 1 – Cyflawni rhai o'r meini prawf
 0 – Nid yw'n cyflawni'r meini prawf

Yn seiliedig ar asesiad cychwynnol Trowers and Hamlins (adran 2), y Modelau Llywodraethu a ystyrir yn yr arfarniad opsiynau hwn yw 'Cyd-bwyllgor gydag Awdurdod Cyfrifol' a 'Chwmni Cyfyngedig trwy Warant'.

Tabl 3 (gweler Tabl 1)

Modelau Llywodraethu– Meini Prawf		Pwysoliad y Cytunwyd arno	Opsiwn A		Opsiwn B		Ffactorau sy'n Cyfrannu
			Cyd-bwyllgor gydag Awdurdod Cyfrifol		Cwmni Cyfyngedig trwy Warant		(a gafwyd gan Gynrychiolwyr Cyfreithiol ALI)
			Sgôr Grai	Wedi'u pwysoli	Sgôr Grai	Wedi'u pwysoli	
1.1	Galluogi trosglwyddo'r Prif Swyddogaethau (4 o'r 6) i'r Gwasanaeth newydd	6	3	18	3	18	Mae'r ddau opsiwn yn gallu cyflawni'r pedair swyddogaeth gydag amodau yn y cytundeb. Hefyd: Opsiwn A ▪ Bydd staff yn trosglwyddo o dan drefn TUPE i Awdurdod Cyfrifol ▪ Mae pob Awdurdod yn gallu dirprwyo eu swyddogaethau i'r Cyd-bwyllgor ▪ Gall trydydd parti fod ar Gyd-bwyllgor (e.e. Llywodraethwyr Ysgol neu Benaethiaid) ▪ Angen lefel o ymddiriedaeth ac ewyllys da rhwng y partneriaid ▪ Angen sefydlu mesurau i atal anghydbwysedd ▪ Bydd yr Awdurdodau'n llunio cytundeb dirprwyo, yn cynnwys trefniadau cyfansoddiadol ar gyfer y Cyd-bwyllgor Opsiwn B ▪ Bydd staff yn trosglwyddo o dan drefn TUPE i'r Cwmni ▪ Gall cwmni lunio contractau yn ei enw ei hun ▪ Ni all Awdurdodau Lleol ddirprwyo eu swyddogaethau i Gwmni ▪ Mae'r Bwrdd Cyfarwyddwyr yn gallu cynnwys aelodau o'r Awdurdod Lleol, eraill neu gyfuniad o'r ddau

Modelau Llywodraethu– Meini Prawf		Pwysoliad y Cytunwyd arno	Opsion A Cydbwyllgor gydag Awdurdod Cyfrifol		Opsion B Cwmni Cyfyngedig trwy Warrant		Ffactorau sy'n Cyfrannu (a gafwyd gan Gynrychiolwyr Cyfreithiol ALI)
			Sgôr Grai	Wedi'u pwysoli	Sgôr Grai	Wedi'u pwysoli	
1.2	Rhaid gallu cefnogi'r egwyddor graidd o ddarparu strategaethau iaith Gymraeg lleol a chenedlaethol er mwyn datblygu a chynyddu rhagoriaeth mewn addysgeg ac addysg cyfrwng Cymraeg/dwyieithog mewn cymunedau trwy Ogledd Cymru	6	3	18	3	18	Opsion A - Gall hwn fod yn un o'r amodau pan sefydlir y Cydbwyllgor Opsion B - Gall hwn fod yn un o'r amodau trwy Gytundeb Rhanddeiliaid
2.1	Sicrhau Nod 2 'nodi arbedion o 10% o wariant Gogledd Cymru trwy ddarparu Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion rhanbarthol'	6	3	18	3	18	Bydd y ddau opsiwn yn arwain at gostau yn gysylltiedig â brandio, costau gadael, swyddfeydd, TUPE ac argostau cyffredinol (a ystyrir oll yn rhan o'r Achos Busnes Llawn). Opsion A - Dim costau cychwynnol fwy neu lai ar gyfer y Cydbwyllgor ei hun Opsion B - Cost gychwynnol ar gyfer cofrestru'r Cwmni - enwol - Bydd y strwythur yn rhydd o amodau a thelerau awdurdod lleol ac yn gallu sicrhau effeithlonrwydd pellach yn haws
2.2	Rhaid bod â'r potensial i sicrhau arbedion yn y dyfodol	4	2	8	3	12	Mae'r ddau opsiwn yn caniatáu i Wasanaethau ALI eraill ymuno, a gwerthu i'r sector cyhoeddus (e.e. addysg bellach ac uwch). Opsion A - Nid yw Cydbwyllgor yn gallu masnachu â'r sector preifat Opsion B - Yn gallu masnachu a chreu elw (yn dibynnu ar y model a ddewisir)

Modelau Llywodraethu– Meini Prawf		Pwysoliad y Cytunwyd arno	Opswn A Cyd-bwyllgor gydag Awdurdod Cyfrifol		Opswn B Cwmni Cyfyngedig trwy Warrant		Ffactorau sy'n Cyfrannu (a gafwyd gan Gynrychiolwyr Cyfreithiol ALI)
			Sgôr Grai	Wedi'u pwysoli	Sgôr Grai	Wedi'u pwysoli	
2.3	Ni ddylai gael costau Diffygion Pensiwn anfforddiadwy	6	3	18	3	18	Mae'r ddau opsiwn yn caniatáu i Wasanaethau ALI eraill ymuno, a gwerthu i'r sector cyhoeddus (e.e. addysg bellach ac uwch), ac mae'r ddau'n ymateb i drefn arolygu Estyn sydd wedi pwysleisio gweithio mewn partneriaeth yn ei feini prawf arolygu diwygiedig. Opswn A - Byddai Cyd-bwyllgor yn lleihau amrywiadau o fewn a rhwng ysgolion ac ALI, gan ganiatáu mwy o hyblygrwydd i ymateb i anghenion lleol sy'n newid - Byddai rhesymoli staff yn cynyddu effeithlonrwydd Opswn B - Byddai Cwmni yn lleihau amrywiadau o fewn a rhwng ysgolion ac ALI. Ond, tra byddai'n anos newid y contract a rhagweld angen yn y dyfodol – byddai modd goresgyn hyn trwy reolaeth rhandeiliaid - Byddai rhesymoli staff yn cynyddu effeithlonrwydd
2.4	Ni ddylai gael costau Diffygion Pensiwn anfforddiadwy	4	2	8	0	0	Bydd y ddau opsiwn yn cynnwys gwerthuso diffygion pensiwn y bydd angen ei ad-dalu dros nifer o flynyddoedd. Gallai cyfradd y cyfraniad tuag at ddiffyg o ran gwasanaeth yn y gorffennol: Opswn A - Fod yn is yn sgil trefniant ad-dalu mwy ffafriol (yn debyg i ALI presennol) Opswn B - Fod yn uwch yn sgil trefniant ad-dalu mwy cyfyngol (fel cwmni yn ei hawl ei hun)
2.5	Ni ddylai gael costau staffio cychwynnol anfforddiadwy e.e. adleoli, diswyddo	4	2	8	2	8	Byddai costau cychwynnol o ran adleoli a diswyddo yr un fath i'r ddau Opswn, gydag unrhyw amrywiant yn deillio o'r model darparu, yn hytrach na'r model Llywodraethu.

Modelau Llywodraethu– Meini Prawf		Pwysoliad y Cytunwyd arno	Opswn A Cyd-bwyllgor gydag Awdurdod Cyfrifol		Opswn B Cwmni Cyfyngedig trwy Warant		Ffactorau sy'n Cyfrannu (a gafwyd gan Gynrychiolwyr Cyfreithiol ALI)
			Sgôr Grai	Wedi'u pwysoli	Sgôr Grai	Wedi'u pwysoli	
2.6	Ni ddylai gael costau TGCh cychwynnol anfforddiadwy	4	2	8	1	4	Byddai costau TGCh cychwynnol a pharhaus sylweddol i'r ddau opsiwn Opswn A - Byddai'r ALI Lletyol yn gallu darparu cefnogaeth TGCh i'r Cyd-bwyllgor, gan gynnig cyfle i leihau costau cychwynnol a pharhaus Opswn B - Ni fyddai unrhyw ALI yn gallu cefnogi'r Cwmni pe bai gwrthdaro buddiannau – byddai angen caffael TGCh yn y sector preifat, a allai ddyblu costau cychwynnol a pharhaus o'i gymharu â Chyd-bwyllgor
2.7	Rhaid iddo allu manteisio ar eithrio rhag TAW	3	2	6	0	0	Opswn A - Pe bai Cyd-bwyllgor yn cael ei gynnwys o dan un o'r awdurdodau lleol riant fel corff cyfrifyddu wrth gofrestru ar gyfer TAW (nid yn anghyffredin, ond yn dechnegol byddai angen cymeradwyaeth Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi), yna byddai'r TAW ar y nwyddau "wedi eu heithrio" a brynid gan y cydbwyllgor o fewn terfynau "de-minimis" ar gyfer Eithrio Rhannol. Opswn B - Gyda chwmni cyfyngedig trwy warant yn y cyd-destun hwn, oherwydd y bydd y rhan fwyaf o'i incwm yn dod o'r ddarpariaeth addysg a gwasanaethau cysylltiedig eraill (sydd wedi eu heithrio rhag TAW), ni chaniateir adennill TAW ar unrhyw nwyddau a brynir/gorbenion sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau hynny.
3.1	Sicrhau Nod 1 'darparu'r Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwellu Ysgolion o dan y trefniadau rhanbarthol ar draws y chwe Awdurdod yng Ngogledd Cymru, erbyn Medi 2012'	6	3	18	3	18	Opswn A - Mae'r modd cyflawni'r amserlen Opswn B - Mae'r modd cyflawni'r amserlen

Modelau Llywodraethu– Meini Prawf		Pwysoliad y Cytunwyd arno	Opswn A Cyd-bwyllgor gydag Awdurdod Cyfrifol		Opswn B Cwmni Cyfyngedig trwy Warant		Ffactorau sy'n Cyfrannu (a gafwyd gan Gynrychiolwyr Cyfreithiol ALI)
			Sgôr Grai	Wedi'u pwysoli	Sgôr Grai	Wedi'u pwysoli	
3.2	Rhaid cyfyngu ar fiwrocratiaeth	3	2	6	2	6	Opswn A - Mae Cyd-bwyllgor yn bodoli rhwng pob Cyngor a'r gwasanaeth a dirprwyir ei swyddogaethau iddo gan bob Awdurdod - Byddai'n dal angen i aelodau'r Cyd-bwyllgor adrodd yn ôl i bob Awdurdod trwy'r swyddogaeth graffu - Byddai lefel y dirpwyo'n cael ei phennu gan Gabinet/ Pwyllgor Gwaith pob Awdurdod - Byddai'r Awdurdodau'n llunio cytundeb dirprwyo a Cyd-bwyllgor, a fyddai'n cynnwys mesurau i ddigolledu'r Awdurdod Lletyol ar gyfer staff, llety ac ati - Gall y Cyd-bwyllgor ddirprwyo swyddogaethau dydd i ddydd i'r Pennaeth Gwasanaeth neu is-bwyllgorau Opswn B - Mae'r Cwmni'n annibynnol i'r ALI - Mae'n bosibl i'r ALI sefydlu Cyd-bwyllgor i oruchwylio gwaith y Cwmni fel bod rheolaeth y rhanddeiliaid yn cael ei reoli ar y cyd, ond bod hyn yn ychwanegu haen o fiwrocratiaeth - Byddai'n rhaid i bob ALI gael contract gyda'r Cwmni - Byddai'r Cwmni'n adrodd yn ôl i bob ALI a byddai Cytundeb Cyfranddalwyr yn sail i'r berthynas
3.3	Rhaid gallu cyflogi staff	6	3	18	3	18	Opswn A - Ni all y Cyd-bwyllgor gyflogi staff – rhaid gwneud hyn trwy'r Awdurdod Cyfrifol Opswn B - Gall y Cwmni gyflogi staff yn uniongyrchol
3.4	Rhaid gallu llunio contractau	3	3	9	3	9	Opswn A - Ni all y Cyd-bwyllgor lunio contractau - rhaid gwneud hyn trwy'r Awdurdod Cyfrifol Opswn B - Gall y Cwmni lunio contractau

Modelau Llywodraethu– Meini Prawf		Pwysoliad y Cytunwyd arno	Opswn A Cyd-bwyllgor gydag Awdurdod Cyfrifol		Opswn B Cwmni Cyfyngedig trwy Warrant		Ffactorau sy'n Cyfrannu (a gafwyd gan Gynrychiolwyr Cyfreithiol ALI)
			Sgôr Grai	Wedi'u pwysoli	Sgôr Grai	Wedi'u pwysoli	
3.5	Rhaid gallu masnachu	3	2	6	3	9	Opswn A - Dim cyfle i fasnachu y tu allan i'r sector cyhoeddus Opswn B - Yn gallu masnachu, yn amodol ar fodloni darpariaethau yn Adran 95 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003
4.1	Rhaid gallu tyfu a newid	6	3	18	3	18	Opswn A - Mae ganddo hyblygrwydd i dyfu a bod yn garreg camu i fodel arall os yw'n briodol h.y. os yw'n llwyddiannus ac eisiau masnachu, yna gall ddod yn Gwmni yn ddiweddarach Opswn B - Yn gallu tyfu a newid heb lawer o ffurfioldeb – fformat hyblyg iawn
4.2	Rhaid gallu sicrhau gwasanaethau cefnogi priodol (e.e. cyfreithiol, cyllid, AD)	6	3	18	3	18	Opswn A - Byddai'r ALI Lletyol yn gallu darparu Gwasanaethau Cefnogi i'r Cyd-bwyllgor– gan gytuno y bydd angen proses adnabod ar yr Awdurdod Cyfrifol. Opswn B - Ni fyddai unrhyw ALI yn gallu cefnogi'r Cwmni pe bai gwrthdaro buddiannau – byddai angen caffael Gwasanaethau Cefnogi yn y sector preifat
5.1	Rhaid gallu lliniaru tensiynau gyda phrif randdeiliaid (Ysgolion a'u Cyrff Llywodraethu) (Ar gyfer Swyddogion Gwellu Ysgolion ac Undebau gweler 5.4)	6	3	18	3	18	Opswn A - Mae'n bosibl i gyrff allanol gael aelodau ar Gyd-bwyllgor Opswn B - Mae'n bosibl i gyrff allanol gael aelodau ar Fwrdd Cyfarwyddwyr Cwmni dan reolaeth ALI - Efallai bydd gan Gorff newydd ddiwylliant a hunaniaeth cwbl newydd y bydd angen i randdeiliaid addasu iddo

Modelau Llywodraethu– Meini Prawf		Pwysoliad y Cytunwyd arno	Opsiwn A Cyd-bwyllgor gydag Awdurdod Cyfrifol		Opsiwn B Cwmni Cyfyngedig trwy Warant		Ffactorau sy'n Cyfrannu (a gafwyd gan Gynrychiolwyr Cyfreithiol ALI)
			Sgôr Grai	Wedi'u pwysoli	Sgôr Grai	Wedi'u pwysoli	
5.2	Rhaid bod yn dderbyniol i reolyddion (e.e. ESTYN, CLILC, LIC)	6	3	18	3	18	Mae'r ddau opsiwn yn ymateb i drefn arolygu Estyn sydd wedi pwysleisio gweithio mewn partneriaeth yn ei feini prawf arolygu diwygiedig. Opsiwn A - Corff Llywodraeth Leol yn agored i reolau ALI Opsiwn B - Y tu allan i faes rheoleiddio Llywodraeth Leol – ond mae tystiolaeth gref ei fod yn dderbyniol e.e. Cynnal
5.3	Rhaid bod yn debygol o gael cefnogaeth Wleidyddol	6	2	12	1	6	Opsiwn A - Cysyniad cyfarwydd a hysbys - Efallai y bydd ALI heblaw am yr Awdurdod Lletyol yn ofni colli pŵer/mewnbwn ond y Cyd-bwyllgor nid yr Awdurdod Lletyol sy'n rheoli'r gwasanaeth ac mae'n bosibl cynnwys rheolau cydbwysu yn rhan o'r trefniant. Opsiwn B - Yn aml mae ofn ynglŷn â sefydlu Cwmni er bod hon yn gallu bod yn ffordd dda o fanteisio i'r eithaf ar botensial y gwasanaeth yn arbennig os oes cyfleoedd i fasnachu - Atebolrwydd personol posibl i Gyfarwyddwyr y cwmni er y dylid codi yswiriant a sicrhau indemniti - Gwrthdaro buddiannau posibl rhwng Aelodau sy'n Gyfarwyddwyr ac Aelodau sydd yn Gynghorwyr
5.4	Rhaid cael cefnogaeth staff neu'r posibilrwydd i oresgyn gwrthwynebiad staff	6	2	12	1	6	Opsiwn A - Bydd staff ac Undebau'n debygol o ffafrio opsiwn lle maent yn dal i gael eu cyflogi gan yr ALI ac aros yng Nghynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Opsiwn B - Yn debygol o gael ei wrthwynebu oherwydd pryderon canfyddedig am dâl, amodau, pensiynau ac ati

5. Casgliadau'r Arfarniad Opsiynau

	Opsiwn A Cydbwyllgor gydag Awdurdod Cyfrifol	Opsiwn B Cwmni Cyfyngedig trwy Warant
Cyfansymiau (sgorau wedi'u pwysoli)	263	240

Ar sail canfyddiadau'r arfarniad opsiynau hwn, **argymhelliad y Bwrdd Addysg a Gwasanaethau Cysylltiedig Eraill yw mabwysiadu 'Cydbwyllgor gydag Awdurdod Cyfrifol' fel y model llywodraethu ar gyfer y Gwasanaethau Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol'.**

Yng nghyd-destun y gwasanaeth rhanbarthol a ddatblygir, mae'r prif anfanteision (gyda sgôr o 0 – nid yw'n cyflawni'r meini prawf) sy'n gysylltiedig â'r model 'Cwmni' yn gysylltiedig â'r:

- diffygion pensiynau – tra bydd y ddau opsiwn yn cynnwys gwerthuso diffygion pensiwn y bydd angen ei ad-dalu dros nifer o flynyddoedd, bydd cyfradd y cyfraniad tuag at ddiffyg o ran gwasanaeth yn y gorffennol yn anfforddiadwy yn sgil trefnaint ad-dalu mwy cyfyngol fel cwmni yn ei hawl ei hun (yn seiliedig ar werthusiad actiwri o ddata a amcangyfrifir): a'r
- gallu i fanteisio ar eithrio rhag TAW - gyda chwmni cyfyngedig trwy warant yn y cyd-destun hwn, gan fod y rhan fwyaf o'i incwm yn dod o'r ddarpariaeth addysg a gwasanaethau cysylltiedig agos (sydd wedi eu heithrio rhag TAW), ni chaniateir adennill TAW ar unrhyw nwyddau a brynir/gorbenion sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau hynny.

Cydnabyddir hefyd:

- y byddai costau cychwynnol a pharhaus yn gysylltiedig â TGCh ar gyfer y gwasanaeth o dan fodel cwmni'n ddwbl o'i gymharu â Chyd-bwyllgor gydag Awdurdod Cyfrifol, a byddai angen caffael cefnogaeth yn y sector preifat (gan y byddai gwrthdaro buddiannau pe bai ALI yn darparu'r gefnogaeth hon);
- byddai cefnogaeth wleidyddol yn annhebygol yn y model Cwmni wrth ystyried yr atebolrwydd personol posibl i Gyfarwyddwyr y cwmni (er y dylid codi yswiriant a sicrhau indemniti), a'r gwrthdaro buddiannau posibl rhwng Aelodau sy'n Gyfarwyddwyr ac Aelodau sydd yn Gynghorwyr; a
- byddai cefnogaeth staff yn annhebygol yn y model Cwmni, gan y byddai staff yn ffafrio opsiwn o ddal i gael eu cyflogi gan yr ALI ac aros yng Nghynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, ac mae'n debygol o arwain at wrthwynebiad gan staff a'u hundebau oherwydd pryderon canfyddedig am dâl, amodau, pensiynau ac ati.

Trosolwg ar y Materion Pensiwn i'r RSEIS

1. Cyfraddau Cyfraniadau Amcangyfrifedig i'r RSEIS

Mae'r Actwari ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi darparu amcangyfrif cychwynnol o'r gyfradd cyfraniadau pensiwn a'r diffygion pensiwn posibl ar gyfer y gwasanaeth rhanbarthol newydd. Cyfyngedig oedd y wybodaeth a ddarparwyd i'r actwari i sylfaenu'r amcangyfrif hwn arni ac ni all y casgliadau y daethpwyd iddynt ond bod yn arwydd o'r cyfraddau posibl gan na fydd y wybodaeth wirioneddol am y gweithwyr yn hysbys nes i'r broses adnoddau dynol gael ei gweithredu.

Opsiwn 1: Dull Ariannu'n Llawn (y diffygion pensiwn yn aros gyda'r cyflogwr presennol)

Ni fyddai gan yr RSEIS diffygion cychwynnol a chyfradd gyfraniadau'r cyflogwr yw cyfradd 'gwasanaeth y dyfodol' heb ddim addasu o ran y gwasanaeth yn y gorffennol.

Opsiwn 2: Dull Cyfran o'r Diffygion (y diffygion pensiwn yn trosglwyddo i'r gwasanaeth rhanbarthol newydd)

Mae cyfanswm y gyfradd gyfraniadau yn cynnwys cyfradd 'gwasanaeth y dyfodol' a chyfradd 'addasu o ran gwasanaeth yn y gorffennol'. Mae'r gyfradd 'addasu o ran gwasanaeth yn y gorffennol' yn ddibynnol ar werth cyffredinol yr addasu o ran gwasanaeth yn y gorffennol a'r 'cyfnod taenu'. Pennir y 'cyfnod taenu' yn seiliedig ar risg ganfyddadwy'r cyflogwr newydd. Po fwyaf o risg yr ystyrir sydd i'r cyflogwr, byrraf fydd y cyfnod taenu diffygion.

Mae'r modelu ariannol ar gyfer RSEIS wedi cynnwys yr amcangyfrifon ar sail opsiwn 2 gyda 'Dull Cyfran o'r Diffygion' yn seiliedig ar y cyfnod taenu a ganiateir fel arfer i Awdurdod Lleol (addasiad o ran gwasanaeth yn y gorffennol 'wedi'i daenu' dros 20 mlynedd). Os mai model cwmni yw'r model llywodraethu gallai'r gyfradd fod yn llawer iawn uwch, yn ddibynnol ar y cyfnod taenu a bennir (e.e. addasiad o ran gwasanaeth yn y gorffennol 'wedi'i daenu' dros 8 neu 10 mlynedd). Mae swm cyffredinol yr addasiad o ran gwasanaeth yn y gorffennol yr un fath yn yr holl amgylchiadau; y cyfnod taenu sy'n creu gwahaniaeth yn y fforddiadwyedd rhwng y modelau llywodraethu.

2. Y Trefniadau Pensiwn Presennol

Mae'r gweithwyr gyda'r 6 ALI a Cynnal wedi dewis ymuno â'r cynllun pensiwn cyflogwr perthnasol

- Cronfa Bensiwn Gwynedd
- Cronfa Bensiwn Clwyd
- Cynllun Pensiwn Athrawon (eithriadau)

Mae Gwynedd, Ynys Môn, Conwy a Chwmni Cynnal yn gyflogwyr gyda Chronfa Bensiwn Gwynedd, ac mae Sir y Fflint, Sir Ddinbych a Wrecsam yn gyflogwyr gyda Chronfa Bensiwn Clwyd. Bydd y gwasanaeth rhanbarthol newydd yn gofyn am gael bod yn gorff derbyniedig gydag un o'r 2 gronfa hon, dan y Cynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS). Adeg trosglwyddo i'r gwasanaeth rhanbarthol newydd, bydd y staff yn dechrau cyfrannu i'r gronfa pensiwn honno, drwy gyfrwng eu cyflogwr newydd.

3. Corff derbyniedig cronfa pensiwn

Os yw'r gwasanaeth rhanbarthol yn gweithredu gydag awdurdod lletyol, byddai'r gronfa pensiwn yr un fath â chronfa'r awdurdod lletyol. Byddai ar yr awdurdod lletyol angen cytundeb gyda'r 5 ALI arall y dylai'r gwasanaeth rhanbarthol gael ei drin fel endid ar wahân i'r awdurdod lletyol a chael adroddiadau actwaraidd ar wahân a chyfradd cyfraniadau cyflogwr.

Os yw'r gwasanaeth rhanbarthol wedi'i sefydlu fel cwmni, byddai angen iddo wneud cais i fod yn gorff derbyniedig dan yr LGPS naill ai yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd neu Glwyd.

4. Priso trosglwyddo diffygion pensiwn staff

Bydd y gronfa pensiwn yn priso o safbwynt bod yr holl staff yn trosglwyddo oddi wrth eu cyflogwr blaenorol i'r corff derbyniedig newydd. Bydd y gwerth hwn yn dibynnu ar oedran a gwasanaeth y staff unigol, ond bydd yn dibynnu'n bennaf ar ffactorau'r farchnad (elw bondiau, ayb) adeg y trosglwyddo.

Y diffygion pensiwn ar hyn o bryd ar gyfer pob cyflogwr presennol (6 ALL a Cynnal)

Ar hyn o bryd mae'r gronfa pensiwn yn priso'r diffygion pensiwn bob tair blynedd ar gyfer pob corff derbyniedig yn y gronfa pensiwn ac mae'n gosod y gyfradd gyfraniadau ar gyfer y tair blynedd ddilynol ar ôl priso er mwyn adlewyrchu nodweddion unigol pob cyflogwr. Ni chaiff y diffygion pensiwn eu creu drwy fod staff yn trosglwyddo i gyflogwr arall, ond mae gofyn eu priso adeg trosglwyddo.

Opsiynau ar gyfer trin y diffygion pensiwn a gafodd eu gwerthuso ar gyfer y gwasanaeth rhanbarthol

Opsiwn 1: Dull Ariannu'n Llawn (y diffygion pensiwn yn aros gyda'r cyflogwr presennol)

- Byddai'r diffygion pensiwn cyffredinol i'r cyflogwr yn aros yn ddigynnewid.
- Gallai'r cyflogwr presennol dalu yn wirfoddol swm o'r diffygion pensiwn i'r gronfa pensiwn a chrisialu'r swm yng nghyfrifon yr awdurdod, o safbwynt y staff sy'n trosglwyddo.
- Os yw'r cyflogwr presennol yn dewis peidio â chrisialu'r swm byddai hyn yn cael ei adlewyrchu pan gaiff y gronfa pensiwn ei phrisio nesaf. Ceid llai o staff i ddigolledu'r diffygion ganddynt mewn cyfraniadau a gallai hyn arwain at gyfradd gyfraniadau uwch i'r cyflogwr.

Opsiwn 2: Dull Cyfran o'r Diffygion (y diffygion pensiwn yn trosglwyddo i'r gwasanaeth rhanbarthol newydd)

- Byddai'r actwari i'r gronfa pensiwn yn priso o safbwynt y corff rhanbarthol er mwyn asesu'r gyfradd gyfraniadau sy'n ofynnol i adlewyrchu cyfraniad y gwasanaeth i'r dyfodol a'r diffygion o ran y gwasanaeth yn y gorffennol.

Priso'r gronfa pensiwn o safbwynt cyfradd cyfraniadau cyflogwyr

Caiff cyfraniadau cyflogwyr i gronfa LGPS eu gosod er mwyn 'sicrhau hydaledd y gronfa', ond mae'n rhaid i'r actwari hefyd ystyried ei bod yn ddymunol cynnal cyfradd gyfraniadau bron mor gyson â phosibl (dros amser) ac am gost resymol.

Caiff cyfraddau cyfraniadau cyflogwyr unigol eu hasesu gan yr actwari ar gyfer pob cyflogwr sy'n cyfranogi. Caiff y cyfraddau eu hasesu gan roi ystyriaeth i brofiad ac amgylchiadau pob cyflogwr, gan ddilyn egwyddor o ddim croes-gymhorthdal rhwng y gwahanol gyflogwyr yn y gronfa. Wrth briodoli perfformiad cyffredinol y buddsoddiadau a gafwyd ar asedau'r gronfa i bob cyflogwr, defnyddir egwyddor pro-rata.

Mae'n bosibl i'r gyfradd ar gyfer awdurdod lleol adlewyrchu digolledu diffygion o ran gwasanaeth yn y gorffennol dros gyfnod o 20 mlynedd ond gallai'r gwasanaeth rhanbarthol (os mai cwmni yw'r model llywodraethu) gael ei asesu i adlewyrchu digolledu dros 8 neu 10 mlynedd. Yn gyffredinol, caiff hyn ei asesu o safbwynt 'gweddill oes gweithio' cyfartalog gweithwyr y corff derbyniedig.

Bydd recriwtio staff o'r newydd yn effeithio ar y gwasanaeth rhanbarthol

Caiff diffygion pensiwn pob recriwtiaid ei brisio a thrwy hyn mae'r diffygion o ran gwasanaeth yn y gorffennol yn trosglwyddo oddi wrth y cyflogwr presennol i'r cyflogwr newydd. Gallai'r gwasanaeth rhanbarthol fod yn agored iawn i ddiffygion pensiwn gan recriwtiaid newydd gyda nifer fawr ohonynt o bosibl yn gofyn am drosglwyddiadau "clwb" drud oddi wrth y Cynllun Pensiwn Athrawon i'r LGPS.

5. Cynllun Pensiwn Athrawon (TPS)

Cynllun cyfrannol a gaiff ei weinyddu gan Bensiynau Athrawon (TP) ar ran yr Adran Addysg (DfE) yw TPS. Cynllun 'cyflog terfynol' â buddion wedi eu diffinio ydyw. Mae'n gynllun statudol a reolir gan y Rheoliadau Pensiynau Athrawon (1997).

Pan fydd aelod o staff yn trosglwyddo oddi wrth y TPS i'r LGPS caiff y diffygion pensiwn eu prisio a gwneir trefniadau ar gyfer 'trosglwyddiad clwb'. Mae'r TPS yn gwerthuso'r cyfraniadau pensiwn a dalwyd i'r cynllun ac yn trosglwyddo'r rhain i gronfa'r LGPS. Bydd cronfa'r LGPS yn cael y cyfraniadau a dalwyd e.e. dros 20 mlynedd ond bydd hefyd yn etifeddu'r hawliau pensiwn cronnus dros yr 20 mlynedd. Bydd yr hawliau pensiynau cronnus yn uwch na'r hyn a dalwyd eisoes mewn cyfraniadau (yn enwedig os yw cyflogau gweithwyr wedi cynyddu yn ystod eu gyrfaoedd gyda chynyddrannau a dyrchafiadau) ac o'r herwydd ceir diffygion pensiwn adeg trosglwyddo.

6. Cynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS)

Cynllun cyflog terfynol sydd â buddion wedi eu diffinio yw'r LGPS a chaiff y buddion eu dynodi yn y ddeddfwriaeth lywodraethu (Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol). Caiff lefelau gofynnol cyfraniadau gweithwyr eu nodi yn y Rheoliadau. Caiff cyfraniadau cyflogwyr eu pennu yn unol â'r Rheoliadau ac mae'n ofynnol cynnal prisiad actiwaraid bob tair blynedd.

Mae ariannu buddion sydd wedi eu diffinio, oherwydd ei natur, yn ansicr ac mae'n seiliedig ar dybiaethau demograffig ac ariannol fel ei gilydd. Pan nad yw'r profiad gwirioneddol yn cydfynd â'r tybiaethau a ddefnyddiwyd bydd gwarged neu ddiffyg yn ymddangos yn asesiad nesaf yr actwari a bydd gofyn addasu'r cyfraniadau o'r herwydd er mwyn dod â'r arian yn ôl ar drywydd y targed. Cynhaliwyd y prisiad actiwaraid diwethaf ym Mawrth 2010. Bydd y prisiad nesaf yn gwerthuso effaith yr argyfwng economaidd diweddar ar y marchnadoedd ariannol ac ar berfformiad cyffredinol buddsoddiadau cronfeydd pensiwn.

Bydd gan y gronfa strategaeth fuddsoddi ynghyd â nod i gynhyrchu elw i fodloni atebolrwydd pensiynau'r dyfodol a chyfrannu tuag at ad-dalu'r diffygion presennol. Yn ddelfrydol, byddai'r elw ar y buddsoddiadau yn y gronfa yn ariannu cyfran sylweddol o'r atebolrwydd pensiynau, yn hytrach na chyfraniadau'r gweithiwr a'r cyflogwr.

Cynllun Adennill Diffygion

Os yw asedau'r cynllun sy'n gysylltiedig â chyflogwr yn llai na'r targed ariannu ar ddyddiad prisiad yr actwari, caiff cynllun adennill ei sefydlu, ac mae hwn yn gofyn am gyfraniadau cynyddol gan y cyflogwr i gwrdd â'r diffyg.

Gallai'r ffactorau canlynol bennu'r cyfnod adennill gwirioneddol i'w weithredu ar gyfer unrhyw gyflogwr penodol:

- Maint y diffyg ariannol (yn gymesur â chyflogres y cyflogwyr).
- Cynllun busnes y cyflogwr (ansawdd y rhagolygon busnes a'r Cynllun ariannol tymor canolig).
- Sicrwydd llifoedd incwm i'r dyfodol (yn sicr i gyrff codi treth).
- Unrhyw ernes wrth gefn (e.e. gwarant neu fond).
- Am ba hyd y disgwylir cyfranogi yn y gronfa (proffil demograffig y staff a'r polisïau adnoddau dynol).

Model Cyflawni RSEIS (Haen 2)**ATODIAD 7**

	Diwrnodau
Ymweliadau ysgol (pob ysgol – 466 gan gynnwys Meithrin, Cynradd, Uwchradd, Arbennig) Dyraniad o 6 diwrnod fesul ysgol: 3 ymweliad rheolaidd 3 diwrnod o gynllunio a pharatoi (gan gynnwys Rheoli Perfformiad)	2796
Ysgolion y mae angen Cymorth Ychwanegol Arnynt* - Cefnogaeth wedi'i thargedu (yn seiliedig ar broffilio ysgolion yn rhagweithiol) : 388 ysgol 20% = 10 diwrnod x 78 ysgol = 780 19% = 6 diwrnod x 74 ysgol = 444 6% = 16 diwrnod x 23 ysgol = 368 - Ar ôl yr Arolygiad : Monitro gan Estyn = 16 x 10 diwrnod (160 diwrnod) Monitro gan yr ALI = 15 x 6 diwrnod (90 diwrnod) Gwelliant Sylweddol/Mesurau Arbennig = 5 x 32 diwrnod (160 diwrnod)	1592 410
Adolygiad Cyn-arolygiad (gan gynnwys adroddiad cyn-arolygiad)* 9 Ysgol uwchradd x 10 diwrnod 'unigolyn' (90 diwrnod) 67 Ysgol gynradd x 3 diwrnod 'unigolyn' (201 diwrnod) 2 Ysgol arbennig x 10 diwrnod 'unigolyn' (20 diwrnod)	311
Cyfanswm Diwrnodau Cymorth y mae eu Hangen gan yr RSEIS	5109
Diwrnodau Cyswllt yr Ysgol Yn seiliedig ar 195 o ddiwrnodau ysgol (gan gynnwys diwrnodau hyfforddi) Minws 20 diwrnod (cronnol) i gyfrif am 5 niwrnod bob ochr i'r gwyliau haf a Nadolig Minws cyfartaledd o 3 diwrnod o absenoldeb salwch	172
Nifer yr Arweinwyr Systemau y mae eu Hangen ar gyfer yr RSEIS	30 CALI

* Y nifer arferol sy'n ofynnol yw nifer y diwrnodau, gan ganiatáu hyblygrwydd ar gyfer rhagor neu lai yn ôl y gofyn

Nodiadau:

- Yn seiliedig ar raglen dreigl 6 mlynedd ESTYN, 466 cyfanswm ysgolion GC / 6 = ar gyfartaledd caiff 78 ysgol ei harolygu bob blwyddyn.
- Yn ystod y cyfnod Medi 2010 (dechrau trefniadau newydd ESTYN) i Hydref 2011.
 - Roedd 20% (neu 13 ysgol) yn y categori Monitro gan ESTYN
 - Roedd 19% (neu 12 ysgol) yn y categori Monitro gan yr Awdurdod Lleol
 - Roedd 6% (neu 4 ysgol) yn y categori Gwelliant Sylweddol (3) neu Fesurau Arbennig (1)
- Yn seiliedig ar y ciplun un flwyddyn (Nodyn 2) a'r ffigur amcangyfrifedig o 78 ysgol yn cael eu harolygu mewn un flwyddyn (Nodyn 1)
 - Gallai 20% (neu 16 ysgol) fod yn y categori Monitro gan ESTYN
 - Gallai 19% (neu 15 ysgol) fod yn y categori Monitro gan yr Awdurdod Lleol
 - Gallai 6% (neu 5 ysgol) fod yn y categori Gwelliant Sylweddol neu Fesurau Arbennig
- Mae nifer y diwrnodau 'unigolion' o gefnogaeth sy'n ofynnol mewn un flwyddyn wedi'i ddyrannu i bob categori yn seiliedig ar brofiad ALI
 - Monitro gan Estyn = 10 diwrnod
 - Monitro gan yr ALI = 6 diwrnod
 - Gwelliant Sylweddol / Mesurau Arbennig = 16 diwrnod x 2 (mae ysgolion yn aros yn y categori hwn am gyfnod o 2 flynedd)
- Yn y cyfnod hwn arolygwyd cyfanswm o 64 ysgol allan o gyfanswm o 466 (M, C, Uwch, Arb)
 - 2 Meithrin
 - 399 Cynradd
 - 55 Uwchradd
 - 10 Arbennig
- Yn seiliedig ar Nodyn 1 – mae hyn gadael 388 o ysgolion, ac o'r rhain disgwylir
 - Y bydd ar 20% angen cefnogaeth ychwanegol i roi sylw i faterion sy'n cyfateb i lefel gweithgaredd dilynol Monitro gan Estyn,
 - Y bydd ar 19% angen cefnogaeth ychwanegol i roi sylw i faterion sy'n cyfateb i lefel gweithgaredd dilynol Monitro gan yr ALI,
 - Y bydd ar 6% angen cefnogaeth ychwanegol i roi sylw i faterion sy'n cyfateb i lefel gweithgaredd dilynol Gwelliant Sylweddol / Mesurau Arbennig.

ATODIAD 8**Cost Haen 2 – RSEIS**

		Prif Swyddog	Uwch Arweinydd Systemau	Arweinydd Systemau	Cyfieithydd	Gwein.	Rheolwr Busnes	Cyfanswm
Costau Cyflogaion								
1	Nifer y swyddi	1	4	26	2	7	1	41
2	Cost Cyflogaion - Cyflog	86,000	60,609	56,000	29,470	22,094	42,890	297,063
3	Costau ychwanegol cyflogau	0.417	35,862	25,274	12,289	9,213	17,885	123,875
4	Costau cyflogaion	121,862	85,883	79,352	41,759	31,307	60,775	420,938
5	Cyfanswm Costau Cyflogaion	121,862	343,532	2,063,152	83,518	219,150	60,775	2,891,989
Costau'n Gysylltiedig â Chyflogaion		fesul cyf.	fesul AS					
6	Hyfforddiant	100	300					13,100
7	Lwfans Band Eang		332					9,960
8	Meddygol	20						820
9	Yswiriant	20						820
10	Cyfanswm yn Gysylltiedig â Chyflogaion	140	632	-	-			24,700
Costau'n Gysylltiedig ag Eiddo				fesul eiddo	fesul gwas.			
11	Nifer yr Adeiladau			1				
12	Trwsio a Chynnal			500	2,000			2,500
13	Rhent			5,000	22,000			27,000
14	NNDR (Ardrethi Busnes)			1,000	7,000			8,000
15	Cyfleustodau: Dŵr			400	1,600			2,000
16	Cyfleustodau: Trydan / Nwy			900	4,800			5,700
17	Glanhau Adeiladau			500	2,500			3,000
18	Glanhau Ffenestri			100	100			200
19	Gwaredu Gwastraff			100	200			300
20	Yswiriant			100	800			900
21	Cyfanswm Costau Eiddo	-	-	8,600	41,000			49,600
Costau'n Gysylltiedig â Chludiant		fesul cyf.	fesul AS	fesul eiddo	fesul gwas.			
22	Swyddi Defnyddiwr Hanfodol		1,239					37,170
23	Milltiroedd Hanfodol		3,700					111,000
24	Milltiroedd Achlysurol	1,000						41,000
25	Lwfansau ar gyfer Aelodau'r Bwrdd				1,200			1,200
26	Cyfanswm Costau Cludiant	1,000	4,939	-	1,200			190,370
Cyflenwadau a Gwasanaethau		fesul cyf.	fesul AS	fesul eiddo	fesul gwas.			
27	Swyddfa: Cyfarpar a Dodrefn	50		500				2,550
28	Swyddfa: Argraffu a Llungopio	50		2,500				4,550
29	Swyddfa: Offer Swyddfa	50						2,050
30	Cyfathrebu: Post	50						2,050
31	Cyfathrebu: Ffônau	25						1,025
32	Cyfathrebu: TG	500		7,000	13,500			41,000
33	Costau: Tanysgrifiadau Proffesiynol		100					3,000
34	Costau: Cynhaliath		50					1,500
35	Cyfanswm y Cyflenwadau a'r Gwasanaethau	725	150	10,000	13,500			57,725
Broceru		fesul cyf.	fesul AS	fesul eiddo	fesul gwas.			
36	Y Gyllideb Comisiynu a ddefnyddir fesul Arweinydd Systemau				250,000			250,000
	Cyfanswm y Gyllideb Comisiynu	-	-	-	250,000			250,000
Costau Gwasanaethau Cefnogi		fesul cyf.	fesul AS	fesul eiddo	fesul gwas.			
37	Cyfreithiol				5,000			5,000
38	AD	148			2,500			8,572
39	Cyllid	75			34,000			37,075
40	TG (gweler Cyflenwadau a Gwasanaethau)							-
41	Cyfanswm Costau'r Gwasanaethau Cefnogi	223	-	-	41,500			50,647
		per employee	per SL	per premises	per service			
42	Cyfanswm Cost Refeniw Blynnyddol	2,088	5,721	18,600	347,200			3,515,031
43	Cyfanswm cost y gwasanaeth newydd							3,520,000

Nodiadau:

1	Nifer y swyddi	Yn seiliedig ar y model cyflenwi gyda 30 o Arweinwyr Systemau.
2	Cost Cyflogeion - Cyflog	Mae'r cyflogau'n seiliedig ar ymarfer meincnodi gan Wasanaethau Gwerthuso Swyddi Hay. Bydd cynlluniau gwerthuso swyddi'r Awdurdod Lletyol yn berthnasol i'r holl swyddi.
3	Costau ychwanegol cyflogau	Yn cynnwys amcangyfrif ar gyfer cyfraniadau Yswiriant Gwladol a phensiwn.
4	Costau cyflogeion	Cost cyflog sylfaenol a'r costau ychwanegol fesul swydd.
5	Cyfanswm Costau Cyflogeion	Cyfanswm y costau'n dibynnu ar nifer y swyddi.
10	Cyfanswm yn Gysylltiedig â Chyflogeion	Yn cynnwys amcangyfrifon ar gyfer hyfforddiant, mynediad at ywe, costau meddygol a thaliadau yswiriant.
11	Nifer yr Adeiladau	Mae cyfanswm costau'r gwasanaeth newydd yn seiliedig ar 1 lleoliad. Nodir y costau ychwanegol fesul lleoliad yn y model.
21	Cyfanswm Costau Eiddo	Yn seiliedig ar gymhariaeth â chostau llety gwasanaethau o faint tebyg yng Nghonwy a Wrecsam.
26	Cyfanswm Costau Cludiant	Yn seiliedig ar y lefel gyfredol o gostau trafnidiaeth y staff sydd o fewn y cwmplas. Er y bydd gan y gwasanaeth newydd lai o staff, ni ragwelir y gellir lleihau costau trafnidiaeth i raddau cymharol.
35	Cyfanswm y Cyflenwadau a'r Gwasanaethau	Yn cynnwys costau swyddfa, cyfathrebu a threuliau. Nodir cost ychwanegol o £10k am lungopio a TGCh fesul lleoliad.
36	Y Gyllidem Comisiynu a Ddefnyddir fesul AS	Amcangyfrif o'r gyllideb sydd ei hangen i froceru cefnogaeth ychwanegol ar gyfer ALLau ac Ysgolion.
41	Cyfanswm Costau'r Gwasanaethau Cefnogi	Yn cynnwys amcangyfrifon ar gyfer y gwasanaethau cyfreithiol, AD, a Chyllid.
42	Cyfanswm Cost Refeniw Flynyddol	Cyfanswm cost y gwasanaeth newydd, gan nodi amcangyfrif o £19k o gynnydd am bob eiddo ychwanegol.
43	Cyfanswm cost y gwasanaeth newydd	Cyfanswm y costau yr ailgudir tâl amdanynt gan y 6 ALI, drwy fethodoleg gytunedig.

RSEIS GC - Dadansoddiad Llawn o'r Costau Gweithredu

	Cost Cyfalaf	Cost Refeniw	
<i>Costau Diswyddo</i>			
Staff Cyngori	867,000		Yn seiliedig ar bolisi wedi'i gysoni ar y telerau mwyaf ffafriol
Staff Cefnogi	160,000		
	1,027,000		
<i>Trosglwyddo / Recriwtio Staff</i>			
Costau'r Ganolfan Asesu ar gyfer swyddi'r Gwasanaeth Newydd	21,000		Mae'r ffigurau'n seiliedig ar gynnwys 62 o SEPO/cynghorwyr a 50 o Weinyddwyr o fewn y cwmplas gyda chostau'r ganolfan asesu'n seiliedig ar gyfradd ddyddiol ar gyfer swydd y Prif Swyddog a chan gynnwys Holiadur Personoliaeth Galwedigaethol a phroffion arweinyddiaeth
Dadansoddiad o anghenion hyfforddi	3,000		Yn seiliedig ar 31 o Arweinwyr Systemau a 6 gweinyddwr a 3 uwch reolwr 40 aelod o staff
Meithrin Tîm a Chysoni Diwylliannau	8,000		amcangyfrif 4 gr?p ffocws/gweithdy yn seiliedig ar gydweithio blaenorol
Cynefino	2,000		yn seiliedig ar raglen deuddydd o hyd gyda dau hwylusydd
	34,000		
<i>Costau Swyddfa - gan dybio bod y carped mewn cyflwr da a'r swyddfeydd mewn cyflwr addurnol da</i>			
Desg grom (1600mm)	202		
Cadair gweithiwr (gyda breichiau)	150		
Pedestal uchder desg (600mm, 3 drôr)	58		DESK CENTRE (Fframwaith Cymru Gyfan - cyn-tendro)
Cwpuwrdd ffeilio (4 drôr)	85		
Silff lyfrau blaen agored (2004mm) 5 silff	86		
Bwrdd gwyn (900mm x 600mm)	23	8	
Ffeiliau lifer A4 x20		93	BANNER (Mandad Corfforaethol)
Waledi ffeilio crog x 200		8	
Blychau desg (tair haen gan gynnwys codwyr)		4,348	Lluosi efo 40
Cost am y Gwasanaeth (yn seiliedig ar 40 aelod o staff)	24,200		
			Aberconwy Blinds Ltd (Total Blinds yn flaenorol)
Bleindiau ffenestr (cyfartaledd fesul 4 aelod o staff)	250		Lluosi costau'r bleindiau â (tua) 10
Cost am y Gwasanaeth (yn seiliedig ar 40 aelod o staff)	2,500		
<i>Costau TGCh</i>			
Seilwaith	89,000		Gan gynnwys Canolfan Ddata, Ceblu, Gweinyddwyr, Cyfathrebu, Diogelwch a Chadernid, Caledwedd Bwrdd Gwaith, Ffonau, Argraffwyr, Ffonau Blackberry
Systemau Gwybodaeth	10,000		Gan gynnwys Mudo, Cyfuno a Chaffael Systemau Newydd - Cyllid, AD, e-bost, EDRMS, Y We, GIS, CRM
Cefnogi ac Ymgynghori	8,000		Gan gynnwys Costau Staff TGCh, Hyfforddiant Sgiliau, Gwasanaethau Technegol ac Ymgynghori
	107,000		
		1,065,348	
CYFANSYMLIAU	133,700		
Cyfanswm y Cyfalaf a'r Refeniw - £1.2m	1,199,000		

RSEIS – Adroddiad Ariannol ar Gostau Gadael Posibl

1. Cyflwyniad

Y chwe Awdurdod Lleol (ALI) yng Ngogledd Cymru yw Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam.

Darparodd pob ALI wybodaeth yn erbyn meini prawf er mwyn canfod canran yr amser a dreulir ar y swyddogaethau gwella ysgolion (statudol a phenodol i'r cwricwlwm), fel y diffinnir yn Atodiad 2. Yn ogystal â chanfod y staff sy'n cyfrannu i'r swyddogaethau hyn, gofynnwyd i'r ALI hefyd ystyried y cyfraniad cyfwerth ag amser llawn (CALI) ar gyfer cefnogaeth weinyddol, gan gynnwys staff cyfieithu.

2. Cywreinio'r Staff sydd o fewn y Cwmpas

At ddibenion yr ymarferiad hwn, cytunodd Cyfarwyddwyr CCAC GC os yw aelod staff yn treulio'r hyn sy'n cyfateb i 60% o'u hamser, neu ragor, ar y swyddogaethau a nodwyd, yr ystyrir eu bod 'o fewn y cwmpas'.

Ceir 112 o aelodau staff o fewn y cwmpas ar draws y chwech ALI a Cynnal, 72 yn cyflenwi'n uniongyrchol 60% neu ragor o'r swyddogaethau gwella ysgolion a nodwyd, a 40 o staff gweinyddol (gan gynnwys staff cyfieithu) yn cyflenwi 27 cyfraniad CALI ar y gweithgareddau hyn.

O'r 72 aelod staff ymgynghorol sydd o fewn y cwmpas, bydd 1 swydd yn dod yn wag cyn bo hir ac mae 16 wedi'u secondio ar hyn o bryd ac yn dychwelyd i'w swyddi parhaol blaenorol pan fydd y gwasanaeth rhanbarthol newydd yn weithredol. Mae'r ALIau wedi gweld y bydd gofyn cael 8 swydd yn eu Tîm Cartref i gefnogi'r swyddogaethau hynny na chânt eu cyflawni gan yr RSEIS na'r 'Tîmau Gwella Ysgolion ALI' eraill'. Bydd y 47 sy'n weddill yn trosglwyddo i'r gwasanaeth newydd.

O'r 40 o staff gweinyddol y nodwyd eu bod yn cefnogi staff ymgynghorol sy'n cyflawni'r swyddogaethau o fewn y cwmpas, caiff cyfanswm canran yr amser a dreuliant ar y gweithgaredd hwn ei dalgrynnu i 27 CALI. Felly, er mwyn canfod y costau gadael posibl yn gysylltiedig â staff gweinyddol, caiff cyfartaledd cyflog y cyfan o'r 40 staff ei luosi gyda'r 27 swydd CALI.

Mae cyfanswm y staff ymgynghorol a gweinyddol o fewn y cwmpas yn 74.

3. Gwasanaeth Rhanbarthol – Gofynion Staffio Posibl

Mae'r Achos Busnes Llawn (ABLI) yn seiliedig ar gyflenwi gwasanaeth sy'n gofyn am 30 o Arweinwyr System a 9 o swyddi cefnogi.

Pan ystyriwn y 47 swydd ymgynghorol o fewn y cwmpas yn erbyn y gofyn posibl am 30 o arweinwyr system yn y gwasanaeth newydd, a gan dybio y bydd gan y cyfan o'r 47 staff yr hawl i drosglwyddo i'r gwasanaeth newydd dan TUPE, amcangyfrifir bod 17 o staff dros ben. Yn seiliedig ar eu cyflogau presennol, ac wedi'u cyfrifo fel ffigur cyfartalog, mae'r cyfanswm amcangyfrifedig dan bolisiâu lleol yn £705k ac yn £867k dan bolisi wedi'i gysoni (gweler Ffig. 1).

Mae'r gwasanaeth newydd yn rhagweld cefnogaeth weinyddol i gymhareb o 1:5, a gallai hyn ddarparu 9 o swyddi gweinyddol (gan gynnwys cyfieithu). Gan fod 27 o swyddi CALI wedi'u

nodi yn y trefniadau presennol, mae'n bosibl y ceir 18 o swyddi yn ormod. Yn seiliedig ar y cyflogau presennol, ac wedi'u cyfrifo fel ffigur cyfartalog, mae'r cyfanswm amcangyfrifedig dan bolisiau lleol yn £141k ac yn £160k dan bolisi wedi'i gysoni (gweler Ffig 1).

Mae'r costau gadael posibl ar gyfer staff ymgynghorol a gweinyddol yn **£1m**, yn seiliedig ar delerau ac amodau wedi'u cysoni.

Bydd y ffigur hwn yn cyfrannu at y costau sefydlu cyffredinol ar gyfer y prosiect, ffigur sy'n oddeutu £1.2m ar hyn o bryd.

4. Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 (TUPE)

Mae'n bosibl bod gan yr aelodau staff, sy'n gysylltiedig â chyflenwi'r swyddogaethau gwella ysgolion 'o fewn y cwmpas' drwy gyfrwng eu sefydliadau unigol ar hyn o bryd, hawl i drosglwyddo i sefydliad newydd, a fydd yn darparu'r swyddogaeth honno fel gwasanaeth a rennir. Byddai'r trosglwyddo hwn yn rhwym wrth reoliadau TUPE. Dan y rheoliadau hyn, bydd yr aelodau staff yn trosglwyddo gydag o leiaf eu hawliau cyflogaeth statudol presennol a'u hawliau dan eu contract.

Cyfrifoldeb y sefydliad newydd fyddai unrhyw ddileu swyddi dilynol.

Mae'r prosiect yn ceisio sicrhau arian gan Lywodraeth Cymru i dalu am yr holl gostau gweithredu, gan gynnwys costau dileu swyddi.

5. Ffactorau Cyfrannog

5.1 Secondiadau

Fel y dywedwyd yn flaenorol, disgwylir y bydd unrhyw swyddogion ar swyddi wedi'u secondio yn dychwelyd i'w swyddi parhaol heb ddim cost ychwanegol i'r awdurdod.

5.2 Adleoli

Mae'n bosibl y ceir cyfleoedd i rai o'r staff o fewn y cwmpas adleoli gyda'r cyflogwr presennol.

Mae rhai o'r aelodau staff sydd o fewn y cwmpas ar hyn o bryd yn gweithio ar swyddogaethau eraill yn ogystal ag ar swyddogaethau gwella ysgolion (6.32 CALI dros yr holl gyflogwyr presennol). Bydd angen i bob cyflogwr adolygu'r swyddogaethau eraill hyn er mwyn ystyried a all swyddogion eraill ymgorffori'r gwaith, ynteu a fydd angen datblygu swyddi newydd. Bydd angen i'r cyflogwyr fod yn ymwybodol o'r amserlenni er mwyn ystyried a oes angen hysbysebu unrhyw swyddi yn lleol cyn y trafodaethau TUPE gyda'r staff.

I'r gwrthwyneb, ar draws yr holl gyflogwyr presennol ceir capasiti o oddeutu 12.56 CALI o safbwynt gwaith swyddogion, nad ystyrir eu bod o fewn y cwmpas, ac y cânt eu trosglwyddo i'r gwasanaeth newydd.

Os caiff staff eu hadleoli, bydd angen i bob cyflogwr fod yn ymwybodol o unrhyw bolisiau lleol ar gyfer talu 'cyflog gwarchodedig'. Y cyflogwyr unigol fydd yn gyfrifol am y gost hon.

5.3 Opsiynau Ymddeol

Ceir nifer o opsiynau ymddeol a fydd ar gael o bosibl i'r aelodau staff. Cafodd swm y costau gadael eu cyfrifo ar sail taliadau dileu swyddi yn unig, fel yr opsiwn drutaf i'r sefydliad o bosibl.

5.4 Taliadau Dileu Swyddi



Cafodd cost y taliadau dileu swyddi eu cyfrifo ar sail (i) polisi presennol pob cyflogwr a (ii) polisi wedi'i gysoni o bosibl gyda'r cysoni'n digwydd gyda'r polisi mwyaf ffafriol i'r gweithwyr.

Ffig 1.

Crynodeb o'r Costau Gadael Posibl


Staff Cynghori Presennol	Staff	Taliad Diswyddiadau		
	Cynghori	Cyfanswm	Polisi Lleol	Polisi wedi'i gysoni
Cynnal	20		1,204,342	1,204,342
Ynys Mo'n	0		-	-
Gwynedd	0		-	-
Conwy	10		133,856	461,693
Sir Ddinbych	8		332,217	403,089
Sir y Fflint	12		386,476	465,969
Wrecsam	5		222,873	270,600
Cyfanswm	55		2,279,764	2,805,693
Gofyniad RSEIS	30			
Gofyniad Tîm Cartref Disgwyliedig	8			
Taliad diswyddiadau yn seiliedig ar ffigur cyfartalog	17	17	705,000	867,000

Staff Gweinyddol Presennol	Staff	Taliad Diswyddiadau		
	Gweinyddol		Polisi Lleol	Polisi wedi'i gysoni
Cynnal	13		95,284	95,284
Ynys Mo'n	0		-	-
Gwynedd	0		-	-
Conwy	6		41,123	82,179
Sir Ddinbych	6		46,600	46,600
Sir y Fflint	7		56,327	56,635
Wrecsam	8		73,267	75,789
Cyfanswm	40		312,601	356,488
Cyfanswm CALI presennol	27		211,000	241,000
Gofyniad RSEIS	9			
Taliad diswyddiadau yn seiliedig ar ffigur cyfartalog ar gyfer CALI	18	18	141,000	160,000
Taliad Diswyddiadau Posibl	17	18	35	846,000
				1,027,000

PROSES: Cynllunio ar gyfer Newid (Staff)*Proses Newid Strwythur Sefydliad**(proses i sefydliadau newydd a sefydliadau ymadawol)*

Siart Llif Diswyddiadau

Mae'r siart lif yn amlinellu'r camau y mae'r gwasanaeth newydd yn bwriadu eu cymryd ar ôl i'r Achos Busnes Llawn gael ei gymeradwyo. Rhaid i ALLau sicrhau eu bod yn dilyn eu trefniadau lleol eu hunain.



Swydd-ddisgrifiad DRAFFT**TEITL Y SWYDD: ARWEINYDD TÎM/ARWEINYDD SYSTEMAU**

Sylwer: mae eitemau sydd wedi'u hamlygu â chysgod llwyd yn perthyn yn benodol i rôl Arweinydd Tîm

GWASANAETH: GWELLA YSGOLION A CHYNHWYSIANT

GRADD: 49,792- 60,609(DANGOSOL)

Perthnasoedd/Cyswllt Allweddol

Yr holl Swyddogion ac ymgynghorwyr o fewn y Gwasanaeth Rhanbarthol, Swyddogion perthnasol o fewn Awdurdodau, ysgolion gan gynnwys Llywodraethwyr ac asiantaethau allanol.

Pwrpas Cyffredinol y Swydd

Bydd gan yr arweinydd tîm gyfrifoldeb am reolaeth o ddydd i ddydd ar dîm bach o arweinwyr systemau. Bydd yr Arweinydd Systemau'n dod â lefelau o wybodaeth a phrofiad sy'n ei (g)alluogi i fynd ati mewn modd cyflym a phendant i ddadansoddi a chynnig datrysiadau i broblemau tanberfformiad a rhoi cymorth ar gyfer cyflawniad uwch. Bydd y modd penodol y caiff amser ei ddyrannu'n cael ei bennu gan y fformwla a gytunwyd yn yr ABLI. Bydd angen i'r rôl sicrhau targedau sy'n gyson ac yn rhoi her addas a pherfformiad gwell ar draws ysgolion yn y consortia. A chithau'n gyfrifol am nifer penodedig o ysgolion, bydd disgwyl i chi weithio yng nghyd-destun gwerthoedd a nodau strategol y Gwasanaeth Rhanbarthol a'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol Gwella / Effeithiolrwydd Ysgolion yng Nghymru er mwyn:

- gweithredu fel Rheolwr Llinell a Rheolwr Perfformiad ar gyfer staff cyllid a Gweinyddol;
- cyfrannu'n uniongyrchol, neu drwy roi cymorth i gomisiynu cymorth ychwanegol fel y bo'n briodol, at ddatrys materion penodol a thrwy hynny roi cymorth i gael gwelliant ysgol-gyfan. Bydd hyn yn cynnwys cytuno ar strategaethau comisiynu ar gyfer yr ysgol;
- monitro a herio'r modd y rheolir adnoddau yn yr ysgol i sicrhau bod adnoddau ariannol a dynol yn cael eu cyfeirio mewn modd sy'n sicrhau deilliannau gwell i ddisgyblion;
- defnyddio cymorth a her, ynghyd â datblygu cymunedau dysgu proffesiynol, i alluogi ysgolion i feithrin a chynnal gallu i wella;
- cynrychioli'r consortiwm mewn modd cryf ac uniongyrchol yn y broses o benodi penaethiaid, rheoli eu perfformiad, eu mentora ac agweddau eraill ar ddatblygiad proffesiynol;
- arwain gweithgareddau ôl-arolygiad; a
- sicrhau bod mesurau priodol ar waith i alluogi Llywodraethwyr ysgolion i gyflawni rôl herio â chryfder priodol mewn perthynas â'r ysgol, a sicrhau bod data ar berfformiad yn cael ei gyflwyno a'i ddefnyddio gan Lywodraethwyr .

Dyletswyddau a Chyfrifoldebau Penodol*Arweinyddiaeth*

- Rheoli a datblygu Arweinwyr Systemau yn y tîm dynodedig a gweithredu newidiadau a rheoli gweithgareddau fel a ddynodir trwy unrhyw adolygiad o wasanaethau a chefnogi cyfleoedd sy'n gysylltiedig â rhaglenni gyrfa ar gyfer y grŵp dynodedig o staff.

- Rhoi cymorth ac arweiniad i sicrhau bod gweledigaeth, ethos a diben moesol yr ysgol yn cael eu rhannu gan yr holl staff a rhanddeiliaid.
- Rhoi cymorth a her i wella'r arfer o hunanwerthuso'n effeithiol a chynllunio'n effeithiol ar gyfer gwella ysgolion.
- Rhoi cymorth ac arweiniad i sicrhau bod arweinwyr a rheolwyr yn defnyddio'u harbenigedd yn y modd gorau posib i wella'u heffeithiolrwydd.
- Cynnig lefel o her trwy werthuso'r ddarpariaeth yn wrthrychol, gan gasglu tystiolaeth ddilys a dibynadwy o ystod o ffynonellau o fewn y sefydliad a thu hwnt.
- Deall data cymharol a data am werth a ychwanegwyd a'i ddefnyddio i adnabod perfformiad uchel a thanberfformiad ymhlith disgyblion, ysgolion a meysydd pwnc/adrannau.
- Dadansoddi a defnyddio data i farnu perfformiad a herio achosion o dangyflawni gan grwpiau o ddysgwyr yn ôl rhyw, ethnigrwydd, anghenion addysgol arbennig a chyrhaeddiad blaenorol.
- Herio'r ysgol i osod targedau uchelgeisiol ond realistig.
- Defnyddio ystod briodol o ddata meintiol ac ansoddol i syntheseiddio ystod eang o wybodaeth i lunio rhagdybiaethau.
- Darparu adborth adeiladol sy'n sail i wella yn y dyfodol.
- Gallu adeiladu ar allu eraill i hunanwerthuso.

Dysgu ac Addysgu (Addysgeg)

- Rhoi cymorth a chynghor mewn perthynas ag arddulliau dysgu ac addysgu ac mewn perthynas â gwerthuso ansawdd y dysgu a'r addysgu.
- Rhoi arweiniad ynghylch defnyddio asesiadau ffurfiannol a chrynodol yn drylwyr ac ynghylch eu defnyddio i wella gwaith dysgwyr.
- Hybu ac ategu datblygiad rhwydweithiau arfer proffesiynol.
- Adnabod arferion dysgu ac addysgu effeithiol y gellir eu rhannu o fewn ac ar draws rhwydweithiau.
- Sicrhau bod yr holl ysgolion yn datblygu'r agenda sgiliau'n ddigonol, yn enwedig ym maes llythrennedd a rhifedd.

Datblygu Pobl a'r Sefydliad

- Cychwyn ac ategu ymchwil weithredu i arfer effeithiol.
- Rhoi cynghor o ran sut y gellid diwallu anghenion datblygu trwy gyfeirio at enghreifftiau o arfer da mewn DPP.
- Hwyluso datblygiad rhwydweithiau arfer proffesiynol.
- Rhoi cynghor ac arweiniad ynghylch gweithdrefnau, i werthuso effeithiolrwydd DPP ac effaith rhwydweithiau arfer proffesiynol.

Cwricwlwm

- Rhoi cymorth a her i ddatblygu'r cwricwlwm.
- Rhoi cymorth i ddatblygu cwricwlwm sy'n berthnasol, wedi'i bersonoleiddio, sy'n hybu ymgysylltiad â dysgu ac yn adlewyrchu amrywiaeth ethnig, ddiwylliannol ac ieithyddol yr ysgol.
- Rhoi cymorth ac arweiniad mewn perthynas â chynllunio'r cwricwlwm a datblygu cynlluniau gwaith effeithiol, cynlluniau byrdymor a chynllunio ar gyfer asesu ar gyfer dysgu.

Agweddau Disgyblion

- Adnabod asiantaethau eraill sy'n gweithio gyda'r lleoliad a natur a chwmpas eu hymwneud â'r lleoliad.
- Rhoi cymorth i'r ysgol yn ei hymgeision i gasglu safbwyntiau rhieni, plant a phobl ifanc a sut y gweithredir ar y rhain.

- Rhoi arweiniad ynghylch hybu ethos cynhwysol a chynyddu i'r eithaf y cyfleoedd i blant a phobl ifanc elwa o gysylltiadau ag asiantaethau eraill.

Atebolrwydd Mewnol

- Rhoi arweiniad a chymorth i werthuso arfer ar lawr y dosbarth yn ôl meini prawf penodol a thrwyadl fel bod staff yn gwybod ac yn deall nodweddion dysgu ac addysgu o ansawdd uchel, yn adnabod ac yn dadansoddi agweddau ar arfer da a fydd yn trosglwyddo i gyd-destunau dysgu eraill, ac yn darparu adborth adeiladol sy'n sail i wella yn y dyfodol.
- Rhoi arweiniad a chymorth i sefydlu systemau cadarn ar gyfer rheoli perfformiad sy'n defnyddio data ar gyrhaeddiad mewn modd effeithiol.
- Datblygu meini prawf sy'n sbarduno gweithdrefnau ymyrryd ar lefel ysgol-gyfan ac adrannol.

Partneriaeth y Tu Hwnt i'r Ysgol

- Ategu dull amlasiantaeth sy'n seiliedig ar anghenion y gymuned ddysgu leol neu'r teulu o ysgolion.
- Adnabod asiantaethau eraill sy'n gweithio gyda'r lleoliad a natur a chwmpas eu hymwneud â'r lleoliad:
 - gwneud gwaith fel Swyddog Effeithiolrwydd a Pherfformiad Ysgolion gyda grŵp dynodedig o ysgolion cynradd neu uwchradd;
 - datblygu a gweithredu rôl yr AALI o ran codi safonau trwy herio ac adnabod meysydd y mae angen eu datblygu neu ymyrryd ynddynt a rhoi cymorth i ysgolion yn unol â'r Cytundeb Partneriaeth;
 - mynd ati'n barhaus i fonitro perfformiad ysgolion a grwpiau o ddisgyblion ar ran y Cyngor i gyflawni ei rwymedigaethau o ran Gwella Ysgolion;
 - datblygu maes y mae gennych brif gyfrifoldeb amdano;
 - cyfrannu at ddatblygu llwyddiant y Cyngor o ran cyflawni ei flaenoriaethau corfforaethol;
 - cysylltu ag Adrannau eraill a chydweithwyr yn y Cyngor er mwyn cyrraedd nodau corfforaethol y Cyngor; a
 - rheoli a goruchwyllo prosiectau, strategaethau a chyfrifoldebau.

Ffactorau Ychwanegol

- Gall natur y gwaith olygu y bydd deiliad y swydd yn cyflawni gwaith y tu allan i oriau gwaith arferol.
- Gall fod yn ofynnol i ddeiliad y swydd fynychu, o bryd i'w gilydd, gyrsiau hyfforddi, cynadleddau, seminarau neu gyfarfodydd eraill yn ôl y gofyn ar sail ei (h)anghenion hyfforddi ef/hi ei hun ac anghenion y Gwasanaeth.
- Bydd treuliau'n cael eu talu'n unol â'r amodau gwasanaeth lleol.
- Mae'r swydd hon yn amodol ar gynnal gwiriad ar lefel Fanylach gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol mewn perthynas ag unrhyw gofnod troseddol blaenorol.
- Statws Defnyddiwr Car Hanfodol yn unol â pholisï'r Cyngor.

D.S. Mae'r swydd-ddisgrifiad hwn yn nodi dyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd ar yr adeg y cafodd ei lunio. Gall y cyfryw ddyletswyddau a chyfrifoldebau amrywio o bryd i'w gilydd heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb sy'n gysylltiedig. Mae amrywiadau o'r fath yn digwydd yn gyffredin ac ni allant gyfiawnhau ailystyried gradd y swydd.

Manylion yr Unigolyn : Arweinydd Tîm / Arweinydd Systemau

<u>MEINI PRAWF</u>	<u>HANFODOL</u>	<u>Dull Asesu</u>
<u>Cymwysterau</u>	Athro cymwys/Athrawes gymwys Yn gallu dangos tystiolaeth o astudiaeth bellach e.e. ôl-raddedig Cymhwyster Rheoli	
<u>Profiad</u>	Profiad o arwain a rheoli tîm bach yn uniongyrchol Hanes profedig o wella perfformiad ysgol yn sylweddol (mewn swydd arwain mewn ysgol neu fel gweithiwr proffesiynol mewn awdurdod lleol) Wedi gwneud cyfraniad ehangach at ddatblygiadau addysgol sydd wedi cyfrannu at welliant cynaliadwy sylweddol. Hanes profedig o reoli ymyriadau mewn ysgol yn llwyddiannus Yn gallu dangos arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol yn ei rôl bresennol Yn gallu dangos strategaethau a ddefnyddiwyd i sicrhau lefelau uchel o gysondeb yn ansawdd y dysgu a'r addysgu Profiad o ddylanwadu ar syniadau, polisi ac arfer i gael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau dysgu a chyfleoedd bywyd i blant a phobl ifanc Profiad o reoli cyllidebau Profiad fel mentor ac/neu hyfforddwr cymheiriaid effeithiol	
<u>Gwybodaeth</u>	Gwybodaeth a dealltwriaeth am oblygiadau deddfwriaeth a fframweithiau addysgol cyfredol Yn dangos ymrwymiad i'w DPP ei hun Yn wybodus am wella ysgolion sy'n wynebu anawsterau	
<u>Gwerthoedd a daliadau</u>	Yn deall pwysigrwydd canolog y dysgwr ym myd addysg	
<u>Sgiliau/ Priodoleddau</u>	Yn gallu dangos y gallu i weithio'n sensitif ac yn gydweithredol gydag ystod o bartneriaid a rhanddeiliaid i greu newid cadarnhaol Yn dangos sgiliau deallusrwydd emosiynol i ategu dull effeithiol o weithio gydag ysgolion sy'n tangyflawni a phartneriaid Cyfathrebwr medrus, yn ysgrifenedig ac ar lafar Yn gallu i adnabod materion allweddol a rhoi adborth cywir ac ystyrlon ar lafar ac yn ysgrifenedig Yn gallu rheoli amser yn effeithiol, defnyddio menter a blaenoriaethu tasgau Yn fedrus wrth ddadansoddi a gwerthuso dangosyddion perfformiad, a hynny'n gywir ac yn gyflym, a chwilio am esboniadau ar gyfer achosion sylfaenol ac anghysonderau ymddangosol Yn dangos y gallu i ddeall a gweithredu egwyddorion systemau sicrhau ansawdd Yn gallu deall deddfwriaeth cyfle cyfartal a'r materion sy'n	

	gysylltiedig â chyflawniad gwahanol grwpiau o ddisgyblion Sgiliau arwain profedig, gyda'r gallu i fod yn hunanysgogol a hefyd i ysgogi eraill Yn gallu gweithio'n effeithiol fel aelod o dîm a dangos parodrwydd i rannu sgiliau, arbenigedd, gwybodaeth a'r gallu i annog eraill i wneud yr un modd Yn gallu meddwl a gweithio'n arloesol, yn annibynnol ac yn strategol Yn gallu dangos ymrwymiad i effeithiolrwydd ysgolion trwy ddull sy'n agored, sy'n ymwneud â gweithio ar y cyd ac sy'n hyblyg Yn fedrus ac yn gallu dangos profiad llwyddiannus o hyrwyddo mentrau a chynnal a rheoli newid Sgiliau cydweithio cryf gyda'r gallu i ddangos partneriaethau a threfniadau cydweithio llwyddiannus Yn ymrwymedig i iaith, diwylliant a chyd-destun Cymru. Er mwyn sicrhau cydbwysedd ieithyddol bydd rhai o'r swyddi'n cael eu dynodi'n rolau lle mae Cymraeg yn hanfodol. Yn ddibetrus wrth adnabod materion allweddol mewn perthynas â pherfformiad ac yn gallu rheoli ymyriadau gan yr ALI mewn ysgolion gan gynnwys y gallu i ffurfio barnau cywir ynghylch arweinyddiaeth a rheolaeth mewn ysgolion. Y gallu i wahaniaethu rhwng cyfrifoldebau arwain gweithredol a strategol Dealltwriaeth dda am TGCh a ffyrdd o'i chymhwyso Yn gallu gweithio dan bwysau ac o fewn terfynau amser Yn barod i weithio y tu allan i oriau gwaith arferol pan fo hynny'n angenrheidiol Yn gyrru car	
--	---	--

Swydd-ddisgrifiad DRAFFT

TEITL Y SWYDD: RHEOLWR CYLLID A BUSNES

SEFYDLIAD: RSEIS

YN ATEBOL I'R: PRIF SWYDDOG

GRADD: 34,569-42,890 (dangosol)

1. Pwrpas y Swydd

- 1.1 Rhoi cymorth i lunio, datblygu a chyflwyno cynlluniau strategol a chynlluniau busnes priodol o fewn graddfeydd amser perthnasol.
- 1.2 Gweithredu ar ran Prif Swyddog y RSEIS mewn materion sy'n ymwneud â gweinyddu busnes yr adran.
- 1.3 Hyrwyddo a datblygu gwasanaethau o ansawdd uchel, gan sicrhau bodlonrwydd defnyddwyr gwasanaethau a bod cyflawniad a pherfformiadau'n cyrraedd safonau'r Gwasanaeth.
- 1.4 Datblygu a chynnal prosesau cyfathrebu effeithiol ac arloesol gyda'r holl Awdurdodau Lleol, Ysgolion a sefydliadau sy'n bartneriaid e.e. colegau a darparwyr gwasanaethau seiliedig-ar-waith.
- 1.5 Cyfrannu at reolaeth gyffredinol ar y Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion trwy aelodaeth o'r Uwch Dîm.
- 1.6 Gweithredu fel Rheolwr Llinell a Rheolwr Perfformiad ar gyfer yr holl staff cyfieithu a Gweinyddol, a chefnogi cyfleoedd sy'n gysylltiedig â rhaglenni gyrfa ar gyfer y staff yma.
- 1.7 Rheoli a datblygu'r Gwasanaethau Gweinyddol a Chyfieithu a'u staff; gweithredu newidiadau a rheoli gweithgareddau fel a ddynodir trwy unrhyw adolygiad o drefniadau Gweinyddol.

2. Prif Gyfrifoldebau

- 2.1 Bod yn gyfrifol am gynllunio, rheoli, datblygu a'r modd y cyflenwir y gwasanaethau Gweinyddol a chyfieithu i ddiwallu anghenion y gwasanaeth. Bydd hyn yn cynnwys cynnal trefniadau rhwydweithio a chysylltu digonol mewn perthynas â materion gweinyddu ar draws y gwasanaeth, i sicrhau bod trefniadau a safonau gweithio rhanbarthol cydlynol yn cael eu datblygu a'u gweithredu yn ôl y gofyn.
- 2.2 Bod yn gyfrifol am sicrhau ansawdd meysydd cyfrifoldeb a sicrhau bod dogfennau a phrosesau'n cael eu harchwilio a'u gwirio'n ddigonol ar gyfer cyflawni'n effeithiol o fewn y RSEIS.
- 2.3 Cyfranogi mewn grwpiau allweddol i sicrhau bod y busnes yn cyflawni gofynion a blaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, gyda'r blaenoriaethau hynny'n cael eu hadlewyrchu yn y cynlluniau strategol allweddol angenrheidiol yn ôl y gofyn.
- 2.4 Gan fanteisio ar gymorth yr Awdurdod Lletyol, paratoi cyllidebau manwl sy'n dangos y sefyllfa gyllidebol ragamcanol ar gyfer y Gwasanaeth, yn seiliedig ar

gynllun busnes y gwasanaeth, a chysylltu hynny â'r blaenoriaethau a adnabuwyd yn y cynlluniau datblygu busnes.

- 2.5 Paratoi adroddiadau monitro'r gyllideb i'w cyflwyno i Gydbwyllgor a thîm rheoli'r gwasanaeth newydd. Mae hyn yn cynnwys monitro incwm a gwariant trwy gydol y flwyddyn a rhoi cyngor ac argymhellion i sicrhau bod gwariant yn aros o fewn y gyllideb sydd â therfyn arian parod.
- 2.6 Gweithio'n rhagweithiol i adnabod ffyrdd newydd o weithio a herio'r dulliau presennol o ddarparu gwasanaethau er mwyn lleihau'r pwysau o ran costau yn y dyfodol a rhoi cymorth gydag amrywiadau posib.
- 2.7 Datblygu fframwaith rheoli perfformiad ar gyfer RSEIS sy'n cynnwys, ac yn cydymffurfio â gofynion sefydliadol a deddfwriaethol ac yn cynnwys fframwaith dadansoddi a monitro ansawdd cynhwysfawr ym maes Gwella Ysgolion. Cyngori'r Prif Swyddog a'r Gydbwyllgor ynghylch y ffordd orau o ddefnyddio adnoddau er mwyn hwyluso'r gwaith o godi a monitro perfformiad yn ogystal â mesur targedau perfformiad cywir ac amserol.
- 2.8 Goruchwyllo rheolaeth ariannol ar ffyrddau cyllido allanol (a weinyddir gan yr Awdurdod Lletyol) trwy ddarparu gwybodaeth amserol a chywir am grantiau ar gyfer tîm rheoli'r Gwasanaethau a'r Gydbwyllgor a sicrhau bod trefniadau cadarn ar waith sy'n ymlynu wrth reolau a rheoliadau ariannol.
- 2.9 Gweithio gyda'r Awdurdod Lletyol i weithredu'r broses cau cyfrifon ar ddiwedd y flwyddyn yn unol â'r Rheoliadau Ariannol a safonau cyfrifyddu proffesiynol.
- 2.10 Adnabod ac adrodd ar ofynion o ran adnoddau yn y presennol a'r dyfodol.
- 2.11 Cynnal a datblygu rhwydwaith cyfathrebu effeithiol trwy gyfrwng arddangosfeydd, cyhoeddiadau a dogfennau a thrwy ddulliau electronig gan gynnwys y gwefannau a'r cronfeydd data priodol i ddatblygu dull o ymgynghori lle y bo'n angenrheidiol.
- 2.12 Sicrhau bod anghenion y Gwasanaeth Gwella Ysgolion o ran y gweithlu, hyfforddiant a datblygu staff yn cael eu hadnabod a'u cynnwys yn y strategaeth gweithlu ar gyfer y gwasanaeth.
- 2.13 Bod yn gyfrifol am reoli cyfleusterau o fewn y Gwasanaeth gan drafod, rheoli a monitro contractau, prosesau caffael, tendrau a chytundebau i ddarparu gwasanaethau ar gyfer y Gwasanaeth, a sicrhau bod yr adeiladau'n cael eu cynnal a'u cadw a'u gweithredu yn unol â gweithdrefnau argyfwng a gofynion o ran lechyd a Diogelwch. Sicrhau defnydd effeithiol o swyddfeydd trwy gynllun datblygu adeiladau.
- 2.14 Monitro, rheoli ac adolygu'r modd y gweithredir ac y cydymffurfir â pholisïau a gweithdrefnau'r sefydliad i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu yn y modd mwyaf effeithiol, gan ymgorffori arfer da a chydymffurfio â gofynion deddfwriaethol.
- 2.15 Adnabod a rhoi cymorth i ddarparu cyfleoedd hyfforddiant mewn swydd i'r holl staff er mwyn gwella'r modd y darperir gwasanaethau.
- 2.16 Chwarae rhan ganolog yn arweinyddiaeth strategol a gweledigaeth y Gwasanaeth.
- 2.17 Cyngori'r Uwch Dîm Rheoli ynghylch materion sy'n ymwneud â Chyllid, Adeiladau a Materion Staff a darparu cyswllt ag Adnoddau Dynol.
- 2.18 Cydlynw cynigion cynllunio busnes.
- 2.19 Sicrhau y darperir adnoddau TGCh a chymorth TGCh i gwrdd ag anghenion yr adran.

3. Gweledigaeth/Cyd-destun

- 3.1 Mae'r swydd hon wedi'i bwriadu i gyflawni rheolaeth ariannol, rheolaeth fusnes a rheolaeth weinyddol gydlynol i drefnu ac ategu a chyfleu gwybodaeth am gynllunio busnes, rheoli perfformiad a dull effeithiol o ddarparu gwasanaethau o ansawdd o fewn y gwasanaeth.
- 3.2 Bydd y swydd hon yn rheoli staff sy'n gyfrifol am weinyddu, rheoli ansawdd a chynllunio busnes.

4. Cysylltiadau

- 4.1 Y Bwrdd Rhanbarthol, Consortiwm CCAC, darparwyr gwasanaethau, contractwyr, penaethiaid ysgolion a chyrff llywodraethol. Mae asiantaethau allanol eraill yn cynnwys CyngACC a Llywodraeth Cymru.

5. Dimensiynau

- 5.1 Ariannol: I'w gadarnhau
- 5.2 Staffio: I'w gadarnhau
- 5.3 Ystadegau: I'w gadarnhau

6. Rhychwant rheolaeth

I'w gadarnhau

Manylion yr Unigolyn : Rheolwr Cyllid a Busnes

Meini Prawf	Hanfodol	Dymunol	Dull Asesu
Addysg a Chymwysterau.	Wedi'ch addysgu i safon gradd neu safon gyfwerth – Cyfrifydd CCAB cymwysedig (neu gyfwerth)	Cymhwyster NVQ lefel 4 o leiaf (yn ddelfrydol AAT)	
	Yn meddu ar radd/ cymhwyster proffesiynol mewn disgyblaeth sy'n gysylltiedig â busnes, ynghyd â chymhwyster rheoli priodol.		
Profiad Perthnasol.	Profiad ariannol strategol a chymhleth sylweddol mewn disgyblaeth sy'n ymwneud â Chyllid ac/neu Fusnes.	Gwybodaeth a dealltwriaeth am, a phrofiad o faterion sy'n gysylltiedig ag Addysg	
Gwybodaeth a Sgiliau sy'n gysylltiedig â'r Swydd	Sgiliau rheoli perfformiad effeithiol a sgiliau rhyngbersonol ardderchog	Mae'r gallu i weithredu trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg yn hynod ddymunol.	
	Gwybodaeth, sgiliau a gallu mewn perthynas â rheoli Cyllidebau a Busnes, ynghyd â sgiliau effeithiol mewn cyflwyno, ysgrifennu a llunio adroddiadau		
	Y gallu i ddylanwadu ar agwedd a safbwyntiau pobl eraill i gael cytundeb, gan ddefnyddio sgiliau gweithredol mewn cydweithredu, darbwyllo, dylanwadu a thrafod telerau i ddatblygu syniadau a chynigion sy'n gysylltiedig â rheoli, darparu gwasanaethau a gweithgareddau sicrhau ansawdd		
	Y gallu i ddehongli data er mwyn dod i gasgliadau a gwneud argymhellion priodol.		
	Bydd gan ddeiliad y swydd brofiad o oruchwylio staff a dyrannu llwythi gwaith yn effeithiol		
	Sgiliau TGCh ardderchog		
Rhinweddau Personol.	Bri, cymhelliant ac egni personol, yn ogystal â bod yn hunanysgogol a bod â'r gallu i reoli a chyfarwyddo'ch llwyth gwaith eich hun gyda chyn lleied â phosib o ymyrraeth.		
	Ymrwymiad i gyfle cyfartal a pholisïau a gweithdrefnau corfforaethol, cyfarwyddiaethol ac adrannol.		

Swydd-ddisgrifiad DRAFFT

TEITL Y SWYDD: CYFIEITHYDD

SEFYDLIAD: RSEIS

GRADD: 23,583- 29,470 (DANGOSOL)

Pwrpas Cyffredinol y Swydd

Cyfieithu pob math o ddogfennau amrywiol i'r Saesneg a'r Gymraeg. Darparu gwasanaeth cyfieithu-ar-y-pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg mewn cyfarfodydd ledled rhanbarth Gogledd Cymru.

Prif Gyfrifoldebau / Tasgau Allweddol

1. Darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd ledled rhanbarth Gogledd Cymru. Gwasanaeth o'r Gymraeg i'r Saesneg yn unig yw hwn.
2. Darparu'r gwasanaeth uchod fel sy'n ofynnol gan y RSEIS os bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal ar y cyd â sefydliadau eraill.
3. Sicrhau bod yr offer cyfieithu'n gweithio'n iawn ar bob adeg.
4. Cyfieithu amrywiaeth o ddogfennau i'r Saesneg a'r Gymraeg.
5. Comisiynu gwaith gan gyfieithwyr allanol (unigolion a chwmnïau), yn ôl y gofyn.
6. Goruchwyllo ansawdd gwaith cyfieithu gan sefydliadau allanol.
7. Datblygu'r gwasanaeth a'r modd y caiff ei ddarparu trwy gynllunio busnes, gosod targedau, arfarniadau, adnabod anghenion hyfforddi, meincnodi a pharatoi, cyhoeddi a mynd ati'n rheolaidd i adolygu data priodol ar berfformiad.
8. Datblygu'r gwasanaeth trwy drefniadau gweithio ar y cyd a threfniadau cydweithredol gyda chyrff eraill yn y sector cyhoeddus a, lle y bo'n briodol, cyrff yn y sector preifat.
9. Ymgynghori ag asiantaethau mewnol ac allanol i lunio gwasanaeth cyfieithu effeithiol sy'n gysylltiedig â'r Polisi Iaith Gymraeg.

Gofynion o fewn y Swydd

Gofynion corfforol

- Cario offer cyfieithu trwm ac anhylaw o bryd i'w gilydd i'w defnyddio mewn cyfarfodydd y tu allan i brif bencadlys y Cyngor.
- Y gallu i weithio offer cyfieithu technegol a recordio cyfarfodydd a datrys unrhyw anawsterau technegol.

Gofynion meddyliol

- Cyfnodau parhaus o ganolbwyntio'n ddwys dan bwysau er mwyn darparu gwasanaeth cyfieithu-ar-y-pryd cywir ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau.
- Gweithio dan bwysau i gwrdd â therfynau amser cyfyng a chwblhau tasgau'n gyflym ac yn gywir ynghyd â'r gallu i flaenoriaethu yn ôl y gofyn.

Gofynion emosiynol

- Cyfieithu dan amodau anodd a sensitif ar gyfer cleientiaid agored i niwed e.e. mewn cynadleddau achos amddiffyn plant.

Trefniadau Gweithio

Yr wythnos waith:

- [I'w gadarnhau] awr yr wythnos (Llun – Gwener).

Lleoliad:

- [I'w gadarnhau] Fodd bynnag, gall fod yn ofynnol, neu gellir caniatáu i chi weithio unrhyw le yn ardal y Cyngor, yn barhaol neu dros dro, heb amser na thâl ychwanegol am wneud hynny.

Gofyniad o ran Dwyieithrwydd (Cymraeg a Saesneg):

- HANFODOL

Hyblygrwydd

Tynnir eich sylw at y ffaith bod rhai dyletswyddau a chyfrifoldebau arbennig, mewn rhai achosion, yn anodd i'w diffinio'n fanwl ac y gallant amrywio o bryd i'w gilydd heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldebau. Yn ogystal â hynny, mae'n ofynnol bod yr holl gyflogeion yn derbyn lefelau o hyblygrwydd mewn dyletswyddau a chyfrifoldebau a'u bod, pan fo hynny'n angenrheidiol, yn ymgynwngid o fewn y sefydliad er mwyn cwrdd ag anghenion a galwadau newidiol y gwasanaeth. Bydd gofyniad o'r fath yn galluogi arbenigedd penodol deiliad y swydd i gael ei ddatblygu a'i gynyddu i'r eithaf er budd y cyflogwr a'r cyflogai fel ei gilydd.

Manylion yr Unigolyn: Cyfieithydd

Meini Prawf	Hanfodol:	Dymunol
Addysg a Hyfforddiant	Gradd mewn Cymraeg neu unrhyw bwnc perthnasol arall.	Aelodaeth o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru.
Profiad	Sgiliau profedig mewn cyfieithu adroddiadau a dogfennau	
Rhinweddau Allweddol	Y gallu i gyfathrebu/ ymgysylltu â swyddogion ac aelodau. Ymrwymiad i ddwyieithrwydd llafar ac ysgrifenedig. Dealltwriaeth am swyddogaeth a phwysigrwydd dwyieithrwydd yn nhrefniadau gweinyddu a gwleidyddiaeth llywodraeth leol. Gwybodaeth am weithdrefnau'r Cyngor Sir yn gyffredinol – yn benodol y darpariaethau i warchod dwyieithrwydd. Y gallu i ymateb yn hyblyg ac yn greadigol i unrhyw amgylchiadau newydd a allai godi yn y dyfodol.	
Gwybodaeth a sgiliau sy'n benodol i'r swydd	Parodrwydd i geisio cyngor yng nghydestun materion cyfreithiol a all godi ac i gael eglurhad o unrhyw faterion ariannol achlysurol, ond yn enwedig er mwyn cael cymorth technegol Y gallu i ymdrin â llwyth gwaith ysgrifenedig sylweddol a darparu cyfieithiadau'n brydlon i gwrdd â therfynau amser cyfyng ac i gwblhau tasgau trwy flaenoriaethu. Sgiliau cyfathrebu da – yn ysgrifenedig ac ar lafar. Dealltwriaeth am yr angen i barchu cyfrinachedd wrth ymdrin â gwybodaeth sensitif. Sgiliau datrys problemau da. Y gallu i ganolbwyntio am gyfnodau maith dan bwysau sylweddol. Y gallu i gydosod gwybodaeth ystadegol fel tystiolaeth o gydymffurfio â dangosyddion perfformiad allweddol.	Sylw i fanylder, cywirdeb ac ansawdd Y gallu i weithio'n unol â rhaglen waith sydd â therfynau amser/ dyddiadau cau cyfyng. Y gallu i flaenoriaethu gwaith. Y gallu i ymdrin â staff a defnyddwyr gwasanaethau mewn modd cwrtais, proffesiynol ac effeithiol.
Priodoleddau Personol	Trwydded yrru ddilys a mynediad at gludiant. Y gallu i weithio gyda'r nos	

Swydd-ddisgrifiad DRAFFT

TEITL Y SWYDD:	SWYDDOG CEFNOGI GWEINYDDOL
SEFYDLIAD:	RSEIS
YN ATEBOL I'R:	RHEOLWR CYLLID A BUSNES
GRADD:	17,213-22,094 (DANGOSOL)

PWRPAS Y SWYDD

Dan gyfarwyddyd/arweiniad uwch aelodau o staff, a chan ddefnyddio amrywiaeth o becynnau TGCh, rhoi cymorth clerigol/gweinyddol cyffredinol i'r RSEIS.

PRIF GYFRIFOLDEBAU

1. Cyflawni dyletswyddau derbynfa, gan ateb ymholiadau cyffredinol dros y ffôn ac wyneb yn wyneb.
2. Rhoi cymorth clerigol/gweinyddol cyffredinol e.e. llungopïo, ffeilio, ffacsio, cwblhau ffurflenni safonol, ymateb i ohebiaeth reolaidd oddi wrth Awdurdodau Lleol, Ysgolion, Llywodraethwyr, Cyngorwyr, Rhieni/Gwarcheidwaid a sefydliadau eraill.
3. Dilysu a chynnal cofnodion/systemau rheoli gwybodaeth - rhai papur a chyfrifiadurol.
4. Defnyddio pecynnau TGCh (e.e. Outlook, Word, Taenlenni Excel, Cronfeydd Data Access, Y Rhyngrwyd, SIMS, ONE) a chyflwyno rhestrau/gwybodaeth/data yn ôl y gofyn.
5. Trefnu cyfarfodydd a chymryd nodiadau mewn cyfarfodydd.
6. Cymryd rhan mewn hyfforddiant a gweithgareddau dysgu eraill a gweithgareddau datblygu perfformiad yn ôl y gofyn.
7. Cyflenwi'n briodol ar ran cydweithwyr ar yr un radd (neu radd uwch) yn ystod cyfnodau o wyliau, salwch a digwyddiadau eraill nas rhagwelwyd.
8. Cyflawni dyletswyddau perthnasol eraill ar gyfarwyddyd y Rheolwr Llinell o fewn cylch gorchwyl deiliad y swydd.

Manylion yr Unigolyn: Swyddog Cefnogi Gweinyddol RSEIS

MEINI PRAWF	HANFODOL	DYMUNOL	DULL ASESU
ADDYSG A CHYMWYSTERAU	NVQ lefel 3 neu gymhwyster cyfwerth	Cymhwyster cydnabyddedig mewn busnes neu weinyddu	Ffurflen Gais
	Cymhwyster cydnabyddedig mewn TG ac iddo elfen prosesu geiriau	Cymhwyster cydnabyddedig mewn prosesu geiriau a theipio	
PROFIAD	Peth profiad o weinyddu mewn swyddfa brysur	Defnyddio system rheoli cynnwys i gynnal gwefan	Ffurflen Gais
	Profiad o drefnu cyfarfodydd a seminarau	Profiad o brosesu archebion ac anfonebau	
		Profiad o gymryd cofnodion	
GWYBODAETH A SGILIAU SY’N GYSYLLTIEDIG Â’R SWYDD	Defnyddio pecynnau TGCh yn effeithiol.	Ymwybyddiaeth o’r Ddeddf Diogelu Data a’r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth	Ffurflen Gais Ymarfer Cyfweliad
	Defnyddio offer/adnoddau perthnasol.		
	Sgiliau Cyfathrebu Da		
	Sgiliau bysellfwrdd da		
	Lefel uchel o gymhwysedd mewn prosesu geiriau (cyflymder a chywirdeb)		
	Defnydd helaeth o gymwysiadau Microsoft	defnydd dyfeisgar o daenlenni a meddalwedd cyflwyniadau	
Y gallu i fod yn greadigol wrth gynhyrchu a chyflwyno dogfennau	Dealltwriaeth am bolisïau, gweithdrefnau a safonau’r Cyngor		
RHINWEDDAU PERSONOL	Sgiliau cyfathrebu ardderchog gyda’r gallu i gyfathrebu’n effeithiol gyda phobl ar bob lefel o fewn y Cyngor		Ffurflen Gais Cyfweliad
	Y gallu i ymdrin yn dringar ac yn ddiplomyddol â phobl ar bob lefel		
	Y gallu i weithio o’ch pen a’ch pastwn eich hun		
	Yn hynod drefnus		
	Y gallu i weithio dan bwysau o fewn terfynau amser tynn		
	Yn frwdfrydig ac yn gydwybodol gan wynebu heriau ag agwedd gadarnhaol		

MEINI PRAWF	HANFODOL	DYMUNOL	DULL ASESU
	Y gallu i gadw cyfrinachedd ar bob adeg		
GOFYNION ERAILL	Gweithio'n adeiladol fel rhan o dîm, gan ddeall rolau a chyfrifoldebau a'ch lle chi eich hun o fewn y rhain. Empathi â'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru	Hyder i gyfathrebu'n rhugl yn Gymraeg, ar lafar ac yn ysgrifenedig	Ffurflen Gais Cyfweliad



Tuag at Ragoriaeth
Towards Excellence

Penawdau Cynllun Busnes 2015-2016

V5.0

CEFNOGI RHAGLEN GENEDLAETHOL HYC

Blaenoriaeth: Cefnogi: - Ysgolion Her Cymru: - Ysgol Uwchradd Caergybi - Ysgol Uwchradd Treffynnon - Ysgol Bryn Alyn - Ysgol Clywedog - Ysgol Rhosnesni - Sicrhau gwelliant tymor byr - Sicrhau deilliannau cynaliadwy yn y tymor hir - Meithrin capasiti mewnol yr ysgolion fel eu bod yn ysgolion hunan-wella	Deilliannau: - Gwelliant ym mherfformiad y pum ysgol - tymor byr: ysgolion yn cyrraedd y targedau yn y prif ddangosyddion fel y nodir yn y Cynlluniau Gwella Unigol - tymor hir: targedau heriol yn cael eu gosod yn seiliedig ar waelodlin 2014 - Gwelliant mewn arweinyddiaeth ar bob lefel - Capasiti mewnol yr ysgolion wedi cynyddu ac etifeddiaeth yn yr ysgol a thu hwnt i sicrhau gwelliant ar ddiwedd y rhaglen - Dim un o'r ysgolion mewn categori statudol Estyn - Pob ysgol mewn categori MELYN neu well
Prif weithgareddau: - Cydweithio ag YH-YHC a'r ysgolion i weithredu Cynlluniau Gwella Unigol yr ysgolion er mwyn sicrhau gwelliant - Cydweithio ag YH-YHC i froceru cefnogaeth o ansawdd gan 'Bartneriaid' - Cydweithio â LIC a'r ALL i sicrhau bod y prosiect yn cael ei weithredu'n effeithiol ac yn effeithlon i sicrhau gwelliant mewn deilliannau - Rheoli cyllideb YHC yn effeithiol gan sicrhau llif ariannol priodol rhwng LIC, GwE, yr AauLI ac ysgolion	Pa bryd? Pwy? - TRh GwE, Swyddog YHC ac YH-YHC - hyd at haf 2016 - Monitro adroddiadau'r Bwrdd Gwelliannau Carlam / adroddiadau YH - misol - TRh GwE, Swyddog YHC ac YH-YHC - hyd at haf 2016 - Monitro gwaith 'Partneriaeth' - tymhorol - TRh GwE, Swyddog YHC ac YH-YHC - hyd at haf 2016 - Rheolwr Busnes a Swyddog YHC
Adnoddau: - Grant YHC - grant 2014-15 (£1,521,500) (hyd at haf 2015) gan LIC - Grant YHC - grant 2015-16 (i'w gadarnhau) (hyd at haf 2016) gan LIC - Swyddog YHC (cydlynu gwaith yr YH-YHC)	Cerrig Milltir allweddol 2015-18: 2015/16: - Canlyniadau yn dangos cynnydd sylweddol mewn cymhariaeth â chanlyniadau 2014 - Bodloni targedau cyrhaeddiad yn y prif ddangosyddion (CA3 a C4), ynghyd â phresenoldeb a gwaharddiadau (fel y nodir yn y Cynlluniau Gweithredu Unigol) - Gwelliant mewn ansawdd arweinyddiaeth ar bob lefel - Gwelliant ym mherfformiad disgyblion hPYD 2016/17: - Canlyniadau yn dangos cynnydd mewn cymhariaeth â chanlyniadau 2016 - Dim un o'r pum ysgol mewn categori statudol ESTYN 2017/18: - Canlyniadau yn dangos cynnydd mewn cymhariaeth â chanlyniadau 2017 - Pob ysgol mewn categori MELYN neu well

CEFNOGI TGAU / BAC / PISA

Blaenoriaeth: Cefnogi: - TGAU - PISA - Bagloriaeth Cymru - Gwella perfformiad mewn Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth TGAU (manylebau presennol) – 2015 a 2016 - Sicrhau bod adrannau pynciau craidd wedi paratoi'n briodol ar gyfer manylebau TGAU newydd mis Medi 2015 (ar gyfer Cymraeg, Saesneg a Mathemateg) a mis Medi 2016 (Gwyddoniaeth) - Sicrhau bod ysgolion wedi paratoi'n briodol ar gyfer cyflwyno 'Bagloriaeth Cymru' diwygiedig o fis Medi 2015 - Dylanwadu ar ddulliau addysgu athrawon i ymateb i agenda 'PISA'	Deilliannau: - Cyrhaeddiad (TGAU) y pynciau craidd yn codi: - Cymraeg: o 72.7% yn 2014 i 79%+ erbyn 2018 - Saesneg: o 67.8% yn 2014 i 75%+ erbyn 2018 - Mathemateg: o 63.2% yn 2014 i 70%+ erbyn 2018 - Gwyddoniaeth: 72%+ erbyn 2018 - Pob ysgol wedi derbyn hyfforddiant / mynychu 'gweithdai TGAU' ar gyfer y pynciau craidd - Cynlluniau gwaith CA4 wedi'u haddasu i ymateb i ofynion manylebau TGAU newydd - Cynlluniau gwaith CA3 ac arddulliau addysgu wedi'u haddasu i ymateb i agenda 'PISA' ac i baratoi disgyblion ar gyfer CA4 100% o ddisgyblion CA4 yn dilyn y Fagloriaeth ar lefel Genedlaethol neu Sylfaen - Ysgolion yn fwy hyderus wrth gyflwyno profiadau o ansawdd 100% o ddisgyblion ôl-16 mewn ysgolion yn dilyn y Fagloriaeth ar L1 (Sylfaen), L2 (Cenedlaethol) neu L3 (Uwch)
Prif weithgareddau: - Ysgolion Arweiniol yn parhau i ddatblygu adnoddau ac yn cynnal hyfforddiant / gweithdai - Targedu cymorth i ysgolion unigol/clystyrau o ysgolion - Deunyddiau/adnoddau ar gael i ysgolion ar safwe GwE - Penaethiaid pynciau craidd yn cyfarfod yn rheolaidd (fesul ALI) - Ymarferwyr Arweiniol BAC yn parhau i gefnogi ysgolion - Cydlynwyr BAC yr ysgolion yn cyfarfod yn rheolaidd - Cyfarfodydd BAC rhanbarthol yn parhau - Darparu cymorth i Uwch Arweinwyr ysgolion i reoli newidiadau cwricwlaidd	Pa bryd? Pwy? - GwE ac Ysgolion Arweiniol: hyd at haf 2016 - GwE ac Ysgolion Arweiniol: hyd at haf 2016 - GwE ac Ysgolion Arweiniol: hyd at haf 2016 - GwE ac ysgolion : parhaus (GwE yn hwyluso'r cyfarfodydd) - GwE ac Ymarferwyr Arweiniol: hyd at haf 2015 - GwE ac ysgolion : parhaus (GwE yn hwyluso'r cyfarfodydd) - GwE ac ysgolion : parhaus (GwE yn hwyluso'r cyfarfodydd) - GwE ac ysgolion : parhaus (GwE yn hwyluso'r cyfarfodydd) - UYH – 2015-2016 - YH yn monitro yn flynyddol yn ystod Ymweliad 3
Adnoddau: - Grant 'Prosiect TGAU 2015 / PISA' (grant hyd at haf 2016) gan LIC (£1,264,400) - Grant Bagloriaeth (i'w gadarnhau) gan LIC	Cerrig Milltir allweddol 2015-18: 2015/16: - Targedau cyflawniad yn y pynciau craidd wedi'u bodloni - Pob ysgol yn cyflwyno'r TGAU newydd mewn Cymraeg, Saesneg a Mathemateg - Pob disgybl B10 yn dilyn 'Bagloriaeth Cymru' - O leiaf 56% disgyblion ôl-16 yn dilyn 'Bagloriaeth Cymru' 2016/17: - Targedau cyflawniad yn y pynciau craidd wedi'u cyrraedd - Pob ysgol yn cyflwyno'r TGAU newydd mewn Gwyddoniaeth - Pob disgybl CA4 yn dilyn 'Bagloriaeth Cymru' - O leiaf 70% disgyblion ôl-16 yn dilyn 'Bagloriaeth Cymru' - Canlyniadau TGAU ar gyfer Cymraeg, Saesneg a Mathemateg ynghyd â'r Fagloriaeth - Dangosyddion perfformiad diwygiedig 2017/18: - Targedau cyflawniad yn y pynciau craidd wedi'u bodloni - Canlyniadau TGAU ar gyfer Gwyddoniaeth - Perfformiad Bagloriaeth yn Ddangosydd Perfformiad - O leiaf 80% disgyblion ôl-16 yn dilyn 'Bagloriaeth Cymru'

LLEIHAIU EFFAITH TLODI

Blaenoriaeth Sicrhau bod pob ysgol yn gosod ffocws priodol ar leihau effaith tloidi ar gyrhaeddiad addysgol a bod disgyblion hPYD yn cyflawni eu potensial	Deilliannau • Bydd strategaeth GwE ar gyfer lleihau effaith tloidi wedi'i chreu ar y cyd ac wedi'i rhannu â'r holl randdeiliaid • Trwy hunanarfarnu effeithiol a chynllunio gwelliant sy'n ymwneud yn benodol â pherfformiad disgyblion hPYD, bydd pob ysgol yn rhoi blaenoriaeth uchel i godi cyrhaeddiad y grŵp yma o ddysgwyr • Bydd ymwneud â digwyddiadau a drefnir gan GwE sy'n arddangos arfer dda, a'r gweithgarwch dilynol yn yr ysgol, yn arwain at fwy o atebolrwydd a gwell darpariaeth • Gwell deilliannau a phresenoldeb, yn unol â thargedau rhanbarthol a chenedlaethol, yn arwain at leihau'r bwlch perfformiad rhwng disgyblion hPYD (gan gynnwys plant sy'n derbyn gofal) a dysgwyr heb hawl i Brydau Ysgol am Ddim • Mae bob YH yn meddu ar sgiliau perthnasol ac effeithiol i gefnogi a herio ysgolion i ddatblygu a gweithredu CDY sy'n gwneud y defnydd gorau o gyllid GAD ac a gaiff effaith gadarnhaol ar berfformiad
Prif weithgareddau: • Datblygu strategaeth ranbarthol ar y cyd â rhanddeiliaid allweddol a fydd yn cynnwys targedau gwaelodol clir ar gyfer darpariaeth a pherfformiad • Bydd Ymgynghorwyr Her yn monitro ac yn herio ysgolion i sicrhau eu bod yn gosod targedau priodol ar gyfer eu disgyblion hPYD a'r rhai sy'n Derbyn Gofal, a'u bod yn defnyddio eu cyllid GAD yn effeithiol er sicrhau bod cefnogaeth briodol i'r dysgwyr hynny gyflawni eu potensial yn llawn. • Datblygu arlwy o hyfforddiant effeithiol ar gyfer staff ysgol gyfan, sydd â hanes o effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad Plant sy'n Derbyn Gofal a dysgwyr hPYD bregus eraill • Cymorth gan ysgolion cyd-arweiniol. Bydd hyn yn rhan o raglen gymorth ysgol>ysgol ehangach GwE. Adnabyddir yr ysgolion hynny trwy eu safonau a'u harferion rhagorol mewn perthynas â disgyblion sy'n derbyn gofal a disgyblion hPYD. • Cynhadledd genedlaethol i arddangos arfer effeithiol sydd wedi arwain at gau'r bwlch	Pa bryd? Pwy? Ebrill 2015 – UYH Llythrennedd, Rhifedd a Chau'r Bwlch i arwain Yn ystod ymweliadau monitro tymhorol 2015/16 – pob YH, dan oruchwyliaeth UYH y tri hwb. Yr UYH Llythrennedd, Rhifedd a Chau'r Bwlch sydd â'r cyfrifoldeb rhanbarthol o fis Ebrill 2015 ymlaen - UYH Llythrennedd, Rhifedd a Chau'r Bwlch i arwain gyda chydlynnydd Plant sy'n Derbyn Gofal rhanbarthol wedi'i secondio o fis Ebrill 2015 ymlaen – Pennaeth Cefnogaeth a Broceru i arwain 2 Mehefin 2015 – Cynhadledd Ysgol>Ysgol yn Venue Cymru, Llandudno
Adnoddau • Ariennir Ymgynghorwyr Her ac Uwch Ymgynghorydd Her sydd â chyfrifoldeb am leihau effaith tloidi yn y rhanbarth gan gyllideb graidd GwE • Rhaglen ysgolion cyd-arweiniol • Cyllid Plant sy'n Derbyn Gofal a gedwir yn rhanbarthol • Anogir ysgolion i ddefnyddio eu cyllid GAD ar gyfer y gweithgareddau uchod	Cerrig Milltir allweddol 2015-18 Gostyngiad parhaus yn y bwlch cyrhaeddiad o flwyddyn i flwyddyn, yn unol â thargedau rhanbarthol a chenedlaethol 2015/16 Datblygu strategaeth ranbarthol, ei rhannu a'i gweithredu Adnabod cohort cyntaf o 8 ysgol cyd-arweiniol o ran arfer ragorol ym maes 'cau'r bwlch'. Y rhain yn mynd ati i gefnogi ysgolion eraill. Uwchsgilio YH GwE. Mae gan gynlluniau pob ysgol ffocws miniog ar godi cyrhaeddiad dysgwyr hPYD 2016/17 2 gohort o ysgolion cyd-arweiniol yn cefnogi ysgolion eraill; rhannu arfer effeithiol ar draws y rhanbarth Effaith gwell CDY yn amlwg mewn gwell deilliannau 2017/2018 3 cohort o ysgolion cyd-arweiniol yn weithredol Adolygu a diwygio'r strategaeth ranbarthol

GWELLA LLYTHRENNEDD

Blaenoriaeth Gwella addysgu, dysgu ac arweinyddiaeth ym maes llythrennedd yn yr holl ysgolion, yn unol ag Amcan Strategol 4 Cymwys am Oes	Deilliannau - Hunanarfarnu effeithiol a chynllunio gwelliant sy'n ymwneud yn benodol â llythrennedd - Bydd ymwneud arweinwyr llythrennedd â hyfforddiant GwE a digwyddiadau arddangos arfer dda yn arwain at weithgarwch dilynol yn yr ysgol, mwy o atebolrwydd a gwell darpariaeth - Safonau llythrennedd da ar draws y cwricwlwm yn amlwg yng ngwaith disgyblion - Gwell deilliannau ar ddiwedd CA2 a L2+, yn unol â thargedau rhanbarthol a chenedlaethol ac a nodwyd yn Strategaeth Llythrennedd a Rhifedd GwE - Gwell deilliannau yn y Prawf Darllen Cenedlaethol (Cymraeg a Saesneg), yn enwedig yn y dangosydd 115+, ac ar gyfer disgyblion hPYD (wedi'i nodi yn Strategaeth Llythrennedd a Rhifedd GwE). - Mae bob YH yn meddu ar sgiliau perthnasol ac effeithiol i herio, monitro a broceru cefnogaeth ar gyfer y deilliannau uchod.
Prif weithgareddau: - Parhau i weithredu Strategaeth Llythrennedd ranbarthol GwE a'i hadolygu a'i diwygio yn rheolaidd. Mae ffocws cryf ar wella perfformiad pob dysgwr ym mhob cyfnod allweddol - Bydd Ymgynghorwyr Her yn asesu anghenion llythrennedd penodol ysgolion categori coch a melyngoch ac yn broceru cefnogaeth bwrpasol i fynd i'r afael â'r meysydd hyn, fel yr amlinellir yng Nghynllun Datblygu Ysgol yr ysgolion unigol. - Cyflwyno hyfforddiant sydd wedi'i dargedu at arweinwyr llythrennedd. Cefnogir sgiliau arwain generig fel rhan o'r rhaglen datblygu arweinyddiaeth. Bydd hyfforddiant llythrennedd arbenigol ar gael gan dîm o ymarferwyr rhagorol sydd ar secondiad. - Cyflwyno rhaglen hyfforddi a mentora arweinwyr llythrennedd ac athrawon unigol. Bydd hwn yn canolbwyntio ar ysgolion targed (categori Coch a Melyngoch) yn unig, gan flaenoriaethu'r rhai hynny sydd â'r angen mwyaf. Cyflwynir hyn gan dîm o ymarferwyr rhagorol sydd ar secondiad. - Cymorth gan ysgolion cyd-arweiniol. Bydd hyn yn rhan o raglen gymorth ysgol>ysgol ehangach GwE. Adnabyddir yr ysgolion hynny trwy eu safonau a'u harferion rhagorol ym maes arwain llythrennedd ac addysgeg. Mae pum maes allweddol wedi'i nodi yn y lle cyntaf (gweler y cynllun meithrin capasiti FFLIRh sydd ar wahân)	Pa bryd? Pwy? parhaus er mis Medi 2014 – dan arweiniad UYH Llythrennedd, Rhifedd a Chau'r Bwlch. Grŵp strategol Llythrennedd a Rhifedd rhanbarthol yn monitro ac yn adolygu yn dymhorol parhaus er mis Ebrill 2015 – yr holl YH, dan oruchwyliaeth UYH y tri hwb. Yr UYH Llythrennedd, Rhifedd a Chau'r Bwlch sydd â'r cyfrifoldeb rhanbarthol. parhaus – dan arweiniad UYH Llythrennedd, Rhifedd a Chau'r Bwlch, sy'n adrodd yn ôl i'r Pennaeth Cefnogaeth a Broceru. Aelodau o UDA GwE a Phartneriaid Cynorthwyol Llythrennedd GwE yn cyflwyno hyfforddiant parhaus – dan arweiniad UYH Llythrennedd, Rhifedd a Chau'r Bwlch, sy'n adrodd yn ôl i'r Pennaeth Cefnogaeth a Broceru. Aelodau o UDA GwE a Phartneriaid Cynorthwyol Llythrennedd GwE yn cyflwyno hyfforddiant o fis Ebrill 2015 ymlaen – dan arweiniad Pennaeth Cefnogaeth a Broceru ac UYH Llythrennedd, Rhifedd a Chau'r Bwlch
Adnoddau - Cyllid ar gyfer yr hyfforddiant arweinyddiaeth - lleoliad a darparwyr - GGA yn ariannu'r ymarferwyr sydd ar secondiad (Partneriaid Cynorthwyol) – i'w bennu wedi'r cytundeb terfynol ar y grant - Rhaglen Ysgolion Cyd-arweiniol – wedi'i ariannu gan y grant meithrin capasiti llythrennedd a rhifedd ychwanegol ~£250k	Cerrig Milltir allweddol 2015-18 Gwelliannau parhaus mewn deilliannau perfformiad o flwyddyn i flwyddyn, yn unol â thargedau rhanbarthol a chenedlaethol 2015/16 Hyfforddi cohort cyntaf o arweinwyr canol (120) ar draws pob cyfnod a nodi'r effaith. Partneriaid Cynorthwyol i gefnogi 40% o ysgolion. Adnabod 19 ysgol cyd-arweiniol a'r rhain yn weithredol 2016/17 Hyfforddi cohort cyntaf o ddarpar arweinwyr canol a cohort arall o arweinwyr canol a nodi'r effaith. Partneriaid Cynorthwyol i gefnogi 25% o ysgolion. Adnabod 30 ysgol cyd-arweiniol 2017/2018

	Hyfforddi ail gohort o ddarpar arweinwyr canol a nodi'r effaith. Partneriaid Cynorthwyol i gefnogi 15% o ysgolion. Adnabod 45 ysgol cyd-arweiniol a'r rhain yn weithredol
--	---

GWELLA RHIFEDD

Blaenoriaeth Gwella addysgu, dysgu ac arweinyddiaeth arweinwyr rhifedd ym mhob ysgol, yn unol ag Amcan Strategol 4 Cymwys am Oes	Deilliannau - Hunanarfarnu effeithiol a chynllunio gwelliant sy'n ymwneud yn benodol â rhifedd - Bydd ymwneud arweinwyr rhifedd â hyfforddiant GwE a digwyddiadau arddangos arfer dda yn arwain at weithgarwch dilynol yn yr ysgol, mwy o atebolrwydd a gwell darpariaeth - Safonau rhifedd da ar draws y cwricwlwm yn amlwg yng ngwaith disgyblion - Gwell deilliannau ar ddiwedd CA2 a L2+, yn unol â thargedau rhanbarthol a chenedlaethol - Gwell deilliannau yn y Prawf Rhifedd Cenedlaethol (Gweithdrefnol ac Ymresymu), yn enwedig yn y dangosydd 115+, ac ar gyfer disgyblion hPYD (wedi'i nodi yn Strategaeth Llythrennedd a Rhifedd GwE). - Mae bob YH yn meddu ar sgiliau perthnasol ac effeithiol i herio, monitro a broceru cefnogaeth ar gyfer y deilliannau uchod
Prif weithgareddau: - Parhau i weithredu Strategaeth Rhifedd ranbarthol GwE a'i hadolygu a'i diwygio yn rheolaidd. Mae ffocws cryf ar wella perfformiad pob dysgwr ym mhob cyfnod allweddol - Bydd Ymgynghorwyr Her yn asesu anghenion rhifedd penodol ysgolion categori coch a melyngoch ac yn broceru cefnogaeth bwrpasol i fynd i'r afael â'r meysydd hyn, fel yr amlinellir yng Nghynllun Datblygu Ysgol yr ysgolion unigol. - Cyflwyno hyfforddiant sydd wedi'i dargedu at arweinwyr rhifedd. Cefnogir sgiliau arwain generig fel rhan o'r rhaglen datblygu arweinyddiaeth. Bydd hyfforddiant rhifedd arbenigol ar gael gan dîm o ymarferwyr rhagorol sydd ar secondiad. - Cyflwyno rhaglen hyfforddi a mentora arweinwyr rhifedd ac athrawon unigol. Bydd hwn yn canolbwyntio ar ysgolion targed (categori Coch a Melyngoch) yn unig, gan flaenoriaethu'r rhai hynny sydd â'r angen mwyaf. Cyflwynir hyn gan dîm o ymarferwyr rhagorol sydd ar secondiad. - Cymorth gan ysgolion cyd-arweiniol. Bydd hyn yn rhan o raglen gymorth ysgol>ysgol ehangach GwE. Adnabyddir yr ysgolion hynny trwy eu safonau a'u harferion rhagorol ym maes arwain rhifedd ac addysgeg. Mae pum maes allweddol wedi'i nodi yn y lle cyntaf (gweler y cynllun meithrin capasiti FfLIRh sydd ar wahân).	Pa bryd? Pwy? parhaus er mis Medi 2014 – dan arweiniad UYH Llythrennedd, Rhifedd a Chau'r Bwlch. Grŵp strategol Llythrennedd a Rhifedd rhanbarthol yn monitro ac yn adolygu yn dymhorol parhaus er mis Ebrill 2015 – yr holl YH, dan oruchwyliaeth UYH y tri hwb. Yr UYH Llythrennedd, Rhifedd a Chau'r Bwlch sydd â'r cyfrifoldeb rhanbarthol. parhaus – dan arweiniad UYH Llythrennedd, Rhifedd a Chau'r Bwlch, sy'n adrodd yn ôl i'r Pennaeth Cefnogaeth a Broceru. Aelodau o UDA GwE a Phartneriaid Cynorthwyol Rhifedd yn cyflwyno hyfforddiant parhaus – dan arweiniad UYH Llythrennedd, Rhifedd a Chau'r Bwlch, sy'n adrodd yn ôl i'r Pennaeth Cefnogaeth a Broceru. Aelodau o UDA GwE a Phartneriaid Cynorthwyol Rhifedd GwE yn cyflwyno hyfforddiant o fis Ebrill 2015 ymlaen – dan arweiniad Pennaeth Cefnogaeth a Broceru ac UYH Llythrennedd, Rhifedd a Chau'r Bwlch
Adnoddau - Cyllid ar gyfer yr hyfforddiant arweinyddiaeth - lleoliad a darparwyr - GGA yn ariannu'r ymarferwyr sydd ar secondiad (Partneriaid Cynorthwyol) – i'w bennu wedi'r cytundeb terfynol ar y grant - Rhaglen Ysgolion Cyd-arweiniol – wedi'i ariannu gan y grant meithrin capasiti llythrennedd a rhifedd ychwanegol ~£250k	Cerrig Milltir allweddol 2015-18 Gwelliannau parhaus mewn deilliannau perfformiad o flwyddyn i flwyddyn, yn unol â thargedau rhanbarthol a chenedlaethol 2015/16 Hyfforddi cohort cyntaf o arweinwyr canol (120) ar draws pob cyfnod a nodi'r effaith. Partneriaid Cynorthwyol i gefnogi 40% o ysgolion. Adnabod 19 ysgol cyd-arweiniol a'r rhain yn weithredol 2016/17 Hyfforddi cohort cyntaf o ddarpar arweinwyr canol a cohort arall o arweinwyr canol a nodi'r effaith. Partneriaid Cynorthwyol i gefnogi 25% o ysgolion. Adnabod 30 ysgol cyd-arweiniol. 2017/2018 Hyfforddi ail gohort o ddarpar arweinwyr canol a nodi'r effaith. Partneriaid Cynorthwyol i gefnogi 15% o ysgolion. Adnabod 45 ysgol cyd-arweiniol a'r rhain yn weithredol

CYMEDROLI ASESIADAU ATHRAWON

Blaenoriaeth: Cymedroli Asesiadau Athrawon Sicrhau bod prosesau cadarn yn eu lle ym mhob ysgol a chlwtwr i sicrhau ansawdd, cysondeb a dibynadwyedd asesiadau athrawon	Deilliannau • Deilliannau CS a Chyfnodau Allweddol 2 a 3 yn adlewyrchu disgwyliadau uchel ac asesu dibynadwy a manwl gywir • Proses safoni a chymedroli drylwyr a chadarn yn sicrhau cysondeb o fewn ysgolion a rhwng ysgolion ar draws y rhanbarth • Adborth yn dilyn gwirio allanol yn cadarnhau dibynadwyedd asesiadau athrawon • Deilliannau a lefelau asesiad athro yn cyd-fynd yn well â sgorau safonedig Llythrennedd a Rhifedd ar lefel ysgol, ALL a rhanbarth • Hyder ymhlith rhanddeiliaid bod asesiadau athrawon yn fanwl gywir a dibynadwy	
Prif weithgareddau: • Darparu hyfforddiant ac arweiniad i gefnogi asesu, safoni a chymedroli o fewn ysgolion a rhwng ysgolion gyda phwyslais ar sut mae dod i farn cyd-fynd orau; yr ystod gwaith y dylid ei ystyried; cynnwys proffiliau disgyblion a'r arfer orau wrth gynnal cyfarfod cymedroli. Darparu proffiliau enghreifftiol fel meincnod i safonau'r rhanbarth. • Sicrhau bod clystyrau yn cyfarfod i gymedroli proffiliau yn dilyn cymedroli mewnol mewn ysgolion ac yn paratoi adroddiad ar y broses gan gynnwys rhestr presenoldeb. Ymgynghorwyr Her yn gwirio ansawdd cyfarfodydd. • Sicrhau bod ysgolion yn addasu eu proffiliau ar sail y broses cymedroli ac yn cymhwyso deilliannau'r broses cymedroli wrth gwblhau eu hasesiadau diwedd cyfnod allweddol. Ymgynghorwyr Her i wirio • Darparu gwybodaeth i Benaethiaid am y broses wirio allanol • Dadansoddi data a chymharu deilliannau/lefelau asesiad athro â sgorau safonedig y profion cenedlaethol. Cymharu canlyniadau CA2 a CA3 â chyrhaeddiad blaenorol y garfan. • Sefydlu prosiect i ddatblygu prosesau asesu, safoni a chymedroli mwy cadarn ac effeithiol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a Chymraeg Ail iaith CA2/3 • Adeiladu ar y prosesau a sefydlwyd yn 2014-15 i sicrhau bod ysgolion a chlystyrau'r rhanbarth yn gweithredu'n unol ag unrhyw ofynion statudol newydd	Pa bryd? • Mawrth 2015 • Ebrill 2015 • Ebrill i Mai 2015 • Mai 2015 • Medi 2015 • o fis Medi 2015 i Mawrth 2016 • o fis Medi 2015	Pwy? • Uwch Ymgynghorydd Her gyda chyfrifoldeb penodol am arwain ar asesu, ymarferwyr arweiniol, Ymgynghorwyr Her arbenigol a Phennaeth ar secondiad • Uwch Ymgynghorydd Her gyda chyfrifoldeb penodol am arwain ar asesu, Ymgynghorwyr Her a Phennaeth ar secondiad • Uwch Ymgynghorydd Her gyda chyfrifoldeb penodol am arwain ar asesu, Ymgynghorwyr Her • Uwch Ymgynghorydd Her gyda chyfrifoldeb penodol am arwain ar asesu • Rheolwr Gwybodaeth a Data a Phennaeth Safonau Ymgynghorwyr Her yn ystod Ymweliad 1 • Arweinydd prosiect i'w bennu, ymarferwyr arweiniol • Uwch Ymgynghorwyr Her
Adnoddau Arian i ryddhau athrawon i fynychu cyfarfodydd cymedroli Cyllid i ryddhau Ymarferwyr Arweiniol ar gyfer prosiect Cyfnod Sylfaen a Chymraeg ail iaith a chynhyrchu proffiliau enghreifftiol Cyllideb benodol i'w gosod yn dilyn penderfyniadau parthed y GGA.	Cerrig Milltir allweddol 2015-18 2015/16 Pob clwtwr yn cynnal cyfarfodydd cymedroli gan ddilyn y canllawiau. Adborth cadarnhaol yn dilyn gwirio allanol a dadansoddiad o'r data yn cadarnhau gwell cysondeb 2016/17 Pob ysgol yn bodloni gofynion statudol adborth cadarnhaol yn dilyn gwirio allanol - unrhyw wendidau a amlygwyd yn flaenorol wedi eu goresgyn 2017/2018 Hyder bod asesiadau athrawon yn fanwl gywir	

GWELLA ADDYSGU

Blaenoriaeth Gwella ansawdd addysgu a'i effaith ar godi safonau ar draws bob cyfnod a lleoliad	Deilliannau - Bodloni prif amcan Cymwys am Oes – pob plentyn a pherson ifanc yn elwa ar addysgu a dysgu rhagorol - Bodloni amcan 1 Cymwys am Oes - gweithlu proffesiynol rhagorol gydag addysgeg wedi'i seilio ar ddealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio, yn unol ag amcanion y Fargen Newydd ar gyfer y Gweithlu Addysg - Bodloni amcan 2 Cymwys am Oes – cwricwlwm sy'n ddeniadol ac yn atyniadol i blant a phobl ifanc ac sy'n datblygu eu gallu i gymhwyso gwybodaeth a sgiliau yn annibynnol - Mae bob YH yn meddu ar sgiliau perthnasol ac effeithiol i herio, monitro a broceru cefnogaeth ar gyfer y deilliannau uchod - Bernir bod yr addysgu yn dda neu'n well ar draws yr holl ysgolion
Prif weithgareddau: Gweler prif weithgareddau: - Gwella Llythrennedd - Gwella Rhifedd - Lleihau Effaith Tlodi - Gwella Arweinyddiaeth - Cefnogi TGAU/BAC/PISA - Cymedroli asesiadau athrawon - Datblygu Cydweithio rhwng Ysgolion - Cymorth gan ysgolion cyd-arweiniol. Bydd hyn yn rhan o raglen gymorth ysgol>ysgol ehangach GwE. Adnabyddir ysgolion cyd-arweiniol trwy eu safonau a'u harferion rhagorol ym maes addysgu a dysgu	Pa bryd? Pwy? Gweler y terfynau amser a phwy sy'n gyfrifol yn y cynlluniau unigol Datblygu ysgolion cyd-arweiniol o fis Ebrill 2015 ymlaen
Adnoddau - Cyllid ar gyfer yr hyfforddiant arweinyddiaeth - lleoliad a darparwyr - Rhaglen Ysgolion Cyd-arweiniol - Gweler y cynlluniau busnes unigol uchod - Nodi'r cyllid o'r GGA pan fo'r dyraniad wedi'i gadarnhau	Cerrig Milltir allweddol 2015-18 2015/16 Mae prif amcan Cymwys am Oes yn flaenoriaeth ym mhob ysgol yn rhanbarth GwE – 'pob plentyn a pherson ifanc yn elwa ar addysgu a dysgu rhagorol' 2016/17 Caiff cefnogaeth gan ysgolion cyd-arweiniol effaith gadarnhaol ar amcan 2 Cymwys am Oes 2017/2018 Mae ysgolion mewn sefyllfa gref i allu gweithredu'r newidiadau y cytunwyd arnynt yn sgil Adolygiad Donaldson Bernir bod yr addysgu yn dda neu'n well ar draws yr holl ysgolion

GWELLA ARWEINYDDIAETH

Blaenoriaeth Gwella Arweinyddiaeth	Deilliannau - Mae pob ymarferwr ysgol ar bob lefel ar draws rhanbarth GwE yn meddu ar sgiliau arwain effeithiol a pherthnasol - Mae meddylfryd o arweinyddiaeth wasgaredig wedi'i sefydlu ym mhob ysgol ar draws y rhanbarth er mwyn cryfhau'r capasiti ar gyfer ymyriad grymus a chyflym mewn achosion sy'n destun y pryder mwyaf - Mae gan bob ymarferwr ym mhob ysgol ar draws rhanbarth GwE yr hawl i ddatblygiad arweinyddiaeth sy'n berthnasol ac yn effeithiol - Mae bob YH yn meddu ar sgiliau arwain perthnasol - Bodlonir yn llawn amcanion Cymwys am Oes ar gyfer pob dysgwr ym mhob lleoliad		
Prif weithgareddau: - Bydd Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth GwE yn cynnig datblygiad effeithiol i: Gynorthwy-wyr Addysgu Lefel Uwch (gweithredol) Darpar Arweinwyr Canol Arweinwyr Canol – (RhDAG – mis Mawrth-Gorffennaf 2015) Uwch Arweinwyr Penaethiaid sydd newydd eu penodi – (gweithredol) Penaethiaid profiadol - (RhDAE - mis Mai 2015) Penaethiaid Gweithredol – (cyfnod datblygol) Rhaglen Datblygu Sgiliau Hyfforddi Effeithiol (RhDHE) - Cymorth gan ysgolion cyd-arweiniol. Bydd hyn yn rhan o raglen gymorth ysgol>ysgol ehangach GwE. Adnabyddir ysgolion cyd-arweiniol trwy eu safonau a'u harferion rhagorol ym maes datblygu arweinyddiaeth - Datblygu defnyddio'r Adolygiad Arweinyddiaeth Unigol a'r Safonau Arweinyddiaeth Cenedlaethol yn effeithiol - Ystyried datblygiadau, fel y nodir gan BDAC	<table border="1" style="width: 100%; border-collapse: collapse;"> <tr> <td style="width: 50%; vertical-align: top;"> Pa bryd? Mawrth - Gorffennaf 2015 - Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol GwE (RhDAG) - Grŵp 1 Ebrill 2015 – Rhaglen Datblygu Sgiliau Hyfforddi Effeithiol GwE (RhDHE) ar gyfer Ymgynghorwyr Her Mai 2015 - Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Effeithiol GwE (RhDAE) Medi 2015 - Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol GwE – Grŵp 2 Datblygu ysgolion cyd-arweiniol o fis Ebrill 2015 ymlaen </td><td style="width: 50%; vertical-align: top;"> Pwy? Bydd Pennaeth Cefnogaeth a Broceru yn gweithredu fel rheolwr prosiect strategol a bydd cyfuniad o staff GwE, ysgolion a darparwyr a gomisiynwyd yn allanol, fel bo'n briodol, yn cyflwyno </td></tr> </table>	Pa bryd? Mawrth - Gorffennaf 2015 - Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol GwE (RhDAG) - Grŵp 1 Ebrill 2015 – Rhaglen Datblygu Sgiliau Hyfforddi Effeithiol GwE (RhDHE) ar gyfer Ymgynghorwyr Her Mai 2015 - Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Effeithiol GwE (RhDAE) Medi 2015 - Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol GwE – Grŵp 2 Datblygu ysgolion cyd-arweiniol o fis Ebrill 2015 ymlaen	Pwy? Bydd Pennaeth Cefnogaeth a Broceru yn gweithredu fel rheolwr prosiect strategol a bydd cyfuniad o staff GwE, ysgolion a darparwyr a gomisiynwyd yn allanol, fel bo'n briodol, yn cyflwyno
Pa bryd? Mawrth - Gorffennaf 2015 - Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol GwE (RhDAG) - Grŵp 1 Ebrill 2015 – Rhaglen Datblygu Sgiliau Hyfforddi Effeithiol GwE (RhDHE) ar gyfer Ymgynghorwyr Her Mai 2015 - Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Effeithiol GwE (RhDAE) Medi 2015 - Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol GwE – Grŵp 2 Datblygu ysgolion cyd-arweiniol o fis Ebrill 2015 ymlaen	Pwy? Bydd Pennaeth Cefnogaeth a Broceru yn gweithredu fel rheolwr prosiect strategol a bydd cyfuniad o staff GwE, ysgolion a darparwyr a gomisiynwyd yn allanol, fel bo'n briodol, yn cyflwyno		
Adnoddau - Cyllid ar gyfer yr hyfforddiant arweinyddiaeth - lleoliad a darparwyr - Rhaglen Ysgolion Cyd-arweiniol - Nodi'r cyllid o'r GGA pan fo'r dyraniad wedi'i gadarnhau	Cerrig Milltir allweddol 2015-18 2015/16 Y cohort cyntaf a'r ail gohort o arweinwyr canol wedi cymryd rhan yn y rhaglen ddatblygu berthnasol (cyfanswm o 120) Y cohort cyntaf o Uwch Arweinwyr wedi cymryd rhan yn y rhaglen ddatblygu berthnasol (cyfanswm o 24) Ysgolion cyd-arweiniol wedi'u nodi ac yn weithredol mewn datblygu arweinyddiaeth ar draws y rhanbarth Pob Ymgynghorydd Her wedi cymryd rhan yn y rhaglen ddatblygu berthnasol 2016/17 Bydd Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth GwE ar gael ar wefan GwE i holl ysgolion rhanbarth GwE 2017/2018 Ymestyn Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth GwE yn ôl yr anghenion a nodir		

GWELLA CYDWEITHIO RHWNG YSGOLION

Blaenoriaeth Datblygu Cydweithio rhwng Ysgolion	Deilliannau - Mae meddylfryd o system sy'n hunan-wella wedi sefydlu ym mhob ysgol ar draws rhanbarth GwE - Pob ymarferwr ysgol ar bob lefel ar draws rhanbarth GwE i ystyried ei hunan fel rhan o system hunan-wella - Mae cydweithio effeithiol rhwng ysgolion ar waith ac yn cael effaith gadarnhaol ar safonau ym mhob ysgol ar draws rhanbarth GwE - Bodloni Amcan Strategol 4 Cymwys am Oes	
Prif weithgareddau: - Rhannu Strategaeth Cydweithio rhwng Ysgolion GwE â'r holl ysgolion ar draws rhanbarth GwE - Dyrannu cyllid i bob ysgol er mwyn hybu a datblygu cydweithio effeithiol - Datblygu rôl yr Ymgynghorydd Her – cefnogi/hwyluso/monitro/arfarnu - Amlygu arfer dda/effeithiol trwy gyfrwng gwefan GwE - Broceru sefydlu Cydweithio Trawsawdurdod i annog amrywiaeth eang o themâu cydweithio - Broceru sefydlu Ysgolion Cyd-arweiniol. Adnabyddir ysgolion cyd-arweiniol trwy eu safonau a'u harferion rhagorol mewn perthynas â meysydd allweddol penodol (fel y nodir yn y Strategaeth Ysgol>Ysgol) - Cynhadledd Arddangos Genedlaethol GwE gyda'r Athro Mel Ainscow – 2 Mehefin 2015 - Creu system hunan-wella sy'n gynaliadwy, gyda GwE yn gweithredu fel hwylusydd/eiriolwr	Pa bryd? Tachwedd - Rhagfyr 2015 Ebrill - Gorffennaf 2015 Chwefror 2015 mis Ebrill 2015 ymlaen Mehefin 2015 mis Medi 2015 ymlaen	Pwy? Bydd Pennaeth Cefnogaeth a Broceru yn gweithredu fel rheolwr prosiect strategol a bydd cyfuniad o staff GwE, ysgolion a darparwyr a gomisiynwyd yn allanol, fel bo'n briodol, yn cyflwyno
Adnoddau Cyllideb referniw o £500,000 wedi'i dyrannu ar hyn o bryd ar gyfer: - Dyraniad cyllid i bob ysgol - Cydweithio Trawsawdurdod - Cydweithio rhwng ysgolion cyd-arweiniol - Cynhadledd Ysgol>Ysgol	Cerrig Milltir allweddol 2015-18 2015/16 Meddylfryd cydweithredol o rannu arfer dda/ragorol wedi sefydlu ymysg ysgolion ar draws rhanbarth GwE 2016/17 Yr arfer o rannu arfer dda/ragorol rhwng ysgolion a rôl yr ysgolion cyd-arweiniol wedi sefydlu ac yn cael effaith gadarnhaol yn y mwyafrif o'r ysgolion ar draws y rhanbarth 2017/2018 System hunan-wella, gyda GwE yn gweithredu fel hwylusydd/eiriolwr, yn weithredol ar draws y rhanbarth	

CYMORTH AD ARBENIGOL

Blaenoriaeth Datblygu gwasanaethau AD i ddarparu cyngor a chymorth cyson o safon uchel i arweinwyr ysgolion, a fydd yn arwain at well capasiti a datblygu system hunan-wella; o ganlyniad, eir i'r afael ag Amcan Strategol 4, Cymwys am Oes	Deilliannau - Polisiau cyflogaeth rhanbarthol i sicrhau cysondeb o ran cyngor ac arfer - Gweithdrefnau rhanbarthol y cytunwyd arnynt i reoli presenoldeb staff, rheoli perfformiad a medrusrwydd - Mae gweithredu'r polisiau a'r gweithdrefnau y cytunwyd arnynt yn arwain at well deilliannau perfformiad ar gyfer dysgwyr.	
Prif weithgareddau: - Darperir hyfforddiant a chymorth rheoli perfformiad ar gyfer Penaethiaid a Chadeiryddion ar draws y rhanbarth ar hyn o bryd, a gydlynir gan y Rhwydwaith AD (Addysg) Rhanbarthol - Mae'r rhwydwaith uchod yn sicrhau cyngor cyson o safon uchel i Benaethiaid (a Llywodraethwyr) ar hyn o bryd ar weithdrefnau medrusrwydd - Y Rhwydwaith AD (Addysg) Rhanbarthol i adnabod a chytuno ar flaenraglen waith i fynd i'r afael ag anghysondebau mewn polisiau a gweithdrefnau presennol - Gweithredu'r rhaglen waith i ddatblygu polisiau a gweithdrefnau rhanbarthol, gan gynnwys ymgynghori â rhanddeiliaid - Datblygu ymhellach y cysylltiadau sydd rhwng GwE a'r cynrychiolwyr undebau rhanbarthol i gynnwys y Rhwydwaith AD (Addysg) Rhanbarthol - Llunio a gweithredu strategaeth cyfathrebu a rhaglen hyfforddiant	Pa bryd? - Ebrill 2014 – Mawrth 2015 - Ebrill 2014 – Mawrth 2015 - Ebrill 2015 – Gorffennaf 2015 - Medi 2015 – Gorffennaf 2016 - Medi 2015 – Gorffennaf 2016 - Medi 2016 – Mawrth 2017	Pwy? - Rhwydwaith AD (Addysg) Rhanbarthol - Rhwydwaith AD (Addysg) Rhanbarthol - Rhwydwaith AD (Addysg) Rhanbarthol / Cyfarwyddwr CCAC a enwebwyd - Rhwydwaith AD (Addysg) Rhanbarthol / Cyfarwyddwr CCAC a enwebwyd - Rhwydwaith AD (Addysg) Rhanbarthol / Cyfarwyddwr CCAC a enwebwyd - Rhwydwaith AD (Addysg) Rhanbarthol / Cyfarwyddwr CCAC a enwebwyd
Adnoddau O fewn adnoddau presennol yr ALI	Cerrig Milltir allweddol 2015-18 2015/16 Y rhwydwaith AD (Addysg) yn cyfarfod yn rheolaidd, rhaglen waith wedi'i phennu ac yn cael ei gweithredu. Dogfennau perthnasol wedi'u cwblhau. Perthnasau undebau llafur effeithiol ar waith ar draws y rhanbarth 2016/17 Rhoglen hyfforddiant wedi'i chyflwyno ac adborth cadarnhaol gan ysgolion a rhanddeiliaid 2017/2018 Polisiau a gweithdrefnau newydd yn cael eu gweithredu yn effeithiol ac yn gyson ar draws y rhanbarth	

Y CYFNOD SYLFAEN

Blaenoriaeth Cynnal lefel uchel o berfformiad a gwella cysondeb yn ansawdd y ddarpariaeth mewn lleoliadau Cyfnod Sylfaen ar draws y rhanbarth	Deilliannau - Mae deilliannau'r Cyfnod Sylfaen uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol - Cynllun hyfforddiant cenedlaethol ar gyfer cynllunio ac asesu yn cael ei weithredu yn gyson - Methodoleg ranbarthol gyson ar waith ar gyfer y dyraniad cyllid GGA ar gyfer ysgolion - Pob ysgol yn cyflawni/gweithio tuag at y cymarebau staffio sy'n ofynnol - Pob lleoliad nas cynhelir yn derbyn mewnbwn addysgu o safon uchel	
Prif weithgareddau: - Cynnal cyflogi swyddogion hyfforddi a chefnogi Cyfnod Sylfaen sydd â chymwysterau priodol - Cynnal archwiliad ar anghenion hyfforddi - mewn ymateb, darparu cyfleoedd hyfforddi ar gyfer staff Cyfnod Sylfaen - Penodi Ymgynghorydd CS Strategol Rhanbarthol - Cytuno ar fformiwla ar gyfer dyraniad cyson o gyllid ar gyfer ysgolion - Cyflwyno hyfforddiant gorfodol i ysgolion gan gynnwys cefnogaeth i gynnal yr asesiad gwaelodlin cenedlaethol a gweithredu'r proffil Cyfnod Sylfaen - Darparu cymorth a datblygiad ar gyfer y staff mewn lleoliadau nas cynhelir sy'n derbyn cyllid, yn unol â'r gofynion cenedlaethol, sef 10% o fewnbwn gan athro cymwysedig - Cryfhau cyfathrebu ac atebolrwydd trwy adrodd yn ôl yn rheolaidd i Fwrdd Rheoli GwE	Pa bryd? mis Ebrill 2015 ymlaen Ebrill 2015 – Gorffennaf 2015 yn ei le erbyn mis Ebrill 2016 yn ei le erbyn mis Ebrill 2016 mis Medi 2015 ymlaen mis Medi 2015 ymlaen mis Ebrill 2015 ymlaen	Pwy? AauLl/GwE Rhwydwaith CS Rhanbarthol AauLl/GwE Rhwydwaith Cyllid ac Adnoddau Rhanbarthol Rhwydwaith CS Rhanbarthol Rhwydwaith CS Rhanbarthol Rhwydwaith CS Rhanbarthol
Adnoddau Nodi'r cyllid o'r GGA pan fo'r dyraniad wedi'i gadarnhau	Cerrig Milltir allweddol 2015-18 2015/16 Mae deilliannau'r CS, sydd wedi'u cymedroli, uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol Archwiliad ar hyfforddiant wedi'i gwblhau a rhaglen hyfforddiant gynhwysfawr yn ei lle Rhaglen hyfforddiant a chymorth y cytunwyd arni ar waith ar gyfer lleoliadau nas cynhelir 2016/17 Mae deilliannau'r CS, sydd wedi'u cymedroli, yn parhau i wella Mae fformiwla dyrannu cyllid rhanbarthol y cytunwyd arno yn ei le Mae Ymgynghorydd CS Strategol Rhanbarthol mewn swydd 2017/2018 Mae deilliannau'r CS, sydd wedi'u cymedroli, yn parhau i wella	

HYFFORDDIANT A CHYMORTH I LYWODRAETHWYR

Blaenoriaeth Sicrhau hyfforddiant a chymorth cyson o safon uchel i Gyrff Llywodraethu fel y gallant gyflawni eu dyletswyddau, yn enwedig fel 'cyfeillion beirniadol' eu hysgol.	Deilliannau - Llywodraethwyr yn teimlo bod ganddynt ddigon o wybodaeth a chefnogaeth i gyflawni eu dyletswyddau - Llywodraethwyr yn teimlo cyfrifoldeb moesol ar y cyd, ac o ganlyniad yn cefnogi gwaith ysgol>ysgol. - Llywodraethwyr yn awyddus i gefnogi ysgolion eraill yn ogystal - Cronfa ddata o Lywodraethwyr unigol o safon uchel y gellir eu lleoli mewn ysgolion fel Llywodraethwyr Ychwanegol mewn achosion lle bo'r AauLL yn ymyrryd.	
Prif weithgareddau: - Gall pob ysgol ar hyn o bryd ddefnyddio gwasanaethau cymorth Llywodraethwyr. Y Rhwydwaith Swyddogion Cymorth Llywodraethwyr Rhanbarthol sy'n cydlynu'r gwaith hwn. - Hyfforddiant gorfodol i Lywodraethwyr yn cael ei gyflwyno ar draws pob ALL. Cyflwynir peth o'r hyfforddiant hwn yn drawsawdurdod. Yn ychwanegol i'r hyfforddiant gorfodol, ceir hyfforddiant pwrpasol yn ôl angen pob ALL. - Pob agwedd ar hyfforddiant gorfodol ar gael trwy gyfrwng modiwlau e-Ddysgu (dwieithog) ar draws y rhanbarth - Penodi rheolwr prosiect i weithio gyda'r Rhwydwaith Swyddogion Cymorth Llywodraethwyr - Archwiliad ar y sefyllfa ar hyn o bryd o ran pa mor effeithiol yw'r her a gynigir gan Gyrff Llywodraethu ar draws y rhanbarth - Adnabod arfer orau yn y rhanbarth a thu hwnt - Llunio a gweithredu rhaglen hyfforddiant a chymorth briodol, gan ystyried deilliannau adolygiad LIC o Lywodraethwyr Cymru ar hyn o bryd. Creu Pecyn Cymorth Arfer Orau i'w ddosbarthu i bob Corff Llywodraethu - Cryfhau'r cyfathrebu rhwng rhwydweithiau	Pa bryd? - hyd at fis Mawrth 2015 - hyd at fis Mawrth 2015 - Ebrill 2015 - tymor yr haf 2015 - tymor yr hydref 2015 - Ebrill – Rhagfyr 2015 - mis Ionawr 2016 ymlaen - tymor yr hydref 2016	Pwy? - AauLL unigol - AauLL unigol - Rhwydwaith Swyddogion Cymorth Llywodraethwyr - GwE / AauLL - Rheolwr Prosiect/GwE/ Ymgynghorwyr Her/ Rhwydwaith Swyddogion Cymorth Llywodraethwyr - Rheolwr Prosiect - Cyfuniad o staff presennol sydd ag arbenigedd perthnasol a darparwyr allanol fel bo'n briodol, gan gynnwys defnyddio CLI enghreifftiol a nodwyd - Ymgynghorwyr Her

Llywodraethwyr e.e. Cadeiryddion, Llywodraethwyr a benodwyd gan yr ALI er mwyn llywio hyfforddiant a chymorth pwrpasol ar gyfer categorïau penodol o Lywodraethwyr fel rhan o'r rhaglen hyfforddiant a chymorth gyffredinol. • Cryfhau cyfathrebu ac atebolrwydd trwy adrodd yn ôl yn rheolaidd i Fwrdd Rheoli GwE • Asesu effaith y rhaglen hyfforddiant a chymorth ac ailadrodd y cylch uchod	• mis Ebrill 2015 ymlaen • yr hydref 2016 ymlaen	GwE/Ymgynghorwyr • Rheolwr Prosiect • Rheolwr Prosiect
Adnoddau Oddeutu £10,000 - gan Awdurdodau Lleol cyfansoddol er mwyn comisiynu rheolwr prosiect i archwilio yn rheolaidd yr hyfforddiant a chymorth i Lywodraethwyr a ddarperir gan yr Awdurdodau Lleol	Cerrig Milltir allweddol 2015 - 18 2015/16 Penodi Rheolwr Prosiect Cwblhau'r archwiliad Cynllunio a chyflwyno Rhaglen Hyfforddiant a Chymorth 2016/17 Asesu effaith y Rhaglen Hyfforddiant a Chymorth Cyflwyno'r rhaglen ddiwygiedig 2017/18 Asesu effaith y Rhaglen Hyfforddiant a Chymorth Cyflwyno'r rhaglen ddiwygiedig	

Y GRANT CYMRAEG MEWN ADDYSG A CHYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG

Blaenoriaeth Codi safonau mewn Cymraeg iaith gyntaf a Chymraeg ail iaith ar draws y rhanbarth	Deilliannau - Gwell perfformiad mewn deilliannau Cymraeg iaith gyntaf ar draws y cyfnodau allweddol - Gwell perfformiad mewn deilliannau Cymraeg ail iaith ar draws y cyfnodau allweddol - Cynnydd yn nifer y dysgwyr sy'n derbyn addysg trwy gyfrwng y Gymraeg - Gyda golwg ar addysg cyfrwng Cymraeg, gwell cyfradd trosglwyddo dysgwyr rhwng cyfnodau allweddol [Bydd yr uchod yn unol â thargedau manwl Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg statudol yr AauLl unigol, fel y cymeradwyir gan LIC]	
